Prifysgol Abertawe
Swansea University

# PRIFYSGOL ABERTAWE

## DRWS I DDYFODOL DISGLAIR



ISRADDEDIG 2023

# CROESO I *Abertawe*



## DRWS I DDYFODOL DISGLAIR

**Prifysgol gymunedol ydyn ni ac rydyn bob amser wedi bod. Mae ein ffocws ar foddhad myfyrwyr a rhagoriaeth (rydyn ni'n 12fed yn y DU ar gyfer boddhad myfyrwyr (Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)).**

Ym Mhrifysgol Abertawe, cei fuddion trylwyredd academaidd ac ansawdd addysgu y mae ein myfyrwyr wedi eu mwynhau ers dros 100 o flynyddoedd ac rydyn wedi cynhyrchu sawl cyn-fyfyriwr nodedig a blaenllaw.

Mae'r Brifysgol yn falch iawn o'i thraddodiad o gefnogi, hyrwyddo a chyfoethogi diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg. Mae ein darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac yma cei fanteisio ar gyfleoedd unigryw a chyffrous i astudio amrediad eang o bynciau yn yr iaith. Beth am astudio trwy'r Gymraeg neu yn ddwyieithog mewn Prifysgol sydd â chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol.

Mae ein campysau glan môr trawiadol a'n croeso cyfeillgar yn gwneud Prifysgol Abertawe'n lleoliad dymunol ar gyfer myfyrwyr o bedwar ban byd. Rydyn yn ymfalchïo yn natur gynnes ein croeso a'n diwylliant o gynwysoldeb, sy'n creu amgylchedd cyfoethog ac amrywiol lle gellir cynnal addysgu ac ymchwil o'r safon uchaf. Rydyn yn dy groesawu i ymuno â ni a gwerthfawrogwn dy gyfraniad hollbwysig – rydyn yn croesawu safbwyntiau newydd a chei'r adborth y mae ei angen arnat i ffynnu yn Abertawe.

Gelli gael gwybod mwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni gradd drwy gadw lle ar un o'n diwrnodau agored sydd ar ddod*

**abertawe.ac.uk/diwrnodau-agored**

*gwiria'r wefan am fanylion llawn, dyddiadau a fformat diwrnodau agored sydd ar ddod.



FfRhA Aur

Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

FFRAMWAITH **RHAGORIAETH & DEILLIANNAU MYFYRWYR**

(Y dyfarniad uchaf am Ragoriaeth Addysgu ym mhrifysgolion y DU)

**12FED YN Y DU AM FODDHAD MYFYRWYR**

NSS Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr

(Yn seiliedig ar restr o 131 o sefydliadau sy'n ymddangos yn y Times Good University Guide 2021)

**25 UCHAF YN Y DU PRIFYSGOL**

The Guardian

(The Guardian University Guide 2021)

**2AIL YN Y DU**

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2021

AIL SAFLE AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

(WhatUni Student Awards 2021)

## BYWYD ABERTAWE

*Gwiria 10 Peth Gorau i'w gwneud yn Abertawe yn ôl ein Glasfyfyrwyr*

TUDALEN 16



## PAID Â BOD YN NERFUS

*Gweler ein tudalennau ar Undeb y Myfyrwyr a Chymorth a Lles*

TUDALENNAU 30, 40



## YN YSTYRIED TEITHIO DRAMOR YN YSTOD DY ASTUDIAETHAU?

*Cadwa lygad am y symbol awyren drwy'r holl dudalennau cyrsiau*

## GWNEUD CAIS

*Gweler ein rhestr wirio a'n cyngor wrth ein Swyddfa Dderbyn ar wneud cais*

TUDALENNAU 54-57

## ATHRAWON AC YMGYNGHORWYR

*Mae manylion llawn y cwrs yn yr adran cyrsiau. Mae'r adran, 'Sut i Wneud Cais', yn rhoi gwybodaeth fanwl ar ein cynnig, gan gynnwys ein 'cynnig gwarantedig' ar gyfer lle*

## YN POENI NA FYDDI DI'N BODLONI'R GOFYNION GRADDAU? GALLWN NI HELPU

*Archwilia dy opsiynau; mae gennym amrywiaeth o raglenni Blwyddyn Sylfaen Integredig gydag amrywiaeth o gymwysterau derbyniol. Gweler ein tudalennau Blwyddyn Sylfaen a chwilia am y symbol sylfaen ar bob tudalen cwrs*

TUDALEN 58

## PAID Â DERBYN EIN GAIR NI AM HYN...

*Chwilia am yr hyn y mae gan fyfyrwyr ei ddweud am fyw ac astudio ym Mhrifysgol Abertawe*

TUDALEN 19

## A HOFFET TI ASTUDIO DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG?

*Cadwa lygad am y symbolau swigen siarad wrth ymyl cyrsiau lle mae hyn ar gael*

TUDALEN 32

## RHEOLI DY ARIAN

*Dysga fwy am gostau byw nodweddiadol wrth fyw yn Abertawe a chael y wybodaeth lawn ar ffioedd, ariannu ac ysgoloriaethau*

TUDALENNAU 27, 50




## DY YRFA

*Gwiria ein tudalennau ar Gyflogadwyedd a rhestr 'gyrfaoedd y dyfodol' ar bob un o'n tudalen cwrs*

TUDALEN 10

## DEALL Y JARGON

*Cymer gipolwg ar ein canllaw deall y jargon*




TUDALEN 64

## IECHYD A LLES

*Mae hyn yn bwysig inni, cymer gipolwg ar Wasanaethau Myfyrwyr*



TUDALEN 30



## TEITHIO O GWMPAS

*Gwiria amseroedd teithio a chael gwybod mwy am ein bysus dydd a nos, a pha mor hawdd yw hi i fynd o gampws i gampws ac o'r campws i'r ddinas*

TUDALENNAU 22-25, 181

# Cynnwys


04 PAM MAE YMCHWIL YN BWYSIG
06 GWNEUD GWAHANIAETH
08 DYSGU AC ADDYSGU
10 GYRFAOEDD, SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD
12 YMUNA Â'N CYN-FYFYRWYR NEILLTUOL
14 ABERTAWE A'R RHANBARTH
16 PIGION GLASFYFYRWYR
19 BARN EIN MYFYRWYR
22 MAPIAU'R CAMPWS
26 LLETY
30 LLES A CHYMORTH MYFYRWYR
32 ACADEMI HYWEL TEIFI
34 ASTUDIO A CHYMDEITHASU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG
38 ASTUDIO A GWEITHIO DRAMOR
40 UNDEB Y MYFYRWYR
42 CHWARAEON
46 CYFLEUSTERAU
49 CYNALIADWYEDD
50 FFIOEDD AC ARIANNU
52 RHIENI A GWARCHEIDWAID
54 SUT I WNEUD CAIS
58 RHAGLENNI BLWYDDYN SYLFAEN
66 CYRSIAU A-Y
167 GRID CYFEIRNODI CYRSIAU
180 MYNEGAI
181 MAP


*Dy ganllaw i'r prosbectws*



# PRIFYSGOL YMCHWIL DDWYS *o'r Radd Flaenaf*

Mae ein hymchwil yn newid bywydau, yn gyrru arloesedd, ac mae'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydyn yn archwilio ffyrdd newydd o asesu a lliniaru risgiau'r argyfwng hinsawdd ac rydyn yn gweithio i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas; trwy wella iechyd a lles o'n cymdeithas ac i gyfoethogi ein holl fywydau trwy ein dealltwriaeth o hanes a'r celfyddydau.

Mae llawer o'n hymchwilwyr yn addysgu ar gyrsiau yma hefyd, sy'n golygu y gelli di fod yn gweithio gydag arbenigwyr byd-eang ar flaen y gad yn eu meysydd. Wrth i ti barhau gyda dy astudiaethau, gelli di ymuno â'u timoedd ymchwil, gan helpu i archwilio, atal a datrys problemau byd-eang.

**25** UCHAF YN Y DU **ANSAWDD YMCHWIL**

(The Complete University Guide 2022)

Darllen ein Cylchgrawn Ymchwil chwarterol a darganfod mwy am ymchwil Prifysgol Abertawe yma:



# Pam bod ymchwil yn bwysig?

Mae ein hymchwil yn ein helpu i atal, brwydro a gwrthdroi heriau byd-eang, gan wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a diwydiant.

Mae ein portffolio ymchwil yn enfawr: o greu dur **GWYRDDACH** a glanach; defnyddio microalgâu i droi gwastraff bwyd ac amaethyddol yn gynhyrchion **CYNALIADWY** newydd; gwella **IECHYD Y BOBLOGAETH**; **GWARCHOD** henebion hynafol, i; herio a **LLUNIO POLISI** ynghylch tegwch a **CHYDRADDOLDEB** a sicrhau diogelwch unigolion a chymunedau ledled y byd.

**30** UCHAF YN Y DU

PRIFYSGOL YMCHWIL

REF2014 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**DARGANFYDDA FWY:**

abertawe.ac.uk/ymchwil








GWRANDO AR EIN PODLEDIADAU

**ARCHWILIO PROBLEMAU BYD-EANG**

**Lawrlwytha nawr: abertawe.ac.uk/ymchwil/podlediadau**

# GWNEUD *Gwahaniaeth*

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe ym 1920 i ateb anghenion ein cymuned leol ac ehangach, trwy ymchwil a thrwy arloesedd: bu gwneud gwahaniaeth yn rhan o'n diwylliant ers dros 100 o flynyddoedd.

Mae'r pandemig byd-eang wedi cael effaith fawr ar bob un ohonom, ond credwn fod llawer i'w ddysgu o'n sefyllfa, a llawer o ganlyniadau cadarnhaol. Rydyn wedi darganfod ein bod yn gallu addasu – nid mewn modd digonol yn unig, ond hefyd mewn modd arbennig o dda – i ffyrdd newydd o astudio, gweithio a byw.

Rydyn yn edrych ymlaen at y dyfodol ac rydyn wedi ymrwymo'n llwyr i wneud Prifysgol Abertawe'n brofiad cadarnhaol a gwobrwyol i bob un o'n myfyrwyr.



## MYFYRIWR MATT YN DWEUD BOD COVID-19 WEDI'I ADDYSGU I DDEALL GWIR YSTYR BOD YN NYRS

Dyfarnwyd gwobr 'Myfyriwr Nyrs Mwyaf Ysbrydoledig y Flwyddyn' i Matt yng Ngwobrau Nodedig y Nursing Times. (Gwobrau 2020)

Gwirfoddolodd dros 1,000 o fyfyrwyr o'r Ysgol Feddygaeth ac Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd yn ystod y pandemig:

- Cyflwynwyd myfyrwyr Meddygaeth yn eu blwyddyn olaf yn feddygon ar ôl i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gynnig cofrestriad cynnar dros dro
- Lleolwyd 662 o fyfyrwyr nyrsio yn y byrddau iechyd
- Cynorthwyodd holl fyfyrwyr Bydwreigiaeth y Brifysgol yn eu trydedd flwyddyn fydwragedd cymwysedig
- Cofrestrodd o leiaf 101 o fyfyrwyr Parafeddygaeth i weithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

# Discovery

# ELUSEN A ARWEINIR GAN FYFYRWYR YM MHRIFYSGOL ABERTAWE

Nod ein prosiectau yw cyfoethogi bywydau pobl ddifreintiedig ar draws Abertawe a gweithio gydag aelodau gwahanol o'r gymuned, boed hynny gyda phlant a phobl ifanc, unigolion ag anghenion ychwanegol, ffoaduriaid a theuluoedd sy'n ceisio lloches neu bobl hŷn. Mae gennym ystod eang o brosiectau y gelli fod yn rhan ohonynt; helpu i wneud gwahaniaeth, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd ar hyd y ffordd.

**abertawe.ac.uk/discovery**

**ELUSEN DISCOVERY**
yn derbyn cyllid i gynorthwyo yn ystod Pandemig COVID-19




**DARGANFYDDA FWY AM FYFYRWYR SY'N GWIRFODDOLI YM MHRIFYSGOL ABERTAWE:**





# SUT RYDYN YN *Addysgu*

Yma ym Mhrifysgol Abertawe rydyn ni'n ymrwymo i gynnig y profiad dysgu ac addysgu gorau i ti.

**25**
**UCHAF YN Y DU** **BODDHAD ADDYSGU**
(Guardian University Guide 2022)

## DYSGU HYBLYG

Rydyn ni'n falch o gynnig profiad addysgol rhagorol, gan ddefnyddio'r ymagweddau dysgu ac addysgu mwyaf effeithiol, sydd wedi cael eu teilwra'n ofalus i gydweddu ag anghenion penodol dy gwrs. Rydyn ni'n gwerthfawrogi pwysigrwydd addysgu wyneb yn wyneb a byddwn ni'n sicrhau bod hyn ar gael i bob myfyriwr yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a allai fod ar waith. Fodd bynnag, mae ein hymagwedd hefyd yn cynnwys defnyddio cymorth ar-lein i ategu ac atgyfnerthu addysgu wyneb yn wyneb traddodiadol.

Cynhelir sesiynau sgiliau ymarferol, gwaith mewn labordai, seminarau a gweithdai gan amlaf ar ffurf wyneb yn wyneb, gan alluogi pobl i weithio mewn grwpiau ac arddangosiadau. Rydyn ni hefyd yn gweithredu labordai rhithwir ac amgylcheddau dysgu efelychol a fydd yn hwyluso rhagor o fynediad at gyfleoedd hyfforddi yn y dyfodol.

Gellir cynnal dysgu ar-lein 'yn fyw' drwy ddefnyddio meddalwedd megis Zoom, gan dy alluogi i ryngweithio â'r darlithydd a'r myfyrwyr eraill ac i ofyn cwestiynau. Caiff y darlithoedd eu recordio er mwyn galluogi'r rhai sy'n cael anawsterau wrth gael mynediad atynt i ddal i fyny 'ar gais'.

Mae gan rai modiwlau adnoddau ychwanegol yn Canvas, megis fideos, sleidiau a chwisiau sy'n galluogi rhagor o hyblygrwydd wrth astudio.

Ni waeth beth a fydd yr addysgu ar-lein neu wyneb yn wyneb, byddwn ni'n sicrhau y byddi di'n cael cyfle i adnabod dy academyddion yn dda, ac i gael trafodaethau bywiog â dy gyfoedion er mwyn dyfnhau dy wybodaeth a gwella dy ddealltwriaeth o dy bwnc.

Nod ein hymagwedd wedi'i haddasu at ddysgu ac addysgu yw gwella dy brofiad fel myfyriwr, gan roi rhagor o hyblygrwydd i ti, yn ogystal â chadw'r holl ansawdd rwyt ti’n ei ddisgwyl gan addysg mewn prifysgol.

## CYMORTH ACADEMAIDD A BUGEILIOL

Mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) yn darparu cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol ar gyfer ein poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr.

Gan weithio gyda chydweithwyr ym mhob rhan o'r Brifysgol, mae SAILS yn sicrhau bod dysgu, addysgu ac asesu cynhwysol o fewn cyrraedd pob myfyriwr, dy fod ti'n cael mynediad at y cyfleoedd sydd ar gael, a dy fod ti'n cael dy gefnogi i wireddu dy botensial llawn.

**abertawe.ac.uk/academi-cynwysoldeb**

## Y GANOLFAN LLWYDDIANT ACADEMAIDD

Bydd y Ganolfan Llwyddiant Academaidd yn dy helpu i ddatblygu dy sgiliau astudio academaidd er mwyn cyflawni dy nodau. Gelli di wireddu dy botensial llawn a magu hyder drwy amrywiaeth o gyrsiau, gweithdai a thiwtorialau un i un, gan dy helpu i bontio'r bwlch rhwng dy sefyllfa ar hyn o bryd a'r hyn rwyt ti am ei gyflawni.

**abertawe.ac.uk/llwyddiant-academaidd**

## DYSGU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Rydyn ni'n falch o fod yn sefydliad Cymreig, ac rydyn ni'n cynnig y dewis o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a cheir darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob Cyfadran. Ceir cyrsiau gradd a addysgir yn llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, cyrsiau lle cynigir rhai modiwlau yn Gymraeg, ac mae'n bosib mewn rhai adrannau y bydd rhai seminarau a thiwtorialau cyfrwng Cymraeg ar gyfer modiwlau a addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae Prifysgol Abertawe'n gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae cangen y Brifysgol yn Academi Hywel Teifi. Canolfan ragoriaeth ar gyfer astudio'r Gymraeg yw Academi Hywel Teifi, sy'n rhoi cefnogaeth a chyngor i fyfyrwyr sydd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i gymdeithasu â siaradwyr Cymraeg eraill.

**abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi**

## CYMORTH ADDYSGU YCHWANEGOL

Rydyn ni'n deall ei bod hi'n gallu bod yn anodd ymgyfarwyddo ag astudio mewn prifysgol, felly rydyn ni'n cynnig cymorth ychwanegol amrywiol drwy ein hacademïau, yn ogystal â darpariaeth dy Gyfadran.

Rydyn ni'n ymrwymedig i alluogi pob myfyriwr i gael mynediad, gan dy helpu i ffynnu yn dy astudiaethau. Rydyn ni'n cynnig cymorth amrywiol, gan gynnwys gwneud trefniadau arbennig ar gyfer asesiadau, darparu cyfarpar ychwanegol a gwasanaethau llyfrgell. Mae ein Canolfan Drawsgrifio yn darparu deunyddiau cwrs a llyfrgell mewn sawl fformat, gan gynnwys testun electronig, print bras, braille, ffeiliau PDF hygyrch, diagramau y gellir eu teimlo, llyfrau sain DAISY yn ogystal â thrawsgrifiadau print o recordiadau sain. Yn ogystal, mae timau gwybodaeth i fyfyrwyr a chydlynwyr anabledd ym mhob Cyfadran.

**abertawe.ac.uk/gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr**

# MEDDWL AM *Dy Ddyfodol*

## GYRFAOEDD, SGILIAU, CYFLOGADWYEDD AC ENTREPRENEURIAETH

Rydyn ni'n helpu ein myfyrwyr i gyflawni'r gyrfaoedd maent yn eu haeddu. Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o leoliadau gwaith a chyngor gyrfaol trwy ei thîm gyrfaoedd a menter ymroddedig, yn ogystal â ffeiriau gyrfaoedd, gweithgareddau entrepreneuraidd a digwyddiadau rhwydweithio â chyn-fyfyrwyr rheolaidd, i dy helpu i ddechrau dy fusnes dy hun neu ddod o hyd i waith ar ddiwedd dy astudiaethau.

EDRYCH AM Y SYMBOL ar dudalennau'r cwrs ar gyfer rhaglenni gradd sy'n cynnwys cyfle lleoliad gwaith neu interniaeth.

### CREU GRADDEDIGION CYFLOGADWY AC ENTREPRENEURAIDD

Mae cyflogwyr yn chwilio am lawer mwy na gradd wrth ddewis pa raddedigion i'w cyflogi. Bydd ennill profiad a datblygu sgiliau yn y brifysgol yn rhoi mantais gystadleuol i ti.

Gall ein tîm arobryn, Academi Cyflogadwyedd Abertawe dy helpu i:

- Ennill gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol diduedd gan ymgynghorwyr gyrfaoedd cymwys.
- Dod o hyd i interniaeth, lleoliad, gwaith rhan-amser, swydd i raddedigion neu rôl gwirfoddoli.
- Ymgysylltu â chyflogwyr trwy ein ffeiriau gyrfaoedd, digwyddiadau cyflogwyr a sesiynau hyfforddi/hyfforddi sgiliau.
- Datblygu dy CV, sgiliau cyfweld ac ymwybyddiaeth fasnachol/hunanymwybodol.
- Ymgysylltu â mentor cyn-fyfyrwyr.

**abertawe.ac.uk/astudio/cyflogadwyedd**

**@SwanseaUniSea**

### BLWYDDYN MEWN DIWYDIANT

Rho hwb i dy yrfa drwy dreulio blwyddyn mewn diwydiant fel rhan o dy radd. Mae llawer o'n rhaglenni gradd yn cynnwys cyfle i weithio am flwyddyn mewn diwydiant fel rhan o'r cwrs, gan ddarparu profiad gwerthfawr a chyfle i roi damcaniaeth ar waith a chael dy dalu ar yr un pryd. Mae hyn yn rhoi mantais i ti wrth ddechrau ar lwybr gyrfa ac mae'n edrych yn wych ar dy CV. Am fanylion llawn y rhaglenni sy'n cynnig blwyddyn mewn diwydiant, gwiria dudalennau cyrsiau unigol.

**abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau**

### PARTH BWRDD SWYDDI'R CYFLOGAETH DIGIDOL

Drwy Rwydwaith Interniaeth â Thâl Abertawe, rydyn yn cysylltu cyflogwyr â myfyrwyr a graddedigion diweddar o bob disgyblaeth ar gyfer interniaethau pedair wythnos ar lefel raddedig. Hysbysebir yr holl rolau ar ein Parth bwrdd swyddi'r Cyflogaeth digidol a bydd ein tîm ymroddedig yma yn dy gefnogi drwy broses y lleoliad gwaith. Mae interniaethau ar gael drwy gydol y flwyddyn, mewn amrywiaeth enfawr o feysydd pwnc. Rydyn hefyd yn cynnal Rhaglen Interniaethau Prifysgolion Santander sy'n darparu profiad gwaith cyflogedig i fyfyrwyr a graddedigion diweddar, mewn busnesau bach a chanolig a sefydliadau trydydd sector lleol.

### CYMORTH PWRPASOL

- Ennill gydnabyddiaeth yn dy Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch ar ôl cwblhau'r Cwrs Datblygu Gyrfa.
- Mae bwrsariaethau cyflogadwyedd yn gallu helpu gyda chostau fel teithio i gyfweliadau swydd, offer ar gyfer gweithio o bell, gwisg busnes a thebyg.
- Gwaith rhan-amser, ar y campws ac o bell, â thâl i fyfyrwyr drwy'r Cynllun Myfyrwyr Llysgennad.
- Bwrsariaethau Hyfforddi Santander - gwna gais am hyd at £500 i dalu cost hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd.
- I fyfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau i waith, mae rhaglen profiad gwaith ar gael drwy raglen Go Wales:

**abertawe.ac.uk/astudio/cyflogadwyedd/go-wales**

GO WALES — **Cyflawni** drwy **Brofiad** Gwaith — **Achieve** through Work **Experience**

## CYSYLLTIADAU Â CHYFLOGWYR:

## Y TÎM MENTERGARWCH

Gall y tîm Mentergarwch dy helpu i ddatblygu dy sgiliau, cael profiad gwerthfawr a rhoi dy syniadau ar waith drwy ein hystod o wasanaethau, gan gynnwys: gweithdai, cystadlaethau, cynlluniau a mentora busnes, ar y cyd â phartneriaid busnes â phrofiad helaeth o'r byd masnachol.

enterprise@abertawe.ac.uk myuni.abertawe.ac.uk/cyflogadwyedd-menter/menter-myfyrwyr

Gwnaeth Josh gymryd rhan yn nigwyddiad blynyddol The Big Pitch sy'n cael ei gynnal gan y Tîm Mentergarwch ac enillodd £3000 i'w fusnes!







Sefydlwyd gan Joshua ym mis Mawrth 2020, mae Letzee yn fusnes sy'n cynnig teithiau rhithwir 3D o eiddo i ddarpar denantiaid, gan alluogi landlordiaid i ddangos eu heiddo i ragor o ddarpar denantiaid heb orfod fod yn bresennol ar y pryd. Mae Letzee hefyd yn creu teithiau rhithwir 3D o fannau masnachol, megis teithiau o loriau siopau, swyddfeydd a llawer mwy.

Pan ofynnwyd iddo am gynnal busnes ochr yn ochr â'i astudiaethau, meddai Josh:

**"Mae lefel y cymorth gan y Brifysgol wedi bod yn anhygoel. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb ac os hoffet ti siarad â fi am bethau, mae croeso i ti gysylltu. Rwy'n annog pawb i gadw llygad am ap a gwefan Letzee eleni, ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymuno â ni wrth drawsnewid y broses o ddod o hyd i dŷ rhent!**

**O ran cydbwyso'r busnes â'm hastudiaethau, rhaid i fi fod yn gynhyrchiol gyda fy amser a gwneud yn siŵr fy mod i ar y blaen i fy amserlenni. Pryd bynnag y bydda i'n teimlo'n rhy brysur, bydda i'n camu nôl ac yn ceisio edrych yn gadarnhaol ar yr hyn rwyf wedi'i gyflawni hyd yn oed cyn mynd i Benrhyn Gŵyr i syrffio er mwyn clirio fy mhen!"**

Mae Joshua wedi cael ei enwebu fel cynnig Prifysgol Abertawe ar gyfer Gwobrau Darpar Entrepreneuriaid Prifysgolion Santander 2021.

**Joshua Blackhurst**
Sefydlwyd Letzee ym mis Mawrth 2020

# Ymuna â'n
# Cyn-fyfyrwyr Neilltuol

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydyn ni'n hynod o falch o'n graddedigion. Pan fyddi di'n astudio gyda ni, byddi di'n ymuno â miloedd o gyn-fyfyrwyr sydd wedi defnyddio eu profiadau yn Abertawe i osod eu marc ar y byd. Mae llawer ohonynt wedi mynd ati i brofi llwyddiant yn eu gyrfaoedd, gan ddod yn arweinwyr busnes, yn bencampwyr chwaraeon, cynnal ymchwil sy'n torri tir newydd, neu ddod o hyd i'w lle yng ngolwg y cyhoedd. Rydyn ni'n rhannu rhai o'u straeon ysbrydoledig yma.



## JASON MOHAMMAD,

***BA Cymraeg a Gwleidyddiaeth. Blwyddyn Graddio 1996.***

CYFLWYNYDD RADIO A THELEDU.

"Roeddwn i'n gwybod bod gan Brifysgol Abertawe adrannau Cymraeg a Gwleidyddiaeth gwych, felly roeddwn i eisiau astudio yno er mwyn cael fy nysgu gan y gorau. Hefyd, roedd apêl Penrhyn Gŵyr a'r traethau gerllaw yn atyniad enfawr.

Ym Mhrifysgol Abertawe y tyfodd fy hyder fel dysgwr Cymraeg. Rwy'n cofio'r cawr o ddarlithydd, Yr Athro Hywel Teifi Edwards, yn ein hannog ni i gyd i ddefnyddio ein sgiliau llafar Cymraeg. Ni welodd unrhyw wahaniaeth rhwng myfyrwyr Cymraeg 'iaith gyntaf' a 'dysgwyr ail iaith'. A dyna lle y cafodd fy hyder ei feithrin."

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/jason-mohammad**



## DR KATE EVANS,

***BSc Sŵoleg. Blwyddyn Graddio 1996.***

ECOLEGYDD YMDDYGIAD A BIOLEGYDD CADWRAETH AROBRYN. SEFYDLYDD A CHYFARWYDDWR ELEPHANTS FOR AFRICA.

"Nid oeddwn yn sicr ai addysg bellach oedd y llwybr cywir i mi. Yn ffodus cefais fy hun yn amgylchedd diogel Prifysgol Abertawe ar gwrs yr oeddwn yn dwlu arno ac yn rhagori ynddo, Swôleg."

Sefydlodd Kate yr elusen gadwraeth – Elephants for Africa, sy'n defnyddio dull cyfannol at gadwraeth eliffantod, gan ganolbwyntio llawer o'i gwaith yn Botswana, sy'n gartref i'r boblogaeth fwyaf o eliffantod.

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/kate-evans**



## SIWAN LILLICRAP,

***BSc Gwyddor Chwaraeon. Blwyddyn Graddio 2009.***

CHWARAEWR RYGBI RHYNGWLADOL, PENNAETH RYGBI YN ABERTAWE.

"Rydw i wedi cwrdd â'm ffrindiau gorau drwy rygbi, ac mae e wedi dysgu cymaint i mi am fywyd: disgyblaeth, angerdd, ymrwymiad, cymhelliad, a chymaint mwy. Mae e wedi rhoi cymaint o lawenydd i mi yn fy mywyd ar y cae ac oddi arno, a fyddwn i ddim yn newid dim byd. Byddwn i'n dweud, paid â rhoi pwysau ar dy hun; bydd pawb yn cyflawni pethau gwahanol ond y peth pwysig yw cael amser rhagorol gyda ffrindiau."

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/siwan-lilicrap**

Gweld mwy o straeon cyn-fyfyrwyr ar ein gwefan: **abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr**



## OWEN EVANS,

***BSc Economeg. Blwyddyn Graddio 1991.***

PRIF WEITHREDWR, STRATEGYDD, YMGYNGHORYDD.

“Rwy’n cofio campws hapus, darlithwyr cyfeillgar, tref gyfeillgar, y traeth, aros am fws yn y glaw yn y Quadrant, gweld y Manic Street Preachers yn yr haul ym Mharc Singleton, trio meddwl sut i ddod adre o’r Mwmbwls ar ôl noswaith allan, rygbi yn San Helen a’r Gym Gym (Y Gymdeithas Gymraeg) ar brynhawn Mercher. Atgofion melys.

Fe wnes i fwynhau fy amser yn Abertawe ond fe ges i’r fraint o addysg uwch – o gwrdd â phobl o bob cefndir a dysgu am bwnc diddorol. Fe ges i gyfle i feddwl ac aeddfedu mewn amgylchiadau hapus ond cael fy herio hefyd yn academaidd."

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/owen-evans**



## RAWAN TAHA,

***MSc Iechyd Cyhoeddus a Hybu Iechyd. Blwyddyn Graddio 2018.***

DEILIAD YSGOLORIAETH EIRA FRANCIS DAVIES. CYMRAWD MATERION DYNGAROL. YMGYRCHYDD YN ERBYN NEWID HINSAWDD.

“Fel menyw Affricanaidd ysgolheigaidd ifanc, roeddwn i’n chwilio am brifysgol a oedd yn darparu cyfleoedd i arweinwyr ifanc fel fi.

Fy nghyngor i fyfyrwyr presennol yw i ddefnyddio eu hamser yn y Brifysgol i ddatblygu y tu hwnt i’w gradd, eu traethawd a’u trawsgrifiadau. Dim ond wedyn fyddi di'n gallu ennill swydd a chael bywyd sydd y tu hwnt i dy ddisgwyliadau."

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/rawan-taha**



## DAVID SMITH,

***MEng Peirianneg Awyrofod. Blwyddyn Graddio 2014.***

MEDALYDD AUR PARALYMPAIDD

"Roeddwn i am astudio Peirianneg Awyrofod ac roedd staff y cwrs, yr awyrgylch cyffredinol a'r traeth yn brif atyniadau. Rhai o’m hoff atgofion yw’r teithiau astudio a oedd yn cynnwys hedfan megis y labordy hedfan yn Cranfield neu hedfan o gwmpas Penrhyn Gŵyr."

Wedi derbyn ei fedal aur Baralympaidd gyntaf ychydig cyn wythnos y glas yn Abertawe, mae David, Pencampwr y Byd a Pharalympaidd, yn anelu at fod yn bencampwr yng nghamp Boccia ac enillodd ei bumed medal Olympaidd yn y Gemau Olympaidd Tokyo 2021.

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/david-smith**



## NIA PARRY,

***BA Sbaeneg a Chymraeg. Blwyddyn Graddio 1996.*** EIRIOLWR BRWD DROS YR IAITH GYMRAEG, DARLLEDWR AC ADRODDWR STRAEON.

“Mae fy atgofion o fod yn fyfyrwraig yn y Brifysgol yn rhai hapus iawn. Yn academaidd – dw i'n teimlo fel fy mod wedi dysgu a blodeuo a datblygu syniadau newydd a thrin a thrafod a bwydo'r angerdd oedd gen i tuag at ein hiaith a'n diwylliant a'n hanes. Yn gymdeithasol dw i'n cofio'r hwyl a'r chwerthin, y barbeciws ar lan y môr, y gemau pêl-rhwyd, y Mumbles Mile, Parc Singleton yn yr hydref yn ei liwiau euraidd.”

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/nia-parry**

# ABERTAWE A'R *Rhanbarth*



## AR GARREG Y DRWS

Ar Benrhyn Gŵyr, cei lonydd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y Deyrnas Unedig, ymlacio ar draethau arobryn ac archwilio harddwch naturiol cefn gwlad, ac mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 30 munud i ffwrdd yn unig yn y car. Mae'r rhanbarth yn cynnig rhai o leoliadau gorau'r DU ar gyfer cerdded ar lwybrau arfordirol, syrffio, beicio, chwaraeon dŵr, dringo creigiau a golff; i'r rhai sy'n mwynhau chwaraeon antur, neu os yw'n well gen ti dro hamddenol ar y traeth, mae rhywbeth at ddant pawb.


## Y MWMBWLS

Man geni Catherine Zeta Jones, mae pentref pert y Mwmbwls yn cynnig amrywiaeth gwych o siopau, caffis, bariau gwin, tafarnau a bwytai. Cer am dro a mwynhau hufen iâ yn un o'r parlyrau niferus ar hyd y promenâd, neu beth am alw yn un o'r bwytai a chaffis glan môr newydd â golygfeydd dros Fae Abertawe.

"Dwi wrth fy modd gyda marchnad dda ac wrth lwc, dwi'n byw yn Uplands sydd â marchnad fisol, lle mae tyfwyr, cynhyrchwyr, ffermwyr ac arlwywyr lleol yn gwerthu eu nwyddau. Mae hon yn farchnad fach hyfryd, felly os wyt yn dwlu ar fwyd a phethau tlws fel fi, mae'n werth ymweld â hi!"

Joanna Wolton, myfyriwr sy'n ysgrifennu blog

studentblogs.swan.ac.uk/cy/



Bannau Brycheiniog, Cymru

*Archwilia*



## SIOPA
Gelli di ddewis o siopau a brandiau mawr y stryd fawr a siopau bach annibynnol, siopau arbenigol ac arcedau traddodiadol. Gelli ymweld â siopau dillad dylunwyr yn y Mwmbwls, siopa am ddillad yr oes a fu yn Uplands, neu godi cynnyrch o Gymru ym marchnad dan do fwyaf Cymru yng nghanol y ddinas.

# Diwylliant

## Y CELFYDDYDAU
Mae Abertawe'n ganolfan fywiog ar gyfer celf ac mae Oriel Glynn Vivian yn cael ei chydnabod yn eang fel prif leoliad arddangosfeydd celf yn y ddinas. Mae mynediad am ddim i holl amgueddfeydd ac orielau celf cenedlaethol Cymru, felly gelli ymdrochi yn ein hanes, neu gymryd rhan yn un o'r teithiau niferus sy'n cael eu trefnu gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

## CANOLFAN Y CELFYDDYDAU TALIESIN
Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin yng nghanol Campws Parc Singleton yn dangos ffilmiau'n rheolaidd, rhai poblogaidd a rhai mwy amgen eu natur. Mae ganddi gaffi a bar ac yma ceir y Ganolfan Eifftaidd arobryn sy'n gartref i gasgliad o dros 5,000 o arteffactau o'r Hen Aifft.



# Adloniant

## CERDDORIAETH A GWYLIAU
Mae Cymru'n enwog fel 'gwlad y gân' ac fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, chei di ddim dy siomi gan y dewis o gerddoriaeth sydd ar gael yn y ddinas! Mae gan Abertawe amrywiaeth enfawr o leoliadau cerddoriaeth ac mae nifer o wyliau a digwyddiadau cerddorol yn cael eu cynnal yma drwy gydol y flwyddyn.

Mae Arena Abertawe newydd sbon bellach ar agor ac mae ganddo rai enwau mawr eisoes ar gyfer 2022 gan gynnwys John Bishop a Kathryn Ryan!

Delweddu pensaernïol




## CARTREF I DYLAN THOMAS
Fel y dywedodd mab enwocaf Abertawe, Dylan Thomas: "Abertawe yw'r gorau o hyd", a gelli ddilyn olion traed y bardd ledled y ddinas, o gaffis i dafarnau a pharciau.



# PIGION *Glasfyfyrwyr*




## 01 CER I'R TRAETH

Mae dros 50 o faeau a thraethau i'w dewis! Boed law neu hindda, rho gynnig ar syrffio neu badlfyrddio, neu cer am dro i ddianc.

## 02 VARSITY CYMRU

Gwisga liwiau'r fyddin werdd a gwyn a bloeddia dy gefnogaeth i Abertawe yng Ngemau Prifysgolion Cymru, y digwyddiad mwyaf i fyfyrwyr yng Nghymru.





## BLASU HUFEN IÂ 03

Os yw'r haul yn gwenu'n braf neu os yw'r tymheredd islaw sero, does dim gwahaniaeth, bydd bob amser ciw o bobl y tu allan i barlwr hufen iâ enwog Joe's yn Abertawe.

## 04 CYSTADLU YN YR EISTEDDFOD RHYNG-GOL

Tyrd i gynrychioli Prifysgol Abertawe a chystadlu yn un o brif ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol myfyrwyr Cymru.



## 05 DAWNS YR HAF

Mae Dawns Haf Prifysgol Abertawe, sy'n debyg i ŵyl, yn cael ei chynnal ar y lawnt o flaen Abaty Singleton, ac mae'n noson fawr yng nghalendr y myfyrwyr. Mae'r digwyddiad yn denu perfformwyr proffil uchel yn rheolaidd – mae'r prif atyniadau yn y gorffennol wedi cynnwys Pendulum, Rudimental, Pixie Lott, Tim Minchin, Sub Focus a Florence and the Machine.



## 06 PÊL-DROED Y BENCAMPWRIAETH

Rydyn yn falch o rannu ein dinas â'r tîm pencampwriaeth Dinas Abertawe, yr Elyrch arwrol. Ymuna yn y cyffro yn Stadiwm Swansea.com.

## YMUNA AG AELWYD YR ELYRCH 07

Ymuna ag Aelwyd Urdd Prifysgol Abertawe. Mae'r Aelwyd yn cynnig cyfleoedd i ti gystadlu yn yr Eisteddfod, gwirfoddoli yn y gymuned leol a bod yn rhan o weithgareddau ymarferol a llawer mwy.

## 08 YMUNA Â CHANGEN Y COLEG CYMRAEG

Ymuna a chael bod yn rhan o rwydwaith astudio a chymdeithasu cenedlaethol cyfrwng Cymraeg.

## 09 LAWRLWYTHA AP ARWAIN

Yr ap sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen arnat am ein cyrsiau a'n modiwlau cyfrwng Cymraeg, cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr, a chyfleoedd i fyw a chymdeithasu trwy'r Gymraeg yn Abertawe.



## 10 YMUNA Â'R GYMGYM A CHLWB CHWARAEON TAWE

Ymuna â'r Gymdeithas Gymraeg er mwyn bod yn rhan o'r croliau, y nosweithiau cymdeithasol a'r tripiau blynyddol i Bencampwriaeth y Chwe Gwlad, a hefyd Glwb Rygbi Tawe.
































# #EinHabertawe

**DILYN NI:**

PrifysgolAbertawe   PrifAbertawe   Prif_Abertawe   prifysgol_abertawe

# BARN EIN *Myfyrwyr*

Cei fwy o wybodaeth gan ein myfyrwyr presennol a rhai sydd wedi graddio'n ddiweddar gan eu bod wedi rhannu eu profiadau eu hunain a darparu argymhellion defnyddiol ynghylch byw ac astudio ym Mhrifysgol Abertawe.

Gwylia ein flogiau, a gwrando ar ein podlediadau myfyrwyr, dilyn ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn cael yr holl wybodaeth, boed yn; ymgartrefu yn y brifysgol i sut brofiad yw byw yn Abertawe.

## CWRDD Â FLOGWYR PRIFYSGOL ABERTAWE:







**Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau**

**Llety Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg**

**Shwmae Su'mae**

**@PrifAbertawe**

YouTube

# #EinHabertawe

Mynna gip ar ein fideos i gael mwy o wybodaeth am chwaraeon, cymdeithasau, llety myfyrwyr a bywyd myfyrwyr yn gyffredinol ym Mhrifysgol Abertawe:

Dilyn ni am fideos, a bydd ein myfyrwyr yn anfon diweddariadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn:

- **PrifysgolAbertawe**
- **PrifAbertawe**
- **Prif_Abertawe**
- **prifysgol_abertawe**

**Byw ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg**

**Beiciau Santander ym Mhrifysgol Abertawe**

Neges gan
Lywydd Undeb
y Myfyrwyr

Cymorth a lles
i fyfyrwyr

Top tips ar sut i addasu i
fywyd prifysgol

Gymdeithas y Gymraeg
Y GymGym


CAMPWS Y BAE
LLEOLIAD GLAN MÔR
Green Flag Award
Gwobr Y Faner Werdd
(2021/22)
10
UCHAF YN Y DU
people & planet
CYNGHRAIR PRIFYSGOL
(Cynghrair People & Planet 2021)
360°
TAITH RHITHWIR
abertawe.ac.uk/rhith-daith




**CAMPFA A CHYFLEUSTERAU CHWARAEON**

**CWRT BWYD, THE CORE**

**CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL** (YR YSGOL REOLAETH)

**LLETY MYFYRWYR**

**LLYFRGELL Y BAE**

**UNDEB Y MYFYRWYR**

**Y COLEG**

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH** (FFOWNDRI GYFRIFIADUROL – CYFRIFIADUREG A MATHEMATEG)

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH**

**Y NEUADD FAWR**


**YR HAFEN** (lle tawel i ymlacio, lle i addoli neu gwrdd â ffrindiau)

**BWS 24AWR** (yn ystod y tymor)
Tua 20 munud i Gampws Parc Singleton, 15 munud i ganol y ddinas

**MY UNIHUB**
Cynnig gwybodaeth, ac arweiniaid ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr; o arian i ymholiadau cwrs, i dai

**CYFLEUSTERAU ERAILL:**
Archfarchnad / Golchdy / Siop Goffi Coffeeopolis


TRAETH SY'N YMESTYN DROS BUM MILLTIR, TAFLIAD CARREG O'R CAMPWS
10 MUNUD AR Y BWS O GANOL Y DDINAS, 3.5KM
abertawe.ac.uk/rhith-daith
360°
TAITH RHITHWIR




## CAMPWS PARC SINGLETON

**ACADEMI HYWEL TEIFI**

**CANOLFAN TALIESIN A'R GANOLFAN EIFFTAIDD**

**CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL**

**LLETY MYFYRWYR**

**LLYFRGELL PARC SINGLETON**

**MYUNIHUB**
Cynnig gwybodaeth, ac arweiniaid ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr; o arian, ymholiadau cwrs, i dai

**PARC CHWARAEON BAE ABERTAWE**

**TŶ FULTON**
Bar Undeb y Myfyrwyr, Clwb nos, siopau, archfarchnad, Siop Dim Gwastraff, llefydd bwyd (gan gynnwys fegan)

**Y GOLEUDY** (lle tawel i ymlacio, lle i addoli neu gwrdd â ffrindiau)

**Y GYFADRAN MEDDYGAETH, GWYDDORAU IECHYD A BYWYD**

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH** (BIOWYDDORAU, CEMEG, DAEARYDDIAETH, FFISEG)

**UNDEB Y MYFYRWYR**

**BWS 24AWR** (yn ystod y tymor)
Tua 20 munud i Gampws y Bae, 10 munud i ganol y ddinas

### CYFLEUSTERAU ERAILL:

- Caplaniaeth
- Doctor/Deintydd
- Golchdy
- Mosg

# DOES UNMAN YN DEBYG *i gartref*

Gall dechrau yn y brifysgol fod yn dipyn o gorwynt, ac, ynghanol y cyfan, mae angen rhywle i ti ymlacio, cymryd stoc, a theimlo'n gartrefol, ar unwaith.

Os wyt ti eisiau byw yn un o'n neuaddau ar y campws, yn y pentref myfyrwyr neu mewn un o'r tai preifat o dan reolaeth asiantaeth osod (SAS), mae ein Gwasanaethau Llety Myfyrwyr yma i sicrhau dy fod yn dewis y llety sy'n siwtio dy ofynion di orau.

## PWYNTIAU ALLWEDDOL

- Mae gan ein hystafelloedd Wi-Fi am ddim
- Ceir rhwydwaith o fyfyrwyr, ResNet, rhwydwaith o staff a myfyrwyr sy'n gofalu bod gan bob myfyriwr y profiad gorau posibl
- Mae'r ystafelloedd yn ystafelloedd sengl yn unig (ag eithrio fflatiau teuluol Tŷ Beck a nifer cyfyngedig o ystafelloedd â dau wely ar Gampws y Bae)
- Golchdai 24/7
- Ystafelloedd wedi'u haddasu ar gyfer myfyrwyr ag anghenion arbennig, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn – cysyllta â'r Swyddfa Anableddau am ragor o wybodaeth
- En-suite ar gael
- Llety penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar gael

## LLETYA Â SIARADWYR CYMRAEG ERAILL

Mae'r Brifysgol yn awyddus i gefnogi'r gymuned gref o siaradwyr Cymraeg sy'n fyfyrwyr yma. O ganlyniad, rydyn wedi adnabod dwy neuadd ar gyfer darparu cyfle i fyfyrwyr rannu llety â siaradwyr Cymraeg eraill, sef Aelwyd Penmaen ar Gampws Parc Singleton ac Aelwyd Emlyn ar Gampws y Bae. Darperir llety en-suite ac hunanarlwyo gyda gofodau cymdeithasu yn y neuaddau hyn.

## BYW AR GAMPWS

Mae byw mewn llety ar Gampws Parc Singleton neu Gampws y Bae yn dy roi yng nghanol bywyd prifysgol. Mae'r llety hunanarlwyo yn cynnwys ystafelloedd wedi'u dodrefnu'n llawn, ystafelloedd en-suite ac ystafelloedd safonol gyda chegin, a lle bwyta a rennir – y dewis perffaith i dy helpu i ymgartrefu'n gyflym ac yn rhwydd.

## BYW YN Y PENTREF MYFYRWYR

Cei llety pellach ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan sydd tua dwy filltir o Gampws Parc Singleton. Mae'r Pentref yn darparu llety hunanarlwyo a chyfleusterau a rennir mewn fflatiau ar gyfer saith myfyriwr. Gelli ddewis llety hunanarlwyo mewn fflatiau neu dai i amrywiol feintiau. Os wyt ti'n dewis byw yn y Pentref, bydd gen ti ystafell dy hun ar gyfradd fforddiadwy sy'n cymharu'n ffafriol â llety'r sector preifat. Mae bywyd myfyriwr yn y Pentref yn gymdeithasol, cefnogol a gelli fanteisio ar:

- Golchdy
- Tocyn bws First Group Unibus am ddim am gytundebau 13 wythnos
- Parcio am ddim

Gwiria ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf:

**abertawe.ac.uk/llety**





Edrych tu mewn

abertawe.ac.uk/llety

# COSTAU BYW NODWEDDIADOL:

£84

**CYFARTALEDD RHENT WYTHNOSOL**

(Mynegai Byw Myfyrwyr Natwest 2020)

5ed rhent misol isaf o blith dinasoedd prifysgol y DU

£22

**PRYD O FWYD I DDAU**

(yn seiliedig ar brif gwrs & diod mewn bwyty lleol)

£3.50 Y DIWRNOD

(£2.34 gyda Fy Ngherdyn Teithio)

**TOCYN BWS**

Tocynnau tymor a blynyddol ar gael hefyd (am ddim os wyt yn byw ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan).

1/3 ODDI

**AR YR HOLL DEITHIAU BWS LLEOL YNG NGHYMRU**

Mae myfyrwyr yn gymwys i wneud cais am gerdyn disgownt a ariennir gan Lywodraeth Cymru (mae telerau ac amodau yn berthnasol)

£19 Y MIS

**AELODAETH GYM**

Parc Chwaraeon Bae Abertawe

abertawe.ac.uk/israddedig/ffioedd-a-chyllid/costau-bob-dydd

## LLETY AR GYFER TEULUOEDD YN NHŶ BECK

Mae gennym nifer o fflatiau teuluoedd yn ein presylfa dawel ddynodedig, Tŷ Beck, oddeutu milltir o'r campws yn ardal Uplands. Oherwydd tenantiaeth 51 wythnos, mae'r llety hwn yn addas ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a rhyngwladol yn bennaf.

## DOD O HYD I'R LLETY PERFFAITH YN Y SECTOR PREIFAT

Os byddai'n well gen ti fyw oddi ar y campws, mae yna gyflenwad da o dai a fflatiau sector preifat o safon yn Abertawe. Mae ein hasiantaeth gosod, Gwasanaethau Llety Myfyrwyr (SAS) yn rheoli 130 o dai yn ardaloedd Brynmill, Uplands, a Sgeti sy'n boblogaidd â myfyrwyr, y rhan fwyaf ohonynt o fewn dwy filltir i'r campws. Mae eu preswylfeydd yn St. Thomas a Phort Tennant yn agos at Gampws y Bae. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn agos i siopau lleol, bariau a chyfleusterau prydau parod.

Mae modd chwilio ein cronfa ar-lein, Studentpad, i ddod o hyd i dai sydd ar gael yn yr ardal ac mae'n declyn gwerthfawr sy'n arbed ymdrech wrth chwilio am dai.

**saslettings.co.uk**

## PRYD Y DYLWN WNEUD CAIS AR GYFER LLETY?

Cyn gynted â phosibl! Os wyt wedi derbyn cynnig pendant i astudio gyda ni, cei ymgeisio am lety ym mis Chwefror – byddi di'n derbyn cyfarwyddiadau ar sut i wneud cais ar-lein oddi wrth y brifysgol. Rydyn yn dy gynghori i wneud cais yn gynnar, yn enwedig ar gyfer llety en-suite sy'n boblogaidd tu hwnt.

**abertawe.ac.uk/llety**

**llety@abertawe.ac.uk**

**+44 (0)1792 295101**

360° TAITH RHITHWIR

**EDRYCH TU MEWN I'N LLETY CAMPWS:**

**abertawe.ac.uk/rhith-daith**



Cymraeg

Os wyt ti'n siarad Cymraeg mae gennym lety penodol i siaradwyr Cymraeg fyw gyda'i gilydd yn Aelwyd Emlyn ar Gampws y Bae ac Aelwyd Penmaen ar Gampws Parc Singleton




Mae gennym rai ardaloedd tawel a rhai sy'n ddi-alcohol hefyd

**Dewis ble i fyw ym Mhrifysgol Abertawe**

YouTube



| LLETY | MATH O YSTAFELL | RHENT WYTHNOSOL* |
|---|---|---|
| Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan | Safonol | £95 |
| Campws Parc Singleton | Safonol (hunanarlwyol)<br>En-suite (hunanarlwyol)<br>Safonol (gyda'r cerdyn arlwyo)**<br>En-suite (gyda'r cerdyn arlwyo)** | £131 – £136<br>£138 – £164<br>£144 – £150<br>£160 |
| Tŷ Beck | Safonol<br>En-suite<br>Fflat Teuluol | £114 – £120<br>£132 – £143<br>£183 – £221 |
| Campws y Bae | En-suite<br>En-suite â dau wely | £154 – £159<br>£101.50 |
| Tai Preifat | Safonol | £82 – £120 |

* Mae’r ffioedd yma ar gyfer sesiwn academaidd 2021-2022. Mae’r raddfa ar gyfer mynediad 2022-2023 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Cynghorwn i ti edrych ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

** Gelli di ddefnyddio cerdyn talu am arlwyaeth ymlaen llaw ym mannau arlwyo'r brifysgol a bydd £28.00 yr wythnos ynghlwm wrtho. Mae’r credydau yn cael eu gosod bob tymor felly gelli di ddefnyddio cymaint neu gyn lleied ag y dymuna bob wythnos.

## CAMPWS Y BAE

- Bar Coffi
- Cyfleusterau Chwaraeon
- Diogelwch 24 awr
- Golchdy
- Lle i Addoli
- Neuadd Fawr
- Neuadd Fwyd
- Siop Fach
- Undeb y Myfyrwyr

## PARC SINGLETON

- Canolfan y Celfyddydau Taliesin
- Canolfan Iechyd
- Cyfleusterau Chwaraeon
- Deintydd a Meddyg
- Diogelwch 24 awr
- Golchdy
- Lle i Addoli
- Neuadd Fwyd
- Siop Fach
- Undeb y Myfyrwyr

# RYDYN YMA *i dy Helpu*

Gelli fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau cymorth myfyrwyr yn ystod dy amser yn y brifysgol i wneud dy holl amser yma ym Mhrifysgol Abertawe mor ddi-straen a hwylus â phosib.

## HYB Y MYFYRWYR
### SUT GALLWN DY HELPU?

Mae Hyb y Myfyrwyr yma i gynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr. Felly, os hoffet gael cymorth i gofrestru neu dalu dy ffioedd yn bersonol, os oes angen cyngor ar dai arnat, cymorth gyda chyllid myfyrwyr neu gymorth i reoli dy lwyth gwaith, Hyb y Myfyrwyr yw'r lle i fynd!

## YMGARTREFU

"Dwi'n cofio'r misoedd cyntaf yn y Brifysgol fel y cyfnod mwyaf anodd i ymdopi ag ef. Ar ben bod yn sâl a gweld eisiau cysur cartref, roeddwn i'n eithaf swil ac yn teimlo nad oeddwn i'n gallu ffurfio cysylltiad â'r myfyrwyr eraill yn fy fflat a oedd i gyd eisiau mynd mas a joio drwy'r amser. Dwi'n gwybod bod myfyrwyr eraill yn profi, neu maen nhw wedi profi, teimladau tebyg yn y brifysgol, ond mae'n bwysig gwybod a deall nad ti yw'r unig un a does dim rhaid i ti ddelio â phethau ar dy ben dy hun.

Weithiau, gall y brifysgol deimlo'n lle unig, ond gall pobl sy'n dy dderbyn ac yn becso am dy les helpu i leddfu'r teimladau hyn o unigrwydd. Mae'n bwysig sylweddoli hefyd, os wyt ti'n rhy sâl, nad oes rhaid i ti ddyfalbarhau â dy wneud dy hun yn waeth (a theimlo nad oes unrhyw ateb) – gelli wneud cais am absenoldeb neu amgylchiadau esgusodol.

Mae'r brifysgol yn cynnig llawer o wasanaethau i helpu myfyrwyr a allai fod mewn anawsterau, o gwnsela, gwasanaethau lles ar y campws a chymorth bugeiliol gan staff. Does dim cywilydd mewn defnyddio'r gwasanaethau hyn na chydnabod a chyfaddef nad wyt yn mwynhau dy amser yn y brifysgol (er y gall hyn fod yn anodd)."

**Joanna Wolton**
Myfyriwr Polisi Cymdeithasol





# Cadw'n Iach

Mae dy les yn bwysig i ni. Er mwyn mwynhau a chyfoethogi dy brofiad ym Mhrifysgol Abertawe, gelli gael gafael ar gyngor diduedd am ddim ac ystod o wasanaethau cymorth mewn amgylchedd hamddenol, cyfeillgar a chyfrinachol.

**£1.5m**

**CYMORTH LLES MYFYRWYR**

**Diogelwyd gan Lywodraeth Cymru (2020)**

**DARGANFYDDA FWY:**

**abertawe.ac.uk/astudio/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr**

Myfyrwyr yn mwynhau padlfyrddio (SUP) yn ystod Wythnos y Glas a drefnwyd gan @campuslifeSU

## GWYBODAETH AM IECHYD

Mae gofal deintyddol y Brifysgol yn cynnig ystod lawn o driniaethau'r GIG a phreifat i fyfyrwyr. Lleolir Meddygfeydd Deintydd a Meddygon ar Gampws Parc Singleton.

## SWYDDFA ANABLEDD

Yn sicrhau'r un profiad i'r holl fyfyrwyr. Mae Canolfan Drawsgrifio Prifysgol Abertawe yn wasanaeth trawsgrifio arbenigol sy'n darparu adnoddau dysgu hygyrch i'w hargraffu ar gyfer myfyrwyr anabl.

## GWASANAETHAU LLES



Amrywiaeth o wasanaethau am ddim sy'n hybu ac yn edrych ar ôl lles myfyrwyr, gan gynnwys gwasanaeth cymorth iechyd meddwl.

## ARIAN (BYWYDCAMPWS)

Mae'r tîm hwn bob amser wrth law i dy helpu i wneud y gorau o dy arian a chadw llygad ar dy gyllideb. Gwiria ein rhestr wirio arian cyn cyrraedd:

**abertawe.ac.uk/arian-bywydcampws**



# ACADEMI *Hywel Teifi*

Mae gan Brifysgol Abertawe ddarpariaeth eang a chyffrous ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio cwrs gradd yn gyflawn neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae Academi Hywel Teifi yma i dy gefnogi i wneud hynny trwy gydol dy amser gyda ni.

Mae Academi Hywel Teifi yn darparu cymuned ar gyfer pawb sy'n cynnig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol ac i'r miloedd o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yma. Trwy amrywiol weithgareddau mae'r Academi yn cefnogi, cynyddu a chyfoethogi darpariaeth addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe gan hybu cydweithio, mentergarwch a chreu cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein data TEF* yn dangos bod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn gyflawnwyr uchel o ran cyflogadwyedd.

Mae hawl gen ti gyflwyno dy waith cwrs ac i sefyll dy arholiadau yn y Gymraeg, hyd yn oed os wyt ti wedi dewis dilyn cyrsiau cyfrwng Saesneg.

Gweler ein Grid Cyfeirnodi Cyrsiau ar dudalennau 167-179 i ddarganfod beth sydd ar gael fesul pwnc.

* Canlyniadau TEF Prifysgol Abertawe 2017 a 2018

## GWOBR ACADEMI HYWEL

Mae Gwobr Academi Hywel Teifi yn gwobrwyo myfyrwyr sy'n cyfrannu at fywyd a gweithgareddau diwylliannol ac academaidd Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r wobr yn cydnabod rôl, cyfraniad a llwyddiannau sy'n ymwneud â chefnogi, hyrwyddo a dathlu'r cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Bydd y Wobr yn cael ei chofnodi ar dy dystysgrif gradd.

Am fanylion pellach, e-bostia

**astudio@abertawe.ac.uk**

Academi Hywel Teifi

Prifysgol Abertawe Swansea University

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU CYFRWNG CYMRAEG

Yn ogystal ag Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg Academi Hywel Teifi yn gynllun sy'n agored i fyfyrwyr sydd eisoes wedi dewis dod i Brifysgol Abertawe ac sydd yn ystyried neu yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo cyfle, yn hytrach na thrwy'r Saesneg.

Am fanylion pellach, e-bostia:

**astudio@abertawe.ac.uk**

## CANGEN PRIFYSGOL ABERTAWE, COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Mae Cangen y Coleg yma i ddarparu cymorth a chefnogaeth wrth i ti astudio a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Gangen yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau croeso i lasfyfyrwyr, digwyddiadau cymdeithasol i fyfyrwyr Cymraeg, a fforymau trafod i roi llais i fyfyrwyr ar eu haddysg a'u profiad addysgol. Mae'r Gangen hefyd yn hwyluso dy gyfle i ymgeisio am y Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg a chyfleoedd profiad gwaith mewn amgylchfyd gwaith iaith Gymraeg.

**abertawe.ac.uk/cangen-abertawe**

CADWA LYGAD AM Y SYMBOL
ar bob un o'n tudalennau cwrs

abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi

AcademiHywelTeifi

AcademiHTeifi




## Arwain

Download on the App Store

ANDROID APP ON Google play

Lawrlwytha ap Arwain er mwyn derbyn y diweddaraf am ein cyrsiau a'n modiwlau cyfrwng Cymraeg, ynghŷd â gwybodaeth am y gefnogaeth ariannol gan Academi Hywel Teifi a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cei wybodaeth hefyd am y cyfleoedd i fyw a chymdeithasu yn y Gymraeg tra'n astudio yma.



# ASTUDIO A CHYMDEITHASU TRWY GYFRWNG *y Gymraeg*



**Gwern Dafis,**
Swyddog Materion Cymraeg,
Undeb y Myfyrwyr

"Yn fy rôl fel Swyddog Materion Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, byddaf yn cynrychioli'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. I wneud hyn, byddaf yn gwneud yn siŵr bod yr un cyfleoedd yn cael eu cynnig i fyfyrwyr Cymraeg â sy'n cael eu cynnig i holl fyfyrwyr eraill y Brifysgol.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddaf yn sicrhau bod yna gysondeb yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i defnydd ar draws ein campysau. Drwy gynnig cyfleoedd academaidd a chymdeithasol, mi fydd cyfleoedd i siaradwyr rhugl a dysgwyr gymdeithasu. Mae'n bwysig bod presenoldeb yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o brofiad pob myfyriwr sy'n ymweld ag Abertawe, ac felly trwy gynnal dathliadau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn mi fydd hyn yn gyflawnadwy."

## Y GYMDEITHAS GYMRAEG

Mae'r GymGym yn rhoi cyfleoedd amrywiol i ti gymdeithasu â siaradwyr Cymraeg eraill mewn amgylchedd anffurfiol. Mae'n gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd gan drefnu llu o weithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys tripiau rygbi, gigs, a chrôls, Eisteddfodau Rhyng-gol a llawer mwy. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn gweithio'n glos gyda Changen Abertawe o'r Coleg Cymraeg gan hefyd gefnogi Clwb Rygbi Tawe.

## AELWYD YR ELYRCH

Mae'r Aelwyd yn cynnig cyfleoedd i ti gystadlu yn yr Eisteddfod, gwirfoddoli yn y gymuned leol a bod yn rhan o weithgareddau ymarferol a llawer mwy. Mae'r Aelwyd yn cwrdd bob pythefnos mewn lleoliadau amrywiol ar gampysau'r Brifysgol.

Ystyr y gair Aelwyd yw cartref felly beth am ymuno â'n cartref newydd ni o fewn cymuned fawr yr Urdd.

Mae'r Aelwyd yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gymdeithas Gymraeg, Swyddog Materion Cymraeg, Undeb Myfyrwyr a Changen Abertawe.



Candelas yn perfformio yn Undeb y Myfyrwyr yn ystod Eisteddfod Ryng-golegol Prifysgol Abertawe

# Llysgenhadon y COLEG CYMRAEG



**CARA MEDI WALTERS**
Cymraeg a Hanes



**BECA MAI JAMES**
Iechyd a Gofal




**ELEN JONES**
Cymraeg, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## £3,000

**PRIF YSGOLORIAETH COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 66% o'u cwrs (80 credyd y flwyddyn) trwy'r Gymraeg

## £1,500

**YSGOLORIAETH CYMHELLIANT COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 33% o'u cwrs (40 credyd y flwyddyn) trwy'r Gymraeg

Academi Hywel Teifi | Prifysgol Abertawe Swansea University

## £300

**YSGOLORIAETH ACADEMI HYWEL TEIFI**

Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio 40 credyd trwy'r Gymraeg mewn un flwyddyn academaidd

## £100

**BWRSARIAETH ACADEMI HYWEL TEIFI**

Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio 5 credyd trwy'r Gymraeg mewn un flwyddyn academaidd

# MAE GEN *i Hawl*

Mae gen ti hawl gyfreithiol i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r hawliau yma wedi cael eu creu o ganlyniad i osod 'Safonau' ar y Brifysgol.

**LLYTHYRAU**
yn y Gymraeg

**CYFLWYNO GWAITH YSGRIFENEDIG**
yn y Gymraeg

**CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**
yn y Gymraeg

**TIWTOR PERSONOL**
sy'n siarad Cymraeg

**FFURFLENNI**
yn y Gymraeg

**CYFARFODYDD**
yn y Gymraeg

**TYSTYSGRIFAU**
yn y Gymraeg

**LLYFRYN CROESO**
yn y Gymraeg

**GWASANAETH CWNSELA**
yn y Gymraeg




## LLETY PENODOL I FYFYRWYR CYMRAEG

**Aelwyd Penmaen** ar Gampws Parc Singleton
**Aelwyd Emlyn** ar Gampws y Bae

## ADDYSG A PHROFIAD CYFRWNG CYMRAEG

ar draws ystod o bynciau

## TWF O 135% YN ASTUDIO 40+ CREDYD YN Y GYMRAEG

Ers 2011

## YSGOLHEIGION RHAGOROL

Rhai o brif ysgolheigion Cymru â bri rhyngwladol yn dysgu yma trwy gyfrwng y Gymraeg

## LLEOLIADAU GWAITH

Sy'n agor drysau wedi i ti raddio



A elli di fynd yn fyd-eang?

# Ewch Yn Fyd-Eang

Mae Prifysgol Abertawe yn ceisio cynnig cyfle i bob myfyriwr israddedig ennill profiad rhyngwladol trwy ystod o ddewisiadau gan gynnwys blwyddyn dramor, semester dramor a rhaglenni haf.

Mae treulio amser dramor yn rhoi cyfle i ti ddatblygu sgiliau newydd a rhwydwaith rhyngwladol gwerthfawr wrth adeiladu rhwydwaith rhyngwladol o ffrindiau a chysylltiadau. Fe fyddi di'n gallu:

- Meithrin hyder, datblygu hunanymwybyddiaeth ac aeddfedu
- Datblygu persbectif byd-eang ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol
- Bydd yn fwy gwydn
- Gwella sgiliau ieithyddol a chyfathrebu
- Datblygu sgiliau trosglwyddadwy i helpu dy ragolygon gyrfa

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang**

#SwanseaUniGlobal

**SwanseaUniGlobal** **SwanUniGlobal**

## BLWYDDYN NEU SEMESTER DRAMOR

Mae rhai cyrsiau yn caniatáu i ti dreulio blwyddyn neu semester dramor. Mae'r flwyddyn dramor yn ychwanegu blwyddyn at dy radd gyffredin. Yn dibynnu ar dy gwrs, fe fyddi di'n astudio mewn prifysgol partner, cwblhau lleoliad gwaith neu weithio fel cynorthwyydd dysgu. Mae hyn fel arfer yn digwydd yn ystod dy ail flwyddyn gradd tair blynedd. Cei ragor o wybodaeth ar dudalen we dy gwrs a hefyd ar-lein:

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang**

**NODER:** *Nid yw cofrestru ar raglen a chanddi semester neu flwyddyn dramor yn gwarantu dy semester neu flwyddyn dramor. Mae nifer cyfyngedig o leoedd ac maent yn dibynnu ar broses dethol gystadleuol a bydd angen i ti fodloni isafswm gofynion academaidd er mwyn cymryd rhan mewn rhaglen sy'n cynnwys semester neu flwyddyn dramor. Gall costau cyrchfannau a chostau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen amrywio. Os nad wyt ti'n sicrhau lleoliad dramor am semester neu flwyddyn, cei dy drosglwyddo i fersiwn gyffredin dy gynllun gradd heb semester neu flwyddyn dramor.*

## RHAGLENNI'R HAF

Mae rhaglenni'r haf ar agor i bob myfyriwr ac maent yn cynnig profiad rhyngwladol gwerthfawr yn ogystal â dy gynllun gradd. Gelli ddewis wrth raglenni interniaeth, gwirfoddoli, diwylliannol ac astudio mewn gwledydd yn cynnwys Tseina, Japan, Zambia, Fiji ac Ewrop. Efallai byddi di hefyd am feddwl am gymryd rhan mewn rhaglen rhithwir yr haf ar-lein i ddatblygu dy sgiliau cyflogadwyedd a dy rwydwaith rhyngwladol. Gweler ein gwefan i gael mwy o wybodaeth am bob cyfle:

**abertawe.ac.uk/rhaglenni-byr-a-rhaglenni-haf**

## CYLLID

Mae amrywiaeth o gyfleoedd ariannu ar gael i gefnogi myfyrwyr sy'n dewis mynd dramor, ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf, gweler:

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyllid-ac-ariannu**

# PROFIADAU *Myfyrwyr*




Cwblhaodd Alice flwyddyn dramor yng Nghanada fel rhan o'r cwrs BSc mewn Rheoli Busnes

**"Ym Mhrifysgol Windsor, cefais ddosbarthiadau gwych, a gwnaeth un roi'r cyfle i mi weithio fel intern mewn gŵyl ffilmiau. Cefais fewnwelediad gwerthfawr i'r byd gwaith a rhoddodd ddarlun cliriach o'r yrfa roeddwn am ei harchwilio."**



Cwblhaodd Tyler flwyddyn mewn diwydiant dramor ym Morneo fel rhan o'r cwrs BSc mewn Sŵoleg

**"Rhoddodd fy mlwyddyn mewn diwydiant gyfle anhygoel i weithio ymysg yr orang-wtanod gwyllt, pangolinod gwyllt, llewpartiaid brithion a chathod llewpart. Os wyt yn cael y cyfle i fynd dramor, cer amdani! Bydd y sgiliau y byddi'n eu datblygu'n amhrisiadwy."**



Cwblhaodd Niraj semester dramor yn yr UDA fel rhan o gwrs BEng Peirianneg Awyrofod

**"Enillais ddealltwriaeth well o'r ffordd y mae peirianneg yn cael ei haddysgu a'i harddangos yn yr UDA o'i chymharu ag arferion cyffredin yn Ewrop yr wyf yn gyfarwydd â nhw. Roedd fy semester dramor ym Mhrifysgol A&M Texas yn gyfle i mi brofi cynifer o bethau newydd, rhwydweithio a meithrin ffrindiau newydd."**



Treuliodd Romari (BSc mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff) fis yn Fiji dros yr haf, yn gwirfoddoli gyda Think Pacific

**"Penderfynais i gymryd rhan oherwydd roeddwn am wella fy hyder a fy sgiliau cyfathrebu. Rhoddodd y rhaglen Think Pacific y cyfle imi hyfforddi chwaraeon gwahanol yn Fiji. Fel myfyriwr gwyddor chwaraeon a rhywun sy'n dwlu ar hyfforddi, roedd hwn yn gyfle gwych i ddatblygu fy sgiliau hyfforddi."**



# UNDEB Y *Myfyrwyr*

swanseaunisu swanseaunisu swanseaunisu swanseaunisu



**Katie Phillips**
Llywydd Undeb y Myfyrwyr
2021-2022

SWANSEA UNIVERSITY STUDENTS' UNION
UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE

Caiff Undeb y Myfyrwyr ei gynnal gan fyfyrwyr, ar gyfer myfyrwyr. Rydyn yn elusen gofrestredig sy'n cefnogi ac yn cynrychioli'r holl fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Rydyn yn ethol swyddogion amser llawn bob blwyddyn, sy'n cynrychioli myfyrwyr ym mhopeth sy'n ymwneud â'r brifysgol; o Gymdeithasau a Gwasanaethau i Chwaraeon, materion Cymraeg a Lles ac Addysg.

Mae gennym gynrychiolwyr colegau a phynciau hefyd – dyma'r myfyrwyr sy'n gweithio gyda'r Brifysgol i ymdrin â phroblemau sydd gan fyfyrwyr ar eu cwrs.

Rydyn hefyd yn gyfrifol am y siopau a barriau ar y campws – JC's, Tafarn Tawe, Rebound, Root Zero, Costcutter a Fulton Outfitters. Mae'r holl arian sy'n cael ei wario yn y lleoliadau hyn yn mynd yn syth yn ôl i brofiad y myfyrwyr.

Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn trefnu Pythefnos y Glas, Dawns yr Haf, Varsity, Tooters a llu o ddigwyddiadau gwych eraill i ti eu mwynhau!

swansea-union.co.uk

## MAE UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE YN CYNNIG:

- Dros 150 o gymdeithasau a dros 50+ o glybiau chwaraeon
- Union Collective, platfform i helpu myfyrwyr gydag arian ac adnoddau i gymryd eu syniadau busnes ar lawr gwlad
- Cyfle i weithio ar gyfer y papur newydd myfyrwyr, gorsaf deledu a gorsaf radio
- Canolfan Gynghori a Chymorth yn helpu gyda phopeth o landlordiaid i anghyfodau academaidd
- Meithrinfa ar y campws sy'n hyblyg o gwmpas darlithoedd myfyrwyr
- Llais i fyfyrwyr yn y Brifysgol, gan sicrhau bod barn myfyrwyr yn cael ei glywed ar bob lefel








## YN DY GEFNOGI

Mae ein tîm yn cynnal ymgyrchoedd trwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o faterion, a mentrau hynod bwysig i dy gefnogi ti! Dyma ychydig yn unig:

**Cymorth Astudio:** Gwasanaethau am ddim i dy helpu i ymdopi â chyfnodau astudio dwys, gan gynnwys ymweliad gan gŵn bach cudd gan ein ffrindiau yn Achub Milgwn Cymru.

**Rhyddhad:** Rydyn ni am i bawb deimlo'n ddiogel, i'w croesawu, a'u cynnwys yn Abertawe. Felly rydyn ni'n cynnal ymgyrchoedd trwy gydol y flwyddyn ar bynciau fel Hanes Pobl Dduon, Balchder LGBTQ +, Ymwybyddiaeth Anabledd, a Hawliau Traws i addysgu'r gymuned myfyrwyr ehangach a gwneud ein campysau mor gynhwysol â phosib!

**Tashwedd:** Yn ystod Tashwedd, rydyn ni'n rhoi cymuned o Mo Bros a Mo Sisters ar waith sy'n gwneud gwahaniaeth drwy godi arian a hybu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac atal hunanladdiad, canser y prostad a chanser y ceilliau. Dyma un o'n hymgyrchoedd mwyaf, ac mae bob amser yn sioe ledled y Brifysgol.

Os wyt ti am ein dilyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut brofiad yw bod yn fyfyriwr yn Abertawe, rydyn ni ar Instagram, TikTok, Facebook, a Twitter, gelli ddod o hyd i ni fel **@SwanseaUniSU**



# Chwaraeon I Bawb

CHWARAEON ABERTAWE | SPORT SWANSEA
Prifysgol Abertawe | Swansea University

Yma yn Abertawe, rydyn yn ymfalchïo yn ein hymroddiad a'n hymrwymiad i chwaraeon a ffyrdd actif o fyw. Mae gennym gyfleoedd chwaraeon sy'n addas i bob un o'n myfyrwyr, o'r athletwyr elît/rhyngwladol i'r rhai sy'n dechrau o'r dechrau, mae rhywbeth at ddant pawb.

abertawe.ac.uk/chwaraeon

## CYFLEUSTERAU

Gydag ystod helaeth o gyfleusterau chwaraeon ar gael i fyfyrwyr ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe ar bwys Campws Singleton ac ar Gampws y Bae hefyd, mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau dan do a rhai awyr agored.

Mae gan y ddau gampws gyfleusterau iechyd a ffitrwydd ardderchog, gan gynnwys offer a dosbarthiadau o'r radd flaenaf. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cyfleuster cryfder a chyflyru o'r radd flaenaf (Y Sied) sydd ar gael i athletwyr elît a thimau.

Mae Crysau Duon Seland Newydd wedi defnyddio ein cyfleusterau chwaraeon i hyfforddi ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, ac mae ein pwll cenedlaethol 50m wedi'i ddefnyddio gan athletwyr wrth baratoi ar gyfer gemau Olympaidd a Pharalympaidd ac ar hyn o bryd mae'n gartref i raglen perfformiad uchel Nofio Cymru.

Mae ein timau pêl-droed yn cael defnyddio cyfleuster hyfforddi o safon fyd-eang yn Fairwood, sy'n brif gae hyfforddi i Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

### Mae ein hystod eang o gyfleusterau chwaraeon yn cynnwys:

- Cae Artiffisial ar sail dŵr
- Caeau Chwarae
- Cyrtiau tennis
- Gwasanaeth llogi beiciau a llwybrau rhedeg
- Neuaddau chwaraeon amlbwrpas ac ardaloedd gemau awyr agored
- Pafiliwn chwaraeon
- Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe
- Trac a chae athletau
- Trac athletau dan do

## AELODAETH O'R GAMPFA

Fel rhan o ffordd o fyw gytbwys ac iach ym Mhrifysgol Abertawe, gall myfyrwyr ymaelodi â'r gampfa a chael nifer o fanteision am bris llai. Mae bod yn aelod hefyd yn rhoi i ti'r manteision canlynol:

- Y gallu i ddefnyddio 69 o gampfeydd yn y DU fel rhan o gynllun UNIversal BUCS.
- Mynediad at gyfleusterau campfeydd ar Gampws y Bae ac ar Gampws Singleton
- Dosbarthiadau ffitrwydd
- Wi-Fi am ddim wrth i ti hyfforddi



**Alun Wyn Jones**

Llewod Prydain ac Iwerddon, chwaraewr Cymru a'r Gweilch a chyn-fyfyriwr y Gyfraith, Abertawe

**“O ganlyniad i'r Ysgoloriaeth Chwaraeon yn y brifysgol, ces i gyfle i ddilyn dau lwybr gyrfaol ar yr un pryd. Mae gen i atgofion melys o fy amser ym Mhrifysgol Abertawe, yn enwedig ennill Gêm y Prifysgolion. Dwi'n gwybod na fydd gyrfa mewn chwaraeon yn para am byth, felly dwi'n fodlon ystyried dychwelyd i wella fy nghymwysterau yn y dyfodol.”**



YN OGYSTAL Â'N LLEOLIAD ARFORDIROL RHAGOROL, MAE ABERTAWE'N CYNNIG RHAI O'R CHWARAEON GORAU MEWN UNRHYW BRIFYSGOL YM MHRYDAIN

YSGOLORIAETHAU

HYD AT **£2,000**

Gweler y wefan ar gyfer yr amodau:

**abertawe.ac.uk/israddedig/ysgoloriaethau**

## YSGOLORIAETHAU CHWARAEON, A CHYNLLUN YSGOLORIAETHAU I ATHLETWYR DAWNUS (TASS)

Mae’r Brifysgol yn cynnig ysgoloriaethau i athletwyr dawnus iawn a phecyn cymorth gwerth hyd at £2,000 y flwyddyn a allai gynnwys; hyfforddiant cryfder a chyflyru, ffisiotherapi, cymorth seicolegol a chyngor maethol – a darperir pob un ohonynt gan ymarferwyr cymwys. Gall buddion eraill gynnwys aelodaeth o gyfleusterau am ddim a hawlen i barcio ar y campws.

## VARSITY

Varsity Cymru yw'r digwyddiad mwyaf i fyfyrwyr yng Nghymru, a’r ail fwyaf ymhlith Gemau Varsity Prydain, tu ôl i’r gêm rhwng Rhydychen a Chaergrawnt.

Yn ystod Gemau'r Prifysgolion, mae Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd yn cystadlu mewn dros 30 o gampau gwahanol, fel pêl-fasged, rhwyfo, golff, a hoci, cleddyfaeth, sboncen a ffrisbi eithafol, a'r uchafbwynt yw gemau rygbi’r undeb mewn stadiwm fawr.

**VARSITY: ABERTAWE VS CAERDYDD**

YouTube

## RHAGLEN PERFFORMIAD UCHEL

Mae ein rhaglenni Perfformiad Uchel yn cynnig amgylchedd hyfforddi a chystadlu elît i athletwyr mewn ystod o gampau, gyda phob un yn cael ei gyflenwi mewn cydweithrediad â chlwb chwaraeon proffesiynol neu gorff llywodraethu cenedlaethol. Mae pob camp yn derbyn hyfforddiant perfformiad uchel, gwasanaethau ym maes y gwyddorau chwaraeon, rheoli ffordd o fyw athletwyr, ffisiotherapi a chymorth cryfder a chyflyru. Ar hyn o bryd, dyma'r chwaraeon: rygbi’r undeb, pêl-droed, nofio, hoci a thennis bwrdd.

**abertawe.ac.uk/israddedig/ysgoloriaethau**

## CHWARAEON CYSTADLEUOL

Ni yw'r Brifysgol sy'n gwella gyflymaf yn nhablau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) ac roeddem yn y 18fed safle yn nhabl 2018-19. Ceir ystod eang o gyfleoedd i ti gynrychioli'r Brifysgol yn gystadleuol yng ngemau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain a chystadlaethau domestig allweddol oherwydd cei ymaelodi â dros 50 o glybiau chwaraeon. Mae ein clybiau'n cynnig ystod o sesiynau hyfforddi a arweinir gan hyfforddwyr i roi'r cyfle i ti gyflawni dy nodau o ran chwaraeon.

DUAL CAREER ACCREDITED tass

**18** FED **SAFLE BUCS**

Tabl Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) 2018-19

























Google Trends
Sense-making


30.4°C










School of Management
Yr Ysgol Reolaeth






Vegan


Cwtsh
Ymlacio. Gorffwys. Adnewyddu
Relax. Rest. Refresh





# GWNEUD CYNALIADWYEDD YN RHAN HANFODOL O *fywyd Prifysgol*



Yma ym Mhrifysgol Abertawe, rydyn yn ffodus bod gennym amrywiaeth eang o gynefinoedd i'w mwynhau, o draethau i goetir a pharciau, ac rydyn yn angerddol am ddatblygu cynaliadwy er lles ein cymuned leol, y DU a'r byd ehangach.

Fel myfyriwr, bydd digon o gyfleoedd i ti gyfrannu at gadwraeth ymarferol. Gelli wirfoddoli i helpu i gadw'r ardaloedd hyn yn arbennig drwy gymryd rhan yn ein sesiynau rheolaidd i lanhau'r traethau, ein partïon gwaith a monitro bywyd gwyllt. Yn ogystal â helpu'r amgylchedd, byddi di'n dysgu sgiliau newydd ac yn cwrdd â ffrindiau newydd ar yr un pryd.

## Y WOBR CYNALIADWYEDD

P'un a oes gen ti ddiddordeb mewn ailgylchu, bioamrywiaeth, lles, neu unrhyw beth yn y canol, bydd gennym rywbeth i ti!

Y **Wobr Cynaliadwyedd** yw ein rhaglen unigryw i ymgysylltu â myfyrwyr. Gall myfyrwyr o unrhyw bwnc, mewn unrhyw flwyddyn o'u gradd, weithio tuag at y wobr hon yn ystod eu hamser gyda ni ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae cwblhau'r wobr yn cyfrannu at dy gofnod academydd ac yn dysgu ystod eang o sgiliau i ti.

**abertawe.ac.uk/cynaliadwyedd**

10 UCHAF YN Y DU

people & planet CYNGHRAIR PRIFYSGOL

(Cynghrair People & Planet 2021)

Green Flag Award® Gwobr Y Faner Werdd

(2021/22)

Yr unig dabl cynghrair cynhwysfawr ac annibynnol o brifysgolion y DU wedi'u rhestru yn ôl perfformiad amgylcheddol a moesegol.

**"Plastigau, gan gynnwys poteli plastig untro, yw'r math o sbwriel a ddarganfyddir amlaf ar draethau'r DU ac nid oes rhaid i ti edrych yn bell i'w canfod yn sbwriel ein trefi a'n mannau gwyrdd hefyd.**

DŴR TAP AM DDIM YMA · FREE TAP WATER HERE · Refill · refill.org.uk

**Mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol gynaliadwy flaenllaw ac rydyn wrth ein bodd yn gallu cefnogi Refill gyda'n partneriaid yn Abertawe Plastig Am Ddim ac Undeb y Myfyrwyr. Mae Swyddogion Undeb y Myfyrwyr wedi bod yn brysur iawn yn cefnogi lansio'r ymgyrch; bellach, mae gennym o leiaf 30 o orsafoedd Adnewyddu ar draws ein campysau Bae a Pharc Singleton i'r gymuned gyfan eu defnyddio."**

**Teifion Maddocks**
Swyddog Cynaliadwyedd a Lles
Prifysgol Abertawe

# Talu am DY RADD

## £3,000
### YSGOLORIAETHAU RHAGORIAETH
AAA ar Safon Uwch neu gymhwyster cyfatebol*

## £2,000
### YSGOLORIAETHAU TEILYNGDOD
AAB ar Safon Uwch neu gymhwyster cyfatebol*

HYD AT
## £3,000
### COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL
Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio rhan o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg*

HYD AT
## £2,000
### CHWARAEON
pecyn ysgoloriaeth*

HYD AT
## £1,000
### RHAGORIAETH CERDDOROL
ysgoloriaethau*

*Gweler amodau a thelerau ar **abertawe.ac.uk/ysgoloriaethau**

## FFIOEDD DYSGU
Codir ffioedd dysgu israddedig yn flynyddol i bob myfyriwr. Bydd swm y disgwylir i ti dalu yn dibynnu ar ble rwyt ti'n byw, beth rwyt ti'n astudio, ac ar ba lefel.

## MYFYRWYR O GYMRU
Bydd Prifysgol Abertawe'n codi ffioedd dysgu o £9,000* y flwyddyn. Fodd bynnag, os wyt yn byw yng Nghymru, ac yn astudio ar gyfer dy radd gyntaf, ni fydd rhaid i ti dalu'r ffioedd dysgu ymlaen llaw. Bydd gen ti hawl i gael benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £9,000* y flwyddyn.

I helpu gyda chostau byw, gelli dderbyn cymysgedd o grantiau a benthyciadau o hyd at £10,350* y flwyddyn os wyt yn byw oddi cartref y tu allan i Lundain. Bydd swm y grant a allai fod ar gael i ti yn dibynnu ar incwm dy deulu. Am ragor o wybodaeth:

**cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## MYFYRWYR O LOEGR
Bydd Prifysgol Abertawe yn codi ffioedd dysgu o £9,000* y flwyddyn. Fodd bynnag, os wyt ti'n byw yn Lloegr, ac yn astudio ar gyfer dy radd gyntaf, ni fydd yn rhaid i ti dalu'r ffioedd ymlaen llaw.

- Rwyt yn gymwys i dderbyn benthyciad ffioedd dysgu o £9,000*
- I helpu gyda chostau byw, rwyt yn gymwys am fenthyciad cynhaliaeth o hyd at uchafswm o £9,488*

Bydd faint o fenthyciad cynhaliaeth rwyt yn ei dderbyn yn dibynnu ar incwm yr aelwyd. Am ragor o wybodaeth:

**thestudentroom.co.uk/student-finance**

## MYFYRWYR O'R ALBAN/GOGLEDD IWERDDON
Bydd Prifysgol Abertawe yn codi ffioedd dysgu o £9,000* y flwyddyn. Fodd bynnag, os wyt ti'n byw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ac yn astudio ar gyfer dy radd gyntaf, bydd gen ti hawl i gael benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £9,000* y flwyddyn a chefnogaeth tuag at dy gostau byw. Am ragor o wybodaeth:

**saas.gov.uk or studentfinanceni.co.uk**

## MYFYRWYR O WERINIAETH IWERDDON A MYFYRWYR GYDA STATWS SEFYDLOG NEU STATWS CYN SEFYDLU
Bydd Prifysgol Abertawe'n codi ffioedd dysgu o £9,000* y flwyddyn. Fodd bynnag, byddi di'n gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu ad-daladwy o £9,000.* Efallai, y byddi di hefyd yn gymwys i gael cymorth cynhaliaeth i helpu gyda dy gostau byw. Am ragor o wybodaeth, cer i'n tudalennau gwe Benthyciadau a Grantiau Myfyrwyr:

**abertawe.ac.uk/israddedig/ffioedd-a-chyllid/benthyciadau-a-grantiau/rydw-i'n-wladolyn-yr-ue**

## AD-DALIADAU

Nid oes rhaid dechrau ad-dalu benthyciadau tan dy fod wedi gorffen astudio ac yn ennill dros y symiau trothwy y cytunwyd arnynt* (nid oes rhaid ad-dalu grantiau a bwrsariaethau). Ar gyfer Cymru, Lloegr a'r UE, y swm trothwy ar hyn o bryd yw £27,295 ar gyfer Gogledd Iwerddon £19,895; a'r Alban yn £25,000. Y swm y byddi di'n ei dalu fydd o leiaf 9% o'r gwahaniaeth rhwng y swm trothwy penodol a'r hyn rwyt ti'n ei ennill.

Mae'r tabl yn dangos faint yw'r swm misol y gall myfyriwr o Gymru/o Loegr/o'r UE ddisgwyl ei dalu.

| INCWM BLYNYDDOL | CYFLOG WYTHNOSOL | AD-DALIAD WYTHNOSOL |
|---|---|---|
| £25,000 | £480 | £0 |
| £30,000 | £577 | £4.68 |
| £35,000 | £673 | £13.34 |
| £40,000 | £769 | £21.99 |



AM GOSTAU BYW NODWEDDIADOL A LLETY, GWELER TUDALEN 27-29

*Mae pob ffigwr yn cyfeirio at y swm ar gyfer 2021/2022, gyda'r bwriad o roi braslun yn unig. Mae Ffioedd Dysgu Israddedig y DU (cartref) yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru a gallant gynyddu o £9000 yn y blynyddoedd i ddod. Cyhoeddir cyfraddau newydd ar ein gwefan mor fuan ag y byddant yn hysbys: **abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau**

## DARGANFYDDA FWY

Mae cymorth ariannol i dalu am dy radd ar gael i ti:

**abertawe.ac.uk/israddedig/ffioedd-a-chyllid**

Ymholiadau cyllidol cyffredinol:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru 0300 200 4050**

**Cyllid Myfyrwyr Lloegr 0300 100 0607**

Gwybodaeth neu gymorth ariannol penodol:

**money@campuslife@abertawe.ac.uk**

**01792 606699**



**5ED RHENT MISOL ISAF YM MHRESWYLFA PREIFAT O BLITH DINASOEDD PRIFYSGOL Y DU**

(Mynegai Byw Myfyrwyr Natwest 2020)

# RHIENI A Gwarcheidwaid

Rydyn ni'n gwybod bod y broses o wneud cais i brifysgol yn gallu ymddangos yn frawychus. Trwy ymuno â'n cylchlythyr rhieni a gwarcheidwaid byddwn yn eich helpu i ddeall proses ymgeisio'r brifysgol a'ch hysbysu am ddyddiadau cau pwysig, yn ogystal ag anfon awgrymiadau a nodiadau atgoffa atoch i gefnogi'ch plentyn i wneud cais i'r brifysgol.

**abertawe.ac.uk/astudio/rhieni-a-gwarcheidwaid**



# Yr hyn y gallwch ei wneud

Beth bynnag fo'r canlyniad, y peth pwysicaf i'w gofio yw peidio â chynhyrfu.

## YMCHWIL

Gyda miloedd o gyrsiau ar gael mewn cannoedd o brifysgolion ar draws y DU, byddem yn eich annog i drafod yr hyn yr hoffai eich mab neu ferch ei gael o'u dyfodol.

Ar ôl penderfynu ar yr hyn yr hoffent ei astudio, y penderfyniad hollbwysig nesaf yw ble. Mae'n bwysig iawn eu bod yn dewis y brifysgol gywir ar eu cyfer gan y byddant yn treulio'r 3-5 mlynedd nesaf o'u bywyd yno.

## DIWRNODAU AGORED

Ar ôl i'ch mab neu ferch greu rhestr fer o'u hopsiynau, argymhellwn eu bod yn mynychu diwrnodau agored. Mae diwrnodau agored prifysgol, boed yn rhai rhithwir neu'n wyneb i wyneb, yn un o'r ffyrdd gorau o ymchwilio, gan ganiatáu ichi weld y campws a'r cyfleusterau, cwrdd â staff a myfyrwyr, gofyn eich cwestiynau eich hun ac yn fwy pwysig, gael ymdeimlad o'r campws. Cynhelir ein diwrnodau agored trwy gydol y flwyddyn a cheir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/diwrnodau-agored**

## CAIS UCAS

Cwblheir ceisiadau prifysgol drwy UCAS ac mae sawl dyddiad allweddol y dylai'ch mab neu ferch fod yn ymwybodol ohonynt i sicrhau y cyflwynir eu cais ar amser. Bydd modd iddynt gyflwyno cais am uchafswm o bum cwrs prifysgol a bydd angen iddynt ysgrifennu datganiad personol. Bydd hefyd modd iddynt gyflwyno cais trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallwch eu cefnogi i gyflwyno cais cryf drwy drafod syniadau â nhw a chynnig prawf-ddarllen y cais. Gweler tudalen 54 – Sut i wneud cais.

## CYLLID

Gall y gost o ran mynd i'r brifysgol fod yn bryder i rieni, ond mae cyllid ar gael sy'n caniatáu i addysg uwch fod yn hygyrch i bawb. Sylwer nad oes angen i neb dalu ymlaen llaw a bydd ad-daliadau'n gysylltiedig â chyflog eich mab neu ferch ar ôl graddio. Gweler tudalen 50 – Ffioedd ac Ariannu.

## LLETY

Trafodwch yr opsiynau llety gwahanol â'ch mab neu ferch i'w helpu i wneud y dewis gorau ar eu cyfer. Gallent fyw gartref, yn neuaddau preswyl y brifysgol neu mewn llety preifat. Mae gan Brifysgol Abertawe neuaddau preswyl mewn pedwar lleoliad gwahanol, ac mae ganddi ardaloedd dynodedig gan gynnwys rhai tawel, un rhyw, di-alcohol, siaradwyr Cymraeg a myfyrwyr aeddfed. I siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno byw gyda'i gilydd, ceir Aelwyd Penmaen ar Gampws Singleton ac Aelwyd Emlyn ar Gampws y Bae. Hefyd rydyn yn gwarantu llety yn y neuaddau preswyl a reolir gan y brifysgol ar gyfer ceisiadau a gyflwynir cyn 30 Mehefin. Gweler tudalen 26 – Llety.

## DIWRNOD CANLYNIADAU

Gall diwrnod canlyniadau fod yn brofiad emosiynol iawn. I'r rhan fwyaf o fyfyrwyr, bydd diwrnod canlyniadau'n gyfle i ddathlu dwy flynedd o waith caled a sicrhau lle yn y brifysgol gyntaf o'u dewis, ond i rai myfyrwyr, mae'n bosib y bydd angen iddynt newid eu cynlluniau gwreiddiol. Beth bynnag y bo'r canlyniad, y peth pwysicaf i'w gofio yw peidio â phoeni. Mae llawer o gefnogaeth ac opsiynau eraill ar gael hefyd a gallant fynd ymlaen i gael profiad gwych yn y brifysgol.

## COFRESTRU

Pan fydd eich mab neu ferch yn gadael cartref am y tro cyntaf, gall pethau i'w hatgoffa am gartref fod yn gysur iddynt a'u helpu i ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd. Mae'n bwysig iddynt gymryd ychydig wythnosau i ymgartrefu, rhoi trefn ar bethau ac ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd. Os bydd eich mab neu ferch yn dewis byw gartref, ceisiwch annog ef/hi i ymuno â chlybiau a chymdeithasau.

# GWNEUD *Cais*

Y ffordd symlaf o wneud cais yw ar-lein ar: **ucas.com**
Côd Prifysgol Abertawe yw S93.
Gwiria ein rhestr o gyrsiau ar gyfer UCAS a chodau cwrs UCAS: **abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau**

## BETH SYDD EI ANGEN ARNAT?

Caiff ymgeiswyr eu hystyried ar sail eu rhinweddau eu hunain, a gall cynigion amrywio, fodd bynnag, rydyn yn **gwarantu** y byddi di'n derbyn cynnig amodol ar gyfer cwrs ym Mhrifysgol Abertawe*. Y cynnig nodweddiadol a nodir ar dudalennau meysydd pwnc yn y prosbectws hwn yw tri chymhwyster Safon Uwch. Serch hynny, rydyn yn fodlon derbyn amrywiaeth o gymwysterau eraill, felly gwiria dudalennau'r cyrsiau unigol ar ein gwefan am feini prawf mwy penodol pynciau unigol ar:

**abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau**

Fel arfer, dylai ymgeiswyr fod wedi pasio TGAU Cymraeg neu Saesneg ar radd C (4) neu'n uwch (neu gyfwerth).

Rydyn hefyd yn croesawu amrywiaeth eang o gymwysterau eraill, ac rydyn yn adolygu derbynioldeb cymwysterau newydd yn rheolaidd. Felly, os wyt yn sefyll arholiadau sydd heb eu rhestru, cysyllta â'r Swyddfa Dderbyn.

Os yw myfyrwyr yn gallu ychwanegu at eu tair Safon Uwch drwy astudiaethau pellach, er enghraifft, pwnc neu bynciau ychwanegol ar Safon Uwch, cânt eu hannog i wneud hynny. Credwn y gall astudio ychwanegol, ar amrywiaeth o ffurfiau, dy helpu i baratoi ar gyfer galwadau'r brifysgol ond, gan fod gwahanol ysgolion a cholegau'n cynnig ystod a nifer o bynciau gwahanol, fyddi di ddim dan anfantais os nad oes modd i ti wneud hynny.

## BAGLORIAETH CYMRU UWCH

Rydyn yn croesawu'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru Uwch wedi'i graddio a bydd ymgeiswyr yn gallu bodloni ein gofynion ar sail tair Safon Uwch neu ddwy Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae detholiad o Gynigion Prosiect Unigol, sy'n ymwneud ag amrywiaeth o feysydd pwnc ym Mhrifysgol Abertawe, i'w weld ar wefan CBAC hefyd.

## EPQ*

Rydyn yn cydnabod y Cymhwyster Prosiect Estynedig fel dangosydd llwyddiant gwych ar ein cynlluniau astudio. Bydd ymgeiswyr sydd â gradd a ragwelir o B neu uwch drwy EPQ yn derbyn cynnig gyda gostyngiad un radd, er enghraifft byddai cynnig AAB yn golygu ABB yn ogystal â B EPQ. Rydyn yn annog ymgeiswyr i ddisgrifio ymchwil EPQ o fewn datganiad personol UCAS, yn enwedig pan fo'n addas i'w cwrs/gyrfa o ddewis.

**Newidiadau i gymwysterau mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban:**

Rydyn yn cydnabod y newidiadau i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn Lloegr, ynghyd â fframweithiau cymwysterau gwahanol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

** Nid yw cynigion amodol gwarantedig a gostyngiadau i ymgeiswyr sy'n cynnig gradd B a ragwelir yn EPQ yn berthnasol i gyrsiau proffesiynol a bod gweithdrefnau dethol arferol yn berthnasol. Ar gael i ymgeiswyr Cartref yn unig. Am fanylion llawn o'n Polisi Cynnig Gwarantedig, gweler: abertawe.ac.uk/israddedig/gwneud-cais/cynigion-wedi-gwarantu/*

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Ar ôl i ni dderbyn dy gais, bydd staff y Swyddfa Dderbyn yn gwirio dy fod yn bodloni'r gofynion mynediad ac yn asesu dy ddatganiad personol a dy eirda i sicrhau bod gen ti'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i astudio'r pwnc. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth o dy ymrwymiad a dy gymhelliad, ac yn talu sylw i dy lwyddiannau.

Mae gennym ddiddordeb mewn pobl a fydd yn achub ar y cyfle i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd, a fydd yn elwa fwyaf o'r profiad yn Abertawe. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn pobl a fydd yn ychwanegu gwerth at chwaraeon, diwylliant, a bywyd cymdeithasol ein cymuned.

Bydd UCAS yn rhoi gwybod i ti os byddwn yn cynnig lle i ti ac a oes unrhyw amodau arbennig. O bryd i'w gilydd, gall aelod o staff y Coleg neu'r Ysgol sydd o ddiddordeb i ti awgrymu y byddi'n derbyn cynnig, ond nid yw hyn yn ymrwymiad pendant – arhosa am gynnig ffurfiol gan UCAS.

Ar ôl adolygu dy gais, mae'n bosib y byddwn yn dy wahodd i gyfweliad i ddod i dy adnabod yn well. Yn aml, mae cwrdd â darpar fyfyrwyr mewn cyfweliadau a Diwrnodau Agored yn caniatáu'r hyblygrwydd i ni deilwra ein cynigion at gryfderau pob unigolyn.

Os yw'n cynnig yn un amodol, yna dim ond pan gaiff y canlyniadau eu cyhoeddi y bydd dy gais yn cael ei dderbyn yn derfynol. Os wyt yn derbyn ein cynnig amodol yn gadarn ond os nad wyt yn ennill y canlyniadau angenrheidiol yn dy arholiadau, mae'n bosib y gallwn gadarnhau dy gynnig ar sail dy berfformiad cyffredinol.

I gael rhagor o wybodaeth am ein polisïau a'n gweithdrefnau derbyn, ymwêl â:

**abertawe.ac.uk/derbyn-myfyrwyr**

Siarad ag aelod o'n tîm Derbyn ar gyfer dy gais gan ddefnyddio ein sgwrs fyw:

**abertawe.ac.uk/astudio/derbyn-myfyrwyr/gofynnwch-innin-fyw**

# Ymgeisio
## I BRIFYSGOL

**01**

### TRWY GYDOL Y FLWYDDYN
### DIWRNODAU AGORED

Mynychu Diwrnodau Agored Prifysgol Abertawe yw'r ffordd gorau i brofi bywyd myfyriwr! Dyma dy gyfle i ddysgu mwy am dy gwrs, sut byddi di'n cael dy addysgu a pha gyfleoedd sydd ar gael i ti. Mae Prifysgol Abertawe'n cynnig rhaglenni astudio a gweithio dramor gwych. Ble gelli di fynd gyda dy radd?

**02**

### CHWEFROR
### DECHRAU CYNLLUNIO

Pa bynciau rwyt yn eu mwynhau a pha gyrsiau sydd o ddiddordeb i ti? Dechreua feddwl am y cynlluniau gradd yr hoffet wneud cais amdanynt a beth yw'r gofynion mynediad.

**03**

### MAWRTH – MEHEFIN
### MYNYCHU ARDDANGOSFA

Cwrdd â staff Prifysgol Abertawe; cyfle gwych i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gen ti am y cyrsiau sydd ar gael neu fywyd fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe.



**04**

### MEDI – GWNEUD CAIS

Gelli wneud cais i Brifysgol Abertawe drwy UCAS, gan ddefnyddio'r côd S93. Cofia wirio'r dyddiad cau a chyflwyno dy gais mor gynnar â phosib.

**05**

### HYDREF – EBRILL
### DERBYN DY GYNNIG

Cei wybod a wyt wedi cael lle i astudio ar dy ddewis cwrs/cyrsiau.



## 06

### IONAWR – MEHEFIN BYDD YN BAROD

Nawr yw'r amser i gyflwyno dy gais am lety a chyllid myfyrwyr. Mae dy gais am lety wedi gwarantu os wyt yn gwneud cais erbyn 30 Mehefin.





## 07 MAI – DY GYNNIG

Gelli dderbyn dy gynnig drwy fewngofnodi i UCAS Track.



## 08

### AWST – CANLYNIADAU

Bydd canlyniadau dy arholiadau'n cael eu cyhoeddi yn yr haf ac, os wyt yn bodloni telerau dy gynnig i astudio ym Mhrifysgol Abertawe, caiff dy gynnig ei gadarnhau. Cei wybod hefyd os wyt yn gymwys am ysgoloriaeth academaidd hyd at £3,000.

## 09

### MEDI – COFRESTRU

Byddi di'n derbyn dy becyn cofrestru ac yn dechrau dy fywyd fel myfyriwr yn Abertawe! Mae Wythnos y Glas yn gyfle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd ac ymaelodi â'r clybiau, y cymdeithasau a'r timau chwaraeon sydd o ddiddordeb i ti!



# BLWYDDYN SYLFAEN

## BETH YW BLWYDDYN SYLFAEN?

Os nad oes gen ti'r gofynion mynediad angenrheidiol sydd eu hangen arnat i gael dy dderbyn i flwyddyn gyntaf gradd, gelli wneud cais am le ar gwrs gradd sydd â Blwyddyn Sylfaen Integredig. Ystyr hyn yw y byddi'n astudio am bedair blynedd yn hytrach na thair. Bydd Benthyciadau i Fyfyrwyr hefyd yn talu am y flwyddyn sylfaen.

Yn ystod dy flwyddyn gyntaf, byddi'n gallu gwella dy sgiliau a gwella dy ddealltwriaeth o'r pwnc. Ar ôl cwblhau'r flwyddyn sylfaen yn llwyddiannus byddi yna'n mynd yn syth i mewn i'r prif gwrs gradd. Pan fyddi di'n graddio, bydd fel petait wedi graddio o'r cwrs gradd tair blynedd a bydd dy gymhwyster yn radd Baglor, e.e. BSc (Anrh) neu BA (Anrh).

## A FYDD ASTUDIO BLWYDDYN SYLFAEN YN GOLYGU FY MOD Y TU ÔL I FYFYRWYR ERAILL?

Ddim o gwbl – mae llawer o'n myfyrwyr sydd wedi astudio blwyddyn sylfaen yn perfformio'n well na myfyrwyr sy'n dechrau ar flwyddyn gyntaf y brif radd. Mae llawer ohonynt yn mynd ymlaen i gael graddau dosbarth cyntaf, maen nhw'n llysgenhadon gwych ar gyfer y Brifysgol ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr yn eu hadran.

Graddiodd Nathan Pine sy'n gyn-fyfyriwr yn yr adran Ffiseg gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf, a chanlyniad terfynol anhygoel o 92%. Rhestrwyd Nathan hefyd yn gydawdur ar bapur ymchwil ochr yn ochr â'i diwtor a myfyriwr PhD. Ddim yn ffôl ar gyfer myfyriwr israddedig!

## DYWEDODD NATHAN:

**“Ni wireddais fy mhotensial llawn yn y chweched dosbarth felly yn ystod fy mlwyddyn sylfaen a'r flwyddyn gyntaf yn Abertawe, sylweddolais mai fy astudiaethau oedd fy mhrif flaenoriaeth, a llwyddais i gael marciau uwch ac uwch. Rhoddodd hyn agwedd gadarnhaol i mi at fy ngwaith pan es i ymlaen i'r ail a'r drydedd flwyddyn, gan adael i mi ennill canran uchel iawn yn gyson ar draws amrywiaeth o fodiwlau.”**

## PA SGILIAU ERAILL Y GALLAF EU DYSGU YN YSTOD FY MLWYDDYN SYLFAEN?

Yn dibynnu ar dy bwnc, fe elli di fireinio sgiliau eraill y gallai fod eu hangen arnat. Er enghraifft, os wyt am astudio Ffiseg, ond dy arholiad Mathemateg Safon Uwch a dy siomodd, mae'r flwyddyn sylfaen yn rhoi cyfle gwych i ti ddatblygu dy sgiliau Mathemateg at y safon. Byddi hefyd yn dod yn fwy hyderus yn dy allu dy hun.

## PA GYMWYSTERAU SYDD EU HANGEN ARNAF I WNEUD CAIS?

Rydyn yn ystyried ceisiadau ar sail eu rhinweddau eu hunain, felly gall cynigion amrywio, ond rydyn yn gwarantu ** y byddwn yn rhoi cynnig i ti.

Gallai hyn fod ar ffurf cynnig nodweddiadol o raddau. Rhestrir y cynnig nodweddiadol ar y tudalennau pwnc yn y prosbectws hwn, ond rydyn yn hapus i dderbyn ystod o gymwysterau eraill. Felly, gwiria'r tudalennau cyrsiau unigol ar ein gwefan i gael meini prawf mwy manwl a phenodol i'r pwnc:

**abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau**

*** gweler tudalen 54*

## MEYSYDD PWNC BLWYDDYN SYLFAEN INTEGREDIG

- Biowyddorau
- Biocemeg
- Biocemeg a Geneteg
- Biocemeg Feddygol
- Cemeg
- Cyfrifeg a Chyllid
- Cyfrifiadureg
- Cymdeithas a Lles
- Daearyddiaeth
- Economeg
- Ffarmacoleg Feddygol
- Fferylliaeth
- Ffiseg
- Geneteg
- Geneteg Feddygol
- Gwyddoniaeth
- Gwyddor Actiwaraidd
- Gwyddorau Meddygol Cymhwysol
- Iechyd Poblogaethau a'r Gwyddorau Meddygol
- Marchnata
- Mathemateg
- Peirianneg
- Rheoli Busnes
- Seicoleg
- Y Dyniaethau

## BIOCEMEG / BIOCEMEG A GENETEG / BIOCEMEG FEDDYGOL / FFARMACOLEG FEDDYGOL
CAMPWS SINGLETON

CYNNIG NODWEDDIADOL:

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
Caiff pob cais ei ystyried yn unigol. Os nad wyt ti'n meddwl dy fod yn bodloni ein gofynion mynediad BSc safonol, cysyllta â ni i drafod dy gymwysterau ar gyfer mynediad i'r Flwyddyn Sylfaen. Dylai'r cymwysterau gynnwys Cemeg.

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C (4) o leiaf

Bydd y Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn dy helpu i ddatblygu sgiliau allweddol a gwybodaeth gadarn am hanfodion cemeg fiolegol ac organig, bioleg foleciwlaidd, trin data ac ymarfer labordy. Mae'n ddelfrydol os oes gen ti ddiddordeb yn y gwyddorau bywyd ond nid oes gen ti'r cymwysterau mynediad gofynnol i ymuno â'n rhaglenni BSc neu os wyt yn fyfyriwr aeddfed sy'n dychwelyd i addysg.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Bioleg Foleciwlaidd, Celloedd Dynol, Cemeg Fiolegol, Cemeg Organig, Datblygu Sgiliau, Metaboledd a Homeostatis, Microbioleg ac Afiechyd

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Biocemeg**
- Biocemeg a Geneteg**
- Biocemeg Feddygol**
- Ffarmacoleg Feddygol**

(**mae isafswm o 60% yn ofynnol er mwyn symud ymlaen i Flwyddyn 1 o'r Flwyddyn Sylfaen)

## BIOWYDDORAU
CAMPWS SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCD (Os nad wyt yn astudio Bioleg Safon Uwch, mae angen TGAU Gradd B mewn Bioleg/Gwyddoniaeth)

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig yn rhoi cyfle i feithrin dealltwriaeth wyddonol a rhifiadol sy'n hanfodol i gwblhau gradd mewn Bioleg yn llwyddiannus. Mae'r radd hon yn rhoi'r hyblygrwydd i archwilio bywyd naturiol waeth beth fo dy ddiddordebau.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Bioleg Foleciwlaidd a Biocemeg, Sgiliau Ymchwil ar gyfer Biolegwyr, Technegau mewn Ecoleg: cyflwyniad

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Bioleg
- Bioleg y Môr
- Sŵoleg

## CEMEG
CAMPWS SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCD (gan gynnwys Cemeg)

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn addas os nad oes gen ti'r cymwysterau perthnasol i ddechrau'n syth ar y cwrs BSc tair blynedd.

Mae'r cwricwlwm Cemeg yn Abertawe yn cael ei lywio gan anghenion diwydiant modern ac mae'n cael ei ddiweddaru'n gyson. Mae hyn yn sicrhau y caiff deunydd perthnasol sy'n gymwys i'r byd ehangach ei addysgu i ti bob amser.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Adweithiau a Chynhyrchion, Cemeg Elfennol, Dulliau Dadansoddi a Chanfod, Ffiseg Cemeg, Mathemateg Sylfaenol i Gemegwyr, Synthesis a Dadansoddi

**DILYNIANT I'R RHAGLEN GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Cemeg

Am fanylion llawn y cwrs a chodau UCAS unigol gweler y rhestr o gyrsiau A-Y ar: **abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau** a darganfydda'r radd a restrir 'gyda Blwyddyn Sylfaen'

**Mae cwblhau'r flwyddyn sylfaen yn darparu dilyniant i'r rhaglenni gradd a restrwyd*

CYNNIG NODWEDDIADOL:

## CYFRIFEG A CHYLLID / ECONOMEG / MARCHNATA / RHEOLI BUSNES
CAMPWS Y BAE & SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
Caiff pob cais ei ystyried yn unigol. Os nad wyt ti'n meddwl dy fod yn bodloni ein gofynion mynediad safonol, cysyllta â ni i drafod dy gymwysterau ar gyfer mynediad i'r Flwyddyn Sylfaen.

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

**Gofynion mynediad eraill:**
Nid oes angen cymhwyster Safon Uwch mewn Busnes, Economeg, Mathemateg na Chyfrifeg a Chyllid. Nid ydym yn ystyried Astudiaethau Cyffredinol.

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig yn llwybr gwych i ennill y wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen arnat cyn ymuno â myfyrwyr blwyddyn 1 yn yr Ysgol Reolaeth. Mae'r cwrs yn cyfuno theori â defnydd ymarferol, ac wrth iti symud ymlaen trwy dy lwybr gradd bydd gen ti amrywiaeth eang o fodiwlau dewisol a fydd yn dy alluogi i addasu dy radd er mwyn cyflawni dy nodau gyrfaol.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Busnes, Economeg, Egwyddorion TGCh, Globaleiddio, Ystadegau

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Cyfrifeg
- Cyfrifeg a Chyllid
- Cyllid
- Economeg
- Economeg a Busnes
- Economeg a Chyllid
- Rheoli Busnes *(gydag arbenigedd dewisol mewn: Cyllid/Dadansoddeg Busnes/ E-Fusnes/Marchnata/Menter ac Arloesi/ Rheoli Adnoddau Dynol/ Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwi/ Twristiaeth/ Ymgynghoriaeth Rheoli)*
- Marchnata

## CYFRIFIADUREG
CAMPWS Y BAE

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCD

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C (5) o leiaf

**Gofynion mynediad eraill:**
DMM mewn TG neu Gyfrifiadura
Rhaid cael gradd C mewn TGAU Mathemateg

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn addas os nad oes gen ti'r cymwysterau perthnasol i ddechrau'n syth ar y cwrs BSc tair blynedd.

Bydd yn dy roi ar ben y ffordd ar gyfer gyrfaoedd arbenigol a dynamig iawn ym maes peirianneg feddalwedd, data mawr a gwyddor data, dadansoddi diogelwch neu dechnolegau datblygol.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Cyflwyniad i Raglennu, Datblygio Cyfrifiaduron, Datrys Problemau Cyfrifiadurol, Hanfodion Robotiaid

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Cyfrifiadureg
- Peirianneg Feddalwedd

## DAEARYDDIAETH
CAMPWS SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCD gan gynnwys Daearyddiaeth ac un bwnc cysylltiedig

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn addas os nad oes gen ti'r cymwysterau perthnasol i ddechrau'n syth ar y cwrs tair blynedd. Cei gyfle i feithrin dealltwriaeth sy'n hanfodol i gwblhau'r radd yn llwyddiannus.

Yn Abertawe, rydyn yn rhoi pwyslais mawr ar waith maes. Mae ein lleoliad yn golygu ei bod yn hawdd cyrraedd amgylcheddau mor amrywiol â Phenrhyn Gŵyr, Bannau Brycheiniog, cefn gwlad gorllewin Cymru a'r tirweddau diwydiannol trefol ledled De Cymru. Cei gyfle hefyd i ddilyn cyrsiau maes dramor.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Cyflwyniad i Ddelweddu Data, Daearyddiaeth Ddynol Sylfaen, Daearyddiaeth Sylfaen, Modiwl Tiwtorial Daearyddiaeth

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BA/BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Daearyddiaeth
- Daearyddiaeth Ddynol
- Daearyddiaeth Ffisegol
- Daearyddiaeth a Gwyddor Gwybodaeth Ddaearyddol
- Geowyddoniaeth Amgylcheddol
- Gwyddor yr Amgylchedd a'r Argyfwng Hinsawdd

Am fanylion llawn y cwrs a chodau UCAS unigol gweler y rhestr o gyrsiau A-Y ar: **abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau** a darganfydda'r radd a restrir 'gyda Blwyddyn Sylfaen'

**Mae cwblhau'r flwyddyn sylfaen yn darparu dilyniant i'r rhaglenni gradd a restrwyd*

## FFERYLLIAETH
### CAMPWS SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
BCC-CDD gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall. Os nad wyt ti'n meddu ar y pynciau gwyddoniaeth, cysyllta â ni i drafod mynediad.

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C (4) o leiaf

Bydd y Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn dy helpu i ddatblygu sgiliau allweddol a sylfaen gadarn mewn hanfodion cemeg fiolegol ac organig, bioleg foleciwlaidd ac ymarfer fferylliaeth. Mae'n ddelfrydol os oes gen ti ddiddordeb ym mhroffesiwn fferylliaeth ond nid oes gen ti'r cymwysterau mynediad gofynnol i ymuno â'n rhaglenni MPharm neu os wyt yn fyfyriwr aeddfed sy'n dychwelyd i addysg.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Bioleg Foleciwlaidd, Celloedd Dynol, Cemeg Fiolegol, Cemeg Organig, Metaboledd a Homeostatis, Microbioleg ac Afiechyd, Ymarfer Fferylliaeth

**DILYNIANT I'R RHAGLEN GRADD CANLYNOL*:**

- MPharm Fferylliaeth

(*mae angen ennill marc cyffredinol o 60% neu uwch ynghyd â 60% mewn Hanfodion Cemeg Organig a Sylfeini Fferylliaeth i symud ymlaen i Flwyddyn 1 o'r Flwyddyn Sylfaen)

**CYN-GOFRESTRU:**
Mae angen i ddeiliaid graddau MPharm gymryd camau pellach cyn iddynt gael cofrestru fel fferyllydd gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Mae rhagor o fanylion am gofrestru ar gael ar dudalen 96 ac ar:

**pharmacyregulation.org/registration**

## FFISEG
### CAMPWS SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCD gan gynnwys Ffiseg a Mathemateg

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn addas os nad oes gen ti'r cymwysterau perthnasol i ddechrau'n syth ar y cwrs tair blynedd. Mae'n dy baratoi ar gyfer gofynion llym y BSc â blwyddyn sylfaen a ddatblygwyd i ehangu dy gymwyseddau craidd mewn Ffiseg a Mathemateg. Mae'r newid i'r rhaglen BSc yn ddi-dor ar ddiwedd y flwyddyn.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Ffiseg Thermol ac Opteg, Mathemateg Sylfaen i Ffisegwyr, Mecaneg, Tonnau, Trydan a Magneteg

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**

- Ffiseg
- Ffiseg Ddamcaniaethol
- Ffiseg gyda Ffiseg Gronynnau a Chosmoleg

Os yw dy raddau'n ddigonol ar ddiwedd blwyddyn 2, fe fyddi di'n cael dy wahodd i symud ymlaen i'r rhaglen MPhys.

## GWYDDOR ACTIWARAIDD
### CAMPWS Y BAE

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCD (gan gynnwys Mathemateg Safon Uwch)

**TGAU:** Dylai fod gan ymgeiswyr na wnaeth astudio Mathemateg ar UG neu Safon Uwch radd BBC a gradd B ar gyfer TGAU Mathemateg.

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn addas os nad wyt yn meddu ar y cymwysterau perthnasol ar gyfer dechrau ar y cynllun gradd BSc tair blynedd. Byddi di'n derbyn seilwaith cadarn ym maes mathemateg, cyfrifyddu, cyllid, ac economeg sy'n berthnasol i yrfaoedd mewn swydd broffesiynol actiwaraidd.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Biowyddorau, Cemeg, Cyfrifiadureg, Daearyddiaeth, Ffiseg, Gwyddor Actiwaraidd, Mathemateg a Pheirianneg

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**

- Gwyddor Actiwaraidd
- Mathemateg

CYNNIG NODWEDDIADOL:

## GWYDDORAU CYMDEITHASOL
CAMPWS Y BAE & SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCC-CCD

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Bydd astudio BSc ar un o'n cyrsiau Cymdeithas a Lles, megis Polisi Cymdeithasol, neu Gymdeithaseg (mae opsiynau ar y cyd ar gael), yn dy gyflwyno i'r prif gysyniadau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnat i symud ymlaen i'r BSc. Ar ôl cwblhau'r flwyddyn sylfaen yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn symud ymlaen i flwyddyn 1 y BSc.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Globaleiddio a Deall Cymdeithas, Meddwl yn Feirniadol

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Cymdeithaseg
- Gwaith Cymdeithasol
- Polisi Cymdeithasol

## GWYDDORAU MEDDYGOL CYMHWYSOL / BIOCEMEG A GENETEG / GENETEG / GENETEG FEDDYGOL / IECHYD POBLOGAETHAU A GWYDDORAU MEDDYGOL
CAMPWS SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
Caiff pob ymgeisydd ei ystyried ar sail achosion unigol. Os nad wyt ti'n meddwl dy fod ti'n bodloni dy ofynion mynediad BSc safonol, cysyllta â ni i drafod mynediad ar gyfer y Flwyddyn Sylfaen. Dylai'r cymwysterau gynnwys Bioleg.

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg a Bioleg gradd C (4) o leiaf

Bydd y Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn dy helpu i ddatblygu sgiliau allweddol a gwybodaeth gadarn am hanfodion bioleg ddynol, cemeg fiolegol, trin data ac ymarfer labordy. Mae'n ddelfrydol os oes gen ti ddiddordeb yn y gwyddorau meddygol ond nid oes gen ti'r cymwysterau mynediad gofynnol i ymuno â'n rhaglenni BSc neu os wyt yn fyfyriwr aeddfed sy'n dychwelyd i addysg.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Bioleg Foleciwlaidd, Celloedd Dynol, Cemeg Fiolegol, Datblygu Sgiliau, Microbioleg ac Afiechyd, Trin a Dadansoddi Data

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Biocemeg a Geneteg**
- Geneteg**
- Geneteg Feddygol**
- Gwyddorau Meddygol Cymhwysol**
- Iechyd Poblogaethau a Gwyddorau Meddygol**

(**mae isafswm o 60% yn ofynnol er mwyn symud ymlaen i Flwyddyn 1 o'r Flwyddyn Sylfaen)

## MATHEMATEG
CAMPWS Y BAE

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCD gan gynnwys Mathemateg

Dylai fod gan ymgeiswyr na wnaeth astudio Mathemateg ar UG neu Safon Uwch radd BBC a gradd B ar gyfer TGAU Mathemateg

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Mae'r Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn addas os nad oes gen ti'r cymwysterau perthnasol i ddechrau'n syth ar y cwrs tair blynedd.

Mae gwyddoniaeth a busnes cyfoes yn seiliedig ar fathemateg ac mae ein graddau yn adlewyrchu cysylltiad â diwydiant. Wrth i ti symud ymlaen, bydd dy alluoedd mathemategol sy'n datblygu yn cyfuno â sgiliau trosglwyddadwy sy'n hanfodol er mwyn cael gwaith yn y diwydiant ehangach.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Calcwlws, Geometreg, Rhaglennu a Robotig, Rhifau Cymhleth, Tebygolrwydd

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Mathemateg
- Mathemateg a Chyfrifiadureg
- Mathemateg Bur
- Mathemateg Gymhwysol
- Mathemateg ar gyfer Gyllid

Am fanylion llawn y cwrs a chodau UCAS unigol gweler y rhestr o gyrsiau A-Y ar:
**abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau** a darganfydda'r radd a restrir 'gyda Blwyddyn Sylfaen'

**Mae cwblhau'r flwyddyn sylfaen yn darparu dilyniant i'r rhaglenni gradd a restrwyd*

## PEIRIANNEG
### CAMPWS Y BAE

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
BCC

**TGAU:** Mathemateg a'r holl Wyddorau o leiaf gradd B, gan gynnwys o leiaf dwy radd A

**Gofynion mynediad eraill:**
BTEC DDD gyda D mewn pob modiwl Mathemateg

Mae Peirianneg yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i raddedigion. Gelli ddewis canolbwyntio ar nifer o feysydd, o Beirianneg Awyrofod i Beirianneg Sifil, Cemegol, Trydanol ac Electronig, Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg Fecanyddol a Meddygol.

Os nad wyt ti'n siŵr pa ddisgyblaeth Peirianneg yr hoffet astudio, rydyn yn cynnig BEng Peirianneg gyda blwyddyn sylfaen. Ar ôl cwblhau'r flwyddyn hon, gelli ddewis o'r rhaglenni gradd isod.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Dadansoddiad Peirianneg Sylfaenol, Datblygu Sgiliau Allweddol ar gyfer Peirianwyr, Mecaneg, Mecaneg Hylif Thermol, Trydan a Magneteg

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BEng ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Gwyddorau Deunyddiau a Pheirianneg
- Peirianneg Awyrofod
- Peirianneg Biofeddygol
- Peirianneg Electronig a Thrydanol
- Peirianneg Fecanyddol
- Peirianneg Gemegol
- Peirianneg Gyffredinol
- Peirianneg Sifil

## SEICOLEG
### CAMPWS Y BAE

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CCC-CCD

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Bydd y Flwyddyn Sylfaen Integredig hon yn rhoi'r paratoad sydd ei angen arnat i ffynnu naill ai ar raglenni gradd BSc Seicoleg neu BSc Cymdeithaseg a Seicoleg.

Bydd y modiwlau a addysgir yn ddechrau rhagorol iti ar gyfer y tair blynedd nesaf o astudio gan y cei ystod o offerynau dysgu a fydd yn ddefnyddiol trwy gydol dy radd israddedig a thu hwnt.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Meddwl yn Feirniadol, Sylfeini Seicoleg ac Ystadegau

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BSc CANLYNOL*:**
- Cymdeithaseg a Seicoleg
- Seicoleg

## Y DYNIAETHAU
### CAMPWS SINGLETON

**Safon Uwch neu gyfwerth:**
CDD/DDD *(gwnawn gynigion hyblyg yn dibynnu ar raddau a ragwelir)*

**TGAU:** Cymraeg/Saesneg a Mathemateg gradd C o leiaf

Mae Blwyddyn Sylfaen Integredig y Dyniaethau yn cynnig cyflwyniad arloesol a chyffrous i addysg uwch ac fe'i cynlluniwyd i ddarparu mynediad ehangach i radd anrhydedd achrededig. Byddwn yn dy gynorthwyo i gael y wybodaeth hanfodol a'r sgiliau allweddol, gan gynnwys y wybodaeth bynciol eang y bydd angen arnat i ffynnu a llwyddo yn dy radd.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**
Cyflwyniad i Fod yn Ddynol, Cyflwyniad i Ymchwil, Meddwl Beirniadol a Datrys Problemau, Sgiliau Ysgrifennu Academaidd a Datblygu, a Thraethawd Ymchwil

**DILYNIANT I'R RHAGLENNI GRADD BA ANRHYDEDD SENGL CANLYNOL*:**
- Addysg
- Astudiaethau Americanaidd
- Astudiaethau Clasurol
- Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar
- Astudiaethau'r Oesoedd Canol
- Cyfryngau a Chyfathrebu
- Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau
- Cysylltiadau Rhyngwladol
- Eifftoleg a Hanes yr Henfyd
- Gwleidyddiaeth (llwybr i Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg)
- Hanes
- Hanes yr Henfyd
- Hanes yr Henfyd a Hanes
- Iaith Saesneg
- Llenyddiaeth Saesneg
- Llenyddiaeth Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol (BA Prif Bwnc/Is-bwnc Anrhydedd)






# Deall y Jargon

## BWRSARIAETHAU A GRANTIAU

Arian a ddyfarnwyd i dy alluogi i astudio mewn Prifysgol. Mae'r rhain fel arfer ar sail dy amgylchiadau personol, megis incwm. Nid oes angen eu talu yn ôl. Mae faint o arian y byddi'n ei gael fel arfer yn dibynnu ar incwm dy rieni a ble rwyt ti'n dewis byw ac astudio.

## CYNIGION CYD-DESTUNOL

Mae Cynigion Cyd-destunol yn gynnig lle rydyn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau a allai fod wedi cael effaith ar dy gyrhaeddiad addysgol, a allai yn ei dro dy atal rhag cyrchu addysg uwch. Rydyn yn defnyddio gwybodaeth ychwanegol yn ogystal â dy ffurflen gais ochr yn ochr â'n gofynion derbyn safonol.

## MATH O RADDAU

**BA** – Baglor yn y Celfyddydau
**BEng** – Baglor mewn Peirianneg
**BSc** – Baglor mewn Gwyddoniaeth
**LLB** – Baglor mewn Y Gyfraith
**LLM** – Meistr mewn Y Gyfraith
**MEng** – Meistr mewn Peirianneg
**MBBCh** – Baglor mewn Meddygaeth
**MMath** – Meistr mewn Mathemateg
**MPharm** – Meistr mewn Fferylliaeth
**MPhys** – Meistr mewn Ffiseg
**MSci** – Meistr mewn Gwyddoniaeth

## BLWYDDYN SYLFAEN

Dyma lwybr mynediad amgen i gynllun gradd a elwir hefyd yn 'flwyddyn 0' neu Flwyddyn Sylfaen Integredig (gweler tudalennau 58-63).

## CYDANRHYDEDD

Lle rwyt yn astudio dau bwnc yn gydradd â'i gilydd, ac fel arfer ni chei’r opsiwn i ddewis modiwlau atodol.

## MYFYRIWR ÔL-RADDEDIG

Rhywun sy'n gwneud astudiaeth bellach neu waith ymchwil, gradd meistr fel arfer ar ôl iddo gwblhau ei radd baglor tair neu bedair blynedd.

# Chwilia Am Y Canlynol



**YSGOLORIAETHAU**

Arian a ddyfernir ar sail dy gyflawniad academaidd. Nid oes angen talu ysgoloriaeth yn ôl ond mae angen i ti fodloni meini prawf penodol.

**ANRHYDEDD SENGL**

Lle mae gen ti un prif bwnc, ond gelli hefyd ddewis 2 fodiwl atodol yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn fel arfer.



**MYFYRIWR ISRADDEDIG**

Rhywun sy'n astudio am radd baglor, ond nid yw wedi'i chwblhau eto.

**BENTHYCIAD I FYFYRWYR**

Arian a fenthycir o sefydliad allanol, megis Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr neu Gyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd angen i ti ad-dalu unrhyw fenthyciad yn ogystal â llog, ond ni fydd angen i ti wneud hynny nes dy fod wedi gorffen neu adael dy gwrs. Mae faint y byddi'n ei ad-dalu bob mis yn dibynnu ar dy incwm nid faint yr wyt wedi'i fenthyca.

**LLE BYDDI DI'N ASTUDIO**

CAMPWS PARC SINGLETON

CAMPWS Y BAE

## CHWILIA AM Y SYMBOLAU CANLYNOL DRWYDDI DRAW YN NHUDALENNAU'R CYRSIAU:

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael – am fanylion llawn, gweler grid cyfeirnodi cyrsiau ar dudalen **167-179**.†

Ceir **Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth**^ ar y cwrs hwn – am fanylion llawn, gweler tudalen we unigol y cwrs.

Ceir Llwybr **Blwyddyn Sylfaen** ar y cwrs hwn – gweler tudalennau **58-63**.

Ceir **Cyfleoedd am Ysgoloriaethau Cymraeg** ar y cwrs hwn – gweler tudalen **34**.

Ceir **Cynigion Cyd-destunol** ar y cwrs hwn.

Rhestrir y manylion llawn am y cyfleoedd hyn ar gyfer pob cwrs yn y **grid cyfeirnodi cyrsiau, gweler tudalen 167).**

*^Caiff y cyfleoedd gwaith ac interniaethau a hysbysebwyd yn y prosbectws hwn eu cynnwys yn seiliedig ar yr wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ymwybodol ohoni yn y gwanwyn 2022. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael yn amrywio bob blwyddyn a byddant yn amodol ar yr hyn a gynigir gan sefydliadau partner. Nid yw'r Brifysgol yn gwarantu lleoliadau gwaith nac interniaethau ar gyfer myfyrwyr ac mae cyfleoedd yn amodol ar fodloni amodau academaidd, ariannol, ac ymarferol sy'n berthnasol i'r cyfle penodol hwnnw. Hefyd, mae cyfleoedd gwaith ac interniaethau yn destun proses ymgeisio gystadleuol rhwng myfyrwyr a gofrestrwyd. Am ragor o fanylion am gyfleoedd gwaith ac interniaethau arfaethedig ar gyfer dy gwrs, cyfeiria at yr wybodaeth ddiweddaraf yn:*

**abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau**

# ADDYSG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae addysg yn ddisgyblaeth flaengar, a arweinir gan ymchwil, sy'n ymwneud â pholisi ac arfer o safbwynt byd-eang. Mae'n faes astudio sy'n datblygu'n gyflym, sy'n seiliedig ar ddisgyblaethau seicoleg, athroniaeth, hanes a'r gwyddorau cymdeithasol gan ganolbwyntio ar ddeall sut y mae pobl yn dysgu ac sut y mae strwythurau addysg yn meithrin dysgu gydol oes a datblygiad personol.**

Mae'r cwrs yn ymdrin ag addysg mewn llawer o leoliadau gwahanol gan gynnwys blynyddoedd cynnar, ysgolion, addysg bellach ac uwch, gwasanaethau cymdeithasol a systemau lleol a chenedlaethol.

Mae cyflogadwyedd yn thema allweddol a chei gyfle i roi dy astudiaethau ar waith drwy leoliadau gwaith dewisol sy'n cynnwys ysgolion lleol. Fe fyddi di'n astudio'r theori sy'n gysylltiedig â dysgu, addysgu ac asesu ac yn ennill dealltwriaeth o ddylunio cwricwlwm.

Bydd hefyd cyfle i astudio cysyniadau addysgu Saesneg fel iaith dramor sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a all arwain at gyfleoedd i weithio yn unrhyw le yn y byd.

* Mae'r addysgu'n cael ei rannu rhwng Campws Parc Singleton a Champws y Bae

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**

- Addysg mewn Gwledydd Eraill
- Cyflwyniad i Ddysgu ac Addysgu
- Datblygiad Plentyn
- Materion a Dadleuon Cyfoes mewn Addysg
- Meddwl yn Greadigol a Beirniadol mewn Ysgolion

**Blwyddyn 2**

- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Anifeiliaid mewn Addysg: Cyflwyniad i Anthrozooleg Addysgol
- Cwricwlwm ac Asesu
- Diogelu ac Hyrwyddo Lles mewn Addysg
- Dulliau Ymchwil mewn Addysg

**Blwyddyn 3**

- Astudiaethau Cwricwlwm
- Astudiaethau Plentyndod
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwahaniaeth mewn Addysg
- Gwneud Penderfyniadau Cyflogadwyedd a Phrofiad Gwaith
- Traethawd Hir

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

▲ Addysg
◆ Addysg (gyda Blwyddyn Dramor)
◆ Addysg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BA Prif Bwnc/Is-bwnc Anrhydedd**

◆ Ieithoedd Modern gydag Addysg

**BA Cydanrhydedd**

▲ Cymraeg
◆ Cymraeg (gyda Blwyddyn Dramor)
▲ Cymraeg (Llwybr Ail Iaith)
◆ Cymraeg gyda Blwyddyn Dramor (Llwybr Ail Iaith)

**BSc Cydanrhydedd**

▲ Cyfrifiadura*
◆ Cyfrifiadura* (gyda Blwyddyn Dramor)
▲ Mathemateg*
◆ Mathemateg* (gyda Blwyddyn Dramor)
▲ Seicoleg

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysgu'r Blynyddoedd Cynnar
- Addysgu Ysgolion Cynradd
- Addysgu Ysgolion Uwchradd (ar gyfer rhaglenni cydanrhydedd sy'n gysylltiedig i bynciau craidd)
- Cyhoeddi Addysgol
- Datblygu Cymunedol
- Gweinyddiaeth Addysg

# ASTUDIAETHAU AMERICANAIDD

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae UDA yn cael effaith uniongyrchol a pharhaus ar fywydau pob un ohonom. Mae'n dylanwadu ar ein diwylliant, ein heconomi a'n safbwynt gwleidyddol ac mae ei pholisi tramor yn effeithio ar ein dyfodol.**

**Mae gwybod a deall natur America, ei thraddodiadau hanesyddol, diwylliannol a gwleidyddol, yn ein galluogi i ddeall y grymoedd gwirioneddol sy'n llywio'r ganrif hon yn llawnach.**

Mae Astudiaethau Americanaidd yn cwmpasu diwylliant, hanes a gwleidyddiaeth y wlad fwyaf dylanwadol yn y byd, o wladychu i heddiw.

Gelli lywio dy gwrs gradd mewn ffordd sy'n gweddu i dy ddiddordebau dy hun, p'un a ydynt ym maes ffilmiau Americanaidd, cerddoriaeth, hil, rhywedd, ymfudo a threfoli, cymdeithasol, hanes economaidd a milwrol, terfysgaeth, neu hawliau sifil a phrotest wleidyddol.

Fe fyddi di'n meithrin sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr yn rhoi llawer o werth arnynt, a bydd cyfle i ti i dreulio blwyddyn neu semester yn astudio dramor yn yr UDA.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Astudiaethau Americanaidd
- Cyflwyniad i Ddiwylliant a Llenyddiaeth Americanaidd
- Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Americanaidd
- Y Profiad Americanaidd

**Blwyddyn 2**

- Ailystyried y De
- America mewn Argyfwng
- Creu America'r Trawsatlantig
- Dinas Efrog Newydd: Hanes a Diwylliant ers 1945
- Hil ac Ethnigrwydd
- Iaith America/Delwedd America

**Blwyddyn 3**

- America a'r Bom
- Cenedl Saethwyr: Y Gorllewin mewn Hanes, Ffuglen a Mytholeg
- Cerddoriaeth Boblogaidd a'r Ddinas
- Ffuglen Americanaidd Gyfoes
- Llenyddiaeth a Diwylliant Affricanaidd-Americanaidd
- Perygl Clir a Phresennol: Terfysgaeth ac America
- Rhyfel Cartref America mewn Hanes a Chof

**AF 1 YN Y DU**
**BODDHAD MYFYRWYR**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

▲ Astudiaethau Americanaidd
◆ Astudiaethau Americanaidd (gyda Blwyddyn Dramor)
◆ Astudiaethau Americanaidd (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BA Cydanrhydedd Astudiaethau Americanaidd a**

▲◆ Cysylltiadau Rhyngwladol
▲◆ Hanes
▲◆ Gwleidyddiaeth
▲◆ Llenyddiaeth Saesneg

**▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysg
- Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau
- Gwleidyddiaeth a Llywodraeth
- Rheolaeth a Busnes
- Y Gwasanaeth Sifil

# ARWEINYDDIAETH AR GYFER HERIAU BYD-EANG

## CAMPWS Y BAE & CAMPWS PARC SINGLETON

**Nod y rhaglen yw datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr, drwy roi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r dulliau deallusol iddynt er mwyn gallu sbarduno newid a gwneud gwahaniaeth yn y byd. Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro ar sail thema heriau sy'n archwilio materion hollbwysig megis newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy, mudo, terfysgaeth, anghydraddoldeb a thlodi, a sut maent yn effeithio ar ein byd.**

Bydd y radd hon yn rhoi gwybodaeth i ti mewn cyfuniad o ddisgyblaethau; gwleidyddiaeth, athroniaeth, astudiaethau datblygu, polisi cyhoeddus, y gyfraith, rheoli a'r cyfryngau, sydd wedi'u cyfuno er mwyn rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr i ti o faterion byd-eang allweddol, prosesau penderfynu a'r dulliau ar gyfer archwilio a hyrwyddo atebion posibl ar gyfer newid.

Byddi di'n archwilio problemau a heriau cymdeithasol sy'n croesi ffiniau gwledydd, gan feithrin y sgiliau angenrheidiol i ddatblygu a hyrwyddo atebion arloesol a chynaliadwy sydd â'r potensial i wella bywydau pobl.

Cynigir y rhaglen yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ond fe'i dyluniwyd yn benodol i fanteisio ar y portffolio o fodiwlau ac arbenigedd a gynigir ar draws holl Gyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Felly, mae'n unigryw gan ei bod yn cynnig ymagwedd wirioneddol ryngddisgyblaethol a chyfunol at yr heriau mae arweinwyr cymdeithas heddiw yn eu hwynebu.

### FEL ARFER MAE MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Amgylchedd Polisi Cymdeithasol
- Byw yn Dda a Gwneud yn Dda: Cyflwyniad i Foeseg
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth a Heriau Byd-eang
- Cysylltiadau Cyhoeddus: Cyfathrebu Strategol
- Mentergarwch a Chreadigrwydd: Entrepreneuriaeth ar Waith

**Blwyddyn 2**
- Diogelwch Rhyngwladol
- Diwylliannau'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Efelychu Uwchgynhadledd Fyd-eang
- Gwladwriaeth a Sefydliadau Gwleidyddol
- Hil ac Ethnigrwydd: Safbwyntiau Americanaidd

**Blwyddyn 3**
- Arweinyddiaeth
- Damcaniaeth Gêm
- Deall a Gwrthod Terfysgaeth ac Eithafiaeth Dreisgar
- Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Rheoli Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Arweinyddiaeth ar gyfer Heriau Byd-eang
◆ Arweinyddiaeth ar gyfer Heriau Byd-eang (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Cyngor Gwleidyddol
- Cyrff Cyhoeddus
- Elusennau
- Sefydliadau Anllywodraethol (NGOs)
- Y Gwasanaeth Sifil

# ASTUDIAETHAU CLASUROL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Astudiaethau Clasurol yn canolbwyntio ar lenyddiaeth Roeg a Rhufeinig yr hen fyd, ynghyd â'r diwylliannau a'i greodd. Wrth astudio'r radd hon, byddi di'n cael darllen pob math o destunau wedi'u cyfieithu o safleoedd hynafol Môr y Canoldir a datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant Groegaidd a Rhufeinig o'r cyfnod hynafol i gwymp yr Ymerodraeth Rufeinig a'r tu hwnt. Byddi di'n archwilio straeon a mytholeg Gwlad Groeg a Rhufain ac yn dysgu sut i ddadansoddi testunau'n fanwl gyda llygad craff am fanylion. Gelli di archwilio testunau cyfarwydd, megis epigau a thrasiedïau, yn ogystal â genres o'r hen fyd sy'n cael eu hanwybyddu'n aml, gan gynnwys nofelau a dychan.**

Fel rhan o'r radd anrhydedd sengl mewn Astudiaethau Clasurol, gelli di hefyd ddewis dilyn un o chwe llwybr mwy penodol: Groeg, Lladin, y Clasuron (Groeg a Lladin), Eifftoleg, Llenyddiaeth Saesneg ac Athroniaeth.

Nod y radd hon yw rhoi'r sgiliau i ti wella dy gyflogadwyedd yn y dyfodol mewn ystod eang o yrfaoedd, drwy ddatblygu dy ddiddordeb a dy angerdd am yr hen fyd a phob agwedd arno, yn enwedig y testunau sydd wedi goroesi am gymaint o amser. Bydd yr ymdeimlad am greadigrwydd awduron yr hen fyd a'r ddawn i ddadansoddi'n fanwl rydyn yn gobeithio eu hysbrydoli ynot ti yn dy osod ben ac ysgwyddau uwchlaw'r gystadleuaeth yn llygaid cyflogwyr.

Yn ystod dy radd Astudiaethau Clasurol, yn ein cymuned agos, bydd gen ti fentor academaidd o blith y staff addysgu a fydd ar gael i roi cymorth academaidd i ti. Mae'r Gymdeithas Astudiaethau Hynafol a'n Cymdeithas Eifftoleg yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys teithiau i ymweld ag amgueddfeydd.

### FEL ARFER MAE MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Athroniaeth Hynafol a Rhethreg
- Dechrau Iaith Ladin I
- Dechrau Iaith Roeg I
- Metamorffos yr Ovid. Trawsnewidiadau Mytholeg
- O Dduwiau ac Arwyr - Mytholeg Gwlad Groeg

**Blwyddyn 2**
- Darllen Gwareiddiad Clasurol
- Dychan Rhufeinig: Rhefru a Thynnu Coes
- Nofel y Comic Rhufeinig: Ysgarthiad a Sacrament
- Penderfyniad a Chyfrifoldeb: Y Rhagfynegiad Trasig
- Rhyw yn y Byd Rhufeinig

**Blwyddyn 3**
- Canu Serch Rufeinig
- Gweriniaeth Plato
- Lleoliad Gwaith Ysgolion: Addysgu Hanes Hynafol ac Ieithoedd Hynafol
- Rhamant Gwlad Groeg: Môr, Haul a Rhyw
- Traethawd Hir Y Clasuron, Hanes yr Henfyd, Eifftoleg

Y CLASURON A HANES YR HENFYD
**YN Y 3YDD DU**
**PROFIAD MYFYRWYR**
(Times Good University Guide 2022

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Astudiaethau Clasurol
- ◆ Astudiaethau Clasurol (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Astudiaethau Clasurol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysg
- Archifau
- Amgueddfa a Threftadaeth
- Busnes
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Marchnata

# ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD CYNNAR

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae'r cwrs gradd cyffrous hwn yn cynnig cyfleoedd i ddysgu am fabanod, plant bach a phlant ifanc trwy ddarparu'r wybodaeth ddamcaniaethol ac athronyddol, y cyfleoedd ymchwil a phrofiadau ymarferol mewn canolfannau plant megis; Dechrau'n Deg a dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen.**

**Mae dull dysgu'r cwrs yn seiliedig ar hawliau plant a dysgu holistaidd, ac mae ein haddysgu yn cael ei ategu gan ein hymchwil drylwyr.**

Mae gan Astudiaethau Plentyndod Cynnar broffil uchel yng Nghymru, ar lefel llywodraeth y DU ac mewn sefydliadau rhyngwladol.

Mae'r radd hon wedi mabwysiadu dull dysgu diwylliannol-gymdeithasol sy'n seiliedig ar hawliau plant a dysgu cyfannol mewn cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol, y cyfan wedi'i ategu gan ein hymchwil drylwyr.

Mae gwreiddiau'r cwrs yng Nghymru a byddi'n ymdrin â materion sy'n ganolog i blant a theuluoedd yng Nghymru ym mhob modiwl.

Byddi hefyd yn meithrin dealltwriaeth ryngwladol o arferion y blynyddoedd cynnar ledled y byd ac yn ystyried materion cymdeithasol a gwleidyddol, yn ogystal â theori ac athroniaeth.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Addysg mewn Gwledydd Eraill
- Adeiledd Cymdeithasol Plentyndod
- Archwilio Creadigrwydd a Meddwl yn Feirniadol
- Hawliau, Diogelwch a Lles Plentyndod Cynnar

**Blwyddyn 2**

- Addysg Ddigidol: Addysgeg ac Ymarfer
- Diwylliant ac Iaith Plant
- Chwarae yn Ystod y Blynyddoedd Cynnar
- Hawliau mewn Ymarfer Blynyddoedd Cynnar

**Blwyddyn 3**

- Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Cofnodau Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar
- Traethawd Hir (ar draws Semestrau A a B)
- Ymarfer Myfyriol Proffesiynol

**Blwyddyn Sylfaen**
ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

▲ Astudiaethau Plentyndod Cynnar
◆ Astudiaethau Plentyndod Cynnar (gyda Blwyddyn Dramor)
◆ Astudiaethau Plentyndod Cynnar (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Gall myfyrwyr sy'n cwblhau'r radd fynd ymlaen i astudiaeth bellach neu gymhwyso fel:

- Athro Anghenion Arbennig
- Athro Ysgolion Cynradd
- Athro'r Blynyddoedd Cynnar
- Gweithiwr Llywodraeth Cymru
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Therapydd Chwarae

# ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD CYNNAR GYDA STATWS YMARFERYDD Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gweithlu hynod fedrus yn y Blynyddoedd Cynnar yn chwarae rôl hollbwysig wrth helpu i feithrin dysgu a datblygiad ein plant, gan eu hannog i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i wireddu eu potensial llawn yn eu bywydau.**

**Mae'r radd mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar (EYPS), sydd wedi'i hachredu gan Ofal Cymdeithasol Cymru, yn elfen bwysig o'r weledigaeth hon gan ei bod yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ymgysylltu â babanod, plant bach, plant ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gofynnol drwy 700 o oriau ar leoliad gwaith dros dair blynedd y rhaglen.**

Mae'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru yn golygu ei bod hi'n amser allweddol i ddarparu addysg a hyfforddiant penodol i'r rhai sydd am weithio gyda babanod, plant bach a phlant ifanc mewn rôl broffesiynol.

Mae'r radd Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar wedi'i gwreiddio mewn cyd-destun Cymreig er mwyn sicrhau bod materion sy'n hollbwysig i blant a theuluoedd Cymru'n cael eu hystyried ym mhob modiwl a addysgir, wedi'i ategu gan ddarlithoedd sy'n seiliedig ar ymchwil a 700 o oriau ar leoliad gwaith mewn ysgolion cynradd a chanolfannau plentyndod cynnar yng Nghymru.

Mae athroniaeth addysg blynyddoedd cynnar wrth wraidd y radd, lle mae'r plentyn yn ganolog i'r materion cymdeithasol, ac mae'r myfyrwyr yn dysgu am y ffyrdd gorau o gefnogi dysgu plant drwy ddilyn eu diddordebau er mwyn cefnogi sgiliau dysgu gydol oes.

Mae'r cymhwyster hwn yn golygu y bydd ein myfyrwyr sy'n graddio yn hollol gymwysedig i ymuno â'r gweithlu ar unwaith mewn amrywiaeth o leoliadau plentyndod cynnar.

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Addysg mewn Gwledydd Eraill
- Adeiledd Cymdeithasol Plentyndod
- Archwilio Creadigrwydd a Meddwl yn Feirniadol
- Hawliau Diogelwch a Lles Plentyndod Cynnar

**Blwyddyn 2**
- Addysgeg ar Waith
- Diwylliant ac Iaith Plant
- Chwarae yn Ystod y Blynyddoedd Cynnar
- Ymchwil gyda Phlant, Teuluoedd ac Ymarferwyr

**Blwyddyn 3**
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Cofnodau Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar
- Traethawd Hir (ar draws Semestrau A a B)
- Ymarfer Myfyriol Proffesiynol

**82%**
**BODDHAD CWRS**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar
- ◆ Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ◆ Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar (gyda Blwyddyn Dramor)

**▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Gall myfyrwyr sy'n cwblhau'r radd fynd ymlaen i astudiaeth bellach neu gymhwyso fel:
- Athro Anghenion Arbennig
- Athro Ysgolion Cynradd
- Athro'r Blynyddoedd Cynnar
- Gweithiwr Llywodraeth Cymru
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Therapydd Chwarae

**Beth yw'r prif wahaniaeth rhwng y cwrs gradd Astudiaethau Plentyndod Cynnar BA (Anrh.) a'r cwrs gradd Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd yn y Blynyddoedd Cynnar (EYPS)?**

Mae'r rhaglen yn rhannu modiwlau cyffredin sy'n caniatáu i ti deilwra dy nodau gyrfa'r dyfodol wrth ddatblygu dy ddiddordebau unigol, a chael cyfle i ddilyn lleoliadau gwaith; fodd bynnag, mae'r cwrs gradd Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd yn y Blynyddoedd Cynnar (EYPS) yn cynnwys mwy o brofiad mewn lleoliadau gwaith (700 awr ar leoliad gwaith). Ar y cwrs hwn, mae myfyrwyr yn treulio 700 awr ar leoliad gwaith mewn lleoliadau plentyndod cynnar.

# ASTUDIAETHAU'R OESOEDD CANOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Astudiaethau'r Oesoedd Canol yn edrych ar bron 1,000 o flynyddoedd o hanes o safbwynt llenyddiaeth, athroniaeth, cyfraith, crefydd, gwleidyddiaeth a gwrthdaro.**

**Mae'r dull rhyngddisgyblaethol hwn yn dy alluogi i ymroi'n llwyr i astudio'r cyfnod dynamig hwn, wrth i ti ddatblygu sgiliau ymchwilio a dadansoddi a dysgu sut i gyflwyno dy syniadau yn effeithiol yn ysgrifenedig ac ar lafar.**

Mae ein cyrsiau Astudiaethau'r Oesoedd Canol yn dy alluogi i astudio'r Oesoedd Canol mewn ffordd sy'n cyfuno gwahanol ddulliau methodolegol a beirniadol.

Gelli astudio themâu a phynciau gan gynnwys: symud o hanes Diwedd yr Oesoedd Cynnar i Ddechrau'r Canol Oesoedd, y croesgadau, llenyddiaeth Lloegr Eingl-Sacsonaidd, tirweddau Canoloesol, Chaucer, ac angenfilod mewn llenyddiaeth ganoloesol. Gelli hefyd astudio: modiwlau Hanes, Hanes yr Henfyd, Gwareiddiad Clasurol a Llenyddiaeth Saesneg.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Creu Hanes
- Ewrop Ganoloesol: Cyflwyniad
- Llenyddiaeth a Chymdeithas yn Ewrop Ganoloesol

**Blwyddyn 2**
- Archwilio'r Siambr Waedlyd: Canoloesol i Ôl-fodern
- Cyfarfyddiadau Canoloesol
- Etifeddion Rhufain: Creu'r Byd Cristionogol, Bysantiwm, ac Islam ar Ddechrau'r Oesoedd Canol 400-800
- Prydain yn yr Oesoedd Canol Cynnar: Caethweision, Dreigiau, Breninesau a Llychlynwyr
- Y Croesgadau a Gwneud Bedydd Lladin, 1050-1300
- Ymarfer Hanes

**Blwyddyn 3**
- Addoli, Duwioldeb a Grym: Y Groesgad Gyntaf a Bydau Cred Ladinaidd, Bysantiaeth a'r Dwyrain Agos Islamaidd
- Brenhiniaeth: Yr Henfyd a Chanoloesol
- Chaucer
- Gosod Hanes: Mapio'r Gorffennol Hanesyddol yn Ddigidol
- Hanesion yr Ymerodraeth
- Teyrnasiad y Brenin Ioan 1199-1216: Camlywodraethu a Magna Carta

HANES
**15**
**UCHAF YN Y DU RHAGOLYGON GRADDEDIGION**
(Times Good University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Astudiaethau'r Oesoedd Canol
- ◆ Astudiaethau'r Oesoedd Canol (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Astudiaethau'r Oesoedd Canol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysgu
- Archifwyr Hanesyddol
- Treftadaeth a Thwristiaeth
- Y Gwasanaeth Sifil
- Y Gyfraith

# ATHRONIAETH

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae ein gradd mewn Athroniaeth yn archwilio hanfod bod yn ddynol, sut dylem fyw a natur realiti ei hun. Mae'n ymdrin â'r materion hyn o amrywiaeth o safbwyntiau hanesyddol a chyfoes.**

**Mae ganddi bwyslais cryf ar yr agwedd ymarferol, sy'n annog myfyrwyr i ddeall, nid yn unig y byd o'u cwmpas, ond hefyd i ystyried sut i'w newid er gwell.**

Fel myfyriwr Athroniaeth, byddi di'n archwilio cwestiynau sylfaenol ynghylch gwybodaeth, realiti, gwirionedd, moesoldeb, gwleidyddiaeth, natur ddynol a rhesymeg. Fe fyddi di'n dysgu am feddylwyr a damcaniaethau o fyd Groeg hynafol hyd at heddiw.

Mae rhaglen y radd yn annog myfyrwyr i gymhwyso syniadau athronyddol i faterion a thrafodaethau moesol, cymdeithasol a gwleidyddol cyfoes, gan ddangos pwysigrwydd athroniaeth i'n bywydau beunyddiol a chymdeithas yn gyffredinol. Byddi hefyd yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy allweddol ac yn agor y drws i amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Byw'n Dda a Gwneud yn Dda - Cyflwyniad i Foeseg
- Cyflwyniad i Athroniaeth Hynafol a Rhethreg
- Darllen Gweithiau Athroniaeth Fawr
- Materion Sylfaenol mewn Athroniaeth
- Rhesymu Beirniadol

**Blwyddyn 2**
- Athroniaeth y Meddwl ac Emosiwn
- Athroniaeth a'r Oleuedigaeth
- Dadleuon Moesol Cyfoes
- Hanes Syniadaeth Wleidyddol
- Rhyddid, Angst a'r Hunan Ymgorfforedig

**Blwyddyn 3**
- Athroniaeth a Llenyddiaeth
- Athroniaeth, Iechyd Meddwl a Salwch
- Dyfodol Digidol
- Penderfyniad a Chyfrifoldeb: Y Rhagfynegiad Trasig
- Traethawd Hir

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
▲ Athroniaeth
◆ Athroniaeth (gyda Blwyddyn Dramor)

**▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysg
- Busnes
- Cyllid
- Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Marchnata

# ATHRONIAETH, GWLEIDYDDIAETH AC ECONOMEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Abertawe yw'r unig Brifysgol yng Nghymru, ac un o'r ychydig brifysgolion yn y DU sy'n cynnig Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg (AGE) – wedi'i hystyried ers tro fel paratoad delfrydol ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd mewn bywyd cyhoeddus.**

**Drwy ymgysylltu ag athroniaeth, gwleidyddiaeth ac economeg, byddi di'n meithrin dealltwriaeth unigryw o faterion cymdeithasol cyfoes, fel cyfiawnder, grym, cydraddoldeb a hunaniaeth.**

Mae'r cynllun gradd Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg yn cynnwys materion craidd yn y tri phwnc, ac mae pob un yn darparu set sgiliau amlwg. Fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi'i strwythuro er mwyn i ti allu arbenigo yn y maes/meysydd pwnc sydd o'r diddordeb mwyaf i ti. Mae ein rhaglen hefyd yn archwilio croestoriadau'r tri phwnc, er enghraifft, astudiaethau athronyddol o gyfiawnder economaidd, ac astudiaethau gwleidyddol o ddatblygiad economaidd a chymdeithasol.

Byddi di hefyd yn gallu astudio, ymhlith pethau eraill, athroniaeth foesol a gwleidyddol, hanes syniadaeth wleidyddol, hanes economaidd, polisi cyhoeddus a gwleidyddiaeth Prydain, globaleiddio, micro-economeg a macro-economeg, econometreg, ac economeg amgylcheddol ac economeg adnoddau.

Mae'r modiwl unigryw 'Senedd Cymru' yn cynnwys interniaeth cystadleuol wedi'i goruchwylio gydag aelod o Senedd Cymru gan dy alluogi ti i ddysgu am lunio polisïau yng Nghymru, yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Athroniaeth Wleidyddol
- Byw'n Dda a Gwneud yn Dda - Cyflwyniad i Foeseg
- Egwyddorion Macro-economeg
- Egwyddorion Micro-economeg
- Technegau Mathemategol ar gyfer Economeg

**Blwyddyn 2**
- Athroniaeth Meddwl ac Emosiwn
- Globaleiddio
- Hanes Syniadaeth Wleidyddol
- Macro-economeg Canolradd
- Micro-economeg Canolradd

**Blwyddyn 3**
- Cyfalafiaeth a Chyfiawnder: Anghydraddoldeb, Pŵer a Ffyniant mewn Economïau Cyfoes
- Gwleidyddiaeth a Datblygu Rhyngwladol
- Prosiect Astudio Annibynnol Economeg
- Senedd Cymru
- Traethawd Hir

Ar hyn o bryd, mae **Blwyddyn Sylfaen** mewn Gwleidyddiaeth yn rhoi mynediad i BA mewn Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

### CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

### BA Anrhydedd Sengl

▲ Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg
◆ Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg (gyda Blwyddyn Dramor)
◆ Gwleidyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:

- Busnes
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Sefydliadau Dyngarol
- Y Gyfraith

# BIOCEMEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Biocemeg yn hanfodol wrth astudio a thrin clefydau, wrth ddatblygu cynhyrchion fferyllol, ac wrth roi sylw i'r perthnasau cymhleth rhwng ein hamgylchedd.**

**Byddi di'n dysgu am y prosesau cemegol sy'n digwydd o fewn organeddau byw ac yn astudio sut mae celloedd yn gweithio ar lefelau is-gellog a moleciwlaidd ac yn ennill dealltwriaeth drylwyr o swyddogaeth fiocemegol organeddau byw, o facteria i blanhigion, anifeiliaid a bodau dynol.**

Byddi di'n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys offer biodadansoddol, offer dadansoddi DNA a phrotein, a dadansoddwyr delweddau cyfrifiadurol ar gyfer astudiaethau moleciwlaidd neu gellog.

Fe fyddi di'n datblygu sgiliau rheoli prosiect arbennig ac yn dysgu dylunio arbrofion a chynllunio rhaglenni gwaith.

Mae cymysgedd o fodiwlau gorfodol a dewisol yn rhoi'r hyblygrwydd i ti deilwra dy radd i gyd-fynd â dy ddiddordebau penodol, dy amcanion o ran gyrfa, a dy gynlluniau ar gyfer astudio pellach. Mae hefyd gradd gydanrhydedd gyda Geneteg ar gael.

**Rhaglen MSci:**
Mae'r radd meistr israddedig integredig uwch yn ychwanegu hyfforddiant arbenigol ychwanegol mewn ystod eang o dechnegau labordy ac yn datblygu prosiect ymchwil annibynnol estynedig uwch i'r rhaglen 3 blynedd BSc Biocemeg. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cymhwyster lefel meistr i ti wrth dalu ffioedd dysgu israddedig ac mae'n ddelfrydol os wyt ti'n cynllunio ar yrfa mewn ymchwil.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Bioleg Celloedd Ewcaryotig
- Cemeg ar gyfer Biocemegwyr
- Cemeg Organig
- Cyflwyniad i Fiocemeg
- Microbioleg

**Blwyddyn 2**
- Biocemeg Glinigol a Ffisioleg
- Metabolaeth Uwch
- Rheoliad Metabolaidd: Ensymau a Throsglwyddiad Signalau
- Technegau mewn Bioleg Foleciwlaidd
- Ystadegau Biolegol

**Blwyddyn 3**
- Asidau Niwcleig
- Biowybodeg
- Pilenni a Throsglwyddo Ynni
- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Ymchwil Feintiol Ymarferol

**Blwyddyn 4 (MSci yn unig)**
- Cyfathrebu Gwyddoniaeth
- Traethawd Hir Prosiect Ymchwil Annibynnol Uwch

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**1AF YN Y DU**
**AMGYLCHEDD YMCHWIL**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-64

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**BSc: AAB-BBB MSci: AAB**
(gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Biocemeg
◆ Biocemeg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BSc Cydanrhydedd Biocemeg a**
▲ Geneteg
◆ Geneteg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MSci Anrhydedd Sengl**
◆ Biocemeg

**MSci Cydanrhydedd Biocemeg a**
◆ Geneteg

Biocemeg Feddygol – gweler tudalen 76

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Amaethyddiaeth
- Biodanwyddau
- Cemeg Ddiwydiannol
- Cynhyrchion Fferyllol
- Gwyddorau Fforensig
- Milfeddygaeth

# BIOCEMEG FEDDYGOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Biocemeg Feddygol wrth wraidd meddygaeth fodern. Mae'n rhan hanfodol o'n dealltwriaeth o achosion ac effeithiau clefydau a'r ffordd rydyn yn datblygu triniaethau newydd.**

**Byddi di'n dysgu sut mae celloedd yn gweithio ar lefelau is-gellog a moleciwlaidd, gan olygu y byddi di'n ennill dealltwriaeth drylwyr o swyddogaeth biocemegol organeddau byw, o facteria i anifeiliaid a bodau dynol.**

Byddi di'n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys offer biodadansoddol, offer dadansoddi DNA a phrotein, a dadansoddwyr delweddau cyfrifiadurol ar gyfer astudiaethau moleciwlaidd neu gellog.

Fe fyddi di'n datblygu sgiliau rheoli prosiect arbennig ac yn dysgu dylunio arbrofion a chynllunio rhaglenni gwaith.

**Rhaglen MSci**
Mae'r radd meistr israddedig integredig hon yn ychwanegu hyfforddiant arbenigol ychwanegol mewn ystod eang o dechnegau labordy ac yn datblygu prosiect ymchwil annibynnol estynedig uwch i'r rhaglen 3 blynedd BSc Biocemeg Feddygol. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cymhwyster lefel meistr i ti wrth dalu ffioedd dysgu israddedig ac mae'n ddelfrydol os wyt ti'n cynllunio ar yrfa mewn ymchwil.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Fiocemeg
- Ffisioleg Ddynol
- Sgiliau Biocemeg
- Ynni a Metaboledd

**Blwyddyn 2**
- Biocemeg Glinigol a Ffisioleg
- Gwyddor Meddygol mewn Ymarfer
- Imiwnoleg Ddynol
- Technegau ar gyfer Bioleg Moleciwlaidd

**Blwyddyn 3**
- Imiwnopatholeg Ddynol
- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Tocsicoleg Geneteg
- Trosglwyddiad Philennau ac Ynni

**Blwyddyn 4 (MSci yn unig)**
- Cyfathrebu Gwyddoniaeth
- Traethawd Hir Prosiect Ymchwil Annibynol Uwch

**Llwybrau i Feddygaeth**

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**1AF YN Y DU**
**YSGOL FEDDYGAETH**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**BSc: AAB-BBB MSci: AAB**
(gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Biocemeg Feddygol
◆ Biocemeg Feddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MSci Anrhydedd Sengl**
◆ Biocemeg Feddygol

Biocemeg – gweler tudalen 75

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Cynhyrchion Fferyllol
- Labordai Meddygol
- Proffesiynau Iechyd (ar ôl astudiaeth bellach) e.e. Meddyg, Cymdeithion Meddygol, Deintydd neu Filfeddyg.
- Ymchwil Canser

**LLWYBR MEDDYGAETH I RADDEDIGION:**

Mae'r radd hon yn rhan o'n rhaglen Llwybrau i Feddygaeth. Cyn belled â dy fod yn bodloni'r gofynion mynediad, ac wedi dilyn y modiwl Llwybr i Feddygaeth gallwn dy warantu y cei gyfweliad ar gyfer ein cwrs MBBCh Meddygaeth i Raddedigion.

# BIOLEG A'R GWYDDORAU BIOLEGOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae dealltwriaeth academaidd ddofn o fywyd ar y ddaear yn bwysicach heddiw nag erioed o'r blaen. Drwy astudio'r amrywiaeth aruthrol o organebau byw sy'n bodoli, gallwn nodi bygythiadau argyfyngus a chyfleoedd pwysig, o'r raddfa leiaf i'r fwyaf.**

**Mae'r radd bioleg tair blynedd hon yn rhoi'r hyblygrwydd i ti archwilio bywyd naturiol lle bynnag y mae dy ddiddordebau.**

Bydd y cyrsiau maes sydd ar gael yn lleol, trefol ac yn rhyngwladol yn dy alluogi i weithio mewn amrywiaeth o gynefinoedd. Gelli astudio ecosystemau morol arfordirol trawiadol, amgylcheddau dŵr croyw/gwlyptir a chynefinoedd Penrhyn Gŵyr sydd ar garreg y drws.

Byddi di'n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau addysgu o'r radd flaenaf mewn meysydd ecolegol, ffisiolegol a moleciwlaidd. Ymhlith ein cyfleusterau, mae'r Ganolfan Ymchwil Ddyfrol Gynaliadwy, Amgueddfa Sŵolegol, cwch ymchwil 18 metr pwrpasol a chanolfan ddelweddu unigryw sy'n dangos gwybodaeth amlddimensiynol o ddata dilyn trywydd anifeiliaid.

Yn dy flwyddyn olaf, fe fyddi di'n gwneud prosiect ymchwil, a all fod yn seiliedig ar y maes, ar y labordy neu'n hollol ddadansoddol.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Amrywiaeth ac Ymddygiad Anifeiliaid
- Bioleg Gelloedd a Microbaidd, Ecoleg ac Ymddygiad Anifeiliaid
- Botaneg ac Ecoleg
- Bywyd yn y Cefnforoedd
- Esblygiad a Geneteg
- Sgiliau Craidd ar gyfer Gwyddorau Biolegol

**Blwyddyn 2**

- Amrywiaeth ac Ymddygiad Anifeiliaid
- Infertebratau Morol
- Microbioleg Ecolegol a Chylchoedd Bywyd
- Parasitoleg
- Pysgodeg
- Ymddygiad Anifeiliaid ym Maes Cadwraeth a Lles

**Blwyddyn 3**

- Bioamrywiaeth
- Cadwraeth Planhigion ac Ecoleg
- Dulliau Biolegol o Reoli Plâu Di-asgwrn-cefn
- Epidemioleg Afiechydon Milheintiol
- Ffiseg i Fiolegwyr

**AF 1 YN Y DU BODDHAD CYFFREDINOL**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**ABB-BBB** (gan gynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲ Bioleg
◆ Bioleg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
◆ Bioleg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
▲ Gwyddorau Biolegol (gan ohirio dewis o arbenigedd)
◆ Gwyddorau Biolegol (gyda Blwyddyn Dramor gan ohirio dewis o arbenigedd)

Bioleg y Môr – gweler tudalen 78
Gwyddor yr Amgylchedd a'r Argyfwng Hinsawdd – gweler tudalen 107
Sŵoleg – gweler tudalen 157

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysgu
- Biodechnolegydd
- Cadwraethau
- Rheolaeth Amgylcheddol
- Ymchwil Ôl-raddedig

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Royal Society of Biology

# BIOLEG Y MÔR

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Bioleg y Môr yn Abertawe yn gwrs hynod ymarferol. Mae'r Brifysgol mewn lle delfrydol ar gyfer gwaith maes bioleg y môr, ar y tir neu ar gwch. Mae Penrhyn Gŵyr gerllaw yn cynnig amrywiaeth o gynefinoedd i'w hastudio, o draethau caregog agored a chlogwyni serth i faeau bach cysgodol a thwyni tywod, morfeydd heli cefnforol agored, y dyfnfor a fflatiau dryslyd aberol.**

Byddi di'n cael hyfforddiant mewn amrywiaeth o dechnegau gwneud arolygon a samplu, a byddi di'n cael profiad yn adnabod amrywiaeth eang o infertebratau a physgod sy'n byw ar wely'r môr.

Bydd y cyrsiau maes sydd ar gael yn lleol ac yn rhyngwladol yn dy alluogi i weithio mewn amrywiaeth o gynefinoedd. Ymhlith y prosiectau diweddar mae ymfudiad crwbanod môr, ymddygiad morfilod, a llygredd olew. Mae'n bosibl y cei gyfle i ymuno â chwrs maes rhyngwladol yn Puerto Rico neu Malaysia*.

Ymhlith ein cyfleusterau addysgu ac ymchwil sydd ar flaen y gad mae'r Ganolfan Ymchwil Ddyfrol Gynaliadwy, amgueddfa sŵolegol, cwch arolygu dosbarth catamarán 18 metr pwrpasol a chanolfan ddelweddu unigryw sy'n dangos gwybodaeth amlddimensiynol o ddata dilyn trywydd anifeiliaid.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Amrywiaeth ac Ymddygiad Anifeiliaid
- Bywyd yn y Cefnforoedd
- Bioleg Gelloedd a Microbaidd
- Esblygiad a Geneteg

**Blwyddyn 2**
- Cwrs Maes Bioleg y Môr (Sir Benfro)
- Ecosystemau Morol: Bygythiadau a Chadwraeth
- Eigioneg
- Infertebratau Morol
- Pysgodeg

**Blwyddyn 3**
- Bioleg Begynol
- Ecoleg Forol Drofannol a Chadwraeth
- Hormonau ac Ymddygiad
- Pysgodfeydd a Dyframaeth

GWYDDORAU BIOLEGOL
7FED YN Y DU
BODDHAD MYFYRWYR
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**
(gan gynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Bioleg y Môr
- ◆ Bioleg y Môr (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Bioleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) yn arwain at BSc Bioleg y Môr

Bioleg – gweler tudalen 77
Sŵoleg – gweler tudalen 157

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysgu
- Cadwraethau
- Ymchwilydd Morol
- Ymchwil Ôl-raddedig
- Ymgynghorydd Amgylcheddol

** Gall teithiau maes, gan gynnwys teithiau maes rhyngwladol, newid.*

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Royal Society of Biology

# BYDWREIGIAETH

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd ein gradd mewn Bydwreigiaeth yn dy helpu i ddatblygu'r arbenigedd clinigol a rhyngbersonol er mwyn sicrhau lles corfforol ac emosiynol merch yn ystod ei beichiogrwydd, genedigaeth y plentyn ac ar ôl iddi ddod yn rhiant newydd.**

**Mae'n cyfuno gwaith academaidd â lleoliadau ymarferol ledled De-orllewin Cymru, lle y bydd y myfyrwyr yn gweithio gyda bydwragedd mewn timau cymunedol, canolfannau geni a arweinir gan fydwragedd ac unedau mamolaeth mewn ysbytai.**

Fel myfyriwr bydwreigiaeth, byddi di'n treulio tua hanner dy gwrs ar leoliadau gwaith clinigol, a fydd yn darparu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen arnat i ddechrau dy yrfa fel bydwraig.

Mae llawer o'n staff academaidd yn fydwragedd cofrestredig sy'n weithgar mewn ymarfer ac ymchwil, gan ddarparu dealltwriaeth broffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

Mae ein cyfleusterau ardderchog yn cynnwys ystafell glinigol realistig sy'n dy alluogi i roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith.

Hefyd, bydd cyfleoedd unigryw i ti fagu profiad mewn addysg cynenedigol, ôl-enedigol a chymorth bwydo ar y fron drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynigir drwy ein Hacademi Iechyd a Llesiant ar y campws.

Pan wyt yn gwneud cais ar gyfer hwn, dylet ddangos dy ddealltwriaeth o rôl y fydwraig a dangos dy ymwybyddiaeth o rai o faterion yn yr arfer bydwreigiaeth cyfredol. Dylai dy gais esbonio pam dy fod ti'n meddwl y byddi di'n fydwraig dda ac yn dangos dy ymrwymiad i fydwreigiaeth fel dy yrfa yn y dyfodol.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Adeiladu Sylfeini ar gyfer Fy Ymarfer Bydwreigiaeth
- Beichiogrwydd a'r Fydwraig Broffesiynol
- Y Tu Hwnt i Geni: Trosglwyddo i fod yn Rhiant
- Y Daith i Geni

**Blwyddyn 2**
- Datblygu Bydwreigiaeth Ymarferol
- Gofal Ychwanegol i Fenywod ag Anghenion Cymhleth
- Rhianta a Gofal Newyddenedigol Cefnogi Anghenion Ychwanegol

**Blwyddyn 3**
- Bod yn Fydwraig - Y Gwthiad Olaf
- Cydgrynhoi fy Ymarfer Bydwreigiaeth
- Y Trydydd Cam: Rheoli Cymhlethdodau Clinigol a Bod yn Gydweithiwr ac Ysgolhaig

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**9 FED YN Y DU**
**BYDWREIGIAETH**
(The Guardian University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BMid Anrhydedd Sengl**
▲ Bydwreigiaeth

**▲ 3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer Bydwragedd yw £25,654 (Band 5). Yn ystod gyrfa, gall y cyflog godi i £45,838.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

NMC Nursing & Midwifery Council

# CEMEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae'r cwricwlwm Cemeg yn Abertawe yn cael ei lywio gan anghenion diwydiant modern a'i ddiweddaru'n gyson, gan sicrhau y byddi di bob amser yn dysgu deunydd perthnasol y gellir ei gymhwyso at y byd ehangach.**

**Byddi di'n derbyn ystod eang o wybodaeth y bydd ei hangen arnat ti i weithio ym maes Cemeg a'r wybodaeth ddofn i dy alluogi i arbenigo trwy ein hymchwil arloesol cyfredol ym meysydd cynhyrchion naturiol, peirianneg deunyddiau a meddygaeth.**

Mae ein pynciau craidd yn ymdrin â chemeg organig, anorganig a ffisegol yn ogystal â chemeg offerynnol a dadansoddol.

Cei gyfle i wneud gwaith ymchwil arloesol, gan gyfrannu at brosiect ymchwil neu fwrw ymlaen â dy syniadau dy hun.

Rydyn yn cynnig y posibilrwydd o feithrin sgiliau ymchwil yn gynnar, gan annog a hwyluso ffyrdd i ti ddatblygu cynlluniau a syniadau ymchwil, ysgrifennu cynigion, gwneud ymchwil ym maes cemeg gan ryngweithio â disgyblaethau eraill, dadansoddi data ymchwil a chyflwyno canlyniadau dy ymchwil mewn gwaith llafar ac ysgrifenedig.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Adweithedd mewn Cemeg
- Meddwl mewn Cemeg
- Strwythur a Bondio
- Ymarfer mewn Cemeg

**Blwyddyn 2**
- Cemeg Ffisegol Pellach
- Cemeg Fiolegol a Meddyginiaethol
- Cemeg Gyfrifiadurol a Damcaniaethol
- Cemeg Anorganig Pellach
- Cemeg Organig Pellach
- Datblygiad Proffesiynol a Chynllunio Gyrfa

**Blwyddyn 3**
- Cemeg Offerynnol Ffisegol a Damcaniaethol
- Prosiect Cemeg
- Prosiect Cemeg Deunyddiau

**Blwyddyn 4 (MChem)**
- Cemeg Offerynnol, Ffisegol a Damcaniaethol Uwch
- Cemeg Gynyrch Organig, Meddyginiaethol a Naturiol Uwch
- Deunyddiau Anorganig Uwch
- Prosiect Ymchwil

**YN Y 6ED DU BODDHAD CYFFREDINOL**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL:

**BSc: ABB-BBB MChem: AAB-ABB**

(gan gynnwys Cemeg. Os nad wyt yn astudio Mathemateg Safon Uwch, mae angen Mathemateg TGAU Gradd B (6))

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Cemeg
- ◆ Cemeg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ◆ Cemeg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

**MChem Anrhydedd Sengl**
- ◆ Cemeg

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Darganfod meddyginiaethau newydd
- Gwyddonydd Clinigol
- Gwyddor Ddadansoddol a Fforensig
- Gwyddorau Amgylcheddol
- Ynni Adnewyddadwy
- Ymchwil a datblygu yn y byd academaidd neu ddiwydiant

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# CYFIEITHU A CHYFIEITHU AR Y PRYD SAESNEG – TSIEINËEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae dros 950 miliwn o siaradwyr Tsieinëeg Mandarin brodorol ym mhedwar ban byd ac, yn aml, dyma'r iaith fwyaf cyffredin y mae angen gwasanaethau cyfieithu proffesiynol ar ei chyfer.**

**Mae'r radd yn rhaglen unigryw yn y DU ac mae'n cael ei gynnig i fyfyrwyr iaith gyntaf Mandarin yn ogystal â lefel uchel o gymhwysedd mewn Saesneg.**

Yn ystod y cwrs gradd unigryw hwn, byddi di'n datblygu sgiliau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd mewn Saesneg uwch ac yn astudio gweithdai cyfieithu Saesneg-Tsieineaidd arbenigol ar gyfer: y cyfryngau, newyddiaduriaeth a chysylltiadau cyhoeddus; busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith; economeg a chyllid; peirianneg, gwyddoniaeth a meddygaeth. Yn ogystal â sgiliau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, mae cyfleoedd hefyd i ddysgu ieithoedd a diwylliannau Ewropeaidd, ac ieithyddiaeth gymhwysol.

Byddi di'n cael modiwlau hyfforddiant ymarferol yn ein labordai cyfrifiadurol, gydag offer meddalwedd blaenllaw a bydd y myfyrwyr yn profi amgylchedd dysgu rhithiol allanol drwy apiau symudol a fideos ar-lein.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cysyniadau mewn Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd
- Gramadeg ac Ystyr
- Saesneg Uwch ar gyfer Dibenion Academaidd 1
- Saesneg Uwch 1 – Y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Seiniau'r Saesneg

**Blwyddyn 2**

- Cyfieithu â Chymorth Cyfrifiadur
- Cyflwyniad i Theori Cyfieithu
- Dehongli Deialog
- Gweithdy Cyfieithu Saesneg-Tsieineaidd
- Saesneg Uwch 2 – Busnes a Chyllid

**Blwyddyn 3**

- Cyfieithu ar y Pryd – Opsiwn Busnes
- Iaith Saesneg a Diwylliant Seisnig Uwch
- Rheoli Terminoleg
- Saesneg Uwch 3 – Gwyddoniaeth
- Swyddfa Cyfieithu Efelychol

SAESNEG

**25**

**UCHAF YN Y DU BODDHAD CWRS**

(Guardian University Guide 2022)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

▲ Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Saesneg – Tsieinëeg

**▲ 3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd
- Cysylltiadau Cyhoeddus
- Gwerthiannau Rhyngwladol
- Marchnata mewn Sefydliadau Rhyngwladol
- Rheoli Busnes

# CYFRIFEG A CHYLLID

CAMPWS Y BAE & CAMPWS PARC SINGLETON

**Wyt ti'n chwilio am radd mewn Cyfrifeg a Chyllid a fydd yn rhoi mantais gystadleuol i ti? Os hoffet ddilyn gyrfa yn un o'r pedwar cwmni mawr (Deloitte, Ernst & Young, KPMG neu PwC), neu os wyt yn gweld dy hun yn gweithio fel cyfrifydd i un o gyrff y llywodraeth, sefydliad dielw, neu fusnes preifat, bydd y radd hon yn rhoi popeth sydd ei angen arnat i ti.**

Rydyn yn cynnig gradd hyblyg gyda detholiad eang o fodiwlau dewisol yn ystod blynyddoedd diweddarach dy astudiaethau, gan dy alluogi i lywio'r cwrs gradd tuag at dy nodau gyrfa.

Byddi di'n datblygu sgiliau trosglwyddadwy mewn meysydd megis cyfathrebu, datrys problemau a dadansoddi data, a byddi di'n rhwydweithio ag ymarferwyr proffesiynol ym mhob cam o dy astudiaethau.

Caiff ein haddysgu ei lywio gan ymchwil arloesol a gwybodaeth am ddiwydiant, a bydd academyddion arbenigol yn dy helpu i feithrin y sgiliau sy'n hanfodol i dy berfformiad yn y sector cyfrifyddu a chyllid.

Mae Blwyddyn mewn Diwydiant yn rhoi'r cyfle perffaith i ti ennill profiad diwydiant y byd go iawn, gan dy wneud yn ymgeisydd deniadol ar gyfer swyddi ar ôl graddio.

Wyt ti eisiau blwyddyn fythgofiadwy yn ymdrochi mewn diwylliannau newydd a datblygu fel unigolyn; yn broffesiynol ac yn bersonol? Mae Blwyddyn Dramor hefyd yn gyfle sydd ar gael i ti.

## FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Economeg ar gyfer Cyfrifeg a Chyllid
- Rheoli Pobl a Gweithredoedd
- Sylfeini Cyllid
- Sylfeini Cyfrifeg Ariannol
- Sylfeini Cyfrifeg Rheoli

**Blwyddyn 2**
- Buddsoddiadau: Asedion; Ecwitïau a Bondiau
- Cyfrifeg Ariannol
- Cyllid Corfforaethol
- Marchnadoedd a Sefydliadau Ariannol

**Blwyddyn 3**
- Bancio Buddsoddi
- Cloddio Data
- Cyfrifeg Fforensig
- Gwasanaethau Ariannol
- Rheolaeth Ariannol Ryngwladol

**12 FED YN Y DU**
**RHAGOLYGON GRADDEDIGION**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

## CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲◆ Cyfrifeg
- ▲◆ Cyfrifeg a Chyllid
- ▲◆ Cyllid

◆ **Gellir ymestyn ein holl gyrsiau 3 blynedd i 4 blynedd i'w cynnwys: (Blwyddyn Sylfaen) neu (Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)**

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

## GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Archwilydd
- Brocer
- Cyfrifydd
- Dadansoddwr Cyllid
- Gweithiwr Bancio Proffesiynol
- Rheoli Cyfoeth neu Gynghorydd Buddsoddi
- Ymgynghoriaeth Fusnes

**Mae achrediadau'n cynnwys:** (yn amodol ar ddewis modiwl)

ACCA, ICAEW, CFA Institute, CIMA

# CYFRIFIADUREG
## CAMPWS Y BAE

**Mae Cyfrifiadureg yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau ac mae gan Brifysgol Abertawe rôl flaenllaw yn yr arloesi technolegol sy'n ailddiffinio'r ffordd rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio.**

**Bydd ein graddau yn dy addysgu'n barod ar gyfer amrediad eang o yrfaoedd arbenigol iawn gan gynnwys peirianneg meddalwedd, data mawr/ gwyddor data, dadansoddi diogelwch, technolegau symudol a newydd.**

Gall gradd Cyfrifiadureg o Brifysgol Abertawe dy helpu i ddod o hyd i dy le mewn tirwedd dechnolegol sy'n newid yn barhaus.

Yn ystod y cwrs gradd, byddi di'n dysgu sut i nodi'r ffyrdd cywir o ddatrys problemau a mesur eu heffeithlonrwydd. Byddi di'n cael dy addysgu yn ein hadeilad Ffowndri Gyfrifiadurol wych sy'n werth £32.5 miliwn ac sy'n darparu cyfleusterau addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf a labordai arbenigol gan gynnwys labordy llun a biometrig, labordy gwneuthurwyr, labordy techhealth, labordy theori, labordy seiberddiogelwch, ac ystafell ddelweddu.

Bydd hefyd yn cynnwys gosodiadau, cyfarpar, dyfeisiau a phrototeipiau arbrofol o'r radd flaenaf er mwyn arloesi'n gyflymach. Byddi di'n cael cyfle i ddysgu am y cyfleusterau hyn a gweithio â nhw.

Mae llawer o'n myfyrwyr sy'n dewis gwneud y Flwyddyn mewn Diwydiant yn ennill lleoliad gwaith gwerthfawr ac yn datblygu eu sgiliau cyfrifiadurol a'u hymwybyddiaeth fasnachol yn yr amgylchedd gwaith.

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Dadansoddwr Seiberddiogelwch
- Datblygwr Rhaglenni Symudol
- Dylunydd/Peiriannydd/Profwr Meddalwedd
- Gwyddonydd Data
- Peiriannydd Dysgu Peirianyddol

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**

- Cyfrifiaduron a Chymdeithas
- Cysyniadau Cyfrifiadureg
- Datblygu Meddalwedd
- Modelu Systemau Cyfrifiadura
- Rhaglennu

**Blwyddyn 2**

- Cydamseredd
- Peirianneg Meddalwedd
- Rhaglennu Datganiadol
- Rhyngweithio Rhwng Pobl a Chyfrifiaduron
- Systemau Cronfa Ddata

**Blynyddoedd 3 a 4**

- Cryptograffeg a Diogelwch TG
- Data Mawr a Dysgu Peirianyddol
- Deallusrwydd Artiffisial a Seiberddiogelwch
- Entrepreneuriaeth ar Waith
- Manylebu a Datblygu Prosiectau
- Profi Meddalwedd
- Prosiect Traethawd Hir
- Ysgrifennu Appiau Symudol

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

bcs The Chartered Institute for IT

**12FED YN Y DU RHAGOLYGON GRADDEDIGION**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**BSc: ABB-BBB MEng/MSci: AAB-ABB**
(gan gynnwys Gradd B (6) mewn TGAU Mathemateg o leiaf)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Cyfrifiadureg
- ◆ Cyfrifiadureg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Cyfrifiadureg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Peirianneg Meddalwedd
- ◆ Peirianneg Meddalwedd (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ▲ Peirianneg Meddalwedd Cymhwysol (gradd prentisiaeth) - am fanylion llawn, gweler ein gwefan

**BSc Cydanrhydedd Cyfrifiadura ac**
- ▲ Addysg
- ◆ Addysg (gyda Blwyddyn Dramor)

**BSc Cydanrhydedd Cyfrifiadureg**
- ▲ Mathemateg

**MEng Anrhydedd Sengl**
- ◆ Cyfrifiadura
- ★ Cyfrifiadura (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

**MSci Anrhydedd Sengl**
- ◆ Cyfrifiadureg
- ★ Cyfrifiadureg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

# CYFRYNGAU A CHYFATHREBU

## CAMPWS PARC SINGLETON

**I raddau cynyddol, mae'r cyfryngau'n diffinio sut rydym yn rhyngweithio â'r gymdeithas. Mae'n llunio'r ffordd y gwelwn ni ein hunain ac eraill a gall fod yn arf bwerus ar gyfer newid cymdeithasol.**

**Astudia'r gradd BA mewn Cyfryngau a Chyfathrebu gyda ni a byddi di'n dysgu sgiliau ymarferol a fydd yn dy alluogi i ddilyn gyrfa gyffrous ym maes y cyfryngau, marchnata neu feysydd cysylltiedig.**

Cei gyfle i ddysgu am gynhyrchu radio a fideo, cyfryngau digidol a chymdeithasol, newyddiaduraeth, cysylltiadau cyhoeddus, theori'r cyfryngau, cyfraith y cyfryngau, a ffilm, gan ddysgu gan weithwyr proffesiynol profiadol yn y diwydiant ac academyddion blaenllaw.

Rydyn yn cynnig cwrs gradd amrywiol a hyblyg, felly gelli lywio dy gwrs mewn ffordd sy'n gweddu i dy nodau gyrfa yn ogystal â datblygu dy ddiddordebau dy hun.

Bydd lleoliad gwaith yn rhoi profiad uniongyrchol i ti o'r cyfryngau a chyfathrebu, ac mae ein cyfleusterau yn cynnwys labordai cyfrifiadurol, cyfarpar fideo, stiwdio golygu fideo a stiwdio deledu.

Gelli di hefyd:

- Ddewis gwneud Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor
- Ddewis astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Astudiaethau Ffilm
- Cyflwyniad i Gyfathrebu'r Cyfryngau
- Cyflwyniad i Hanes y Cyfryngau
- Cyflwyno a Datgodio'r Newyddion
- Cysylltiadau Cyhoeddus: Cyfathrebu Strategol

**Blwyddyn 2**

- Diwylliannau y Cyfryngau Cymdeithasol
- Dulliau o Ddadansoddi Ffilm
- Ymarfer Creadigol yn y Cyfryngau
- Ymarfer Cysylltiadau Cyhoeddus Digidol

**Blwyddyn 3**

- Adrodd yr 21ain Ganrif
- Cysylltiadau Cyhoeddus Chwaraeon
- Dyfodol Digidol
- Interniaeth y Cyfryngau a Chyfathrebu
- Strategaeth, Marchnata a Brandio
- Traethawd Hir

### MODIWLAU CYFRWNG CYMRAEG

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Astudiaethau Ffilm
- Cysylltiadau Cyhoeddus: Cyfathrebu Strategol
- Sgiliau Cyfryngau Allweddol

**Blwyddyn 2**

- Cyfathrebu Digidol
- Sgiliau Cyfryngau Ymarferol

**Blwyddyn 3**

- Creu Cynhyrchiad Aml-blatfform
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Drama a Dogfen ar y Sgrîn
- Paratoi ar gyfer y Traethawd Hir
- Traethawd Hir

**1AF YN Y DU BODDHAD CWRS** (Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

- ▲ Cyfryngau a Chyfathrebu
- ◆ Cyfryngau a Chyfathrebu (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/ Dramor)
- ◆ Cyfryngau a Chyfathrebu (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Cymraeg, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- ◆ Cymraeg, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus (gyda Blwyddyn Dramor)

**BA Cydanrhydedd Cyfryngau a**

- ▲ Cymraeg (Ail Iaith)
- ◆ Cymraeg (Ail Iaith) (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Iaith Saesneg
- ◆ Iaith Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Llenyddiaeth Saesneg

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:

- Busnes
- Cyhoeddi
- Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata
- Hysbysebu
- Marchnata Digidol
- Newyddiaduraeth
- Teledu a Radio

Penderfynais astudio ym Mhrifysgol Abertawe gan fy mod wrth fy modd gyda'r ardal, ac mae 'na ymdeimlad cartrefol yma ger y traeth, yn debyg i fy nghartre' ar Ynys Môn. Roedd hi'n benderfyniad hawdd iawn i ddod yma, ac mae'n teimlo'n gartrefol gan fod pawb mor groesawgar!

Dechreuais fy nghyfnod yn Abertawe yn ystod Covid-19 felly roedd fy mlwyddyn gyntaf ychydig yn wahanol i'r arfer ond roedd hi'n dal i fod yn flwyddyn wych! Serch hynny, gyda chyfyngiadau'n llacio a mwy o weithgareddau wyneb yn wyneb, rydw i'n achub ar y cyfle i dderbyn profiadau newydd, megis gwirfoddoli ac ymuno â chymdeithasau gwahanol.

Mae'r cwrs yn rhoi digon o amrywiaeth o ran pynciau ac rwy'n mwynhau'n arw cael y cyfle i ddysgu gwaith ymarferol y cyfryngau gan fynd ati i greu cynnwys fy hunan. Rwy'n ffodus i allu astudio fy nghwrs yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg gan hefyd dderbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd hyn yn fy helpu i gael mwy o opsiynau gwaith yn y dyfodol, gan fod dwyieithrwydd yn sgil sy'n denu cyflogwyr yng Nghymru a thu hwnt. Hefyd, mae cyfle yn y Brifysgol i dderbyn mwy o gymwysterau allgyrsiol fel Y Dystysgrif Sgiliau Iaith sy'n edrych yn grêt ar dy CV.

Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn gryf yn Abertawe. Rydw i wedi bod yn ddigon ffodus i gael fy mhenodi fel Llywydd y Gymdeithas Gymraeg ac rydym fel criw yn cyfarfod yn gyson a threfnu cyfleoedd i fynd i wahanol ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod Ryng-golegol. Yn ogystal, rydw i wedi bod yn mynychu'r Capel Cymraeg yma sef 'Capel Gomer' ac wedi cyfarfod pobl newydd o bob oed.

Rydw i wedi cael llawer iawn o gyfleoedd yn Abertawe hyd yma. Cefais fy nerbyn i fod yn llysgennad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn fy mlwyddyn gyntaf gan gynrychioli'r Brifysgol, cynnal sgyrsiau gydag ysgolion, creu blogs a llawer mwy! Yn ogystal, llwyddais i dderbyn Y Dystysgrif Sgiliau Iaith, ymuno â'r Gym Gym ac yna dod yn Llywydd arni. Ar ben hynny, cefais fy newis fel Llysgennad ar gynllun y Brifysgol gan gynrychioli'r Gymraeg, a llawer mwy!

Bacha ar unrhyw gyfle posib, mae'r cyfleoedd yn ddiddiwedd!




# Elen Jones

## CYMRAEG, Y CYFRYNGAU A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

# CYMDEITHASEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd astudio gradd mewn Cymdeithaseg yn rhoi'r sylfaen ddamcaniaethol hanfodol sydd ei hangen arnat i ddeall ymddygiad pobl fel bodau cymdeithasol, yn ogystal â'r ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd sy'n dylanwadu ar ein cymdeithas. Byddi di'n meithrin sgiliau ymchwil cymdeithasol, ynghyd â'r gallu i ddadansoddi tystiolaeth a'i gwerthuso'n feirniadol a llunio dadleuon mewn perthynas â'r materion cymdeithasol cymhleth sy'n effeithio ar bob un ohonom.**

Cei dy addysgu gan dîm o academyddion sy'n weithgar o ran ymchwil ac sy'n cyhoeddi sawl darn o waith. Mae ein strwythur gradd hyblyg, yn dy alluogi i deilwra dy gwrs yn unol â dy ddiddordebau penodol, dy ddyheadau gyrfa.

Byddi di'n cael cyfle i gymryd rhan mewn lleoliadau gwaith er mwyn adeiladu ar dy sgiliau a dy brofiad, a chyfoethogi dy ragolygon gyrfa. Gallai'r lleoliadau hyn gynnwys awdurdodau lleol, busnesau, lleoliadau gofal iechyd, lleoliadau addysg ac elusennau, yn dibynnu ar dy ddiddordebau a dy nodau gyrfa.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cymdeithaseg: Dadleuon Cyfoes
- Cymdeithaseg: Y Clasuron
- Economeg mewn Cymdeithas
- Ymholiad Cymdeithasol ar Waith
- Unigolion a'r Gymdeithas

**Blwyddyn 2**

- Addysg, Polisi a Chymdeithas
- Cwestiynu Dulliau Meintiol ac Ansoddol Gwyddor Cymdeithasol
- Problemau Cymdeithasol
- Problemau Cymdeithasol: Cyfryngau, Chwedlau a Phanig Moesol
- Ymchwilio i Ryw

**Blwyddyn 3**

- Anabledd
- Bodau Dynol ac Anifeiliaid Eraill
- Polisi a Chymdeithas
- Symudiadau Cymdeithasol
- Traethawd Hir
- Ymchwilio i Ryw

**6ED YN Y DU BODDHAD MYFYRWYR**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-ABB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

- ▲ Cymdeithaseg
- ◆ Cymdeithaseg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ◆ Troseddeg a Chymdeithaseg
- ◆ Troseddeg a Chymdeithaseg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

**BSc Cydanrhydedd Cymdeithaseg a**

- ▲ Polisi Cymdeithasol
- ◆ Polisi Cymdeithasol (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Seicoleg
- ◆ Seicoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol e.e. y Gyfraith, Newyddiaduraeth neu Addysgu
- Astudiaeth Ôl-raddedig
- Cyrff Gwirfoddol/Trydydd Sector
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Y Gwasanaeth Sifil
- Ymchwil mewn Cyrff Cyhoeddus neu Breifat

# CYMRAEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae'r iaith Gymraeg yn agor drysau i amrywiaeth eang o gyfleoedd cyffrous mewn meysydd fel masnach, addysg, y cyfryngau ac awdurdodau lleol.**

**Bydd y cwrs hwn yn sicrhau fod gen ti'r ddealltwriaeth, gwybodaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i Gymru heddiw, fe fyddi di'n dysgu mewn adran sydd ag enw da rhagorol o ran ansawdd eu haddysgu a'u hymchwil yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.**

Byddi di'n cael sylfaen gadarn mewn iaith gyda chyfle i arbenigo mewn meysydd fel cyfieithu, ysgrifennu creadigol, polisi a deddfau'r iaith, seicoieithyddiaeth a llenyddiaeth Gymraeg.

Cei gyfle i wneud lleoliadau gwaith amrywiol fel rhan o dy gwrs.

Fel cyn-fyfyriwr Cymraeg o Abertawe, fe fyddi di'n meithrin dealltwriaeth gadarn o'r iaith Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i chyd-destun cyfreithiol. Fe fyddi di'n gallu meddwl yn feirniadol ac yn greadigol – meithrin sgiliau gwerthfawr ar gyfer y byd gwaith cystadleuol.

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysg
- Cyfieithu
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Cyhoeddi
- Y Gwasanaeth Sifil

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1 (Iaith Gyntaf)**

- Cyfieithu
- Cymraeg Creadigol
- Cymraeg Proffesiynol
- Statws yr Iaith Gymraeg

**Blwyddyn 1 (Ail Iaith)**

- Defnydd o'r Iaith
- Trawsieithu
- Sgiliau Cyflwyno a Chyfathrebu

**Blwyddyn 2**

- Cyflwyniad i Ysgrifennu Creadigol
- Hawliau'r Iaith yn y Cyd-destun Rhyngwladol
- Rhyddiaith Rhwng Dau Fyd

**Blwyddyn 3**

- Blas ar Ymchwil
- Cyfieithu
- Drama'r Gymraeg: Saunders Lewis a Gwenlyn Parry
- Traethawd Hir
- Yr Iaith Gymraeg, Datganoli a'r Gyfraith

**82%**
**BODDHAD CYFFREDINOL**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

- ▲ Cymraeg (Llwybr Iaith Gyntaf)
- ▲ Cymraeg (Llwybr Iaith Gyntaf) (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)
- ▲ Cymraeg (Llwybr Ail Iaith)
- ◆ Cymraeg (Llwybr Ail Iaith) (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)
- ▲ Cymraeg, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- ◆ Cymraeg, Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Cymraeg: Iaith, Cyfraith a Pholisi
- ◆ Cymraeg: Iaith, Cyfraith a Pholisi (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)

**BA Cydanrhydedd Cymraeg (Llwybr Iaith Gyntaf/Ail Iaith)**

- ▲ Addysg a Chymraeg
- ◆ Addysg a Chymraeg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Cyfryngau (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Hanes
- ◆ Hanes (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Llenyddiaeth Saesneg
- ◆ Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

# CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS A'R CYFRYNGAU

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Astudia radd mewn Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau gyda ni, a byddi di'n gallu dysgu'r sgiliau y bydd eu hangen arnat i ddilyn gyrfa lwyddiannus yn y maes cyffrous hwn.**

**Mae ein cwrs gradd wedi'i achredu gan y Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus a chaiff ei addysgu gan weithwyr proffesiynol profiadol yn y diwydiant ac academyddion blaenllaw.**

Byddi di'n meithrin sgiliau creadigol er mwyn rheoli ymgyrchoedd cyfryngau digidol a chyfarwyddo dulliau cyfathrebu strategol rhyngwladol, gan arbenigo mewn cysylltiadau cyhoeddus. Gelli hefyd astudio llwybrau penodol ym meysydd cyfryngau digidol ac ymarferol, ffilm a newyddiaduraeth.

Gelli ddarganfod pam mae cysylltiadau cyhoeddus yn bwysig i lwyddiant pob cwmni, a dysgu am fanteision datblygu cydberthnasau hirhoedlog â chwmnïau a gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys gohebwyr newyddion, hysbysebwyr a marchnatwyr, ymarferwyr yn y cyfryngau a gwleidyddion.

Bydd lleoliad gwaith yn rhoi profiad ymarferol o Gysylltiadau Cyhoeddus a'r cyfryngau i ti, a gelli hefyd dreulio blwyddyn mewn diwydiant.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Astudiaethau Ffilm
- Cyflwyniad i Hanes y Cyfryngau
- Cyflwyniad i'r Cyfryngau a Chyfathrebu
- Cyflwyno a Datgodio'r Newyddion
- Cysylltiadau Cyhoeddus: Cyfathrebu Strategol

**Blwyddyn 2**
- Cyflwyniad i Gynhyrchiad Fideo
- Damcaniaethu'r Cyfryngau
- Theori Cysylltiadau Cyhoeddus
- Ymarfer Cysylltiadau Cyhoeddus Digidol

**Blwyddyn 3**
- Interniaeth ar gyfer y Cyfryngau a Chyfathrebu
- Strategaeth, Marchnata a Brandio
- Traethawd Hir
- Ysgrifennu i Radio a Sgrîn

### MODIWLAU CYFRWNG CYMRAEG

**Blwyddyn 1**
- Cyfathrebu Strategol: Cysylltiadau Cyhoeddus
- Cyflwyniad i Astudiaethau Ffilm
- Sgiliau Cyfryngau Allweddol

**Blwyddyn 2**
- Cyfathrebu Digidol
- Sgiliau Cyfryngau Ymarferol
- Testunau Trawsgyfryngol

**Blwyddyn 3**
- Creu Cynhyrchiad Aml-blatfform
- Paratoi Traethawd Hir
- Traethawd Hir

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

CIPR CHARTERED INSTITUTE OF PUBLIC RELATIONS

CYFRYNGAU
AF 1 YN Y DU
**BODDHAD CWRS**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofynion mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
▲ Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau
◆ Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
◆ Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Busnes
- Cyhoeddi
- Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata
- Hysbysebu
- Marchnata Digidol
- Newyddiaduraeth
- Teledu a Radio

# CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Wrth i'n byd fynd yn llai ac yn llai diolch i dechnoleg, trafnidiaeth ac economi ryngwladol gymhleth, mae gwerth cydberthnasau heddychlon a chydweithredol rhwng gwledydd yn dod yn fwyfwy pwysig.**

**Ar gyfer y radd hon byddi'n edrych y tu ôl i'r penawdau ar y prif ddylanwadwyr o ran gwleidyddiaeth ryngwladol, gan ystyried syniadau pwysig a sut y gallwn ddatrys gwrthdaro neu sicrhau cydweithrediad.**

Ar ein rhaglen Cysylltiadau Rhyngwladol, byddi'n edrych ar globaleiddio a sefydliadau byd-eang, gwaith datblygu a hawliau dynol, gwleidyddiaeth ryngwladol a rhanbarthol, heddwch a gwrthdaro, economi wleidyddol, diogelwch ac astudiaethau strategol, ac yn dysgu sut mae pŵer, sefydliadau a chyfreithiau yn effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd.

Byddi'n meithrin dealltwriaeth o'r patrymau ymddwyn rhwng gwledydd, eu harweinwyr a'u corfforaethau, gan ganolbwyntio ar y rhyngweithio a'r cydberthnasau rhwng syniadaeth athronyddol, wleidyddol ac economaidd.

Cei gyfle i wneud lleoliad gwaith cystadleuol gyda Senedd Cymru fel rhan o'r modiwl, Senedd Cymru.

Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn un o nifer cyfyngedig o sefydliadau a ddewiswyd i ddechrau partneriaeth â Senedd y DU i gyflwyno modiwl arloesol, Astudiaethau Seneddol i fyfyrwyr yn y drydedd flwyddyn. Mae'r modiwl yn cynnwys cyfres o sesiynau gydag arbenigwyr ac aelodau o staff sy'n gweithio yn Senedd y DU. Bydd yn arwain at ymweld â San Steffan am ddiwrnod, a fydd yn cynnwys sgwrsio ag uwch-aelodau o'r Senedd.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Athroniaeth Hynafol a Rhethreg
- Cyflwyniad i Gysylltiadau Rhyngwladol
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth
- Profiad America 1492-2000
- Rhyfel a Heddwch yn yr Oes Niwclear

**Blwyddyn 2**

- Anarchiaeth a Threfn: Damcaniaethau mewn Cysylltiadau Rhyngwladol
- America mewn Argyfwng: Diwylliant Gwleidyddol a Chymdeithas o'r Tet Sarhaus i Trump
- Athroniaeth a'r Oleuedigaeth
- Globaleiddio
- Hanes Meddwl Gwleidyddol

**Blwyddyn 3**

- Astudiaethau Seneddol
- Perygl Clir a Heddiw: Terfysgaeth ac America
- Senedd Cymru
- Yn Sgîl y Rhyfel

GWLEIDYDDIAETH
**10**
**UCHAF YN Y DU BODDHAD CWRS**
(Times Good University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

- ▲ Cysylltiadau Rhyngwladol
- ◆ Cysylltiadau Rhyngwladol (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Cysylltiadau Rhyngwladol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BA Prif Bwnc/Is-bwnc Anrhydedd**

- ◆ Cysylltiadau Rhyngwladol gydag Almaeneg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Cysylltiadau Rhyngwladol gyda Ffrangeg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Cysylltiadau Rhyngwladol gyda Sbaeneg (gyda Blwyddyn Dramor)

**BA Cydanrhydedd Cysylltiadau Rhyngwladol a**

- ▲ ◆ Astudiaethau Americanaidd (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ ◆ Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ ◆ Hanes (gyda Blwyddyn Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysg
- Busnes
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Sefydliadau Dyngarol
- Y Gyfraith a Gwasanaethau Cyhoeddus

# DAEARYDDIAETH

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Daearyddiaeth yn hollbwysig yn ein byd cydgysylltiedig. Mae'n ein helpu i ddeall y cydberthnasau rhwng pobl a'r amgylchedd a'r ffordd y maent yn amrywio rhwng cyfnodau a lleoedd. Mae Daearyddiaeth yn ein galluogi i ddarganfod, cofnodi a ffurfio'r lleoedd rydym yn byw ynddynt nawr ac yn y dyfodol.**

**Mae ein lleoliad yn cynnig mynediad heb ei ail i amgylcheddau gwledig, arfordirol a threfol: Penrhyn Gŵyr, Bannau Brycheiniog a thirweddau diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol De Cymru.**

Yn ochr ag ochr o wybodaeth flaengar a meistrolaeth o gysyniadau allweddol, rydyn yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu gweithredol drwy waith maes.

Gelli addasu dy radd i gyd-fynd â dy ddiddordebau drwy gynnwys cymysgedd o ddaearyddiaeth ddynol a ffisegol.

Mae pob modiwl yn darparu hyfforddiant naill ai yn theori neu arfer agwedd wahanol ar y pwnc (daearyddiaeth gymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol, hanesyddol neu wleidyddol).

Byddwn yn sicrhau bod gen ti'r adnoddau proffesiynol a'r meddylfryd graddedig y bydd eu hangen arnat i ddatrys rhai o'r 'heriau mawr' sy'n ein hwynebu heddiw.

Mae'r asesiadau yn amrywiol ac yn integreiddiol, sy'n dy alluogi i feistroli sgiliau meddwl yn feirniadol, datrys problemau, arweinyddiaeth, entrepreneuriaeth a gweithio mewn tîm yn hyderus.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Royal Geographical Society with IBG Accredited Programme

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Cynllunio Rhanbarthol ac Adnoddau
- Cynllunio Trefol ac Arolygu
- Dysgu ac Addysg
- Newyddiaduraeth a'r Cyfryngau
- Rheolaeth a Chadwraeth Amgylcheddol
- Y Sector Cyhoeddus, Diwydiannau Creadigol a Gwaith Elusennol

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Systemau Daear
- Dinasoedd Cynaliadwy
- Globaleiddio
- Peryglon Naturiol a Chymdeithas
- Sgiliau Daearyddol
- Systemau Dynameg y Ddaear

**Blwyddyn 2**

- Cofnod Daearegol o Amgylcheddau'r Gorffennol
- Daearyddiaethau Diwylliannol Ymylol
- Daearyddiaethau Gweithredu Hinsawdd ac Actifiaeth
- Y Ddaear o'r Gofod: Monitro Newid Amgylcheddol Byd-eang

**Blwyddyn 3**

- Daearyddiaeth o Brydain Wledig Gyfoes
- Dinasoedd y Byd
- Gwyddorau Meteoroleg ac Atmosfferig
- Hinsawdd y 1,000 o Flynyddoedd Diwethaf

**5ED YN Y DU BODDHAD CYFFREDINOL**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**
(gan gynnwys Daearyddiaeth neu bwnc cysylltiedig)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Daearyddiaeth
- ◆ Daearyddiaeth (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ▲ Daearyddiaeth Ddynol
- ◆ Daearyddiaeth Ddynol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Daearyddiaeth
- ◆ Daearyddiaeth (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Daearyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Geowyddoniaeth Amgylcheddol
- ◆ Geowyddoniaeth Amgylcheddol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)

Daearyddiaeth a Gwyddor Gwybodaeth Ddaearyddol – gweler tudalen 91

Geowyddoniaeth Amgylcheddol – gweler tudalen 101

Gwyddor yr Amgylchedd a'r Argyfwng Hinsawdd – gweler tudalen 107

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

# DAEARYDDIAETH A GWYDDOR GWYBODAETH DDAEARYDDOL

CAMPWS PARC SINGLETON

**Drwy ddefnyddio technolegau newydd i ddatrys problemau daearyddol, mae Daearyddiaeth a Gwyddor Gwybodaeth Ddaearyddol yn ein helpu deall cydberthnasau rhwng pobl a'r amgylchedd a sut maent yn amrywio ar draws amser a gofod.**

**Mae'r maes tirfesur a llunio mapiau wedi'i chwyldroi gan systemau digidol datblygedig a all gaffael, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth geo-ofodol mewn ffordd ddeallus.**

**Os wyt yn frwdfrydig dros gyfrifiadura, daearyddiaeth neu fathemateg a bod gen ti ddiddordeb mewn data gofodol, dyma'r cwrs i ti.**

Bydd y radd hon yn dy hyfforddi i fod yn wyddonydd gwybodaeth ddaearyddol; yn dy baratoi gyda sgiliau ymarferol, rhifyddol a chyfrifiadurol.

Rydyn yn rhoi cryn bwyslais ar ddysgu gweithredol drwy ymarfer. Rydyn yn cynnig cyfleoedd addysgu bywiog gan academyddion sydd ymhlith y rhai mwyaf blaenllaw yn y byd mewn cymuned ddysgu ddeniadol ac ysbrydoledig.

Byddwn yn sicrhau bod gen ti'r adnoddau proffesiynol a'r meddylfryd graddedig y bydd eu hangen arnat i ddatrys rhai o'r 'heriau mawr' sy'n ein hwynebu heddiw. Mae asesiadau cyrsiau yn amrywiol ac yn integreiddiol, sy'n dy alluogi i feistroli sgiliau meddwl yn feirniadol, datrys problemau, arweinyddiaeth, entrepreneuriaeth a gweithio mewn tîm yn hyderus.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i'r Ddaear: Trosolwg o Ddaeareg
- Cyflwyniad i Systemau Daear
- Cynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd
- Globaleiddio
- Peryglon Naturiol a Chymdeithas
- Sgiliau Daearyddol

**Blwyddyn 2**

- Amgylcheddau a Phrosesau Rhewlifol
- Daearyddiaethau Diwylliannol Ymylol
- Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol
- Y Ddaear o'r Gofod: Monitro Newid Amgylcheddol Byd-eang

**Blwyddyn 3**

- Daearyddiaeth o Brydain Wledig Gyfoes
- Gwyddorau Meteoroleg ac Atmosfferig
- Tectoneg Plât a Geoffiseg Fyd-eang
- Theori Ymfudo Animeiddio
- Y Cryosffer mewn Hinsawdd sy'n Newid

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Royal Geographical Society with IBG Accredited Programme

DAEARYDDIAETH FFISEGOL

**8 FED YN Y DU**

**BODDHAD CYFFREDINOL**

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**

(gan gynnwys Daearyddiaeth neu bwnc cysylltiedig)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲ Daearyddiaeth a Gwyddor Gwybodaeth Ddaearyddol

◆ Daearyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) yn arwain at BSc Daearyddiaeth a Gwyddor Gwybodaeth Ddaearyddol

Gwyddor yr Amgylchedd a'r Argyfwng Hinsawdd – gweler tudalen 107

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Cadwraeth
- Geo-hysbyseg
- Mapio a Chartograffeg
- Rheolaeth Amgylcheddol
- Synhwyro o Bell
- Tirfesur



Yn dilyn nifer o ddiwrnodau agored ac ymweld â'r Brifysgol, roeddwn yn gwybod taw Abertawe oedd y Brifysgol i fi. Roedd brwdfrydedd staff yr Adran Ddaearyddiaeth ynghyd â hyblygrwydd y cwrs a'r profiadau teithio yn apelio ataf yn fawr iawn. Roeddwn hefyd yn ddigon ffodus i fynd ar brofiad gwaith gydag Adran Ddaearyddiaeth y Brifysgol yn sgil ennill Her Academi Morgan yn y GwyddonLe 2019. Roedd hyn wedi rhoi blas o fywyd prifysgol i fi yn ogystal â chyfle i ddysgu sgiliau daearyddol newydd.

Wrth benderfynu pa Brifysgol i ddewis, roedd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystyriaeth bwysig oherwydd y manteision o ddosbarthiadau llai sy'n golygu gwell perthynas gyda dy ddarlithwyr, ac felly mae holi a thrafod y cynnwys yn llawer haws. Yn gymdeithasol hefyd mae dosbarthiadau llai o faint yn gwneud hi'n llawer yn haws i greu ffrindiau newydd. Rwy'n perfformio'n well yn y modiwlau cyfrwng Cymraeg o gymharu â'r rhai Saesneg, gan fy mod yn deall pethau llawer yn well ac yn adnabod cysyniadau a geiriau allweddol yn gyflymach. O ganlyniad i benderfynu parhau i astudio trwy'r Gymraeg, rwyf wedi derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd hyn o fudd wrth gynorthwyo gyda chostau gwaith maes, ac felly'n sicrhau fy mod yn gallu astudio fy mhwnc i fy mhotensial llawn yn fy iaith fwyaf ffafriol!

Rydw i'n llywydd Y Gymdeithas Ddaearyddiaeth eleni sydd wedi cynnig profiadau allgyrsiol gwych i fi. Yn y dyfodol, hoffwn wneud cais i fod yn Swyddog Materion Cymraeg yr Undeb, i geisio gwella gwasanaethau Cymraeg ar draws y brifysgol ar gyfer y myfyrwyr.

# Tom Kemp

**BSc DAEARYDDIAETH**

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

# ECONOMEG

## CAMPWS Y BAE & CAMPWS PARC SINGLETON

**Gall gradd mewn Economeg arwain at amrywiaeth enfawr o yrfaoedd, o fancio buddsoddi ac ymgynghoriaeth rheoli i wleidyddiaeth a swyddi rheoli mewn sefydliadau byd-eang.**

**Mae gan ein graddau Economeg enw da iawn am gynhyrchu graddedigion o safon uchel. Mae nifer o'r graddedigion hynny wedi symud ymlaen i weithio i'r cwmnïau mwyaf yn y byd fel Barclays, HSBC a PwC.**

Mae ein graddau yn rhoi dealltwriaeth gadarn i ti o egwyddorion economaidd modern a materion cyfoes.

Caiff y cyrsiau eu diweddaru'n gyson er mwyn parhau i fod yn berthnasol i'r byd modern go iawn, ac mae'r un mor addas i ti os wyt yn ystyried gyrfa fel economegydd, os wyt yn agored i weithio mewn gwahanol feysydd economaidd ac ariannol.

Yn dy flwyddyn gyntaf, byddi di'n derbyn sylfaen gynhwysfawr o wybodaeth sy'n cwmpasu micro a macro-economeg, ystadegau, cyllid, cyfrifyddu a methodoleg.

Yn ystod blynyddoedd diweddarach bydd gen ti fwy o ddewis o fodiwlau arbenigol mewn meysydd sy'n cwmpasu polisi economaidd, datblygu economaidd ac econoeg iechyd.

Mae Blwyddyn mewn Diwydiant yn rhoi'r cyfle perffaith i ti ennill profiad diwydiant y byd go iawn, gan dy wneud yn ymgeisydd deniadol ar gyfer swyddi ar ôl graddio.

Wyt ti eisiau blwyddyn fythgofiadwy yn ymdrochi mewn diwylliannau newydd a datblygu fel unigolyn; yn broffesiynol ac yn bersonol? Mae Blwyddyn Dramor hefyd yn gyfle sydd ar gael i ti.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Archwilio Data Economaidd
- Cyllid ar gyfer Economeg
- Egwyddorion Macro-Economeg
- Egwyddorion Micro-Economeg

**Blwyddyn 2**
- Macro-Economeg Canolradd
- Micro-Economeg Canolradd
- Polisi Economaidd
- Problemau a Gwneud Penderfyniadau mewn Economeg

**Blwyddyn 3**
- Economeg Ddigidol
- Economeg a Masnach Ryngwladol
- Hanes Meddwl Economaidd
- Macro-Economeg Uwch
- Micro-Economeg Uwch

**5**
**UCHAF YN Y DU BODDHAD CWRS**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲◆ Economeg
- ▲◆ Economeg a Busnes
- ▲◆ Economeg a Chyllid

◆ **Gellir ymestyn ein holl gyrsiau 3 blynedd i 4 blynedd i'w cynnwys: (Blwyddyn Sylfaen) neu (Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)**

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Dadansoddwr, Ymchwilydd neu Ymgynghorydd i'r Llywodraeth
- Dadansoddwr Ariannol
- Econometrydd
- Economydd Proffesiynol
- Masnachwr Deilliadau
- Rheolwr neu Ymgynghorydd Rheoli

**Mae achrediadau'n cynnwys:** (yn amodol ar ddewis modiwlau):

ACCA

# FFARMACOLEG FEDDYGOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae cwrs gradd Ffarmacoleg Feddygol yn ffocysu ar y wyddoniaeth y tu ôl i gyffuriau a meddyginiaethau, eu heffaith ar systemau byw, a'u rôl wrth drin clefydau.**

**Byddi di'n dysgu am docsicoleg, imiwnoleg, ffarmacogenomeg a datblygiad cyffuriau. Mae cymysgedd o fodiwlau gorfodol a dewisol yn rhoi cyfle i ti deilwra dy astudiaethau i gyd-fynd â dy ddiddordebau penodol, dy amcanion o ran gyrfa, neu dy gynlluniau ar gyfer astudio ôl-radd.**

Mae Ffarmacoleg Feddygol wedi cael ei hadnabod fel gradd israddedig hanfodol, sydd ei hangen i lenwi'r gweithlu presennol a mynd i'r afael â bylchau sgiliau ym maes datblygu meddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol. Cafodd cwricwlwm cyrsiau Ffarmacoleg Feddygol ei ddatblygu yn unol ag arweiniad Cymdeithas Ffarmacolegol Prydain, er mwyn datblygu'r blychau sgiliau.

Fe fyddi di'n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau ymchwil ac addysgu o'r radd flaenaf, gan gynnwys ein labordai ymchwil. Byddi di'n datblygu sgiliau dadansoddi a rheoli prosiect arbennig, ac yn dysgu dylunio arbrofion a chynllunio rhaglenni gwaith.

Yn ystod dy astudiaethau, fe fyddi di'n canolbwyntio ar un o dri llwybr cyflogadwyedd: Ymchwil Gwyddorau Meddygol, Y Gwyddorau Meddygol mewn Ymarfer (yn amodol ar gymhwysedd), neu Fenter ac Arloesi.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cemeg Organig
- Dadansoddiad Cemegol
- Ffisioleg Ddynol
- Microbioleg

**Blwyddyn 2**
- Ffarmacogenomeg
- Ffarmacoleg
- Imiwnoleg Ddynol
- Therapi Gwrthficrobaidd ac Ymwrthedd
- Y System Gardiofasgwlaidd

**Blwyddyn 3**
- Bioleg Ddynol a'r Amgylchedd
- Datblygu a Rheoleiddio Cyffuriau
- Ffarmacoleg Canser
- Nanotocsicoleg
- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Treialon Clinigol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**Llwybrau i Feddygaeth**

**AF 1 YN Y DU AMGYLCHEDD YMCHWIL** (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**AAB-BBB** (gan gynnwys Cemeg ynghyd ag un pwnc STEM arall)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Ffarmacoleg Feddygol
◆ Ffarmacoleg Feddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Cynhyrchion Fferyllol
- Datblygu Cyffuriau
- Proffesiynau Iechyd (ar ôl astudiaeth bellach) e.e. Meddyg, Cyswllt Meddyg, Deintyddiaeth neu Filfeddygaeth.
- Rheoleiddio
- Ymchwil Diwydiannol

**LLWYBR MEDDYGAETH I RADDEDIGION:**

Mae'r radd hon yn rhan o'r rhaglen Llwybr Meddygaeth i Raddedigion. Cyn belled â dy fod yn bodloni'r gofynion mynediad, ac wedi dilyn y Llwybr Gwyddor Meddygaeth mewn Ymarfer, gallwn dy warantu y cei gyfweliad ar gyfer ein cwrs MBBCh Meddygaeth i Raddedigion.



# Emily Ellis

**BSc FFARMACOLEG FEDDYGOL**

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

Dewisais Brifysgol Abertawe oherwydd y lleoliad anhygoel a'r safon uchel o addysg. Mae fy nghwrs yn delio gyda'r wyddoniaeth sydd y tu ôl i gyffuriau a meddyginiaethau, eu heffeithiau ar systemau byw a sut maent yn trin clefydau. Fy hoff ran o'r radd yw dysgu am gyffuriau anghyfreithlon a sut mae'r rhain yn gweithio ac yn effeithio ar bobl.

Mae'r cyfle i astudio rhan o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg wedi rhoi mantais enfawr i mi gael mwy o gyfleoedd yn fy ngyrfa trwy wella fy nealltwriaeth o'r pwnc ar draws y ddwy iaith. Mae hefyd cyfle i fanteisio ar gefnogaeth ariannol gydag Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Academi Hywel Teifi. Mae hefyd cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg drwy bethau fel tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg ac adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y cwrs - hyn oll yn gwneud pethau'n haws iti! Yn ogystal mae'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer bywyd myfyrwyr fel y Gymdeithas Gymraeg (GymGym) wedi bod yn arbennig ac o gymorth i fwynhau bywyd yma a dod i 'nabod pobl. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn llawn pobl garedig sydd eisiau dy helpu di yn y Brifysgol ac ymhellach. Mae llwyth o gymdeithasau eraill i dy ddiddanu hefyd, o'r celfyddydau i chwaraeon a mwy!

Rydw i wedi manteisio ar nifer o gyfleoedd yn y Brifysgol oherwydd fy Nghymreictod gan gynnwys bod yn rhan o Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2021. Roedd hyn yn gyfle anhygoel er mwyn cael y cyfle i gyfrannu at neges bwerus iawn sydd wedi'i rhannu dros y byd. Fe wnaeth y profiad roi hyder imi allu trafod materion pwysig gyda phobl eraill er mwyn creu cymuned well o'm cwmpas.

Mae dewis Prifysgol Abertawe wedi bod yn benderfyniad gwych ac yn brofiad bythgofiadwy hyd yma!

# FFERYLLIAETH

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Caiff gofal iechyd modern ei ddarparu gan dîm amlddisgyblaethol ac, yn gynyddol, mae fferyllwyr yn darparu gwasanaethau clinigol ehangach a newydd mewn amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd. Mae ein gradd mewn Fferylliaeth yn cydnabod y rolau newydd ac uwch hyn ac yn cyfuno gwyddoniaeth ac ymarfer i baratoi myfyrwyr i fynd i'r afael â heriau tirwedd newidiol fferylliaeth.**

Mae ein cwrs Fferylliaeth arloesol wedi'i gynllunio i adlewyrchu'r ffordd y mae fferyllwyr yn cynghori cleifion a sut mae gwyddoniaeth yn ategu gofal fferyllol.

Byddi di'n elwa o'n profiad a'n harbenigedd mewn ymarfer clinigol, gwyddorau bywyd, ymchwil a hyfforddiant.

Ar y cyd â phwyslais cryf ar sgiliau penderfynu clinigol a chyfathrebu, byddi'n datblygu'r rhinweddau academaidd, ymarferol a phersonol i fod yn gymwys ac yn hyderus wrth ymarfer fferylliaeth.

Drwy gydol dy gwrs, byddi'n elwa o lefel uchel o brofiad clinigol strwythuredig ac addysgu mewn darlithoedd a'r labordy. Byddi di'n dysgu ar draws saith thema eang, pob un wedi'i hategu gan 'linyn digidol' a phroffesiynoliaeth fel Deallusrwydd Artiffisial, roboteg a data mawr:

- Anatomeg a Ffisioleg
- Bioleg a Biocemeg
- Cemeg Fferyllol
- Ffarmacoleg
- Fferylliaeth Glinigol
- Fferylleg
- Ymarfer Fferylliaeth

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyffuriau a Meddyginiaethau
- Iechyd, Clefydau a Chleifion
- Ymarfer Fferylliaeth

**Blwyddyn 2**
- Unedau Astudio Cyfunol: Systemau Corff, Clefydau a Chleifion

**Blwyddyn 3**
- Dysgu sy'n Canolbwyntio ar y Claf
- Modiwlau Opsiynol
- Prosiect Ymchwil Estynedig

**Blwyddyn 4**
- Cleifion a'r Boblogaeth
- Paratoi ar gyfer Ymarfer ac Arweinyddiaeth Uwch

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**1AF YN Y DU**
**YSGOL FEDDYGAETH**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL:

**ABB-BBB** (gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall. Os nad wyt ti'n meddu ar y pynciau gwyddoniaeth, cysyllta â ni i drafod mynediad)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

### MPharm Anrhydedd Sengl

◆ Fferylliaeth
★ Fferylliaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen)

◆ **4 BLYNEDD** ★ **5 MLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:

- Fferylliaeth Gymunedol
- Fferylliaeth mewn Ysbyty
- Gofal Sylfaenol, e.e. Fferyllydd mewn Meddygfa
- Rheoleiddio Meddyginiaethau
- Y Byd Academaidd
- Y Diwydiant Fferylleg

### CYN-GOFRESTRU

Ar ôl cwblhau gradd MPharm, bydd rhaid i raddedigion gymryd camau pellach cyn gallu cofrestru'n Fferyllydd. Mae'r camau hyn yn cynnwys blwyddyn o hyfforddiant cyn-gofrestru. Mae rhagor o fanylion am gofrestru ar gael ar **www.pharmacyregulation.org/registration**

# FFISEG

CAMPWS PARC SINGLETON

**O wybodaeth gwantwm i ffiseg gronynnau ynni uchel; astroffiseg i ddamcaniaeth linynnol; o fater tywyll i ddisgyrchiant cwantwm; gwrthfater i laserau gorgyflym: bioleg gwantwm i'r genhedlaeth nesaf o led-ddargludyddion; ffiseg meddygol i ddysgu peiriannau. Drwy astudio Ffiseg yn Abertawe byddi di'n darganfod ehangder cyffrous y pwnc a newid dy ddyfodol.**

Byddi di'n dysgu ac yn deall sut y defnyddir ffiseg sylfaenol ar draws pob disgyblaeth a bod gan hyn gysylltiadau a datblygiadau ym meysydd peirianneg, meddygaeth a thechnoleg.

Mae ein dulliau addysgu yn seiliedig ar yr ymchwil ddiweddaraf, e.e. cysylltiadau ymchwil gyda CERN a Gwaith gwerthfawr Cydweithrediad ALPHA ar wrthfater. Mae ein hystod eang o brosiectau BSc a meistr yn adlewyrchu diddordebau ymchwil yr adran ac yn cynnwys y posibilrwydd o brosiect Meistr yn CERN yn Genefa.

Trwy ein cyfleusterau o'r radd flaenaf cei dy gyflwyno i waith ymchwil. P'un a yw'n ymwneud â dylunio'r dyfeisiau ffotofoltäig nesaf, arsylwi prosesau cyflym iawn gan ddefnyddio laserau neu ddefnyddio cyfrifiadura perfformiad uchel i fodelu mater cwarc dwys.

Bydd gan fyfyrwyr MPhys y cyfle i dreulio semester dramor ym Mhrifysgol Houston, UDA yn y semester gyntaf o'r drydedd flwyddyn.

Mae Ffiseg yn Abertawe yn cynnig llawer o bosibiliadau ochr yn ochr â chyfraddau boddhad myfyrwyr uchel yn gyson ac amgylchedd dysgu cynhwysol.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Athena SWAN Bronze Award

IOP Institute of Physics

*I gydnabod yr Adran Ffiseg am ei hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb rhywiol a chynwysoldeb.*

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL*:**

- Awyrofod ac Amddiffyn
- Ffisegwyr Meddygol
- Gwyddonydd Niwclear
- Gwyddonydd Ymchwil
- Meteorolegwyr
- Modelwr Ariannol

Mae galw mawr ar ein graddedigion ffisegwyr mewn amrywiaeth o ddiwydiannau oherwydd eu galluoedd dadansoddol, mathemategol a meddwl beirniadol rhagorol.*

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**

- Dynameg, Osciliadau a Thonnau
- Mathemateg i Ffisegwyr
- Seryddiaeth a Chosmoleg
- Y Byd Cwantwm

**Blwyddyn 2**

- Electromagnetig a Pherthnasedd Arbennig
- Efelychu Ffiseg
- Ffiseg Gronynnau
- Ffiseg Ystadegol
- Mecaneg Gwantwm

**Blwyddyn 3**

- Addysgu Ffiseg drwy Leoliad mewn Ysgol
- Ffiniau Ffiseg Niwclear
- Prosiectau Damcaniaethol, Arbrofol a Chyfrifiadol

**Blwyddyn 4 (MPhys)**

- Ffiseg Cyseinedd Magnetig, Sbectrosgopeg NMR a MRI
- Prosesu Gwybodaeth Gwantwm
- Prosiect Ymchwil Uwch
- Theori Maes Cwantwm

**YN Y 4YDD DU ANSAWDD ADDYSGU**
(The Times and Sunday Times Good University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BSc: ABB-BBB** (gan gynnwys Ffiseg a Mathemateg)

**MPhys: AAB-ABB** (gan gynnwys Ffiseg a Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

- ▲ Ffiseg
- ◆ Ffiseg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Ffiseg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Ffiseg Ddamcaniaethol
- ◆ Ffiseg Ddamcaniaethol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)
- ▲ Ffiseg gyda Ffiseg Gronynnau a Chosmoleg

**MPhys Anrhydedd Sengl**

- ◆ Ffiseg
- ★ Ffiseg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Ffiseg (gyda Semester Dramor)
- ◆ Ffiseg Ddamcaniaethol
- ★ Ffiseg Ddamcaniaethol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

# GENETEG
## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae astudiaeth Geneteg yn faes cyffrous sy'n symud yn gyflym ac yn cael effaith enfawr mewn ystod o feysydd gwyddonol, gan gynnwys deall a thrin clefydau amrywiol, datblygu fferyllol, esblygiad, cadwraeth o fioamrywiaeth.**

**Byddi di'n dysgu technegau ar gyfer dadansoddi mynegiad genynnau, y ffordd y mae proteinau yn rhyngweithio, strwythur DNA a'r difrod iddo, dadansoddi delweddau biomoleciwlau a chelloedd, a dulliau dadansoddol cyfrifiadurol uwch.**

Byddi di'n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys; offer dadansoddi DNA a phrotein, dadansoddwyr delweddau cyfrifiadurol a chyfleuster uwchgyfrifiadur pwerus.

Fe fyddi'n datblygu sgiliau dadansoddi a rheoli prosiect arbennig ac yn dysgu dylunio arbrofion a chynllunio rhaglenni gwaith.

Mae cymysgedd o fodiwlau gorfodol a dewisol yn rhoi'r hyblygrwydd i ti deilwra dy radd i gyd-fynd â dy ddiddordebau penodol, dy amcanion o ran gyrfa, a dy gynlluniau ar gyfer astudio pellach. Mae rhaglenni cydanrhydedd hefyd ar gael gyda Biocemeg, sy'n cyfuno dwy ddisgyblaeth sy'n gydberthynol ac sy'n gorgyffwrdd.

### RHAGLEN MSci

Mae'r radd meistr israddedig integredig hon yn ychwanegu hyfforddiant arbenigol ychwanegol mewn ystod eang o dechnegau labordy ac yn datblygu prosiect ymchwil annibynnol estynedig uwch i'r rhaglen 3 blynedd BSc Geneteg. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cymhwyster lefel meistr i ti wrth dalu ffioedd dysgu israddedig ac mae'n ddelfrydol os wyt ti'n cynllunio ar yrfa mewn ymchwil.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Bioleg Celloedd Ewcaryotig
- Epigenetig, Rheoleiddio Genyn a Chlefyd
- Geneteg ac Esblygiad
- Genomeg Poblogaeth
- Iechyd Digidol
- Ynni a Metabolaeth

**Blwyddyn 2**
- Esblygiad Moleciwlaidd
- Geneteg Ddynol a Meddygol
- Geneteg Foleciwlaidd Microbaidd
- Technegau mewn Bioleg Foleciwlaidd
- Ystadegau Biolegol

**Blwyddyn 3**
- Biowybodeg
- Datblygiad Anifeiliaid
- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Ymchwil Feintiol

**Blwyddyn 4 (MSci yn unig)**
- Cyfathrebu Gwyddoniaeth
- Prosiect Ymchwil Annibynnol Uwch

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**1AF YN Y DU**
**AMGYLCHEDD YMCHWIL**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL:

**BSc: AAB-BBB  MSci: AAB**
(gan gynnwys Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Geneteg
◆ Geneteg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BSc Cydanrhydedd Geneteg a**
▲ Biocemeg
◆ Biocemeg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MSci Anrhydedd Sengl**
◆ Geneteg

**MSci Cydanrhydedd Geneteg a**
◆ Biocemeg

Geneteg Feddygol – gweler tudalen 99

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Cynorthwyydd Ymchwil Ôl-ddoethurol
- Gwyddonydd Fforensig
- Gwyddonydd Gofal Iechyd dan Hyfforddiant (GIG)
- Gwyddonydd Ymchwil Biofeddygol
- Tocsicolegydd Geneteg

# GENETEG FEDDYGOL
## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae astudiaeth Geneteg Feddygol yn faes cyffrous sy'n symud yn gyflym ac yn cael effaith enfawr ar feddygaeth, gan ein helpu i ddeall, diagnosio a thrin llawer o glefydau dynol.**

**Byddi di'n dysgu technegau ar gyfer dadansoddi mynegiad genynnau, y ffordd y mae proteinau yn rhyngweithio, strwythur DNA a'r difrod iddo, dadansoddi delweddau biomoleciwlau a chelloedd, a dulliau dadansoddol cyfrifiadurol uwch a derbyn gwybodaeth drwyadl i ti o'r blociau adeiladu hyn sy'n hanfodol ar gyfer bywyd.**

Byddi di'n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf, gan gynnwys offer dadansoddi DNA a phrotein, a dadansoddwyr delweddau cyfrifiadurol ar gyfer astudiaethau moleciwlaidd neu gellog.

Byddi di'n datblygu sgiliau dadansoddi a rheoli prosiect arbennig ac yn dysgu dylunio arbrofion a chynllunio rhaglenni gwaith.

**Rhaglen MSci**
Mae'r radd meistr israddedig integredig hon yn ychwanegu hyfforddiant arbenigol ychwanegol mewn ystod eang o dechnegau labordy ac yn datblygu prosiect ymchwil annibynnol estynedig uwch i'r rhaglen 3 blynedd BSc Geneteg Feddygol. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cymhwyster lefel meistr i ti wrth dalu ffioedd dysgu israddedig ac mae'n ddelfrydol os wyt ti'n cynllunio ar yrfa mewn ymchwil.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Geneteg ac Esblygiad
- Ffisioleg Ddynol
- Genomeg Poblogaeth
- Microbioleg

**Blwyddyn 2**
- Clefydau Heintus
- Geneteg Ddynol a Meddygol
- Imiwnoleg Ddynol
- Ystadegau Biolegol

**Blwyddyn 3**
- Biowybodeg
- Imiwnopatholeg Ddynol
- Peirianneg Meinwe a Meddygaeth Adfywiol
- Prosiect Ymchwil Annibynnol

**Blwyddyn 4 (MSci yn unig)**
- Cyfathrebu Gwyddoniaeth
- Traethawd Hir Prosiect Ymchwil Uwch

**Llwybrau i Feddygaeth**

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**1AF YN Y DU YSGOL FEDDYGAETH** (Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**BSc: AAB-BBB MSci: AAB**
(gan gynnwys Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Geneteg Feddygol
- ◆ Geneteg Feddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MSci Anrhydedd Sengl**
- ◆ Geneteg Feddygol

Geneteg – gweler tudalen 98

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Cynhyrchion Fferyllol
- Gwyddor Fforensig
- Proffesiynau Iechyd (ar ôl astudiaeth bellach) e.e. Meddyg, Cyswllt Meddyg, Deintyddiaeth neu Filfeddygaeth.
- Tocsicoleg Geneteg

**LLWYBR MEDDYGAETH I RADDEDIGION:**

Mae'r radd hon yn rhan o'r rhaglen Llwybr Meddygaeth i Raddedigion. Cyn belled â dy fod yn bodloni'r gofynion mynediad, ac wedi dilyn y Llwybr Gwyddor Meddygaeth mewn Ymarfer, y modiwl Llwybr i Feddygaeth, gallwn dy warantu y cei gyfweliad ar gyfer ein cwrs MBBCh Meddygaeth i Raddedigion.



Mae Prifysgol Abertawe yn un o'r prifysgolion mwyaf agos at y môr ac mae hyn yn dod â nifer o gyfleoedd chwaraeon fel syrffio a nofio ac mae hi mor llesol cerdded neu eistedd ar y traeth a'r golygfeydd ffantastig. Yn ogystal â bod wrth yr arfordir, mae Campws Singleton yn rhan o'r Parc lle mae gerddi blodeuog a golygfeydd prydferth a llawer o ddigwyddiadau hefyd. Mae astudio yma yn bleser gan fod safon y dysgu yn ardderchog; mae gan y Brifysgol wobr aur am ddysgu ac mae'r darlithwyr yn barod i helpu a chefnogi drwy ateb unrhyw gwestiwn neu ansicrwydd. Mae ymdeimlad o gymuned yma ym Mhrifysgol Abertawe.

Rydw i'n astudio Geneteg Feddygol, felly'n edrych ar driniaethau a rheolaeth afiechydon. Mae'r cwrs yn cyffwrdd ar amrywiaeth o bynciau fel Imiwnoleg, Sgiliau i Ymchwilwyr a Bioleg Celloedd Ewcaryotig. Mae astudio yn Abertawe wedi bod yn brofiad gwahanol i mi oherwydd dechreuais yn ystod Covid-19 ond rydw i wedi cael mwy o ddarlithoedd a gweithdai wyneb yn wyneb ar y campws eleni a bob amser yn edrych ymlaen atynt. Fy hoff bwnc ar fy nghwrs hyd yma yw Imiwnoleg a Ffisioleg Ddynol. Rydw i'n hoff iawn o ddysgu am systemau'r corff a sut mae triniaethau'n gweithio a thrin amrywiaeth o glefydau a hefyd sut mae'r corff yn ymateb i'r driniaeth.

Wrth astudio elfennau o fy nghwrs yn y Gymraeg, rydw i'n parhau i ddefnyddio'r iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae defnyddio'r iaith mewn ffordd ffurfiol ac anffurfiol yn bwysig iawn i mi fel Cymraes. Yn y dyfodol hoffwn weithio yn uniongyrchol gyda chleifion ac mae'r ffaith fy mod yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn hyderus yn ddefnyddiol iawn. Mae'n bwysig i gleifion gael yr opsiwn i drafod materion sensitif yn yr iaith maent yn fwyaf cyfforddus i'w defnyddio.

Mae yna lawer o gefnogaeth Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. I ddechrau mae Academi Hywel Teifi a Changen y Coleg Cymraeg yn cynnig cefnogaeth i astudio yn y Gymraeg. Mae hefyd cefnogaeth ar gael gan Fentoriaid Academaidd sydd yn siarad Cymraeg ac mae'r grwpiau dysgu yn dueddol o fod yn llai sy'n rhoi'r hyder i bobl holi cwestiynau a mynegi barn. Rydw i hefyd yn derbyn ysgoloriaeth Academi Hywel Teifi a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan fy mod i'n astudio fy nghwrs yn y Gymraeg.

Rydw i wedi cael profiad anhygoel o fewn y gymuned Gymraeg yn y Brifysgol. Rydw i'n rhan o'r Gymdeithas Gymraeg sydd yn llawer o sbri. Enw'r gymdeithas yw'r Gym Gym. Rydyn yn cwrdd bob pythefnos ac yn gwneud amryw o weithgareddau sy'n gyfle arbennig i gymdeithasu.

Yn fy mlwyddyn gyntaf dewisais fyw mewn llety Cymraeg ar y campws. Rydw i mor ddiolchgar am y cyfle yma oherwydd roedd hyn wedi sicrhau fy mod i gyda chyfoedion sy'n rhannu'r gallu i siarad yr un iaith sydd yn rhoi ymdeimlad cartrefol mewn amgylchedd hollol newydd. Mae hyn wedi fy ngalluogi i wneud ffrindiau sy'n siarad Cymraeg ac rydw i'n gallu defnyddio'r iaith yn gymdeithasol ac mewn darlithoedd.

# Erin MacDonald

## BSc GENETEG FEDDYGOL

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

# GEOWYDDONIAETH AMGYLCHEDDOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

DAEARYDDIAETH FFISEGOL YN Y **8FED DU** BODDHAD CYFFREDINOL (Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Mae Geowyddoniaeth Amgylcheddol yn cyfuno astudio tirweddau ac amgylcheddau naturiol mewn daearyddiaeth ffisegol ag agweddau ar ddaeareg i edrych ar y prosesau ffisegol sy'n llunio ein planed a'r newidiadau sydd wedi effeithio ar amgylcheddau dros gyfnodau o ganrifoedd i gannoedd o filiynau o flynyddoedd.**

**Mae ein lleoliad yn golygu ei bod hi'n hawdd cyrraedd lleoedd mor amrywiol â Phenrhyn Gŵyr, Bannau Brycheiniog, a thirweddau diwydiannol trefol De Cymru.**

Rydyn yn cyfuno daearyddiaeth ffisegol gydag agweddau ar ddaeareg, sy'n dy alluogi i ymchwilio i brosesau sydd wedi llunio'r ddaear dros filiynau o flynyddoedd.

Ochr yn ochr â gwybodaeth arloesol a meistroli cysyniadau allweddol, rydyn yn rhoi pwyslais mawr ar ddysgu gweithredol drwy waith maes. Gelli addasu dy radd i gyd-fynd â dy ddiddordebau drwy gynnwys amrywiaeth eang o fodiwlau daeareg a daearyddiaeth ddynol neu ffisegol.

Byddwn yn sicrhau bod gen ti'r adnoddau proffesiynol a'r meddylfryd graddedig sydd eu hangen arnat er mwyn helpu i ddatrys rhai o'r 'heriau mawr' sy'n ein hwynebu heddiw. Mae'r asesiadau yn amrywiol ac yn integreiddiol, sy'n dy alluogi i feistroli sgiliau meddwl yn feirniadol, datrys problemau, arweinyddiaeth, entrepreneuriaeth a gweithio mewn tîm yn hyderus.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i'r Ddaear: Trosolwg o Ddaeareg
- Cynaliadwyedd
- Gwyddor Daear yn y Maes
- Peryglon Naturiol a Chymdeithas
- Sgiliau Daearyddol

**Blwyddyn 2**

- Amgylcheddau Rhewlifol
- Cofnod Daearegol o Newid Amgylcheddol
- Newid Amgylcheddol
- Synhwyro o Bell
- Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol

**Blwyddyn 3**

- Hinsawdd y 1,000 o Flynyddoedd Diwethaf
- Meteoroleg a Gwyddoniaeth yr Atmosffer
- Rhewlifeg
- Tectoneg Platiau a Geoffiseg Fyd-eang

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**
(gan gynnwys Daearyddiaeth neu bwnc perthnasol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

- ▲ Geowyddoniaeth Amgylcheddol
- ◆ Geowyddoniaeth Amgylcheddol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant)
- ◆ Daearyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) yn arwain at BSc Geowyddoniaeth Amgylcheddol

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysgu
- Asesiad Risg Yswiriant
- Diwydiannau Cynhyrchu Ynni ac Ymgynghoriaeth
- Gwaith Cadwraeth (Awdurdodau Lleol a Chyrff Anllywodraethol)
- Peirianneg Ddaearegol
- Rheoli Amgylcheddol ac Adnoddau

# GOFAL MAMOLAETH

## CAMPWS PARC SINGLETON*

**Os hoffet ddilyn gyrfa ym maes gofal mamolaeth, gweithio fel dwla neu atgyfnerthu'r sgiliau sydd eisoes gen ti yn y sector hwn, mae'r cwrs hyblyg hwn yn ddelfrydol.**

**Mae'n canolbwyntio ar rymuso merched, a theuluoedd, yn ystod eu beichiogrwydd, genedigaeth y plentyn ac ar ôl iddynt ddod yn rhieni newydd a bydd yn gwella dy sgiliau proffesiynol ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer datblygu dy yrfa ymhellach neu fanteisio ar gyfleoedd astudio pellach.**

Gyda ffocws cryf ar hunanddatblygiad, hunanymwybyddiaeth a sgiliau cyfannol, meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o agweddau allweddol ar ffisioleg, teulu, cymdeithas, cyfathrebu, diwylliant, iechyd a gwasanaethau gofal mamolaeth yn y DU.

Mae gan ein tîm Bydwreigiaeth ac Iechyd Atgynhyrchiol gyfoeth o arbenigedd ym maes gofal mamolaeth ac fe'u hysgogir i geisio gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o gyrff, profiadau ac anghenion merched wrth iddynt ddod yn famau.

Bydd ein dull dysgu cyfunol, sy'n cyfuno sesiynau a addysgir â dysgu hunangyfeiriedig, yn rhoi'r hyblygrwydd i ti drefnu dy astudiaethau o gwmpas dy waith arall neu ymrwymiadau teuluol.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

- Cymwyseddau ar gyfer Gofal Mamolaeth
- Dimensiynau Biolegol Beichiogrwydd a Magu Plant
- Dimensiynau Seicogymdeithasol Beichiogrwydd a Magu Plant
- Gweithio fel Dwla
- Gweithio yn y Tîm Gofal Mamolaeth
- Optimeiddio Iechyd a Lles mewn Beichiogrwydd, Geni a Magu Plant
- Ysgrifennu Academaidd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

> "O ganlyniad i'r cwrs, gallaf gynnig lefel uwch o gwnsela a chymorth bwydo ar y fron i'r rhai sy'n famau am y tro cyntaf."

**Zanet, Gradd mewn Gofal Mamolaeth**

**CYDNABYDDIR GAN UNICEF Y DU**

Dyfernir Statws Menter Cyfeillgar i Fabanod Lefel 1

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**MAE CYNNIG NODWEDDIADOL YN AMRYWIO:**

Nid oes cynnig nodweddiadol neu ofyniad mynediad penodol ar gyfer y cwrs hwn. Am fanylion llawn, gweler y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**Tystysgrif Addysg Uwch**
Gofal Mamolaeth

**1 BLYNEDD** LLAWN-AMSER
**2 BLYNEDD** RHAN-AMSER

**Gwna gais yn uniongyrchol i'r Brifysgol: astudio@abertawe.ac.uk**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Dwla
- Gweithiwr Cymorth Mamolaeth
- Gweinyddes Feithrin
- Proffesiynau Iechyd (ar ôl astudiaeth bellach) e.e. Bydwraig

**a Champws Parc Dewi Sant, Caerfyrddin*

# GWAITH CYMDEITHASOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Os wyt am wneud gyrfa ble medra wneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl a chymunedau mewn amgylchiadau sy'n agored i niwed, mae'r radd hon yw'r sbardun perffaith.**

**Byddi di'n treulio hanner dy amser ar leoliad gwaith, dysgu drwy arsylwi ac ymarfer, a'r hanner arall yn cael ei addysgu ar ein campws, yn datblygu ymchwil rhagorol a sgiliau dadansoddi ac yn dysgu i gyfathrebu dy syniadau.**

Mae ein cwrs yn cael ei achredu gan Ofal Cymdeithasol Cymru a chydnabyddir gan y cyrff rheoleiddio yn y gwledydd eraill yn y DU, er mwyn i ti gofrestru ar ôl cwblhau fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig.

Mae gennym gysylltiadau da gydag asiantaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ne a gorllewin Cymru, ac mewn awdurdodau lleol a'r sectorau gwirfoddol, gan gynnig lleoliadau mewn amrywiaeth o leoliadau.

Pan fyddi di'n gwneud cais am y cwrs, dylet ddweud wrthym am dy ysgogiad, dy brofiad a dy ymrwymiad i ddilyn gyrfa mewn gwaith cymdeithasol a gwneud rhywfaint o ddarllen cefndirol am waith cymdeithasol yng Nghymru, a dylet ti gael dy wahodd i gyfweliad.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Gyfraith Gwaith Cymdeithasol
- Cyflwyniad i Waith Cymdeithasol
- Dysgu trwy Ymarfer
- Gwaith Cymdeithasol ar Waith
- Gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol mewn Cymdeithas Amrywiol: Moeseg, Gwerthoedd ac Ymarfer Gwrth-wahaniaethol
- Gwneud a Defnyddio Ymchwil Gwaith Cymdeithasol ar gyfer Ymarfer
- Twf a Datblygiad Dynol

**Blwyddyn 2**

- Damcaniaethau a Safbwyntiau mewn Gwaith Cymdeithasol
- Dysgu Gwaith Cymdeithasol trwy Ymarfer
- Gwaith Cymdeithasol ar Waith
- Materion Cyfreithiol mewn Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

**Blwyddyn 3**

- Cymhwyso Gwybodaeth i Wella Ymarfer
- Dysgu Gwaith Cymdeithasol trwy Ymarfer
- Ymarfer Beirniadol mewn Gofal Plant
- Ymarfer Beirniadol mewn Gofal yn y Gymuned i Oedolion

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**93%**
**BODDHAD MYFYRWYR**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BCC**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwaith Cymdeithasol

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Gweithiwr Cymdeithasol Cofrestredig
- Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol
- Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol
- Swyddog Adolygu Annibynnol
- Ymarferwr Iechyd Meddwl Cymeradwy

Mae'r cyflogau cychwynnol ar gyfer gweithiwr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yw £28,000. I uwch ymarferydd mae hyn yn cynyddu i rhwng £33,000 a £45,000.



# Awel Haf Pritchard Jones

## BSc GWAITH CYMDEITHASOL

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

Rydw i wedi dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd rwy'n gobeithio gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol Cymraeg. Mae cael y cyfle i weithio gyda phobl sydd yn siarad neu'n dysgu Cymraeg yn fraint fawr i mi, gan fod y Gymraeg yn rhan bwysig o'm hunaniaeth, sydd yn cefnogi fy natblygiad academaidd. Ar leoliadau gwaith, rwyf wedi gweld y gwahaniaeth y mae defnyddio'r Gymraeg yn ei wneud wrth i fi helpu pobl ac rwy'n cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phobl yn eu mamiaith, gan fod hyn yn cyfoethogi perthynas a phrofiad yr unigolyn. Yn aml, maent yn ymlacio'n gynt i'r sefyllfa ac yn ymddiried yn y berthynas broffesiynol. Mae yna alw mawr am weithwyr Cymraeg eu hiaith gan y Llywodraeth a Chyngor Gofal Cymru.

Rydw i'n derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Ysgoloriaeth Academi Hywel Teifi eleni ar gyfer astudio 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r arian yn gymorth mawr i brynu adnoddau ar gyfer y cwrs fel gwerslyfrau.

Fy hoff elfen o'r cwrs yw cael fy nysgu gan ddarlithwyr sydd â chymaint o brofiad yn y maes, a chael defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau rydyn yn dysgu o fewn y darlithoedd ar leoliadau gwaith go iawn.

# GWLEIDYDDIAETH

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae ein gradd mewn Gwleidyddiaeth yn ystyried sut mae grym, sefydliadau a chyfreithiau'n effeithio ar ein bywydau bob dydd. Maen nhw'n trafod gwahanol weledigaethau am gymdeithas fwy cyfiawn, ac yn gofyn o ble mae problemau i'r gymdeithas yn dod ac a allwn ni eu rhwystro.**

**Fe gei gyfle i ymgymryd ag ymchwil gymhleth sy'n archwilio lle mae pŵer yn gorwedd a sut y caiff ei ddefnyddio.**

Byddi di'n archwilio gwleidyddiaeth Brydeinig ac Ewropeaidd, polisi cyhoeddus, damcaniaeth ac athroniaeth wleidyddol, materion etholiadol, democratiaeth, a heddwch a gwrthdaro rhyngwladol. Ar yr un adeg, byddi di'n datblygu sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

Cei gyfle i gymryd interniaeth cystadleuol gyda Senedd Cymru fel rhan o'r modiwl: Senedd Cymru.

Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn un o nifer cyfyngedig o sefydliadau a ddewiswyd i ddechrau partneriaeth â Senedd y DU i gyflwyno modiwl arloesol, Astudiaethau Seneddol i fyfyrwyr yn y drydedd flwyddyn. Mae'r modiwl yn cynnwys cyfres o sesiynau gydag arbenigwyr ac aelodau o staff sy'n gweithio yn Senedd y DU. Bydd yn arwain at ymweld â San Steffan am ddiwrnod, a fydd yn cynnwys sgwrsio ag uwch-aelodau o'r Senedd.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Athroniaeth Wleidyddol
- Cyflwyniad i Wleidyddiaeth
- Damcaniaethau Rhyfel
- Gwleidyddiaeth a'r Bobl
- Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Americanaidd

**Blwyddyn 2**
- America mewn Argyfwng: Diwylliant a Chymdeithas Gwleidyddol o Ymosodiadau TET i Trump
- Cyfiawnder Byd-eang a Hawliau Dynol
- Gwleidyddiaeth Prydeinig a Pholisi Cyhoeddus
- Hanes Meddwl Gwleidyddol
- Y Sefydliadau Gwladol a Gwleidyddol

**Blwyddyn 3**
- Astudiaethau Seneddol
- Athroniaeth, Iechyd Meddwl a Salwch
- Senedd Cymru
- Traethawd Hir

**10**
**UCHAF YN Y DU BODDHAD CWRS**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Gwleidyddiaeth
- ◆ Gwleidyddiaeth (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Gwleidyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol
- ◆ Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol (gyda Blwyddyn Dramor)

**BA Cydanrhydedd Gwleidyddiaeth a**
- ▲ Astudiaethau Americanaidd
- ◆ Astudiaethau Americanaidd (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Hanes
- ◆ Hanes (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Hanes yr Henfyd
- ▲ Llenyddiaeth Saesneg
- ◆ Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Polisi Cymdeithasol

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Addysg
- Busnes
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Sefydliadau Dyngarol
- Y Gyfraith

# GWYDDOR ACTIWARAIDD

## CAMPWS Y BAE

**Mae ein rhaglen BSc Gwyddor Actiwaraidd yn dwyn ynghyd dechnegau mathemategol, ystadegol ac ariannol er mwyn astudio risg ariannol mewn meysydd megis yswiriant, cyllid a llywodraeth.**

**Mae'r rhaglen wedi'i hachredu gan Egwyddorion Craidd IFoA er mwyn i raddedigion â graddau da gael chwe eithriad mewn perthynas ag arholiadau proffesiynol IFoA.**

Mae gradd Gwyddor Actiwaraidd Prifysgol Abertawe yw'r unig radd mewn Gwyddor Actiwaraidd yng Nghymru, a fydd yn darparu sylfaen gadarn i'r myfyrwyr ym meysydd mathemateg, cyfrifeg, cyllid ac economeg sy'n berthnasol i yrfaoedd yn y proffesiwn actiwaraidd. Mae gyrfaoedd o'r fath yn cynnig cyflogau uchel ac maent yn gystadleuol iawn.

Cei dy addysgu yn adeilad newydd ein Ffowndri Gyfrifiadurol a gostiodd £32.5 miliwn i'w adeiladu ac sy'n darparu'r cyfleusterau addysgu diweddaraf a chei dy addysgu gan fathemategwyr ymchwil arbenigol yn ogystal ag actiwarïaid, cyfrifwyr a staff rheoli sydd â chredyd llawn, y mae gan lawer ohonynt flynyddoedd neu ddegawdau o brofiad busnes i dynnu arnynt ar gyfer enghreifftiau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyfrifeg a Chyllid
- Dadansoddiad ac Algebra
- Economeg
- Tebolygrwydd ac Ystadegau

**Blwyddyn 2**
- Buddsoddiadau: Asedau, Ecwitïau a Bondiau
- Cyfrifeg a Chyllid Corfforaethol
- Dadansoddiad Aml-Newidiol a Theori Mesur
- Dadansoddiad Data Ystadegol
- Hygrededd, Rhwymedigaeth a Dymchweliad

**Blwyddyn 3**
- Mathemateg Ariannol
- Modelu Cyfradd Rhyngrwyd a Dysgu Peiriannau
- Prosesau Stocastig
- Yswiriant a Blwydd-dal

**30**
**UCHAF YN Y DU CWRS**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddor Actiwaraidd
◆ Gwyddor Actiwaraidd (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
◆ Gwyddor Actiwaraidd (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Actiwari
- Archwilydd
- Bancio Buddsoddi
- Dadansoddwr Cyllid
- Rheoli
- Yswiriant

Gall graddedig Gwyddor Actiwaraidd sydd newydd gymhwyso ddisgwyl ennill cyflog gyfartalog o £33,535.

Ffynhonnell www.actuaries.org.uk (Arolwg cyflog XpertHR o actiwarïaid a myfyrwyr actiwaraidd)

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Institute and Faculty of Actuaries

# GWYDDOR YR AMGYLCHEDD A'R ARGYFWNG HINSAWDD

CAMPWS PARC SINGLETON

**Nawr yw'r amser ar gyfer gweithredu blaengar er mwyn meithrin ymatebion lleol a byd-eang effeithiol i'r argyfwng yn yr hinsawdd a'r argyfwng cymdeithasol. Mae ein hinsawdd a'n hamgylcheddau'n newid ar gyflymdra brawychus, na welwyd ei debyg o'r blaen, gan beri canlyniadau enfawr a thrychinebus yn aml.**

**Byddi'n archwilio'r cysylltiadau dwfn rhwng gwyddor amgylcheddol a gwyddor gymdeithasol, yn dysgu sut i ddefnyddio dy hyfforddiant yn y labordy ac yn y maes, ynghyd â dy wybodaeth academaidd, i ddyfeisio'r genhedlaeth nesaf o addasiadau, mesurau lliniaru ac atebion.**

DAEARYDDIAETH FFISEGOL

**8FED YN Y DU**

**BODDHAD CYFFREDINOL**

(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

Bydd y rhaglen radd hon yn rhoi i ti'r sgiliau personol a phroffesiynol hollbwysig hynny a'r arbenigedd rhyngddisgyblaethol i wneud gwahaniaeth yn y byd.

Byddi di'n gallu astudio amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys:

- Arsylwi ar y ddaear a synhwyro o bell
- Modelu amgylcheddol
- Newid yn yr hinsawdd ac ail-greu'r hinsawdd
- Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol

Mae'r rhaglen addysgu'n rhoi pwyslais cryf ar ddysgu gweithredol ac ymarferol, datrys problemau ac asesu go iawn, yn y maes ac yn y labordy.

Bydd myfyrwyr sy'n graddio o'r rhaglen hon yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n addas am amrywiaeth eang o yrfaoedd, gan gynnwys ymgynghori amgylcheddol ac ecolegol, cyrff llywodraethol, yswiriant a rheoli risg, sefydliadau anllywodraethol, busnes, cynllunio trefol, asiantaethau trafnidiaeth a'r sectorau ynni adnewyddadwy.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Botaneg ac Ecoleg
- Bywyd yn y Cefnforoedd
- Cynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd
- Systemau Dynamig y Ddaear

**Blwyddyn 2**
- Cwrs Maes Preswyl
- Dinasoedd Cynaliadwy
- Ecoleg Planhigion
- Y Ddaear o'r Gofod

**Blwyddyn 3**
- Bioamrywiaeth
- Bioleg Begynol
- Ecoleg a Chadwraeth Forol Drofannol
- Hinsawdd y 1,000 o Flynyddoedd Diwethaf

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**
(gan gynnwys un o'r canlynol: Bioleg, Daeareg, Daearyddiaeth neu Wyddor Amgylcheddol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲ Gwyddor yr Amgylchedd a'r Argyfwng Hinsawdd

◆ Daearyddiaeth (gyda Blwyddyn Sylfaen) yn arwain at BSc Gwyddor yr Amgylchedd a'r Argyfwng Hinsawdd

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Busnes, Cynllunio Trefol, Asiantaethau Trafnidiaeth
- Cyrff Llywodraethol
- Sefydliadau Anllywodraethol
- Y Sectorau Ynni Adnewyddadwy
- Yswiriant a Rheoli Risg
- Ymgynghoriaeth Amgylcheddol ac Ecolegol

# GWYDDOR BARAFEDDYGOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau hanfodol i ti i ddechrau gyrfa gyffrous a gwerth chweil fel parafeddyg, yn cyfuno gwaith academaidd gyda phrofiad clinigol ymarferol. Fe fyddi di'n dysgu am anatomeg a ffisioleg, prif systemau'r corff a'r amodau sy'n effeithio arnynt, sut i asesu cleifion a nodi cyflyrau sy'n peryglu bywyd, a gweinyddu cynnal bywyd.**

Bydd astudio'r cwrs Gwyddor Barafeddygol hwn yn rhoi sgiliau hanfodol, gwybodaeth, a phriodoleddau i ti i ddechrau ar yrfa gyffrous a gwobrwyol fel Parafeddyg Cofrestredig.

Mae llawer o'n staff addysgu hefyd yn barafeddygon cofrestredig sy'n dal i weithio, gan gynnig cyfuniad heb ei ail o drylwyredd academaidd ac arbenigedd proffesiynol.

Mae ein cyfleusterau ardderchog yn cynnwys ystafell glinigol realistig sy'n dy alluogi i ddysgu sgiliau ymarferol cyn eu defnyddio mewn sefyllfa go iawn, ar leoliad gyda'r GIG a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Byddi di'n treulio tua hanner dy gwrs ar leoliadau gwaith ledled Cymru, a fydd yn darparu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen arnat i ddechrau dy yrfa.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Amodau Trawma yn y Lleoliad Gofal Brys a Heb ei Drefnu
- Anatomeg a Ffisioleg
- Cyflyrau Meddygol yn y Lleoliad Gofal Brys a Heb ei Drefnu
- Gofal ar draws y Rhychwant Oes
- Priodoleddau Personol a Phroffesiynol

**Blwyddyn 2**

- Anatomeg a Ffisioleg: Rheoli Gofal Wedi'i Seilio yn y Gymuned
- Arfer Wedi'i Lywio gan Dystiolaeth
- Arweinyddiaeth Glinigol ar Waith
- Iechyd Meddwl ac Allgáu Cymdeithasol
- Rheoli Cleifion sy'n Gritigol o Ran Amser

**Blwyddyn 3**

- Addysg a Dysgu ar Waith
- Datblygiad Ymarfer Proffesiynol
- Gwneud Penderfyniadau Uwch
- Trosglwyddo i Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**FED 9 YN Y DU**
**PYNCIAU A GYNHALIWYD I FEDDYGINIAETH**
(Guardian University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddor Barafeddygol

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Cyflog cychwynnol y GIG i Barafeddygon yw £25,655 (Band 5). Ar gyfer arweinwyr tîm neu uwch barafeddygon sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant sgiliau estynedig, gall y cyflog godi i £39,027.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

hcpc health & care professions council

# GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF
## CAMPWS Y BAE

**Mae Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff yn archwilio'r ffordd y mae'r corff dynol yn perfformio o dan lefelau gwahanol o bwysau, mae hefyd yn cwmpasu'r materion ehangach sydd dan sylw, o gyfranogiad ehangach mewn chwaraeon ac ymarfer corff, i foeseg, seicoleg chwaraeon a maetheg.**

**Mae'r cwrs gradd hwn yn darparu craidd cadarn o ddysgu modern a pherthnasol, gan dy baratoi ar gyfer gyrfa sy'n llawn boddhad yn y maes, beth bynnag o dy ddewis arbenigedd.**

Mae ein gradd Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff enw da ac mae'n denu myfyrwyr o bedwar ban byd.

Wrth i ti fynd yn dy flaen drwy'r cwrs, bydd y diddordebau a'r galluoedd y byddi di'n eu datblygu yn cyfuno â phrofiad ymarferol o ddefnyddio cyfarpar soffistigedig, gan feithrin sgiliau sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth.

Mae ein cyfleusterau o'r radd flaenaf wedi'u lleoli ar Gampws y Bae, yn yr Ardal Beirianneg sy'n edrych dros yr arfordir ar ymyl Penrhyn Gŵyr.

Byddi di'n gwneud defnydd helaeth o'n Labordy Biomecaneg pwrpasol, sy'n cynnwys system dadansoddi mudiant o'r radd flaenaf.

Drwy gydol dy amser yn Abertawe, byddi hefyd yn gweithio'n agos yn y Labordy Ffisioleg Ymarfer Corff. Mae labordy hwn yn cynnwys amrywiaeth o ergomedrau ymarfer corff, cyfarpar ar gyfer asesu gweithrediad yr ysgyfaint, dadansoddi gwaed a phrofi gweithrediad y cyhyrau.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg Ddynol
- Cyflwyniad i Fiofecaneg
- Dulliau a Moeseg Ymchwil
- Ffisioleg Ddynol
- Sylfeini Seicoleg Chwaraeon

**Blwyddyn 2**
- Cryfder a Chyflyru
- Datblygu Dulliau Ymchwil ar gyfer Gwyddor Chwaraeon
- Ffisioleg Ymarfer Corff
- Materion Cyfoes mewn Seicoleg Chwaraeon
- Technoleg, Mesur a Dadansoddi Biomecanyddol

**Blwyddyn 3**
- Chwaraeon, Deiet a Chlefyd
- Cymhwyso Ffisioleg Chwaraeon
- Integredd Chwaraeon, Moeseg a Pholisïau
- Ymarfer Corff ar gyfer Iechyd
- Ymarfer Corff, Twf a Datblygu

**ARDYSTIWYD GAN:**

BASES The British Association of Sport and Exercise Sciences Endorsed Course

**11EG YN Y DU BODDHAD CWRS** (Guardian University Guide 2022)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- ◆ Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (gyda Blwyddyn Dramor)

**BSc Cydanrhydedd Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff a**
- ▲ Mathemateg
- ◆ Mathemateg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Dadansoddwr Perfformiad
- Ffisiolegydd Cardiaidd
- Gwyddonydd Chwaraeon a Pherfformiad
- Gwyddonydd Iechyd y Cyhoedd
- Swyddog Hybu Iechyd
- Ymarferydd Cryfder a Chyflyru

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (CLYWEDEG)

CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd ein gradd Clywedeg yn rhoi dealltwriaeth arbenigol i ti o wyddor clywed, cydbwysedd a'r cyflyrau sy'n effeithio arnynt. Mae'n cyfuno gwaith academaidd a damcaniaethol trylwyr â'r profiad clinigol ymarferol helaeth sydd ei angen arnat i gael swydd yn y proffesiwn. Byddi di'n defnyddio'r offer diagnostig a'r rhaglenni meddalwedd diweddaraf yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf ac yn mynd ati i feithrin sgiliau mewn lleoliadau gwaith mewn ysbytai ledled Cymru.**

Mae'r proffesiwn awdioleg wedi ehangu'n gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf felly, fel rhywun sydd â gradd Awdioleg, gelli edrych ymlaen at amrywiaeth o gyfleoedd proffesiynol a chyfleoedd i astudio ymhellach.

Byddi di'n dysgu sut i asesu clyw a chydbwysedd gan ddefnyddio'r offer diagnostig ac mae llawer o'n staff academaidd yn gweithio fel clinigwyr, gan roi dealltwriaeth ac arbenigedd proffesiynol amhrisiadwy.

Mae ein cyfleusterau ardderchog yn dynwared y gweithle mewn ffordd realistig a byddi di'n gallu manteisio ar leoliad cleifion go iawn yn ein Hacademi Iechyd a Llesiant lwyddiannus, sef clinig ar y safle sy'n darparu gwasanaethau iechyd a llesiant i'r gymuned leol gan gynnwys clinig clyw ar y cyd â'r GIG.

Fel myfyriwr clyw, byddi di'n treulio tua hanner dy gwrs ar leoliadau gwaith clinigol ledled Cymru, a fydd yn darparu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen arnat i ddechrau dy yrfa.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Anatomeg Niwrosynhwyrol, Ffisioleg a Phathoffisioleg
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Mesur a Thriniaeth Glinigol Niwrosynhwyrol

**Blwyddyn 2**
- Asesiad a Rheolaeth Cynteddol
- Dulliau Ymchwil ac Ystadegau
- Gwyddor Clywedeg
- Offeryniaeth Prosesu Signalau a Delweddu
- Y Person sy'n Datblygu

**Blwyddyn 3**
- Cyflwyniad i Dinitws
- Cymhorthion Synhwyro
- Prosiect Ymchwil
- Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



6ED YN Y DU
ASTUDIAETHAU IECHYD
(Complete University Guide 2022)

NHS **DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Bioleg, Cemeg neu Fathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddor Gofal Iechyd (Clywedeg)

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer gwyddonydd gofal iechyd yw £25,654 (Band 5). Yn ystod gyrfa, gall y cyflog godi i £45,838. Gall cyflogau amrywio'n sylweddol yn y sector preifat.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

THE REGISTRATION COUNCIL FOR CLINICAL PHYSIOLOGISTS RCCP Accredited Programme

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (FFISIOLEG ANADLU A CHYSGU)

CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd y radd hon yn rhoi'r hyfforddiant arbenigol sydd ei angen arnat i ddechrau gyrfa werth chweil i ddiagnosio a thrin pobl â chlefydau anadlol ac anhwylderau anadlu sy'n gysylltiedig â chwsg.**

**Byddi di'n astudio strwythur a swyddogaethau'r system anadlu a'r technegau diagnostig a therapiwtig diweddaraf ac yn cyfuno gwaith academaidd manwl â sgiliau clinigol a thechnolegol ymarferol mewn amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd arbenigol.**

Mae Ffisioleg Anadlu a Chysgu yn faes cyffrous sy'n gofyn am lefel uchel o gyfrifoldeb a chywirdeb a'r gallu i ddatrys problemau. Fel ffisiolegydd anadlu a chysgu, byddi di'n gweithio gyda chleifion o bob oed ac anabledd, yn cynnal amrywiaeth eang o brofion diagnostig ac yn datblygu cynlluniau triniaeth.

Mae llawer o'n staff academaidd yn gweithio fel gwyddonwyr gofal iechyd hefyd, gan gynnig cyfuniad heb ei ail o drylwyredd gwyddonol ac arbenigedd proffesiynol. Mae ein cyfleusterau ardderchog yn cynnwys ystafell glinigol realistig a byddi di'n gallu manteisio ar leoliad cleifion go iawn yn ein Hacademi Iechyd a Llesiant lwyddiannus yn ogystal â lleoliadau gwaith mewn ysbytai ledled Cymru.

Byddi di'n treulio hanner dy gwrs ar leoliadau gwaith clinigol ledled Cymru, a fydd yn darparu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen arnat i ddechrau dy yrfa.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Gwyddoniaeth Gardiofasgwlaidd
- Ffisioleg Anadlu a Chysgu
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Pathoffisioleg
- Ymarfer Proffesiynol

**Blwyddyn 2**
- Ffisioleg Anadlu a Chysgu
- Offeryniaeth, Prosesu Signalau a Delweddu
- Pathoffisioleg Cyflyrau Cardiofasgwlaidd ac Anadlu
- Ymyriadau Diagnostig

**Blwyddyn 3**
- Diagnostig a Therapi Cwsg
- Pathoffisioleg, Diagnosis a Rheolaeth Glinigol Asthma a Methiant Anadlu
- Prosiect Ymchwil

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**3**
**UCHAF Y DU ANATOMEG A FFISIOLEG**
(Guardian University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Bioleg, Ffiseg neu Fathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddor Gofal Iechyd (Ffisioleg Anadlu a Chysgu)

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer Gwyddonwyr Gofal Iechyd yw £25,654 (Band 5). Gall y cyflog godi i £45,838.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

The Registration Council for Clinical Physiologists (RCCP) Accredited Programme

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (FFISIOLEG GARDIAIDD)

CAMPWS PARC SINGLETON

**Tro dy ddiddordeb mewn bioleg ddynol ac iechyd a llesiant yn yrfa werth chweil gyda'n cwrs gradd mewn Ffisioleg Gardiaidd.**

**Trwy astudio anatomeg a ffisioleg y galon a'r technegau diagnostig a therapiwtig diweddaraf, byddi di'n cael y wybodaeth wyddonol, glinigol a thechnegol sydd ei hangen arnat i roi gofal arbenigol i bobl sy'n byw gyda chlefyd cardiaidd, neu yr amheuir bod ganddynt glefyd cardiaidd.**

Mae Ffisioleg Gardiaidd yn faes cyffrous sy'n datblygu'n gyflym. Fel ffisiolegydd cardiaidd, bydd disgwyl i ti ymgymryd â rhywfaint o waith a arferai gael ei wneud gan feddygon a bydd llawer o gyfleoedd i arbenigo mewn maes penodol wrth i ti ddatblygu dy yrfa.

Mae llawer o'n staff academaidd yn gweithio fel gwyddonwyr gofal iechyd hefyd, gan gynnig cyfuniad heb ei ail o drylwyredd gwyddonol ac arbenigedd proffesiynol.

Mae ein cyfleusterau ardderchog yn dynwared y gweithle mewn ffordd realistig. Ac fe fyddi di'n gallu manteisio ar leoliad cleifion go iawn yn ein Hacademi Iechyd a Llesiant lwyddiannus, sy'n darparu gwasanaethau iechyd a llesiant i'r gymuned leol.

Fel myfyriwr Ffisioleg Gardiaidd, byddi di'n treulio tua hanner dy gwrs ar leoliadau gwaith clinigol ledled Cymru, a fydd yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen arnat i ddechrau dy yrfa.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Gwyddoniaeth Gardiofasgwlaidd
- Ffisioleg Anadlu a Chysgu
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Pathoffisioleg
- Ymarfer Proffesiynol

**Blwyddyn 2**
- Dulliau Ymchwil ac Ystadegau
- Mesur Gweithrediad Cardiofasgwlaidd
- Offeryniaeth, Prosesu Signalau a Delweddu
- Pathoffisioleg Cyflyrau Cardiofasgwlaidd ac Anadlu

**Blwyddyn 3**
- Cathetr Cardiaidd
- Diagnosis a Rheolaeth Arhythmia
- Prosiect Ymchwil
- Ymarfer yn Seiliedig ar Dystiolaeth

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**3**
**UCHAF YN Y DU CARDIAIDD A FFISIOLEG**
(Guardian University Guide 2022)

NHS **DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Bioleg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- Gwyddor Gofal Iechyd (Ffisioleg Gardiaidd)

**3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer Gwyddonydd Gofal Iechyd yw £25,654 (Band 5). Yn ystod gyrfa, gall y cyflog godi i £45,838. Gall cyflogau amrywio'n sylweddol yn y sector preifat.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

THE REGISTRATION COUNCIL FOR CLINICAL PHYSIOLOGISTS RCCP Accredited Programme

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (FFISEG RADIOTHERAPI)

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd y cwrs hwn yn rhoi i ti'r hyfforddiant arbenigol y bydd ei angen arnat er mwyn dechrau gyrfa wobrwyol, uchel ei sgiliau, yn y proffesiwn gofal iechyd fel dosifetrydd mewn ffiseg radiotherapi.**

**Mae'r cwrs yn cyfuno gwaith academaidd manwl â chymwysiadau clinigol ymarferol yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf, a bydd yn meithrin dy sgiliau gwaith a dy sgiliau technolegol mewn ystod o leoliadau gofal iechyd arbenigol.**

Mae Ffiseg Radiotherapi yn faes meddygaeth hollbwysig sy'n gofyn am lefel uchel o gyfrifoldeb a sgìl dechnegol. Fel ffisegwr radiotherapi/ technolegydd ffiseg radiotherapi, byddi di'n gweithio fel rhan o dîm i lunio cynlluniau triniaeth unigol i bobl sydd â chanser, a byddi di'n gyfrifol am galibro a defnyddio cyfarpar radiotherapi soffistigedig yn fanwl gywir.

Byddi di'n dysgu am ddefnyddio radiotherapi er mwyn trin gwahanol ganserau. Byddi di'n cyfuno gwaith academaidd manwl â sgiliau clinigol a thechnolegol ymarferol mewn ystod o leoliadau gofal iechyd arbenigol.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di ar leoliad gwaith.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Anatomeg a Ffisioleg
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Hysbyseg ac Ystadegau
- Pathoffisioleg
- Sail Wyddonol Ffiseg Feddygol

**Blwyddyn 2**

- Cylch Bywyd Cyfarpar Meddygol
- Delweddu Meddygol
- Offeryniaeth Prosesu Signalau a Delweddu
- Pelydredd nad yw'n ïoneiddio a Mesuriadau Ffisiolegol
- Ymarfer Diogelwch Pelydredd

**Blwyddyn 3**

- Prosiect Ymchwil
- Radiofioleg a Ffiseg Radiotherapi Clinigol
- Ymarfer Ffiseg Radiotherapi
- Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**6ED YN Y DU ASTUDIAETHAU IECHYD**
(Complete University Guide 2022)

NHS **DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Ffiseg neu Fathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲ Gwyddor Gofal Iechyd (Ffiseg Radiotherapi)

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer dosifetryddion clinigol yw oddeutu £25,654, a fydd yn codi i £45,838. Wrth raddio, byddi di'n gymwys i gyflwyno cais am aelodaeth o'r corff rheoleiddio, sef y Gofrestr Technolegwyr Clinigol, a dechrau yn y gweithle yn ymarferydd annibynnol.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (FFISEG YMBELYDREDD)

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd y cwrs hwn yn rhoi i ti'r hyfforddiant arbenigol y bydd ei angen arnat er mwyn dechrau gyrfa wobrwyol, uchel ei sgiliau, yn y proffesiwn gofal iechyd fel technolegydd ffiseg ymbelydredd.**

**Mae'r cwrs yn cyfuno gwaith academaidd manwl â chymwysiadau clinigol ymarferol yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf, a bydd yn meithrin dy sgiliau gwaith a dy sgiliau technolegol mewn ystod o leoliadau gofal iechyd arbenigol.**

Mae Ffiseg Ymbelydredd yn faes meddygaeth hollbwysig sy'n gofyn am lefel uchel o gyfrifoldeb a sgil dechnegol. Fel ffisegydd ymbelydredd, byddi di'n defnyddio offer soffistigedig i fesur a chyfrifo'r dognau o ymbelydredd a dderbynnir gan gleifion yn ystod triniaeth a chan y staff sy'n ei rhoi.

Byddi di'n dysgu am ddefnyddiau clinigol pelydr-x, deunyddiau ymbelydrol, laserau ac ymbelydredd uwchfioled wrth dynnu delweddau o gleifion, diagnosio a thrin clefydau, a monitro ymatebion cleifion i driniaeth.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di ar leoliad gwaith.


### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Hysbyseg ac Ystadegau
- Pathoffisioleg
- Sail Wyddonol Ffiseg Feddygol

**Blwyddyn 2**
- Cylch Bywyd Cyfarpar Meddygol
- Delweddu Meddygol
- Offeryniaeth Prosesu Signalau a Delweddu
- Pelydredd nad yw'n ïoneiddio a Mesuriadau Ffisiolegol
- Ymarfer Diogelwch Pelydredd

**Blwyddyn 3**
- Prosiect Ymchwil
- Y Fframwaith Llywodraethu a Rheoli Risg Ymbelydredd
- Ymarfer Ffiseg Pelydredd
- Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**3YDD YN Y DU ANATOMEG A FFISIOLEG**
(Guardian University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Bioleg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- Gwyddor Gofal Iechyd (Ffiseg Ymbelydredd)

**3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer gwyddonydd gofal iechyd yw oddeutu £25,654 (Band 5), a fydd yn codi i £45,838. Gall cyflogau amrywio'n sylweddol yn y sector preifat.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (MEDDYGAETH NIWCLEAR)

CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd y cwrs hwn yn rhoi i ti'r hyfforddiant arbenigol y bydd ei angen arnat er mwyn dechrau gyrfa wobrwyol, uchel ei sgiliau, yn gweithio yn y proffesiwn gofal iechyd fel technolegydd ffiseg feddygol/technolegydd meddygaeth niwclear.**

**Mae'r cwrs yn cyfuno gwaith academaidd manwl â chymwysiadau clinigol ymarferol yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf, a bydd yn meithrin dy sgiliau gwaith a dy sgiliau technolegol mewn ystod o leoliadau gofal iechyd arbenigol.**

Mae Meddygaeth Niwclear yn faes cyffrous sy'n datblygu'n barhaus, sy'n gofyn am lefel uchel o gyfrifoldeb a sgìl dechnegol. Fel technolegydd ffiseg feddygol, byddi di'n gweithredu, yn cynnal a chadw ac yn monitro cyfarpar arbenigol cymhleth sydd wedi'i ddefnyddio wrth ddiagnosio a thrin cleifion o bob oedran.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di ar leoliad gwaith.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Hysbyseg ac Ystadegau
- Pathoffisioleg
- Sail Wyddonol Ffiseg Feddygol

**Blwyddyn 2**
- Cylch Bywyd Cyfarpar Meddygol
- Delweddu Meddygol
- Offeryniaeth Prosesu Signalau a Delweddu
- Pelydredd nad yw'n ïoneiddio a Mesuriadau Ffisiolegol
- Ymarfer Diogelwch Pelydredd

**Blwyddyn 3**
- Arwyddion Clinigol, Patholeg a Gofal Cleifion
- Ffiseg ac Offeryniaeth
- Prosiect Ymchwil
- Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**6ED YN Y DU ASTUDIAETHAU IECHYD**
(Complete University Guide 2022)

**NHS DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Ffiseg neu Fathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddor Gofal Iechyd (Meddygaeth Niwclear)

**▲ 3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG i wyddonydd gofal iechyd yw oddeutu £25,654 (Band 5), a fydd yn codi i £45,838. Gall cyflogau amrywio'n sylweddol yn y sector preifat.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (NIWROFFISIOLEG)

CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae ein gradd mewn Niwroffisioleg yn rhoi'r hyfforddiant arbenigol sydd ei angen arnat i ddiagnosio ac yn trin pobl ag anhwylderau niwrolegol fel strôc, epilepsi, sglerosis ymledol, dementia. Mae'n cyfuno gwaith academaidd â phrofiad clinigol. Fe fyddi di'n defnyddio'r offer diagnostig diweddaraf a chymwysiadau meddalwedd yn ein cyfleusterau ardderchog ac yn datblygu dy sgiliau ar leoliadau gwaith mewn ysbytai ledled Cymru.**

Mae Niwroffisioleg yn faes cyffrous sy'n gofyn am lefel uchel o gyfrifoldeb a'r gallu i ddatrys problemau. Fel niwroffisiolegydd, byddi di'n cynnal ymchwiliadau rheolaidd mewn amgylcheddau neu adrannau penodol, fel lleoliadau gofal dwys ac ystafelloedd llawdriniaeth, gan weithio gyda chleifion o bob oed.

Mae llawer o'n staff academaidd yn gweithio fel gwyddonwyr gofal iechyd, gan gynnig cyfuniad heb ei ail o drylwyredd gwyddonol ac arbenigedd proffesiynol.

Mae ein cyfleusterau ardderchog yn cynnwys ystafell glinigol realistig sy'n dy alluogi i roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu'r amodau gwirioneddol y byddi'n eu hwynebu pan wyt ti'n mynd ar leoliad.

Fel myfyriwr niwroffisioleg, byddi di'n treulio tua hanner dy gwrs ar leoliadau gwaith clinigol ledled Cymru, a fydd yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen arnat i ddechrau dy yrfa.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Anatomeg Niwrosynhwyraidd, Ffisioleg a Phathoffisioleg
- Gwyddor Niwrosynhwyraidd
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer y Gwyddorau Gofal Iechyd
- Mesur a Thriniaeth Glinigol Niwrosynhwyraidd
- Ymarfer Proffesiynol

**Blwyddyn 2**
- Niwroanatomeg a Ffisioleg
- Niwroffisioleg ac Offerwaith Cymhwysol
- Niwroffisioleg Glinigol
- Offeryniaeth Prosesu Signalau a Delweddu
- Potensial i'w Hysgogi

**Blwyddyn 3**
- EEG Annormal a Dehongli
- Niwroffisioleg Arbenigol
- Niwropatholeg
- Prosiect Ymchwil

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**3**
**UCHAF YN Y DU NIWROFFISIOLEG**
(Guardian University Guide 2022)

NHS **DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Bioleg, Cemeg, Ffiseg neu Fathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddor Gofal Iechyd (Niwroffisioleg)

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG i Wyddonwyr Gofal Iechyd yw £25,654 (Band 5). Mae enillion gyrfa nodweddiadol yn cynyddu i £45,838. Gall cyflogau amrywio'n sylweddol yn y sector preifat.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

THE REGISTRATION COUNCIL FOR CLINICAL PHYSIOLOGISTS RCCP
Accredited Programme

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (PEIRIANNEG ADSEFYDLU)

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd y cwrs hwn yn rhoi i ti'r hyfforddiant arbenigol y bydd ei angen arnat er mwyn dechrau gyrfa wobrwyol, uchel ei sgiliau, yn y proffesiwn gofal iechyd fel peiriannydd adsefydlu.**

**Mae'r cwrs yn cyfuno gwaith academaidd manwl â chymwysiadau clinigol ymarferol yn ein cyfleusterau o'r radd flaenaf, a bydd yn meithrin dy sgiliau gwaith a dy sgiliau technolegol mewn ystod o leoliadau gofal iechyd arbenigol.**

Mae Peirianneg Adsefydlu yn faes cyffrous a heriol sy'n datblygu drwy'r amser ac yn gofyn am lefel uchel o gyfrifoldeb a sgìl dechnegol. Fel peiriannydd adsefydlu, byddi di'n gweithio fel rhan o dîm adsefydlu gan gynnwys prostheteg ac orthotyddion, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol yn ogystal â chleifion a chlinigau mewn gwasanaethau acíwt a gwasanaethau cymunedol.

Byddi di'n dysgu am gymhwyso egwyddorion peirianneg er mwyn datblygu atebion a dyfeisiau technolegol er mwyn cynorthwyo unigolion sydd ag anableddau a chyflyrau hirdymor. Mae hyn yn cynnwys dylunio, adeiladu a phrofi ystod o dechnolegau cynorthwyol, gan gynnwys cadeiriau olwyn, aelodau artiffisial, cymorth robotig a seddau arbenigol. Byddi di'n dysgu i adeiladu dyfeisiau safonol a phwrpasol, yn ogystal â dysgu am eu pwysigrwydd wrth chwyldroi gofal ac annibyniaeth cleifion.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Hysbyseg ac Ystadegau
- Pathoffisioleg
- Sail Wyddonol Meddygaeth

**Blwyddyn 2**
- Arloesedd a Dyfeisiau Meddygol
- Cylch Bywyd Cyfarpar Meddygol
- Dulliau Ymchwil ac Ystadegau
- Mecaneg Hylifol, Biofecaneg a Deunyddiau
- Offeryniaeth Prosesu Signalau a Delweddu

**Blwyddyn 3**
- Gwyddoniaeth ac Egwyddorion sy'n Cefnogi Peirianneg Adsefydlu
- Peirianneg Adsefydlu yn yr Amgylchedd Clinigol
- Prosiect Ymchwil
- Ymarfer Proffesiynol Peirianneg Feddygol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**YN Y 6ED DU ASTUDIAETHAU IECHYD**
(Complete University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys un pwnc STEM (Bioleg, Ffiseg, Cemeg, Mathemateg neu Beirianneg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddor Gofal Iechyd (Peirianneg Adsefydlu)

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer Gwyddonwyr Gofal Iechyd yw oddeutu £25,654, a fydd yn codi i £45,838. Gall graddedigion ddisgwyl cael gyrfa ym maes:
- Cadeiriau olwyn a seddau
- Dadansoddi symud clinigol
- Prostheteg ac orthoteg
- Technoleg gynorthwyol electronig
- Teleiechyd a theleofal

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

# GWYDDOR GOFAL IECHYD (PEIRIANNEG FEDDYGOL)

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd y cwrs hwn yn rhoi i ti'r hyfforddiant arbenigol y bydd ei angen arnat er mwyn dechrau gyrfa wobrwyol, uchel ei sgiliau, yn gweithio yn y proffesiwn gofal iechyd fel peiriannydd meddygol.**

**Byddi di'n dysgu am gylch bywyd offer meddygol, gan gynnwys profi derbyn offer newydd, cyflwyno offer a dyfeisiau i wasanaeth, cynghori ar ddefnyddio offer yn gywir, mynd i'r afael â materion diogelwch cleifion a chael gwared ar hen ddyfeisiau'n ddiogel.**

Mae Peirianneg Feddygol yn rôl gyffrous ac amrywiol lle byddi di'n defnyddio dy arbenigedd mewn peirianneg electronig neu fecanyddol ac efallai gymryd rhan wrth addasu neu adeiladu offer hefyd. Mae'n faes cyffrous sy'n datblygu'n barhaus, sy'n gofyn am lefel uchel o gyfrifoldeb a sgìl dechnegol. Mae llawer o'n staff academaidd yn gweithio fel gwyddonwyr gofal iechyd hefyd, gan gynnig cyfuniad heb ei ail o drylwyredd gwyddonol ac arbenigedd proffesiynol.

Mae ein cyfleusterau ardderchog yn cynnwys ystafell glinigol realistig sy'n dy alluogi i roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu'r amodau gwirioneddol y byddi di'n eu hwynebu pan fyddi di'n mynd ar leoliad.

Fel myfyriwr Peirianneg Feddygol, bydd tua hanner dy gwrs yn cael ei wario ar leoliadau gwaith clinigol ledled Cymru, a fydd yn rhoi'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen arat i ddechrau dy yrfa.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Mathemateg a Ffiseg ar gyfer Gwyddor Gofal Iechyd
- Hysbyseg ac Ystadegau
- Pathoffisioleg
- Sail Wyddonol Peirianneg

**Blwyddyn 2**
- Arloesedd a Dyfeisiau Meddygol
- Cylch Bywyd Cyfarpar Meddygol
- Dulliau Ymchwil ac Ystadegau
- Mecaneg Hylifol, Biofecaneg a Deunyddiau
- Offeryniaeth Prosesu Signalau a Delweddu

**Blwyddyn 3**
- Gwyddoniaeth ac Egwyddorion sy'n cefnogi Peirianneg Feddygol
- Peirianneg Feddygol yn yr Amgylchedd Clinigol
- Prosiect Ymchwil
- Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**6ED YN Y DU ASTUDIAETHAU IECHYD**
(Complete University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Ffiseg neu Fathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofynaid mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- Gwyddor Gofal Iechyd (Peirianneg Feddygol)

**3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Cyflog cychwynnol y GIG ar gyfer Peirianwyr Meddygol yw oddeutu £25,654 (Band 5). Yn ystod gyrfa, gall y cyflog godi i £45,838. Hefyd, ceir llawer o gyfleoedd i ymgymryd ag astudiaeth bellach hyd at lefel meistr a doethuriaeth, a gweithio ym maes ymchwil, addysg, rheoli, a'r sector preifat.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

National School of Healthcare Science

# GWYDDORAU MEDDYGOL CYMHWYSOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Gwyddorau Meddygol Cymhwysol yn archwilio'r wyddor sy'n tanategu meddygaeth, a fydd yn rhoi dealltwriaeth fanwl i ti o sut mae'r corff dynol yn gweithio, beth sy'n digwydd pan fydd yn mynd o'i le, sut yr ydym yn trin anhwylderau ar hyn o bryd, a'r potensial ar gyfer therapiwteg newydd.**

**Mae'r cwrs hwn yn addas i ddarpar wyddonwyr, entrepreneuriaid biotechnolegneu neu os wyt ti'n dymuno mynd ymlaen i astudio meddygaeth, deintyddiaeth neu filfeddygaeth.**

Byddi di'n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau ymchwil ac addysgu o'r radd flaenaf, gan gynnwys lledaenu dynol corff cyfan.

Mae ein dull o ran dysgu yn annog gwaith ymchwil a sgiliau cyfathrebu arbennig, gan ymgorffori darlithoedd, seminarau, sesiynau ymarferol yn y labordy a dysgu annibynnol.

Yn ystod dy astudiaethau, byddi di'n canolbwyntio ar dri llwybr cyflogadwyedd: Ymchwil Gwyddorau Meddygol, Y Gwyddorau Meddygol mewn Ymarfer (yn amodol ar gymhwysedd), Menter ac Arloesi.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg
- Bioleg Celloedd Ewcaryotig
- Cyflwyniad i Geneteg ac Esblygiad
- Cyflwyniad i Seicoleg Feddygol
- Ffisioleg Ddynol
- Microbioleg

**Blwyddyn 2**
- Cyfathrebu Gwyddorau Meddygol
- Cyflwyniad i Niwrowyddoniaeth
- Imiwnoleg Ddynol
- Niwroanatomeg a Niwroleg
- Y System Cardiofasgwlaidd
- Ystadegau Biolegol

**Blwyddyn 3**
- Bioleg Atgenhedlu a Meddygaeth
- Bioleg Ddynol a'r Amgylchedd
- Cyflwyniad i Dreialon Clinigol
- Nanotocsicoleg
- Prosiect Ymchwil Annibynnol
- Rheoli Arloesedd

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**Llwybrau i Feddygaeth**

**AF 1 YN Y DU**
**YSGOL FEDDYGAETH**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**AAB-ABB** (gan gynnwys Bioleg neu Gemeg yn ogystal ag un pwnc STEM arall)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Gwyddorau Meddygol Cymhwysol
◆ Gwyddorau Meddygol Cymhwysol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysg, Ymgynghoriaeth a Newyddiaduraeth Wyddonol
- Datblygu Cyffuriau
- Proffesiynau Iechyd (ar ôl astudiaeth bellach) e.e. Meddyg, Cyswllt Meddyg, Deintydd neu Filfeddyg
- Rheoleiddio e.e. Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd
- Ymchwil a Datblygiad Clinigol
- Ymchwil Labordy

**LLWYBR MEDDYGAETH I RADDEDIGION:**

Mae'r radd hon yn rhan o'r rhaglen Llwybr Meddygaeth i Raddedigion. Cyn belled â dy fod yn bodloni'r gofynion mynediad, ac wedi dilyn y Llwybr Gwyddor Meddygaeth mewn Ymarfer, gallwn dy warantu y cei gyfweliad ar gyfer ein cwrs MBBCh Meddygaeth i Raddedigion.

# HANES

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Wrth astudio ar gyfer ein gradd Hanes eang ei chwmpas, byddi'n archwilio bron 2,000 o flynyddoedd o gymdeithasau a diwylliannau o'r oes o'r blaen yng Nghymru, Prydain, Ewrop, Unol Daleithiau America a thu hwnt.**

**Gelli astudio hanes canoloesol, hanes modern cynnar a hanes modern hyd at y cyfnod presennol, gan ddatblygu sgiliau gwerthfawr wrth ddadansoddi newid hanesyddol dros y canrifoedd.**

Gelli ddewis o amrywiaeth eang o fodiwlau, er mwyn arbenigo mewn maes rwyt ti'n ymddiddori ynddo eisoes neu astudio rhai newydd.

Mae'r themâu yn cynnwys datblygiad gwleidyddol, newid diwylliannol, rhywedd, hanes meddygol, treftadaeth, a rhyfel a heddwch. Gelli hefyd ddewis o fodiwlau sy'n ymdrin â hanes Prydain, Ewrop, America, y Byd a Chymru.

Cei dy addysgu gan arbenigwyr blaenllaw yn eu meysydd, sy'n golygu bod addysgu yn ddynamig ac ar flaen y gad o ran ysgolheictod hanesyddol cyfredol.

Rydyn hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni cydanrhydedd, sy'n dy alluogi i baru dy astudiaethau hanesyddol â maes arall.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Creu Hanes
- Damcaniaethau Rhyfel
- Ewrop yr Eithafon, 1789-1989
- Ewrop yr Oesoedd Canol: Cyflwyniad
- Y Byd Modern Cynnar, 1500-1800

**Blwyddyn 2**
- Lleoliad Gwaith Hanes
- Meddygaeth a'r Byd Modern, 1800 hyd heddiw
- Prydain yn yr Oesoedd Canol Cynnar: Caethweision, Dreigiau, Breninesau a Llychlynwyr
- Stori America ar Ffilm a Theledu
- Y Rhyfel Oer

**Blwyddyn 3**
- Gosod Hanes: Mapio'r Gorffennol Hanesyddol yn Ddigidol
- Hanes Rhyw a Rhywedd
- Hanesion yr Ymerodraeth
- Traethawd Hir Hanes
- Y Dirwasgiad Mawr a Bargen Newydd America 1929 -1941

**10**
**UCHAF YN Y DU BODDHAD CWRS**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Hanes
- ◆ Hanes (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Hanes (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BA Cydanrhydedd Hanes a**
- ◆ Almaeneg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲◆ Astudiaethau Americanaidd
- ▲◆ Cysylltiadau Rhyngwladol
- ▲◆ Cymraeg (Iaith Gyntaf gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲◆ Cymraeg (Ail Iaith gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Ffrangeg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲◆ Gwleidyddiaeth
- ▲◆ Hanes yr Henfyd
- ▲◆ Llenyddiaeth Saesneg
- ▲◆ Polisi Cymdeithasol
- ◆ Sbaeneg (gyda Blwyddyn Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysg
- Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd
- Archifau Hanesyddol
- Cyfryngau
- Gwleidyddiaeth a'r Gyfraith
- Y Gwasanaeth Sifil



Dewisais Abertawe yn benodol o'r holl brifysgolion eraill yng Nghymru oherwydd ei lleoliad yn y ddinas a'r daith lawr i'r traeth. Rydw i'n astudio ar gampws Singleton a gan fod y campws yn weddol fach rwyt ti'n dod i adnabod wynebau pobl o gwmpas y lle sy'n rhoi ymdeimlad cartrefol a chlos.

Rwy'n astudio Hanes, sy'n bwnc eang gyda'r opsiwn i ddysgu am gyfnodau amser gwahanol. Mae astudio'r pwnc hwn yn Abertawe wedi bod yn wych gan fy mod yn gwneud rhywfaint o'r cwrs yn y Gymraeg. Trwy wneud hyn rydw i wedi cwrdd â phobl debyg i fi ac mae hefyd wedi fy nghyflwyno i gymdeithasau eraill sydd â diddordebau tebyg. Rwy'n mwynhau dysgu am y dadeni ac am gelf o'r cyfnod hwn yn arbennig. Rwy'n credu bod astudio rhan o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg wedi fy helpu i fagu hyder yn y Gymraeg. Rwy' wedi datblygu'r sgil o wneud cyflwyniadau llafar i'r dosbarth sydd yn fy mharatoi ar gyfer gyrfa yn y dyfodol lle bydd yn rhaid i mi siarad a chario fy hun yn hyderus.

Mae fy mhrofiad hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn gan fy mod i wedi manteisio ar y cyfleoedd i gwrdd â phobl newydd. Trwy ymuno â chymdeithasau y tu allan i'm hastudiaethau, rwyf wedi gallu rhoi cynnig ar bethau newydd. Mae'r gymuned Gymraeg yma yn Abertawe yn wych. Rydw i wedi ymuno â'r GymGym ac rydyn yn cwrdd bob pythefnos a threfnu tripiau gwych gyda myfyrwyr Cymraeg eraill.

# Rhiannon Piggon

## BA HANES

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

# HANES YR HENFYD

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Hanes yr Henfyd yn archwilio'r diwylliant, cymdeithas a thirweddau Gwlad Groeg a Rhufain er mwyn cynnig dealltwriaeth newydd o'r cymdeithasau sydd wedi ffurfio ein byd modern.**

**Cei gyfle i astudio hanes a chymdeithas, pensaernïaeth ac archaeoleg, dulliau rhyfela ac ymerodraeth, rhywedd, crefydd, gwleidyddiaeth ac economeg Roegaidd a Rhufeinig, a gelli ddysgu Groeg neu Ladin.**

Cei drosolwg o ddigwyddiadau a phobl hanesyddol Hen Wlad Groeg a'r Hen Rufain, cyn dysgu sut i ddadansoddi ffynonellau gwahanol a'u trin gan ddefnyddio'r methodolegau priodol.

Byddi'n astudio mewn adran ymchwil-ddwys gydag arbenigwyr ym meysydd Yr Eidal Rufeinig, tir mawr Groeg, Syria Rufeinig, daearyddiaeth yr henfyd, hanes cynnar Ynys Cyprus, y Dwyrain Agos Hynafol a seintiau a rheolwyr ar ddiwedd yr henfyd.

Byddi'n datblygu sgiliau trosglwyddadwy, y mae cyflogwyr yn rhoi gwerth mawr arnynt, a gelli gofrestru ar gyfer gwahanol leoliadau cyflogadwyedd ac ymgysylltu.

Gelli hefyd ddewis y modiwl Taith Astudio a fydd yn ychwanegu at dy astudiaethau manwl o dir hynafol tramor drwy roi cyfle i ti ymweld â hi.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Athroniaeth a Rhethreg yr Henfyd
- Hanes a Chymdeithas Groeg
- O Dduwiau ac Arwyr - Mytholeg Gwlad Groeg
- Rhufain o Bentref i Ymerodraeth: Cyflwyniad i Hanes Rhufeinig

**Blwyddyn 2**
- Brenhiniaeth: Hynafol a Chanoloesol
- Byddinoedd a Gelynion Rhufain Ymerodrol
- Dychan Rhufeinig: Rhefru ac Herian
- Etifeddion Rhufain: Creu'r Byd Cristnogol, Bysantiwm, ac Islam
- Rhywedd y Byd Rhufeinig

**Blwyddyn 2/3**
- Bod yn Groeg: Hunaniaeth yr Hen Fyd Groeg
- Dinasoedd Groeg
- Lleoliad Gwaith mewn Ysgol: Addysgu Hanes ac Ieithoedd yr Henfyd

**Blwyddyn 3**
- Hen Cyprus
- Macedonia Hynafol
- Mythau a Chymdeithas ym Myd Gwlad Groeg
- Pompeii a Dinasoedd Vesuvius
- Traethawd Hir ar y Clasuron, Hanes yr Henfyd, Eifftoleg

Y CLASURON & HANES YR HENFYD
**3ydd YN Y DU PROFIAD MYFYRWYR**
(Times Good University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Hanes yr Henfyd
- ◆ Hanes yr Henfyd (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Hanes yr Henfyd (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Hanes yr Henfyd a Hanes
- ◆ Hanes yr Henfyd a Hanes (gyda Blwyddyn Dramor)

**BA Cydanrhydedd Hanes yr Henfyd a**
- ▲ Eifftoleg
- ◆ Eifftoleg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Gwleidyddiaeth
- ▲ Llenyddiaeth Saesneg
- ◆ Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysgu
- Busnes a Rheolaeth
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Gwleidyddiaeth a'r Gwasanaeth Sifil
- Treftadaeth ac Amgueddfeydd

# HANES YR HENFYD A'R OESOEDD CANOL

CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae'r radd ryngddisgyblaethol eang ei chwmpas hon yn dy wahodd i archwilio mwy na 2,000 o flynyddoedd o hanes ledled Ewrop a byd y Môr Canol.**

**Byddi'n astudio hanes gwleidyddol a chymdeithasol Hen Wlad Groeg a'r Hen Rufain, yn ogystal â themâu o ddechrau tan ddiwedd yr Oesoedd Canol. Gelli hefyd astudio ieithoedd hynafol a chanoloesol, yn benodol Groeg a Lladin.**

Byddi'n archwilio parhad a newid o ddatblygiad democratiaeth Athenaidd i ogoniannau'r Eidal yn ystod cyfnod y dadeni, gan astudio pynciau'n amrywio o dwf yr Ymerodraeth Rufeinig i groesgadau'r Oesoedd Canol, ac o arwrgerddi mawr Homer i farddoniaeth aruchel Dante.

Gan ddefnyddio ein harbenigedd helaeth ym maes hanes yr henfyd a'r oesoedd canol, byddi'n astudio gwareiddiadau a all ymddangos fel petaent yn perthyn i'r gorffennol pell ond sy'n dal i fod yn ddylanwadol heddiw.

Byddi'n ymweld â safleoedd hanesyddol yn rheolaidd, a gelli addasu dy radd i gyd-fynd â dy ddiddordebau dy hun drwy ddewis o amrywiaeth o bynciau.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Creu Hanes
- Ewrop Ganoloesol: Cyflwyniad
- Hanes a Chymdeithas Groeg
- Metamorphoses Ovid: Trawsnewidiadau Mytholeg
- O Dduwiau ac Arwyr - Mytholeg Groeg
- Rhufain o Bentref i Ymerodraeth: Cyflwyniad i Hanes Rhufeinig

**Blwyddyn 2**

- Byddinoedd a Gelynion Rhufain Ymerodrol
- Etifeddion Rhufain
- Mythau a Chymdeithas ym Myd Gwlad Groeg
- Prydain yn yr Oesoedd Canol Cynnar: Caethweision, Dreigiau, Breninesau a Llychlynwyr
- Rhyw yn y Byd Rhufeinig
- Y Byd Eingl-Normanaidd
- Y Croesgadau a Gwneud Bedydd Lladin, 1050-1300

**Blwyddyn 3**

- Addoli, Duwioldeb a Grym: Y Groesgad Gyntaf a Bydau Cred Ladinaidd, Bysantiaeth a'r Dwyrain Agos Islamaidd
- Bod yn Roeg: Hunaniaeth yn y Byd Groeg Hynafol
- Brenhiniaeth: Hynafol a Chanoloesol
- Gosod Hanes: Mapio'r Gorffennol Hanesyddol yn Ddigidol
- Hanesion yr Ymerodraeth
- Pompeii a Dinasoedd Vesuvius
- Teyrnasiad y Brenin Ioan: Camlywodraethu a Magna Carta

HANES

**10**

**UCHAF YN Y DU BODDHAD CWRS**

(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

▲ Hanes yr Henfyd a'r Oesoedd Canol
◆ Hanes yr Henfyd a'r Oesoedd Canol (gyda Blwyddyn Dramor)
◆ Hanes yr Henfyd (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysg
- Busnes
- Busnes a Rheolaeth
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Treftadaeth ac Amgueddfeydd
- Y Gyfraith a Gwasanaethau Cyhoeddus

# IAITH SAESNEG, IEITHYDDIAETH GYMHWYSOL A TESOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Ar gyfer y graddau hyn byddi'n archwilio prosesau ieithyddol a'r defnydd sydd wedi'i wneud ohonynt mewn cyd-destunau a chyfnodau gwahanol.**

**Byddi di'n ymgymryd â materion byd go iawn megis y defnydd o iaith i ddarbwyllo a chamarwain (yn arbennig yn y cyfryngau cymdeithasol); effaith tafodiaith ac acen ar hunaniaeth; yr her o ddysgu neu addysgu ieithoedd newydd; effaith anhwylderau iaith caffael a datblygiadol.**

P'un a fyddi'n dewis canolbwyntio ar Iaith Saesneg, Ieithyddiaeth Gymhwysol neu TESOL (dysgu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill), neu gyfuniad ohonynt, byddi'n ymchwilio i rai o'r heriau mwyaf sy'n ymwneud ag iaith yn y byd go iawn.

Yn dibynnu ar y cynllun y byddi di'n ei ddewis, gelli archwilio pynciau megis iaith a llythrennedd plant, synau a strwythur iaith, polisi iaith a chynllunio ieithyddol, hanes yr iaith Saesneg ac adnoddau meddalwedd ar gyfer ieithyddiaeth gymhwysol. Bydd hefyd cyfle i ti ymgymryd â phrosiect ymchwil, er mwyn datblygu gwybodaeth arbenigol yn y maes penodol.

Hefyd, cei gyfle i ennill cymhwyster uchel ei barch CELTA*, fel athro Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS**:

**Blwyddyn 1**
- Chwalwyr Chwedlau: Credoau a Gwirioneddau am Iaith
- Dulliau Addysgu Iaith
- Gramadeg ac Ystyr
- Iaith yn y Meddwl
- System Sain y Saesneg

**Blwyddyn 2**
- Dadansoddiad Disgwrs
- Gweithio gydag Ymarferwyr
- Hanes yr Iaith Saesneg
- Iaith a Llythrennedd Plant
- Offer ar gyfer Addysgu Saesneg
- Seicoieithyddiaeth Dwyieithrwydd
- Sosioieithyddiaeth

**Blwyddyn 3**
- Cynllunio a Pholisi Iaith
- Iaith a Lleferydd Annodweddiadol
- Iaith yn y Cyfryngau
- Ieithyddiaeth Fforensig
- Materion Cyfoes mewn Addysgu Saesneg

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Addysg ac Addysgu
- Cyfryngau Darlledu
- Cyhoeddi
- Deunyddiau EFL a Dylunio
- Gweinyddiaeth ac Arweinyddiaeth Prosiectau
- Marchnata
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Y Gwasanaeth Sifil

IAITH SAESNEG
AF 1 YN Y DU
**BODDHAD CYFFREDINOL**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofynion mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- ▲ Iaith Saesneg
- ◆ Iaith Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Iaith Saesneg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Iaith Saesneg a TESOL
- ◆ Iaith Saesneg a TESOL (gyda Blwyddyn Dramor)

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Ieithyddiaeth Gymhwysol ac Iaith Saesneg
- ◆ Ieithyddiaeth Gymhwysol ac Iaith Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)

**BA Cydanrhydedd Iaith Saesneg a**
- ▲ Cyfryngau
- ◆ Cyfryngau (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Llenyddiaeth Saesneg
- ◆ Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)

**BA Cydanrhydedd TESOL a**
- ▲ Llenyddiaeth Saesneg
- ◆ Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs

* yn amodol ar ddilyniant academaidd a chyfweliad
** bydd y pynciau ag astudir yn dibynnu ar y llwybr gradd a ddewisir

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Ein cwrs gradd hyblyg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r man cychwyn delfrydol ar gyfer ystod o yrfaoedd gwobrwyol. Byddi di'n ymchwilio i iechyd a gofal cymdeithasol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gwmpasu themâu sy'n cynnwys polisi cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, seicoleg, bioleg ddynol a ffisioleg, y gyfraith a moeseg, cydraddoldeb, a chyfiawnder cymdeithasol, ac yn meithrin sgiliau cyfathrebu, ymchwilio a dadansoddi rhagorol.**

Byddi di'n cael dy drwytho mewn amgylchedd ymchwil a dysgu dynamig sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i ffurfio cysylltiadau â myfyrwyr o ddisgyblaethau cysylltiedig.

Ochr yn ochr â'r gwaith academaidd, byddi di'n astudio modiwlau ym maes datblygu proffesiynol ac yn cael yr opsiwn i gwblhau lleoliad gwaith fel rhan o dy radd.

Mae hyn yn rhan o'n dull cydweithredol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, sydd â'r nod o wella'r integreiddio rhwng y sectorau o dy baratoi ar gyfer gyrfa yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a phroffesiynol traddodiadol.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Anatomeg Dynol, Ffisioleg a Phathoffisioleg
- Cydraddoldeb, Gwahaniaethu a Gormes mewn Cymdeithas
- Cyflwyniad i Ymchwil mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Datblygiad Academaidd a Phroffesiynol
- Tlodi a Digonedd
- Yr Unigolion a'r Gymdeithas

**Blwyddyn 2**

- Cyfraith ac Ymarfer Iechyd
- Diogelu ym Meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwerthuso Tystiolaeth Ymchwil mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Ymarfer Myfyriol a Gweithio gyda Phobl

**Blwyddyn 3**

- Cwnsela a Chefnogi Pobl
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Safbwyntiau Byd-Eang a Gweithio mewn Byd sydd wedi'i Globaleiddio
- Seicoleg a Hyrwyddo Lles
- Y Gyfraith a Moeseg ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**6ED YN Y DU**
**ASTUDIAETHAU IECHYD**
(Complete University Guide 2022)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB-BBC**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Iechyd a Gofal Cymdeithasol

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- GIG
- Gwaith Cymdeithasol
- Hybu Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd
- Rheoli Gofal Iechyd
- Sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Preifat
- Y Gwasanaeth Sifil

# IECHYD POBLOGAETHAU A GWYDDORAU MEDDYGOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae iechyd poblogaethau yn rhoi sylw i ffactorau eang iawn sy’n gallu pennu canlyniadau iechyd unigolion, grwpiau a phoblogaethau. Mae’r cwrs yn unigryw gan ei bod yn dwyn ynghyd bynciau amrywiol sy’n rhoi dealltwriaeth holistaidd i ti o’r ffactorau cymdeithasol, economaidd, meddygol a demograffig sy’n ffurfio iechyd poblogaethau; o atal a hybu i ddiogelu iechyd, diagnosis, triniaeth a gofal.**

Nod iechyd poblogaethau yw mynd i’r afael â’r anghydraddoldebau hyn drwy fynd ati i ddeall anghenion gofal iechyd yn well, gwella modelau gofal iechyd a darparu datrysiadau arloesol.

Byddi di'n datblygu’r wybodaeth sydd eu hangen i bennu amrywiadau systemataidd mewn iechyd unigolion a phoblogaethau, yn ogystal â’r sgiliau a’r profiadau i allu rhoi’r wybodaeth hon ar waith wrth greu datrysiadau ymarferol i wella iechyd, lles, ac o safbwynt darparu gwasanaethau iechyd.

Byddi di’n elwa ar gael mynediad i gyfleusterau ymchwil a gwyddor data o’r radd flaenaf, gan gynnwys y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth.

Yn ystod dy astudiaethau, fe fyddi di'n canolbwyntio ar un o dri llwybr cyflogadwyedd: Ymchwil Gwyddorau Meddygol, Y Gwyddorau Meddygol mewn Ymarfer (yn amodol ar gymhwysedd), neu Fenter ac Arloesi.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Iechyd Digidol
- Meddygaeth Gymunedol
- Seicoleg Feddygol
- Systemau a Sefydliadau Iechyd Poblogaethau

**Mae cysylltiadau'n cynnwys:**

NCPHWR
National Centre for Population Health & Wellbeing Research
Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth

**Blwyddyn 2**
- Epidemioleg Ymarferol
- Imiwnoleg Ddynol
- Rheoli Datrysiadau a Strategaethau Iechyd y Boblogaeth
- Ymchwil Gwasanaethau Iechyd
- Ystadegau Biolegol

**Blwyddyn 3**
- Bioleg Ddynol a'r Amgylchedd
- Epidemioleg Uwch
- Iechyd Byd-eang
- Llythrennedd Iechyd Meddwl
- Prosiect Ymchwil Annibynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**1AF YN Y DU**
**AMGYLCHEDD YMCHWIL**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB**
(gan gynnwys Bioleg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Iechyd Poblogaethau a Gwyddorau Meddygol
◆ Iechyd Poblogaethau a Gwyddorau Meddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we’r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Dadansoddiad Iechyd Poblogaeth
- Eiriolaeth Cleifion
- Proffesiynau Iechyd (ar ôl astudiaeth bellach) e.e. Meddyg, Cyswllt Meddyg, Deintydd
- Rheoli Gofal Iechyd (sectorau cyhoeddus a phreifat)
- Teleiechyd a Thelefeddygaeth
- Ymchwil Iechyd, Meddygol a Gwyddor Bywyd

**LLWYBR MEDDYGAETH I RADDEDIGION:**

Mae’r radd hon yn rhan o’r rhaglen Llwybr Meddygaeth i Raddedigion. Cyn belled â dy fod yn bodloni’r gofynion mynediad, ac wedi dilyn y Llwybr Gwyddor Meddygaeth mewn Ymarfer, gallwn dy warantu y cei gyfweliad ar gyfer ein cwrs MBBCh Meddygaeth i Raddedigion.

# IEITHOEDD MODERN

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfleoedd i astudio rhwng un a thair iaith, gan dy helpu i ddod yn rhan o gymuned fyd-eang ac agor drysau i ystod eang o yrfaoedd. Y prif ieithoedd a gynigir fel rhan o'r rhaglen radd hon yw Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg. Gellir ychwanegu at y rhain gyda modiwlau o lwybrau galwedigaethol arbenigol gyda sylw ar astudiaethau diwylliannol, addysgeg iaith, a chyfieithu a chyfieithu ar y pryd.**

Trwy astudio gradd BA mewn Ieithoedd Modern, gelli ddewis rhwng un a thair iaith (Almaeneg/Ffrangeg/Sbaeneg). Yn ogystal, mae ein llwybrau mewn astudiaethau diwylliannol, cyfieithu, ac addysgeg ail iaith yn cynnig hyblygrwydd o'r lefel uchaf gan dy alluogi i reoli ffocws dy astudiaethau drwy gydol dy amser gyda ni.

Mae gan bob myfyriwr fynediad at ein Hystafell Cyfieithu ar y Pryd ar gyfer Cynadleddau, labordai iaith pwrpasol, ac archif cynhwysfawr o ffilmiau iaith dramor.

Yn ogystal, cynhelir 'caffis iaith' wythnosol y tu allan i amser dosbarth ffurfiol lle y gelli gwrdd â myfyrwyr cyfnewid sy'n siaradwyr brodorol sy'n barod i siarad â ti yn yr ieithoedd rwyt ti'n eu hastudio.

Gellir astudio Ffrangeg a Sbaeneg ar lefelau uwch (ôl-Safon Uwch) a rhagarweiniol. Ar hyn o bryd, dim ond ar lefel ragarweiniol y mae Almaeneg ar gael. Mae ein llwybr i ddechreuwyr yn addas i fyfyrwyr heb fawr o wybodaeth flaenorol o'r iaith honno os o gwbl.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Ddiwylliant a Thraddodiadau Ieithyddol
- Cysyniadau Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd
- Ffilm Ewropeaidd Fodern: Themâu a Phersbectifau
- Ieithoedd Modern: Cyflwyniad i Addysgu Iaith
- Modiwlau Iaith i Ddechreuwyr/Uwch

**Blwyddyn 2**

- Addysgu Ieithoedd Modern Dramor i Ddysgwyr Ifanc
- Cyfieithu â Chymorth Cyfrifiadur
- Dehongli Deialog
- Modiwlau Iaith Canolradd/Uwch

**Blwyddyn 3**

Byddi di'n treulio dy drydedd flwyddyn yn gweithio fel cynorthwyydd iaith mewn ysgolion ar raglen Cynorthwywyr y British Council neu astudio mewn prifysgol partner. Mae rhai myfyrwyr hefyd yn gwneud lleoliadau gwaith taledig neu'n gweithio fel gwirfoddolwyr ar raglenni cymeradwyo. Cei gyfle yn America Lladin ar gyfer myfyrwyr Sbaeneg.

**Blwyddyn 4**

- Dehongli - Opsiwn Llywodraeth Leol
- Iaith ar gyfer Dibenion Proffesiynol
- Gweithdai Cyfieithu
- Traethawd Hir Ieithoedd Modern

### LLEOLIAD GWAITH INTEGREDIG DRAMOR

am dâl fel un o gynorthwywyr iaith y British Council neu astudio mewn prifysgol bartner

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- Ieithoedd Modern

**BA Prif Bwnc/Is-bwnc Anrhydedd**
- Cysylltiadau Rhyngwladol (Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg)
- Ieithoedd Modern gydag Addysg

**BA Cydanrhydedd Ieithoedd Modern a**
- Hanes (Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg)
- Llenyddiaeth Saesneg (Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg)

◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:

- Addysgu
- Busnes Byd-eang
- Cyfieithu
- Gwerthiannau Rhyngwladol
- Marchnata mewn Sefydliadau Amlwladol

# IEITHOEDD MODERN, CYFIEITHU A CHYFIEITHU AR Y PRYD

CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae'r galw am gyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn cynyddu'n gyflym wrth i ragor o gwmnïau, sefydliadau a phobl fasnachu'n fyd-eang ond gan ddisgwyl defnyddio gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain.**

**Yn ogystal â meithrin dy sgiliau iaith, byddi di'n meithrin gwybodaeth a sgiliau ymarferol a fydd yn dy baratoi ar gyfer gyrfa ym maes cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd.**

Bydd myfyrwyr sy'n dilyn y rhaglen radd hon yn astudio dwy iaith, y mae'n rhaid i o leiaf un ohonynt (Ffrangeg neu Sbaeneg) fod ar lefel uwch. Gellir astudio'r ail iaith (Almaeneg, Ffrangeg neu Sbaeneg) ar lefel dechreuwyr.

Byddi di'n astudio'r theori a'r cysyniadau sy'n sail i gyfieithu a dehongli, a byddi hefyd yn ymarfer cyfieithu drwy gymorth cyfrifiadur, cyfieithu deialog, yn ogystal â chyfieithu proffesiynol ar gyfer byd masnach, llywodraethu, iechyd neu'r gyfraith.

Er mwyn cefnogi dy astudiaethau, mae gennym labordai PC sydd â'r feddalwedd cyfieithu ddiweddaraf i'r diwydiant, cyfres ddehongli cynhadledd Televic newydd, mynediad i'n traciwr llygaid, yn ogystal ag adnoddau llyfrgell print ac ar-lein rhagorol.

Byddi di hefyd yn astudio dramor am flwyddyn er mwyn datblygu dy iaith a dy dechnegau cyfieithu ymhellach a rhoi hwb i dy ragolygon gyrfa.

Gall y radd hon agor drysau i yrfaoedd cyffrous yn y DU neu ledled y byd, fel cyfieithydd llawrydd sy'n gweithio gartref, cyfieithydd mewnol gydag asiantaeth neu yn adran gyfieithu cwmni neu sefydliad mawr.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Cysyniadau mewn Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd
- Gramadeg ac Ystyr wrth Gyfieithu a Dehongli
- Modiwlau Iaith Gyffredinol Briodol
- System Sain y Saesneg

**Blwyddyn 2**
- Astudiaethau Geirfa
- Cyfieithu â Chymorth Cyfrifiadur
- Cyflwyniad i Ddamcaniaeth Cyfieithu
- Dehongli Deialog
- Gweithdai Cyfieithu
- Modiwlau Iaith Gyffredinol Briodol

**Blwyddyn 3**
Yn ystod dy drydedd flwyddyn, fe fyddi di'n fanteisio ar y cytundebau sydd gennym gyda rhai o ysgolion cyfieithu enwocaf Ewrop. Ar hyn o bryd, mae gennym bartneriaid yn Alcalá de Henares, Barcelona, Bologna (Forli), Brwsel, Cologne, Granada, Genefa, Innsbruck, Mainz (Germersheim), Mons, Seville, Valencia, Valladolid, Vienna a Zurich.

Mae gennym diwtor penodol ar gyfer y flwyddyn dramor i dy helpu bob cam o'r ffordd wrth drefnu'r flwyddyn bwysig hon.

**Blwyddyn 4**
- Dehongli - Opsiwn Iechyd neu Opsiwn Llywodraeth Leol
- Gweithdy Cyfieithu a Modiwlau ar gyfer Dibenion Proffesiynol
- Lleoliad Gwaith Cyfieithu ar gyfer Myfyrwyr BA
- Modiwlau Iaith Gyffredinol Briodol
- Rheoli Terminoleg

**LLEOLIAD GWAITH INTEGREDIG DRAMOR**

am dâl fel un o gynorthwywyr iaith y British Council neu astudio mewn prifysgol bartner

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys o leiaf un Safon Uwch mewn iaith dramor fodern)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
- Ieithoedd Modern, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd (gyda Blwyddyn Dramor)

**4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Cyfieithu
- Cyfieithu ar y Pryd
- Gwerthiant Rhyngwladol a Recriwtio Marchnata
- Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
- Sefydliadau Busnes a Chyfreithiol

# LLENYDDIAETH SAESNEG

CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd astudio Llenyddiaeth Saesneg yn rhoi'r sgiliau i ddarllen ac ysgrifennu yn feirniadol ac yn greadigol, gan ymgysylltu â phynciau a syniadau pwerus a chyffredin.**

**Cei gyfle i astudio dros fil o flynyddoedd o lenyddiaeth, o destunau Canol Saesneg i'r gwaith cyfredol sydd ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr fawreddog Dylan Thomas. Gelli astudio llenyddiaeth genedlaethol a byd-eang gan gynnwys cyfnodau canoloesol a'r Dadeni, ffuglen Gothig, llenyddiaeth y 19eg ganrif a thestunau modern, cyfoes a digidol.**

Rydyn yn cynnig cynnwys cwrs amrywiol a hyblyg, gelli lywio dy gwrs yn ôl dy ddiddordebau dy hun, boed hynny mewn ffuglen Gothig a phoblogaidd, rhywedd a diwylliant, llenyddiaeth y Dadeni, llenyddiaeth genedlaethol a byd-eang, modernrwydd ac ysgrifennu cyfoes, llenyddiaeth y 19eg ganrif, neu ysgrifennu creadigol a phroffesiynol.

Byddi di'n dysgu gan awduron profiadol a sefydledig y mae eu gwaith wedi cael ei gyhoeddi, ei ddarlledu a'i berfformio'n eang.

Mae gennym gysylltiadau agos gyda diwydiannau creadigol, gelli gymryd rhan mewn prosiectau gyda Chanolfan Dylan Thomas a Theatr Genedlaethol Cymru.

Gelli hefyd ymuno ag ymweliadau â theatrau, archifau ac amgueddfeydd cenedlaethol i ymgyfarwyddo ag amrywiaeth o amgylcheddau proffesiynol.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**

- Angenfilod, Theorïau, Trawsnewidiadau
- Byd y Ddrama Lwyfan
- Dulliau o droi at Rywedd mewn Llenyddiaeth Saesneg
- Hanfodion Saesneg
- Ysgrifennu Creadigol: Genre Ffuglen

**Blwyddyn 2**

- Archwilio'r Siambr Waedlyd: Canoloesol i Ôl-fodern
- Chwyldro'r Gair: Moderniaeth
- Ffilm Fodern Ewropeaidd
- Rhannau o'r Undeb: Gwneud a Thorri Diwylliant Prydain
- Shakespeare Dadleuol

**Blwyddyn 3**

- Barddoniaeth yn yr Ugeinfed Ganrif
- Gwallgofrwydd, Anhwylder ac Iselder: Llenyddiaeth a Meddygaeth wrth Ddechreuad i Enomau
- Modiwl Gwobr Dylan Thomas Rhyngwladol
- Nofel Graffig
- Pethau: Llenyddiaeth Fictorianaidd a Diwylliant Materol
- Traethawd Hir – Llenyddiaeth Saesneg

SAESNEG

# 10

**UCHAF YN Y DU ANSAWDD YMCHWIL**

(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**

▲ ◆ Llenyddiaeth Saesneg
◆ Llenyddiaeth Saesneg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
▲ ◆ Saesneg gyda Rhywedd

**BA Cydanrhydedd Llenyddiaeth Saesneg a**

◆ Almaeneg (gyda Blwyddyn Dramor)
▲ ◆ Astudiaethau Americanaidd
▲ Cymraeg (Iaith Gyntaf)
▲ Cymraeg (Ail Iaith)
◆ Ffrangeg (gyda Blwyddyn Dramor)
▲ ◆ Gwleidyddiaeth
▲ ◆ Hanes
▲ Iaith Saesneg
▲ ◆ TESOL
▲ ◆ **Gellir ymestyn cyrsiau 3 blynedd i 4 blynedd i gynnwys Blwyddyn Dramor**

**▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Addysgu ac Addysg
- Cyfathrebu a'r Cyfryngau
- Cyhoeddi, Hysbysebu, Cysylltiadau Cyhoeddus
- Darlledu a Newyddiaduraeth
- Rheoli Llwyfan a'r Diwydiannau Creadigol

# LLENYDDIAETH SAESNEG GYDAG YSGRIFENNU CREADIGOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae ein cwrs gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol yn cynnig antur ddwys mewn darllen sy'n meithrin creadigrwydd ac ymwybyddiaeth feirniadol.**

**O gael dy addysgu gan awduron profiadol, uchel eu parch sydd wedi cyhoeddi'n doreithiog, fe fyddi di'n cael profiad ymarferol mewn sawl math o ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys: ffuglen, drama, sgriptio, barddoniaeth a ffeithiol creadigol.**

Byddi di'n dysgu amrywiaeth o sgiliau ysgrifennu a fydd yn dy baratoi i ddilyn gyrfa fel awdur, gan gynnwys nofelau, dramâu, barddoniaeth, sgriptiau ffilm ac ysgrifennu ffeithiol.

Fe fyddi di'n hefyd astudio hanes, traddodiadau a theori dros 1,000 o flynyddoedd o lenyddiaeth Saesneg yn cynnwys testunau Saesneg canol i'r gweithiau cyfredol. Gelli astudio llenyddiaeth genedlaethol a byd-eang gan gynnwys cyfnodau canoloesol a'r Dadeni, ffuglen Gothig, llenyddiaeth y 19eg ganrif a thestunau modern, cyfoes a digidol.

Trefnwn ymweliadau â theatrau, archifdai ac amgueddfeydd cenedlaethol er mwyn rhoi'r cyfle i ymgyfarwyddo ag asiantaethau, cyhoeddwyr, golygyddion ac ysgrifenwyr.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Angenfilod, Theorïau, Trawsnewidiadau
- Byd y Ddrama Lwyfan
- Hanfodion Saesneg
- Ysgrifennu Creadigol: Genre Ffuglen
- Ysgrifennu Creadigol: Steiliau Ffuglen

**Blwyddyn 2**
- Cyflwyniad i Ysgrifennu Barddoniaeth
- Cyflwyniad i Ysgrifennu Ffuglen
- Cyflwyniad i Ysgrifennu Drama
- Hanes yr Iaith Saesneg

**Blwyddyn 3**
- Modiwl Gwobr Dylan Thomas Rhyngwladol
- Prosiect Personol Ysgrifennu Creadigol
- Ysgrifennu Barddoniaeth Pellach
- Ysgrifennu Creadigol Ffeithiol Pellach
- Ysgrifennu Ffuglen Pellach
- Ysgrifennu i Radio a Sgrîn

SAESNEG
**10**
**UCHAF YN Y DU ANSAWDD YMCHWIL**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Prif Bwnc / Is-bwnc Anrhydedd**
- ▲ Llenyddiaeth Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol
- ◆ Llenyddiaeth Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol (gyda Blwyddyn Dramor)
- ◆ Llenyddiaeth Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysg
- Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Newyddiaduraeth
- Sgriptio a Diwydiannau Creadigol
- Ysgrifennu a Chyhoeddi

# MARCHNATA

## CAMPWS Y BAE & CAMPWS PARC SINGLETON

**A elli weld dy hun yn gweithio i asiantaeth farchnata amlwladol gyda brand adnabyddus?**

**Bydd y radd hon yn dy helpu i sefyll allan gyda'r sgiliau creadigol dynamig sydd eu hangen i reoli marchnata mewn modd pendant ar lefel fyd-eang, genedlaethol neu leol.**

Yn y flwyddyn gyntaf, byddi di'n datblygu sylfaen graidd mewn rheoli busnes a marchnata. Yn y blynyddoedd dilynol, byddi di'n arbenigo mewn modiwlau sy'n benodol i farchnata ac yn cael cyfle i astudio modiwlau dewisol o ddisgyblaethau busnes eraill.

Byddi di'n dysgu sut i feddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau marchnata strategol ar sail gwybodaeth, gan effeithio ar y byd go iawn.

Rydyn wedi datblygu'r strwythur a chynnwys y cwrs yn unol â Thystysgrif y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM) a, thrwy darlithoedd, tiwtorialau a chyfarfodydd un-i-un, byddi di'n derbyn gwybodaeth arbenigol o'r staff academaidd.

Mae Blwyddyn mewn Diwydiant yn rhoi'r cyfle perffaith i ti ennill profiad diwydiant y byd go iawn, gan dy wneud yn ymgeisydd deniadol ar gyfer swyddi ar ôl graddio.

Wyt ti eisiau blwyddyn fythgofiadwy yn ymdrochi mewn diwylliannau newydd a datblygu fel unigolyn; yn broffesiynol ac yn bersonol? Mae Blwyddyn Dramor hefyd yn gyfle sydd ar gael i ti.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyd-destun Byd-eang y Sefydliad
- Entrepreneuriaeth a Chreadigrwydd: Entrepreneuriaeth ar Waith
- Marchnata
- Rheoli Pobl

**Blwyddyn 2**
- Cynllunio Marchnata Strategol
- Marchnata Digidol
- Marchnata Rhyngwladol
- Ymddygiad Defnyddwyr

**Blwyddyn 3**
- Cyfathrebu Marchnata
- Datblygu Ceisiadau
- Marchnata Cyfryngau Cymdeithasol
- Moeseg Marchnata

**17EG YN Y DU MARCHNATA**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ ◆ Marchnata
- ▲ ◆ Rheoli Busnes (Marchnata)

◆ **Gellir ymestyn ein holl gyrsiau 3 blynedd i 4 blynedd i'w cynnwys: (Blwyddyn Sylfaen) neu (Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)**

▲ **3 BLYNEDD** ◆ **4 BLYNEDD**

Mae hefyd opsiwn i astudio marchnata dan y llwybr **BSc Rheoli Busnes (Marchnata)**. Am fwy o wybodaeth, gweler tudalen 154.

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Prynwr Cyfryngau
- Rheolwr Brand
- Rheolwr Marchnata
- Swyddog Gweithredol Cyfrif Cysylltiadau Cyhoeddus
- Ymgynghorydd Rheoli

**Datblygwyd strwythur y cwrs yn unol â Thystysgrif CIM mewn Marchnata Proffesiynol a Diploma mewn Marchnata Proffesiynol**

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

CIM Accredited Degree

# MATHEMATEG
## CAMPWS Y BAE

**Mae Mathemateg yn un o'r disgyblaethau mwyaf diamser a rhyngwladol gan ffurfio'r seiliau yr adeiladwyd y byd cyfoes arnynt.**

**Mae gwyddoniaeth a busnes cyfoes yn seiliedig ar fathemateg, ac mae ein cyrsiau gradd yn adlewyrchu cysylltiad â diwydiant.**

**Wrth i ti fynd yn dy flaen drwy'r cwrs, bydd y galluoedd mathemategol y byddi di'n eu datblygu yn cyfuno â sgiliau trosglwyddadwy sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth yn y diwydiant ehangach.**

Mae'r cwrs gradd mathemateg yn cwmpasu sail eang o fathemateg glasurol a modern. Rydyn yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau sy'n ymdrin â mathemateg bur a chymhwysol ac mae pob myfyriwr anrhydedd sengl yn cwblhau traethawd hir mewn maes o'i ddewis yn ei flwyddyn olaf.

Ym mhob un o'n cynlluniau byddi'n dysgu sut i ddefnyddio rhesymu, llunio dadleuon cadarn a datblygu sgiliau cyfathrebu.

Cei dy addysgu yn ein Hadeilad Ffowndri Gyfrifiadurol a gostiodd £32.5 miliwn i'w adeiladu ac sy'n darparu'r cyfleusterau addysgu diweddaraf sydd o'r safon uchaf. Mae'r rhain yn cynnwys Ystafell Ddarllen benodedig ar gyfer Mathemateg, yng nghanol yr adran, lle y gall y myfyrwyr astudio.

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Actiwari
- Cyfrifydd
- Dadansoddwr Ystadegol
- Gwyddonydd Data
- Peiriannydd Meddalwedd
- Ymgynghorydd Rheoli

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Fodelu ac Efelychu
- Geometreg: Mathemateg, Rhesymeg a Chyfathrebu
- Sylfeini Algebra

**Blwyddyn 2**
- Credadwyedd, Atebolrwydd ac Adfail
- Dadansoddiad Aml-newidiol
- Gofodau Metrig a Theori Mesur
- Theori Gêm ac Optimeiddio

**Blwyddyn 3/MMath**
- Algebra Uwch
- Biomathemateg
- Calcwlws Amrywiadau
- Cyfres Amser a Modelau Risg
- Dysgu Peiriant
- Mathemateg Ariannol
- Sicrwydd a Blwydd-dal
- Systemau Dynamig

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Institute of mathematics & its applications

MATHEMATEG
**30**
**UCHAF YN Y DU CWRS**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BSc: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MMath: AAB-ABB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Mathemateg
- ◆ Mathemateg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Mathemateg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ▲ Mathemateg Bur
- ▲ Mathemateg Gymhwysol
- ◆ Mathemateg Gymhwysol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ▲ Mathemateg ar gyfer Cyllid
- ◆ Mathemateg ar gyfer Cyllid (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

**BSc Cydanrhydedd Mathemateg a**
- ▲ Addysg
- ◆ Addysg (gyda Blwyddyn Dramor)
- ▲ Cyfrifiadureg
- ◆ Cyfrifiadureg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ▲ Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- ◆ Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

**MMath Anrhydedd Sengl**
- ◆ MMath Mathemateg
- ★ MMath Mathemateg (gyda Blwyddyn Dramor)

Gwyddor Actiwaraidd – gweler tudalen 106

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**



# Elin Jones

**BSc MATHEMATEG**

Graddiodd yn 2020

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

Ar ôl penderfynu ar ba gwrs i ddilyn yn y brifysgol, dechreuais ymweld â phrifysgolion o gwmpas Cymru. Roeddwn yn gwybod o'r dechrau fy mod eisiau mynychu prifysgol yng Nghymru gan fy mod eisiau parhau i gael gymaint o fy addysg yn y Gymraeg ag y galla'i, a hefyd parhau i gael y cyfle i gymdeithasu trwy'r Gymraeg. Unwaith i mi ymweld â Phrifysgol Abertawe ar ddiwrnod agored roeddwn yn gwybod yn syth mai dyma'r brifysgol i mi. Teimlais yn gartrefol o'r dechrau wrth ymweld â'r campws a'r adran Fathemateg, a'r hyn roedd y brifysgol yn gallu cynnig i mi. Roedd yn adran wych a oedd yn symud i adeilad newydd ar Gampws y Bae yn fy ail flwyddyn, a hefyd yn cynnig canran o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg – y modiwlau craidd – gyda thiwtor Cymraeg hefyd. Roedd clywed am Gymdeithas Gymraeg y brifysgol a chael y cyfle i fyw mewn fflat Gymraeg ar gampws y Brifysgol yn fy mlwyddyn gyntaf yn sicrhau fy mod yn cael y cyfle i gymdeithasu trwy'r Gymraeg hefyd.

Dyna pam mi wnes i benderfynu aros ym Mhrifysgol Abertawe i astudio'r cwrs TAR. Er ei fod yn gwrs newydd i'r brifysgol eleni, roedd hi'n benderfyniad hawdd iawn i ddewis Prifysgol Abertawe i barhau gyda fy addysg.

# MEDDYGAETH I RADDEDIGION

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Cwrs gradd carlam, arloesol pedair blynedd sy'n agored i raddedigion mewn unrhyw ddisgyblaeth yw ein rhaglen Meddygaeth i Raddedigion (MBBCh). Gyda phwyslais mawr ar sgiliau clinigol a chyfathrebu, mae ein cwrs cwricwlwm meddygol integredig wedi'i strwythuro i adlewyrchu'r ffordd y mae cleifion yn cysylltu â meddygon a sut mae meddygon yn ymgysylltu â'u symptomau. Ein cenhadaeth yw dy hyfforddi i fod yn glinigwr rhagorol, gofalgar a chynhwysol ar gyfer cymdeithas fyd-eang.**

Byddi di'n astudio gwyddorau biofeddygol sylfaenol yng nghyd-destun meddygaeth glinigol, iechyd y cyhoedd, patholeg, therapiwteg, moeseg, materion seicogymdeithasol wrth reoli cleifion.

Drwy gyfuniad o ddysgu yn y brifysgol a sesiynau ymarferol, byddi di'n mwynhau lefel uchel o gysylltiad clinigol drwy Gyfleoedd Dysgu yn y Lleoliad hunan-ddewisol (LOCS), ymluniadau arbenigol, isdarlithyddiaeth a dysgu yn y gymuned.

Gelli di deilwra dy astudiaethau i ffocysu ar feddygaeth yn y gymuned, gyda lleoliadau clinigol mewn gofal sylfaenol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Ynghyd â chanolbwyntio'n gryf ar sgiliau clinigol a chyfathrebu, byddi'n datblygu rhinweddau academaidd, ymarferol a phersonol i allu ymarfer meddygaeth mewn modd cymwys a hyderus.

### Gwneud cais am Feddygaeth

Mae'n rhaid i ti eistedd GAMSAT cyn gwneud cais. Cynigir cyfweliadau i ymgeiswyr sy'n bodloni sgôr toriad cyffredinol yn y GAMSAT.

Mae ein proses o gyfweld am le ar y cwrs yn un strwythuredig, gan ystyried y rhinweddau hyn sydd eu hangen i fod yn feddyg, fel a bennir yn 'Good Medical Practice', a'r gallu i gyflawni'r canlyniadau yn 'Outcomes for Graduates'. I grynhoi, rydyn yn chwilio am:

- Brwdfrydedd at Feddygaeth/ Cydnerthedd i Lwyddo
- Mewnwelediad ac Uniondeb Cymeriad
- Sgiliau Cyfathrebu
- Sgiliau Datrys Problemau
- Y gallu i Ymdopi â Phwysau

### Meddygon i Gymru

Mae gan yr Ysgol Feddygaeth becyn eang a pharhaus o fesurau ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau arwyddocaol sy'n wynebu'r gweithlu meddygon yng Nghymru, gan gynnwys recriwtio a chadw meddygon. Mae'r mesurau hyn wedi'u cynllunio i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru sy'n cyfweld am feddygaeth a'r nifer o feddygon cymwys sy'n ymarfer yng Nghymru.

### Llwybrau i Feddygaeth

**1AF YN Y DU YSGOL FEDDYGAETH** (Complete University Guide 2022)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: 2:1**
(gradd baglor mewn unrhyw bwnc)

Rhestrir y manylion llawn am y gofynion mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

- MBBCh Meddygaeth
- **4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

NHS Mae lleoliadau clinigol wedi'u hymgorffori fel rhan o'r rhaglen hon

**LLWYBR MEDDYGAETH I RADDEDIGION:**

Fel rhan o'n hymrwymiad i ehangu mynediad i feddygaeth, gallwn dy warantu y cei gyfweliad ar gyfer ein cwrs MBBCh Meddygaeth i Raddedigion trwy ddilyn un o'n graddau llwybrau i feddygaeth. Am fwy o wybodaeth: **abertawe.ac.uk/y-brifysgol/colegau/ysgol-feddygaeth-prifysgol-abertawe/llwybrau-i-feddygaeth-**

**Darganfydda fwy at:**
**abertawe.ac.uk/meddygaeth/meddygonigymru**

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

General Medical Council

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r ffaith fod angen i bob myfyriwr meddygol lwyddo yn yr Asesiad Trwyddedu Meddygol MLA gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) er mwyn ennill cofrestriad i ymarfer o 2024 ymlaen, yn ogystal â phasio arholiadau terfynol y brifysgol a dangos eu haddasrwydd i ymarfer.



# Shannon Rowlands

## MEDDYGAETH I RADDEDIGION

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

Dewisais astudio yn Abertawe gan ei fod yn bwysig i fi gael fy addysg yng Nghymru a dyma'r unig brifysgol i gynnig cwrs i raddedigion. Wrth ymweld ag Abertawe, roeddwn yn teimlo fel fy mod yn gael fy nghroesawu, yn rhan o deulu. Mae'r ffaith fod Abertawe yn 3ydd uchaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer cwrs feddygol yn fonws mawr iawn hefyd!

Mae bod ar leoliad yn gyffrous ac yn fy atgoffa pam fy mod eisiau astudio'r cwrs a bod yn feddyg. Mae gwrando ar straeon cleifion yn fraint ac yn helpu gyda'r dysgu i wneud cyswllt rhwng y cyflwr meddygol a sut mae hyn yn effeithio ar bobl mewn bywyd go iawn.

Roedd hi'n bwysig i fi i gymryd mantais o'r cyfle i astudio rhan o'r cwrs yn y Gymraeg a bues i'n ffodus i dderbyn ysgoloriaeth Academi Hywel Teifi ac Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Dwi'n teimlo gymaint fwy cyfforddus yn mynegi fy hun yn y Gymraeg felly does dim syndod bod nifer o gleifion tra mewn sefyllfa anghyfarwydd o fod mewn poen neu yn yr ysbyty hefyd yn teimlo mwy cyfforddus yn siarad eu hiaith gyntaf.

Mae bod yn lysgennad i'r Coleg Cymraeg wedi rhoi'r cyfle i fi gwrdd â myfyrwyr newydd ac i fynd o amgylch ysgolion Cymru i sôn am fy mhrofiadau, mae hefyd yn edrych yn grêt ar fy CV!

# NEWYDDIADURAETH, Y CYFRYNGAU A CHYFATHREBU

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Yn ogystal â bod yn ddefnyddwyr gwybodaeth dorfol, mae graddedigion heddiw hefyd yn ei churadu ac yn ei chreu a'r dyddiau hyn, mae angen i ddarpar newyddiadurwyr ddatblygu eu brand personol eu hunain mewn marchnad or-lawn.**

**Nod y rhaglen felly yw rhoi set sgiliau driphlyg i fyfyrwyr, sy'n cynnwys sgiliau dadansoddi, ymarferol a chyflogadwyedd, a fydd yn eu paratoi i fentro i'r farchnad swyddi graddedig â hyder.**

Fel bodau dynol, rydyn yn treulio mwy o amser yn ymwneud â'r cyfryngau nag unrhyw weithgaredd arall. Dim ond cysgu sy'n cymryd mwy o'n hamser. Yn yr oes ddigidol, caiff y newyddion a'r cyfryngau traddodiadol eu hategu gan amrywiaeth enfawr o blatfformau ar-lein.

Felly, ceir mwy o ddewis nag erioed o'r blaen ac nid yw'r ansawdd erioed wedi bod mor amrywiol. Yn oes "newyddion ffug" er enghraifft, mae'r gallu i wahaniaethu rhwng ffeithiau gwrthrychol a rhethreg amheus yn bwysicach nag erioed.

Mae'r rhaglen yn cael ei harfarnu'n rheolaidd gan banel o gynrychiolwyr y diwydiant i sicrhau ei bod yn parhau ar flaen y gad wrth ddiwallu anghenion cyflogwyr a'r diwydiant. Bydd y cwrs yn cynnig cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai a seminarau dan arweiniad siaradwyr gwadd.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Astudiaethau ffilm
- Cyflwyniad i Gyfathrebu'r Cyfryngau
- Cyflwyniad i Hanes y Cyfryngau
- Cyflwyno a Datgodio'r Newyddion
- Cysylltiadau Cyhoeddus: Cyfathrebu Strategol

**Blwyddyn 2**
- Damcaniaethu'r Cyfryngau
- Diwylliannau'r Cyfryngau Cymdeithasol
- Hanes Animeiddio Sgrîn
- Ymarfer Cysylltiadau Cyhoeddus Digidol
- Ymchwilio i Destun, Proses a Chynulleidfaoedd

**Blwyddyn 3**
- Adrodd yr 21ain Ganrif
- Cynhyrchu Fideo
- Gwneud Newyddiaduraeth Ddigidol
- Paratoi ar gyfer y Traethawd Hir
- Strategaeth, Marchnata a Brandio

ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU A FFILM
AF 1 YN Y DU
BODDHAD CWRS
(Guardian University Guide 2022)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
▲ Newyddiaduraeth, Y Cyfryngau a Chyfathrebu
◆ Newyddiaduraeth, Y Cyfryngau a Chyfathrebu (gyda Blwyddyn Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Busnes
- Cyhoeddi
- Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau
- Marchnata Digidol
- Newyddiaduraeth
- Teledu a Radio
- Y Cyfryngau

# NYRSIO: ANABLEDD DYSGU

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae nyrsys Anabledd Dysgu yn chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi pobl o bob oedran a chefndir ar bob cam o'u bywydau.**

**Bydd ein hystod o strategaethau dysgu ac addysgu yn datblygu dy allu i feddwl yn feirniadol ac yn dy alluogi i nodi anghenion amrywiol a chymhleth pobl sydd ag anableddau dysgu; gwneud diagnosis nyrsio cywir a chynllunio a gwerthuso'r gofal y mae ei angen er mwyn mwyafu cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yn y gymdeithas.**

Drwy gydol y cwrs hwn sydd wedi'i integreiddio'n ofalus, byddi di'n dysgu sut i ddiwallu anghenion pobl sydd â heriau iechyd meddwl, corfforol, gwybyddol neu ymddygiadol, gan alluogi ymarferwyr i gefnogi pobl o bob oedran sydd ag anableddau dysgu.

Mae ein staff academaidd yn nyrsys cymwysedig, yn feddygon, ac yn weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan ddarparu cyfuniad eithriadol o drylwyredd damcaniaethol, crefft proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di'n mynd ar leoliad gwaith mewn ysbyty neu yn y gymuned.

Cynhelir hanner o dy addysgu yn y Brifysgol a'r hanner arall mewn lleoliadau gofal iechyd.

Mae gennym berthnasoedd gweithio ardderchog â llawer o ddarparwyr gofal iechyd, felly bydd gen ti fynediad i ystod eang o brofiadau clinigol ledled De-orllewin Cymru.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Cyd-destunau Gofal Iechyd ar gyfer Anabledd Dysgu
- Cyflwyniad i Nyrsio a Gofal Iechyd ar gyfer Anabledd Dysgu
- Deall Iechyd a Salwch Anabledd Dysgu

**Blwyddyn 2**
- Gofal Iechyd Acíwt ar gyfer Anabledd Dysgu
- Gofalu am Bobl sydd â Chyflwr Hirdymor ac Anghenion Gofal Lliniarol
- Sicrhau Gofal o Safon ar gyfer Anabledd Dysgu

**Blwyddyn 3**
- Gofalu am yr Unigolyn sydd ag Anghenion Cymhleth
- Hyrwyddo Ymarfer Nyrsio ar gyfer Anabledd Dysgu
- Paratoi ar gyfer Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**10**
**UCHAF YN Y DU NYRSIO**
(The Guardian University Guide 2022)

NHS **DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**BSc: BBB** (gan gynnwys pynciau sy'n ymwneud ag iechyd neu wyddoniaeth yn ddelfrydol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Nyrsio (Anabledd Dysgu) ^

▲ **3 BLYNEDD Amser-Llawn**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Gall graddedigion Nyrsio ddisgwyl ennill cyflog cychwynnol o £25,655, a fydd yn codi i £53,219 i nyrs staff profiadol.

^ Yn amodol ar gymeradwyaeth

# NYRSIO: IECHYD MEDDWL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae nyrsys Iechyd Meddwl yn chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi pobl o bob oedran a chefndir yn ystod rhai o gyfnodau mwyaf anodd ac heriol eu bywydau.**

**Drwy gyfuno astudiaethau academaidd a phrofiad clinigol ymarferol, byddi di'n meithrin sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu craff er mwyn dy baratoi ar gyfer gweithio fel rhan o dîm sy'n cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymunedol a therapyddion galwedigaethol.**

Drwy gydol y cwrs hwn sydd wedi'i integreiddio'n ofalus, byddi di'n cael yr wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol y bydd ei hangen arnat i ddarparu gofal nyrsio tosturiol o safon, er mwyn gwella iechyd a lles meddyliol. Byddi di'n dysgu i wella gofal a thriniaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, yn ogystal â'u gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae ein staff academaidd yn nyrsys cymwysedig, yn feddygon, ac yn weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan ddarparu cyfuniad eithriadol o drylwyredd damcaniaethol, craffter proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di'n mynd ar leoliad gwaith mewn ysbyty neu yn y gymuned.

Cynhelir hanner o dy addysgu yn y Brifysgol a'r hanner arall mewn lleoliadau gofal iechyd*.

Mae gennym berthnasoedd gweithio ardderchog â llawer o ddarparwyr gofal iechyd, felly bydd gen ti fynediad i ystod eang o brofiadau clinigol ledled De-orllewin Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau gofal iechyd cymunedol, ysbytai a meysydd arbenigol nyrsio fforensig, nyrsio i blant a'r glasoed, cyffuriau ac alcohol a nyrsio pobl hŷn.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyd-destunau Gofal Iechyd Meddwl
- Cyflwyniad i Nyrsio a Gofal Iechyd ar gyfer Iechyd Meddwl
- Deall Iechyd a Salwch o ran Iechyd Meddwl

**Blwyddyn 2**

- Gofal Acíwt ar gyfer Iechyd Meddwl
- Gofalu am bobl sydd â Chyflwr Hirdymor ac Anghenion Gofal Lliniarol
- Sicrhau Gofal o Safon ym maes Iechyd Meddwl

**Blwyddyn 3**

- Gofalu am yr unigolyn sydd ag Anghenion Cymhleth
- Hyrwyddo Ymarfer Nyrsio Iechyd Meddwl
- Paratoi ar gyfer Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**Mae achrediadau'n cynnwys:**

NMC Nursing & Midwifery Council

^ Yn amodol ar gymeradwyaeth

## 10 UCHAF YN Y DU NYRSIO

(The Guardian University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BSc: BBB** (gan gynnwys pynciau sy'n ymwneud ag iechyd neu wyddoniaeth yn ddelfrydol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲ ◆ Nyrsio (Iechyd Meddwl)

▲ Nyrsio (Iechyd Meddwl) (Dysgu Gwasgaredig)^

▲ **3 BLYNEDD Amser-Llawn**

◆ **4 BLYNEDD Rhan-Amser**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Gall graddedigion Nyrsio ddisgwyl ennill cyflog cychwynnol o £25,655, a fydd yn codi i £53,219 i nyrs staff profiadol.

Wrth i dy yrfa ddatblygu gelli ddewis arbenigo mewn meysydd fel gofal i'r henoed, ymyrryd mewn argyfwng neu gamddefnyddio sylweddau. Gelli hefyd gymryd rhan mewn rolau ym meysydd addysg, ymchwil neu reoli.

**Gall ymgeiswyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ymgymryd â'r cwrs hwn drwy Ddysgu Gwasgaredig. Gan gymryd ymagwedd dysgu cyfunol, byddi di'n ymgymryd â chyfleoedd i ddysgu wrth ymarfer mewn amrywiaeth o amgylcheddau, wedi dy gefnogi gan oruchwylwyr ymarfer, yn ogystal ag addysgu wyneb-yn-wyneb ar draws yr ardal leol, wedi'u cefnogi gan ein platfform dysgu ar y cwmwl drwyddi draw.*

# NYRSIO: OEDOLION

## CAMPWS PARC SINGLETON



**Bydd ein cwrs gradd mewn Nyrsio Oedolion, sydd wedi'i gydnabod yn rhyngwladol, yn rhoi i ti'r sgiliau a'r profiad i lansio gyrfa wobrwyol yn y proffesiwn amrywiol a hanfodol hwn.**

**Wrth i ti ddatblygu, byddi di'n meithrin y sgiliau i asesu, cynllunio, darparu, a gwerthuso gofal ar sail tystiolaeth er mwyn hyrwyddo iechyd a lles oedolion gyda chyflyrau cronig ac acíwt.**

Drwy gydol y cwrs hwn sydd wedi'i integreiddio'n ofalus, byddi di'n dysgu am anghenion cyfannol pobl o adeg troi'n oedolion tan eu henaint, a byddi di'n meithrin y sgiliau proffesiynol i ddarparu gofal nyrsio o safon mewn ystod o leoliadau clinigol a chymunedol.

Mae ein staff academaidd yn nyrsys cymwysedig, yn feddygon, ac yn weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan ddarparu cyfuniad eithriadol o drylwyredd damcaniaethol, craffter proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di'n mynd ar leoliad gwaith mewn ysbyty neu yn y gymuned.

Fel arfer, cynhelir hanner o dy addysgu yn y Brifysgol a'r hanner arall mewn lleoliadau gofal iechyd*.

Mae gennym berthnasoedd gweithio ardderchog â llawer o ddarparwyr gofal iechyd, felly bydd gen ti fynediad i ystod eang o brofiadau clinigol ledled De-orllewin Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau yn y GIG a'r sector annibynnol mewn ysbytai ac yn y gymuned.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**

- Cyd-destunau Gofal Oedolion
- Cyflwyniad i Nyrsio a Gofal Iechyd Oedolion
- Deall Iechyd a Salwch

**Blwyddyn 2**

- Gofal Acíwt i Oedolion
- Gofalu am Oedolion sydd â Chyflwr Hirdymor ac Anghenion Gofal Lliniarol
- Sicrhau Gofal o Safon

**Blwyddyn 3**

- Gofalu am Oedolyn sydd ag Anghenion Cymhleth
- Paratoi ar gyfer Ymarfer Proffesiynol
- Ymestyn Ymarfer Nyrsio Oedolyn

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**Mae achrediadau'n cynnwys:**

NMC Nursing & Midwifery Council

^ Yn amodol ar gymeradwyaeth

**10**
**UCHAF YN Y DU NYRSIO**
(The Guardian University Guide 2022)

NHS **DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BSc: BBB** (gan gynnwys pynciau sy'n ymwneud ag iechyd neu wyddoniaeth yn ddelfrydol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲◆ Nyrsio (Oedolion) (Campws Parc Singleton, Abertawe)

▲◆ Nyrsio (Oedolion) (Campws Dewi Sant, Caerfyrddin)

▲◆ Nyrsio (Oedolion) (Dysgu Gwasgaredig)^

▲ **3 BLYNEDD Amser-Llawn**
◆ **4 BLYNEDD Rhan-Amser**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Gall graddedigion Nyrsio ddisgwyl ennill cyflog cychwynnol o £25,655, a fydd yn codi i £53,219 i nyrs staff profiadol.

**Gall ymgeiswyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ymgymryd â'r cwrs hwn drwy Ddysgu Gwasgaredig. Gan gymryd ymagwedd dysgu cyfunol, byddi di'n ymgymryd â chyfleoedd i ddysgu wrth ymarfer mewn amrywiaeth o amgylcheddau, wedi dy gefnogi gan oruchwylwyr ymarfer, yn ogystal ag addysgu wyneb-yn-wyneb ar draws yr ardal leol, wedi'u cefnogi gan ein platfform dysgu ar y cwmwl drwyddi draw.*

# NYRSIO: PLANT

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd ein cwrs gradd mewn Nyrsio Plant sydd wedi'i gydnabod yn rhyngwladol yn rhoi i ti'r sgiliau a'r profiad i lansio gyrfa wobrwyol.**

**Drwy gydol y cwrs hwn sydd wedi'i integreiddio'n ofalus, byddi di'n dysgu am anghenion iechyd a lles cyfannol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.**

Drwy gyfuno astudiaethau academaidd a phrofiad clinigol ymarferol, byddi di'n meithrin y sgiliau proffesiynol i ddarparu gofal nyrsio a dulliau gofal iechyd o safon, ar sail tystiolaeth, mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol a chymunedol, gan weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol yn aml, ar draws y sectorau iechyd a gofal iechyd.

Mae ein staff academaidd yn nyrsys cymwysedig, yn feddygon, ac yn weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan ddarparu cyfuniad eithriadol o drylwyredd damcaniaethol, craffter proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di'n mynd ar leoliad gwaith mewn ysbyty neu yn y gymuned.

Cynhelir hanner o dy addysgu yn y Brifysgol a'r hanner arall mewn lleoliadau gofal iechyd.

Mae gennym berthnasoedd gweithio ardderchog â llawer o ddarparwyr gofal iechyd, felly bydd gen ti fynediad i ystod eang o brofiadau clinigol ledled De-orllewin Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau yn y GIG a'r sector annibynnol mewn ysbytai ac yn y gymuned.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyd-destunau Gofal Plant
- Cyflwyniad i Nyrsio a Gofal Iechyd i Blant
- Deall Iechyd a Salwch Plant

**Blwyddyn 2**
- Gofal Acíwt i Blant
- Gofalu am Blant sydd â Chyflwr Hirdymor ac Anghenion Gofal Lliniarol
- Sicrhau Gofal o Safon i Blant

**Blwyddyn 3**
- Gofalu am y Plentyn sydd ag Anghenion Cymhleth
- Hyrwyddo Ymarfer Nyrsio Plant
- Paratoi ar gyfer Ymarfer Proffesiynol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



# 10
**UCHAF YN Y DU NYRSIO**
(The Guardian University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth ychwanegol drwy gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru. (**amodau yn berthnasol)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BSc: BBB** (gan gynnwys pynciau sy'n ymwneud ag iechyd neu wyddoniaeth yn ddelfrydol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲◆ Nyrsio (Plant)

▲ **3 BLYNEDD Amser-Llawn**
◆ **4 BLYNEDD Rhan-Amser**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Gall graddedigion Nyrsio ddisgwyl ennill cyflog cychwynnol o £25,655, a fydd yn codi i £53,219 i nyrs staff profiadol.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

NMC Nursing & Midwifery Council



Penderfynais astudio trwy gyfrwng y Gymraeg gan fy mod yn teimlo'n gryf dros y Gymraeg. Fel siaradwr Cymraeg, mae Prifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg wedi cynnig cyfleoedd anhygoel i mi, fel bod yn rhan o'r rhaglen ddogfen S4C 'Nyrsys' trwy ddilyn fy nhaith fel myfyriwr ym mlwyddyn gyntaf y cwrs nyrsio. Roedd yn brofiad bythgofiadwy. Rwyf hefyd wedi derbyn cyfleoedd i gynrychioli'r Coleg Cymraeg a Phrifysgol Abertawe trwy rannu fy mhrofiadau fel myfyriwr nyrsio gyda darpar fyfyrwyr mewn ysgolion wrth iddynt ystyried ar eu cam nesaf ar ôl lefel A. Cefais fy newis i fod yn gynrychiolydd ar dîm Academi Myfyrwyr Arweiniol y Brifysgol. Ers hynny, rwyf wedi cael gwahoddiad i siarad mewn cynhadledd ynghylch pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ym maes arweinyddiaeth.

Ar ôl canlyniadau gwych a chefnogaeth heb ei hail ar y modiwl cyntaf wnes i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, rwyf wedi penderfynu ysgrifennu fy holl draethodau yn y Gymraeg. Mae'r gefnogaeth Gymraeg yn rhagorol gan gynnwys fy nhiwtor personol Cymraeg a'r darlithwyr eraill sy'n rhoi naws gartrefol i Brifysgol Abertawe.

Rydw i'n derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Ysgoloriaeth yn golygu fy mod wedi gallu parhau â fy hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg sydd wedi gwneud fy mhrofiad gymaint yn well. O safbwynt ariannol, mae derbyn £500 y flwyddyn dros gyfnod fy ngradd wedi fy helpu'n sylweddol i leihau'r baich hwnnw.

# Mikey Denman

## BSc NYRSIO

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

# OSTEOPATHEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd gradd mewn Osteopathi yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnat i ddod yn osteopath cofrestredig sy'n gymwysedig i roi diagnosis o ystod eang o broblemau iechyd a'u trin drwy therapi â llaw a therapi corfforol, ymarferion wedi'u teilwra, adsefydlu, a chyngor. Byddi di'n meithrin dealltwriaeth drylwyr o anatomeg, ffisioleg, seicoleg a phatholeg ynghyd â thechnegau archwilio clinigol rhagorol, drwy gyfuno gwaith academaidd manwl â sgiliau clinigol ymarferol helaeth.**

Mae'r cwrs hwn wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Osteopatheg Cyffredinol, sy'n dy alluogi i gofrestru i ymarfer ar ôl graddio.

Ymhlith y cyfleusterau o'r radd flaenaf mae clinig osteopatheg cwbl weithredol yn yr Academi Iechyd a Llesiant sydd wedi ennill gwobrau. Mae staff y clinig hwn yn osteopathiaid cymwysedig sy'n gweithio yn y proffesiwn.

Mae hyn yn sicrhau y byddi di'n meithrin dy sgiliau a dy hyder dan oruchwyliaeth mewn amgylchedd diogel wrth i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith. Mae gennym gytundeb unigryw â bwrdd iechyd lleol sy'n rhoi'r cyfle i ti weithio yn un o leoliadau integredig y GIG oddi ar y campws yn dy flwyddyn olaf.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Anatomeg a Ffisioleg
- Datblygu'n Broffesiynol a Phersonol
- Sgiliau Osteopatheg

**Blwyddyn 2**
- Biomecaneg Glinigol a Delweddu
- Ffisioleg a Chymdeithaseg Gymhwysol ar gyfer Gofal Iechyd
- Pathoffisioleg a Therapiwteg
- Sgiliau Osteopatheg

**Blwyddyn 3**
- Cymhwyso Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth
- Datblygu Sgiliau Rheoli Busnes
- Sgiliau Osteopatheg

**Blwyddyn 4**
- Portffolio Datblygiad Personol a Phroffesiynol
- Traethawd Hir
- Ymarfer Osteopatheg Ymreolaethol

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**Mae achrediadau'n cynnwys:**

General Osteopathic Council

**1AF YN Y DU**
**MEDDYGAETH GYFLENWOL**
(Complete University Guide 2022)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BBB**
(gan gynnwys Addysg Gorfforol neu Wyddor Fiolegol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**M.Ost Anrhydedd Sengl**
- Osteopatheg

**4 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Mae'r rhan fwyaf o osteopathiaid cofrestredig yn gweithio yn y sector preifat. Gall osteopatheg cymwysedig ddisgwyl cyflog cychwynnol o £25,000.

# PEIRIANNEG GYFFREDINOL

## CAMPWS Y BAE

**Mae ein gradd BEng Peirianneg yn cynnig addysg eang mewn dulliau peirianneg hanfodol gyda chyfle i arbenigo, gan gynnig llawer iawn o hyblygrwydd wrth ddewis llwybr gyrfa cyffrous mewn ystod o sectorau peirianneg traddodiadol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg. Gan gydnabod bod sgiliau technegol yn un elfen yn unig o gymhwysedd peiriannydd newydd, bydd y radd hon yn helpu graddedigion i lywio arloesi technegol a newid sefydliadol.**

Nod y cwrs yw annog graddedigion i ddatblygu'n beirianwyr moesegol sy'n deall eu heffaith ar y byd a'i effaith arnyn nhw.

Byddi di'n dysgu am ddiwydiannau sy'n dod i'r amlwg megis roboteg, awtomateiddio a gweithgynhyrchu haen-ar-haen a'r effaith peirianneg ar gymdeithas.

Byddi di'n archwilio dylunio creadigol; tra'n cael profiad ymarferol ym maes dylunio peirianneg, dysgu am reoli mewn byd digidol a gweithio ar y cyd â phartneriaid diwydiant a myfyrwyr o Texas A&M ar ddylunio peirianneg byd-eang.

Bydd gen ti'r cyfle i archwilio pwnc o dy ddewis yn fanylach gyda'r opsiwn i arbenigo mewn Gweithgynhyrchu, Rheoli Peirianneg, Peirianneg Awyrofod neu Sifil.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cryfder Deunyddiau
- Cyflwyniad i Electromagnetig
- Dadansoddi Cylchedau
- Dylunio Peirianneg Integredig Cynaliadwy
- Mecaneg Peirianneg

**Blwyddyn 2**
- Dylunio ar gyfer Peirianneg Feddygol
- Mentergarwch a Chreadigrwydd
- Peirianneg gyda Chymorth Cyfrifiadur

**Blwyddyn 3**
- Dylunio a Rheoli Peirianneg Integredig Cynaliadwy
- Gwyddor Data ar gyfer Peirianwyr
- Peirianneg Byd-eang ar y cyd â Phrifysgol A&M Tecsas
- Rheoli Arloesedd

**10**
**UCHAF YN Y DU CWRS**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MEng: AAB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BEng Anrhydedd Sengl**
- ▲ Peirianneg
- ◆ Peirianneg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Peirianneg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Peiriannydd Digidol
- Peiriannydd Gweithgynhyrchu
- Peiriannydd Integredig
- Peiriannydd Mecatroneg
- Rheoli Peirianneg
- Rheolwr Prosiect

# PEIRIANNEG: AWYROFOD

## CAMPWS Y BAE

**Mae ein gradd mewn Peirianneg Awyrofod yn rhoi hyfforddiant arbenigol i ti ar theori a gweithrediad cerbydau awyrennol, o awyrennau a yrrir gan jetiau a phropelorau i gleiderau a hofrenyddion.**

**Byddi di'n dysgu am y daith beirianneg lawn, o'r cysyniad ar y tir i'w rheoli yn yr awyr. P'un a yw dy brif ddiddordeb yn ymwneud â dylunio, dadansoddi, profi neu hedfan, mae gan Brifysgol Abertawe rywbeth at ddant pawb.**

Mae'r gradd wedi'i achredu'n broffesiynol a chwrs amlddisgyblaethol hwn yn treiddio i atmosffer ein planed a'r cosmos y tu hwnt gan ddefnyddio enghreifftiau go iawn, yn ogystal â'r technolegau sydd eu hangen i'w harchwilio.

Wrth i ti fynd yn dy flaen drwy'r cwrs, bydd y galluoedd dadansoddol y byddi di'n eu datblygu yn cyfuno â phrofiad ymarferol o ddefnyddio cyfarpar o'r radd flaenaf, gan feithrin sgiliau sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth mewn diwydiant awyrofod ehangach.

Yn dy flwyddyn gyntaf, byddi di'n cael gwers hedfan. Bydd gweithio â chyfleusterau fel Efelychwr Hedfan Peirianneg Merlin MPX521, Injan JetCat P120 a thwnnel gwynt pwrpasol yn sicrhau dy fod bob amser ar flaen y gad.

Ar gyfer dy ail flwyddyn o astudio, fe fyddi di'n gallu arbenigo mewn ffrwd peirianneg awyrofod benodol: Gofod, Deunyddiau/Gyriant neu Strwythurol/Cyfrifiadol.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Beirianneg Awyrofod
- Dosbarthiadau Dylunio a Labordy
- Dylunio Peirianneg
- Mecaneg Hylifau
- Thermodynameg

**Blwyddyn 2**
- Aerodynameg
- Mecaneg Strwythurol ar gyfer Peirianwyr Awyrofod
- Peirianneg drwy Gymorth Cyfrifiadur
- Rheolaeth Awyrofod
- Systemau Awyrofod

**Blwyddyn 3**
- Deunyddiau Perfformiad Uchel a Dethol
- Dynameg Nwyon
- Gyriant
- Gyriant Gofod a Systemau Pŵer
- Systemau Lloerenni

**10**
**UCHAF YN Y DU RHAGOLYGON GRADDEDIGION**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL:

**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MEng: AAB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BEng Anrhydedd Sengl**
- ▲ Peirianneg Awyrofod
- ◆ Peirianneg Awyrofod (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Peirianneg Awyrofod (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MEng Anrhydedd Sengl**
- ◆ Peirianneg Awyrofod
- ★ Peirianneg Awyrofod (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Gwyddonydd Rocedi
- Peiriannydd Amddiffyn
- Peiriannydd Dylunio Awyrennau
- Peiriannydd Dylunio Lloerenni
- Peiriannydd Profion Hedfan
- Peiriannydd Systemau Awyrennau

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

ROYAL AERONAUTICAL SOCIETY · iED support inspire achieve · Institution of MECHANICAL ENGINEERS

# PEIRIANNEG: BIOFEDDYGOL

CAMPWS Y BAE

**Mae Peirianneg Biofeddygol yn cymhwyso egwyddorion peirianneg at y corff dynol, er mwyn gweithio tuag at fath soffistigedig a phersonol o ofal iechyd yn y dyfodol.**

**Mae'n cyfuno peirianneg â'r offerynnau a ddefnyddir mewn meddygaeth fodern, gyda'r nod o greu technolegau newydd pwysig a fydd yn cael effaith ar fywydau pob un ohonom ac yn ymestyn ein hoes. Gelli fod wrth wraidd y cyfan.**

Mae ein cwrs yn dy baratoi ar gyfer gyrfa sy'n llawn boddhad mewn amrywiaeth o sectorau. Byddi di'n meithrin sgiliau craidd peirianneg gan ddysgu am anatomeg, ffisioleg a chyfathrebu â chlinigwyr.

Wrth i ti fynd yn dy flaen drwy'r cwrs, bydd y galluoedd dadansoddol a datrys problemau y byddi di'n eu datblygu yn cyfuno â phrofiad ymarferol o ddefnyddio dyfeisiau ac offerynnau meddygol diwydiannol, gan feithrin sgiliau sy'n hanfodol i weithio yn y diwydiant ehangach.

Mae tair prif thema i'n graddau mewn Peirianneg Biofeddygol:

**Biomecaneg a deunyddiau** – datblygu a dadansoddi deunyddiau er mwyn iddynt fod yn gryf ac yn fiogydnaws;

**Offeryniaeth** – meintoli technegau diagnostig a therapiwtig uwch;

**Biobrosesau** – manylu ar brosesau ffisegol, cemegol a biolegol pwysig yn y corff dynol.

## FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Cyflwyniad i Beirianneg Ddeunyddiau
- Dulliau Rhifiadol ar gyfer Peirianwyr Biofeddygol
- Ffisioleg Ddynol
- Gwyddor Peirianneg Gemegol
- System Niwrogyhyrysgerbydol Dynol

**Blwyddyn 2**

- Bioleg Celloedd a Mecaneg Celloedd i Beirianwyr
- Dulliau Ystadegol mewn Peirianneg
- Dylunio ar gyfer Peirianneg Feddygol
- Llif Hylifol
- Modelu Proses

**Blwyddyn 3**

- Dylunio Cynnyrch gyda Chymorth Cyfrifiadur
- Peirianneg Meinweoedd
- Prosiect Dylunio Grŵp Peirianneg Feddygol
- Rheoli Peirianneg
- Technolegau Mewnblaniadau a Phrosthetig

**Darllen ein canllaw pwnc yma:**



**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Institution of MECHANICAL ENGINEERS

IPEM Institute of Physics and Engineering in Medicine

**1AF YN Y DU ANSAWDD YMCHWIL**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MEng: AAB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BEng Anrhydedd Sengl**

▲ Peirianneg Biofeddygol
◆ Peirianneg Biofeddygol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
◆ Peirianneg Biofeddygol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MEng Anrhydedd Sengl**

◆ Peirianneg Biofeddygol
★ Peirianneg Biofeddygol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Gwyddonydd Ymchwil Feddygol
- Peiriannydd Adsefydlu
- Peiriannydd Bioddeunyddiau
- Peiriannydd Biofeddygol
- Peiriannydd Dylunio Prosthetigau
- Peiriannydd/Gwyddonydd Clinigol

# PEIRIANNEG: ELECTRONIG A THRYDANOL

## CAMPWS Y BAE

**O'r we fyd-eang a rhwydweithiau ffôn symudol, i chwaraewyr cerddoriaeth digidol a ffynonellau ynni adnewyddadwy, mae Peirianneg Electronig a Thrydanol yn llywio'r byd o'n cwmpas.**

**Mae galw mawr am raddedigion Peirianneg Electronig a Thrydanol medrus ac mae cyfleoedd iddynt weithio ym mhob cwr o'r byd.**

Bydd y cwrs gradd hwn yn dy hyfforddi ar gyfer gyrfa mewn swyddi ym maes trydan, electronig a nanobeirianneg mewn amrywiaeth o sectorau.

Wrth i ti fynd yn dy flaen drwy'r cwrs, bydd y galluoedd dadansoddol y byddi di'n eu datblygu yn cyfuno â phrofiad ymarferol o ddefnyddio cyfarpar arbenigol soffistigedig, gan feithrin sgiliau sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth yn y diwydiant ehangach.

Byddi di'n dod yn gyfarwydd â nifer o labordai, o'n labordy electroneg ein hunain a'r cyfleuster gwneuthuro byrddau cylched brintiedig, i labordy Electroneg Pŵer a Systemau Pŵer Wolfson, a'r labordy Dinas Glyfar ac Antena.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i Electromagneteg
- Dylunio Digidol
- Micro-reolyddion
- Offeryniaeth a Rheoli
- Signalau a Systemau

**Blwyddyn 2**
- Cylchedau Electronig
- Electromagneteg
- Peirianneg Meddalwedd
- Systemau Rheoli
- Technoleg Lled-ddargludyddion

**Blwyddyn 3**
- Cinematig a Rhaglenni ar gyfer Roboteg
- Cyfathrebu
- Cylchedau Microdonnau ac Antenau
- Dylunio Electronig
- Rheoli Peirianneg

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Accredited Programme
The Institution of Engineering and Technology

**15**
**UCHAF YN Y DU BODDHAD CWRS**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MEng: AAB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofynion mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†


**BEng Anrhydedd Sengl**
- ▲ Peirianneg Electronig a Thrydanol
- ◆ Peirianneg Electronig a Thrydanol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Peirianneg Electronig a Thrydanol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MEng Anrhydedd Sengl**
- ◆ Peirianneg Electronig a Thrydanol
- ★ Peirianneg Electronig a Thrydanol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Dadansoddwr Systemau
- Dyluniad System Electronig
- Gweithgynhyrchu ac Amddiffyn
- Peiriannydd Modurol
- Peiriannydd Rheoli ac Offeryniaeth
- Roboteg ac Awtomeiddio


ANALOG DEVICES

# PEIRIANNEG: FECANYDDOL

## CAMPWS Y BAE

**Mae peirianwyr mecanyddol yn trawsnewid syniadau arloesol yn ddyfeisiadau sy'n torri tir newydd. Mae'r ddisgyblaeth yn helpu i ddyfeisio, dylunio a chynhyrchu llawer o'r peiriannau a ddefnyddiwn yn feunyddiol.**

**Mae'r cwrs hwn yn dy baratoi ar gyfer gyrfa sy'n llawn boddhad mewn amrywiaeth o sectorau peirianneg.**

Fel myfyriwr yn astudio ar gyfer ein gradd mewn Peirianneg Fecanyddol, byddi'n meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnat i ddilyn gyrfa fuddiol mewn amrywiaeth o sectorau peirianyddol, gan gynnwys peirianneg fodurol, peirianneg fecanyddol a pheirianneg ddylunio.

Wrth i ti fynd yn dy flaen drwy'r cwrs, bydd y galluoedd dadansoddol y byddi di'n eu datblygu yn cyfuno â phrofiad ymarferol o ddefnyddio cyfarpar soffistigedig, gan feithrin sgiliau sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth mewn diwydiant ehangach.

Byddi di'n gweithio'n agos â'n cyfleusterau o'r radd flaenaf drwy gydol dy amser yn Abertawe. Ymhlith y rhain mae labordy mecaneg dynameg, labordy hylifau a'n hystafell profi injan JetCat P120. Mae gennym hefyd unedau sydd ar flaen y gad ym maes gweithgynhyrchu digidol a roboteg.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Dosbarthiadau Dylunio a Labordy
- Dylunio Peirianegol
- Integreiddio Data mewn Systemau Mecanyddol
- Mecaneg Hylifol
- Thermodynameg

**Blwyddyn 2**
- Dylunio Elfennau Peiriannau
- Dadansoddiad Straen
- Peirianneg â Chymorth Cyfrifiadur
- Systemau Dynameg
- Technoleg Gweithgynhyrchu

**Blwyddyn 3**
- Cinemateg a Rhaglennu ar gyfer Robot
- Dylunio Peirianneg Fecanyddol
- Gweithgynhyrchu Optimeddiad
- Mecaneg Hylifol
- Rheoli Peirianneg

**10 UCHAF YN Y DU DWYSEDD YMCHWIL**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL:

**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MEng: AAB-ABB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BEng Anrhydedd Sengl**
- ▲ Peirianneg Fecanyddol
- ◆ Peirianneg Fecanyddol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Peirianneg Fecanyddol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MEng Anrhydedd Sengl**
- ◆ Peirianneg Fecanyddol
- ★ Peirianneg Fecanyddol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Peiriannydd Cynnal a Chadw
- Peiriannydd Mecanyddol
- Peiriannydd Modurol
- Peiriannydd Mwngloddiol
- Technegydd Gweithdy

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

iED support inspire achieve

Institution of MECHANICAL ENGINEERS

# PEIRIANNEG: GEMEGOL

## CAMPWS Y BAE

**Mae ein gradd Peirianneg Gemegol yn darparu hyfforddiant arbenigol mewn peirianneg proses fodern, gan ddatblygu sgiliau dadansoddi a datrys problemau sy'n hanfodol i gymhwyso peirianneg i ddiwydiant.**

**Mae peirianwyr cemegol yn cydweithio'n agos â phrosesau sy'n troi deunyddiau crai yn gynhyrchion gwerthfawr i'w defnyddio gan bobl. Mae eu medrau yn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy, a bod gwaredu cynhyrchion yn cael ei gynnal mewn modd diogel ac yn gyfrifol.**

Mae'r cwrs gradd a achredir yn broffesiynol yn darparu gwybodaeth a sgiliau ar draws y sbectrwm llawn o bynciau peirianneg gemegol, sy'n caniatáu i ti gadw dy opsiynau gyrfa ar agor.

Wrth i ti symud ymlaen, bydd dy alluoedd dadansoddol cynyddol yn cyfuno â phrofiad ymarferol, gan sefydlu sgiliau sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth yn y diwydiant peirianneg gemegol ehangach.

Mae ein cyfleusterau peirianneg gemegol soffistigedig yn cynnwys ein Labordy Cemegol Peilot yn cynnwys 15 o lwyfannau ar raddfa peilot sy'n cwmpasu ystod eang o weithrediadau uned.

Ymhlith y cyfleusterau eraill o'r radd flaenaf y byddi di'n gweithio â nhw o bosibl mae microsgopeg grym atomig, llwyfannau eplesu, cyseiniant plasmon arwyneb a phrofion adlyniad croeswasgu hydrodynamig.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Egwyddorion Prosesau Cemegol
- Labordy Peirianneg Gemegol
- Mecaneg Hylifol
- Sgiliau Peirianneg Gemegol
- Ymwybyddiaeth Amgylcheddol i Beirianwyr

**Blwyddyn 2**
- Dylunio Adweithyddion
- Gweithrediadau Proses a Chyfarpar Peilot
- Llif Hylifol
- Peirianneg Fiocemegol
- Prosesau Gwahanu

**Blwyddyn 3**
- Diogelwch ac Atal Colledion
- Prosiect Dylunio Peirianneg Gemegol
- Systemau Gronynnol
- Technolegau Ynni Carbon Isel

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

IChemE

# 10
**UCHAF YN Y DU RHAGOLYGON GRADDEDIGION**
(Complete University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL:

**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MEng: AAB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BEng Anrhydedd Sengl**
- ▲ Peirianneg Gemegol
- ◆ Peirianneg Gemegol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Peirianneg Gemegol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MEng Anrhydedd Sengl**
- ◆ Peirianneg Gemegol
- ★ Peirianneg Gemegol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Gwyddonydd Datblygu Cynhyrchion/Prosesau
- Peiriannydd Cemegol
- Peiriannydd Cymwysiadau
- Peiriannydd Petrolewm
- Peiriannydd Ynni
- Rheolwr Peiriannau Technegol



Rydw i mor hapus wnes i benderfynu astudio ym Mhrifysgol Abertawe. Rwyf wedi cwrdd â phobl anhygoel ac wedi gwneud ffrindiau o bob cwr o'r byd. Mae'r bobl yma mor groesawgar, rwyt ti'n teimlo'n gartrefol.

Mae'r gefnogaeth wedi bod yn anhygoel, p'un ai gan fy mentor academaidd, darlithwyr neu wasanaethau cymorth myfyrwyr. Os wyt ti'n ei chael hi'n anodd deall rhywbeth yn y dosbarth, bydd y darlithwyr yn trafod y mater yn ystod oriau swyddfa ac yn sicrhau bod gen ti well dealltwriaeth.

Rydw i wedi gwneud cymaint o atgofion yma: o astudio trwy'r nos yn y llyfrgell i ddathlu gyda noson fawr allan; ymlacio ar y traeth rhwng darlithoedd neu'n mynd am dro gyda'r nos a gweld fy seren wib gyntaf!

Mae Peirianneg Gemegol yn gwrs heriol iawn, ond mae'r Brifysgol yn darparu'r holl adnoddau a chefnogaeth sydd eu hangen arnat i ddilyn y llwybr gyrfa o dy ddewis.

# Radhika Patel

## BEng PEIRIANNEG GEMEGOL

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

# PEIRIANNEG: GWYDDOR DEUNYDDIAU A PHEIRIANNEG

## CAMPWS Y BAE

**Mae Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg wrth wraidd llawer o'r pynciau peirianneg, gwyddoniaeth a dylunio mwy adnabyddus.**

**Mae Gwyddor Deunyddiau yn archwilio sut y gellir strwythur deunydd ar y raddfa ficro, neu hyd yn oed atomig ddylanwadu ar briodweddau terfynol cynnyrch neu gydran a sut mae deunyddiau'n ymateb i ddylanwadau allanol fel llwytho mecanyddol neu'r amgylchedd.**

Byddi di'n cael cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o fwy na 40 o gwmnïau, gan gynnwys Rolls Royce, Tata Steel, BASF, NSG Airbus, Timet a GE, sy'n ein cefnogi trwy ddarlithoedd gwadd, lleoliadau a ariennir.

Wrth i ti symud ymlaen, bydd dy alluoedd dadansoddol datblygol yn cyfuno â phrofiad ymarferol o offer uwch, gan sefydlu sgiliau sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth yn y diwydiant ehangach.

Ymhlith ein cyfleusterau o'r radd flaenaf mae cyfarpar blaenllaw ar gyfer pennu nodweddion priodweddau mecanyddol deunyddiau metelaidd, ceramig, polymerig a chyfansawdd.

Mae gennym hefyd amrywiaeth helaeth o labordai sy'n cynnwys microsgopau sganio electronau sydd â galluoedd micro-ddadansoddiad a diffreithiant ôl-wasgariad electronau llawn.

Bydd ymweliadau â Tata Steel, Timet, Ensinger ac Airbus yn gyfle i gael profiad o ddiwydiant go iawn.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Adnoddau Deunyddiau
- Cemeg Offerynnol a Dadansoddi
- Cyflwyniad i Beirianneg Deunyddiau
- Priodweddau Mecanyddol Deunyddiau
- Technoleg Gweithgynhyrchu

**Blwyddyn 2**
- Anffurfiad Mecanyddol mewn Deunyddiau Adeileddol
- Deunyddiau Cyfrifiadurol
- Deunyddiau Gweithredol a Chlyfar
- Esblygiad a Rheolaeth Micro-strwythurau mewn Deunyddiau Metelaidd
- Polymerau: Strwythurau a Phrosesu

**Blwyddyn 3**
- Ceramig
- Meteleg Ffisegol o Ddur
- Micro-strwythurau a Nodweddu
- Rheoli Peirianneg
- Torasgwrn a Blinder

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

The Institute of Materials, Minerals and Mining

**2AIL YN Y DU**
**BODDHAD CYFFREDINOL**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**BEng: ABB-BBB**
**MEng: AAB-ABB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BEng Anrhydedd Sengl**
- ▲ Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg
- ◆ Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MEng Anrhydedd Sengl**
- ◆ Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg
- ★ Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Gwyddonydd Datblygu Cynhyrchion
- Gwyddonydd Ymchwil
- Metelegydd
- Peiriannydd Biofeddygol
- Peiriannydd Deunyddiau
- Peiriannydd Systemau Gweithgynhyrchu

# PEIRIANNEG: SIFIL

## CAMPWS Y BAE

**Mae'r cwrs gradd hwn yn rhoi sylfaen gadarn i ti ym maes dylunio a dadansoddi strwythurau peirianneg sifil. Byddi di'n meithrin sgiliau datrys problemau cymhleth a'r gallu i fraslunio a modelu datrysiadau peirianneg ac yn dod yn gyfforddus wrth baratoi adroddiadau technegol.**

**Bydd y galluoedd dadansoddol y byddi di'n eu datblygu yn cyfuno â phrofiad ymarferol o ddefnyddio cyfarpar o'r radd flaenaf, gan feithrin sgiliau sy'n hanfodol i sicrhau cyflogaeth mewn diwydiant peirianneg sifil.**

Drwy astudio gradd fodern sydd â chysylltiadau agos â'r diwydiant sy'n datblygu'n gyflym, byddi di'n dysgu am arferion dylunio presennol a'r safonau peirianneg diweddaraf. Byddwn yn meithrin dy sgiliau modelu ar gyfrifiadur drwy dy annog i ddatblygu dy feddalwedd dy hun er mwyn dadansoddi problemau peirianneg sifil go iawn.

Byddi di'n cael budd o weithio â chyfleusterau soffistigedig gan gynnwys labordai o'r radd flaenaf ar gyfer addysgu strwythurau a phrofi deunyddiau.

Mae ein labordy hylifau yn cynnwys cafn arbrofi pum metr o hyd a labordy geomecaneg. Mae'n bosibl y byddi hefyd yn defnyddio ein camerâu cyflym soffistigedig ar gyfer dadansoddi straen a delweddu 3D.

**FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:**

**Blwyddyn 1**
- Cyfathrebu Graffig ar gyfer Dylunio
- Dylunio ac Arolygu Priffyrdd
- Dylunio Cysyniadol
- Mecaneg Beirianegol
- Meddwl yn Feirniadol mewn Peirianneg

**Blwyddyn 2**
- Dylunio Concrit Cyfnerth
- Dylunio Dur
- Mecaneg Hylifol
- Mecaneg Strwythurol
- Rheoli Peirianneg Sifil

**Blwyddyn 3**
- Dull Elfen Feidraidd
- Dylunio Uwch-adeileddau
- Geomecaneg
- Prosesau Arfordirol a Pheirianneg
- Prosiect Ymchwil

**6ED YN Y DU**
**RHAGOLYGON GYRFA**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)

**MEng: AAB** (gan gynnwys Mathemateg)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BEng Anrhydedd Sengl**
- ▲ Peirianneg Sifil
- ◆ Peirianneg Sifil (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ◆ Peirianneg Sifil (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**MEng Anrhydedd Sengl**
- ◆ Peirianneg Sifil
- ★ Peirianneg Sifil (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD ★ 5 MLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Peiriannydd Geodechnegol
- Peiriannydd Safle
- Peiriannydd Sifil Ymgynghorol
- Peiriannydd Strwythurol
- Syrfëwr Rheoli Adeiladau
- Syrfëwr Meintiau

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

The Institution of Structural Engineers · ice Institution of Civil Engineers · IHE Institute of Highway Engineers · JBM Joint Board of Moderators · CIHT · Permanent Way Institution · The Institution for Rail Infrastructure Engineers

# POLISI CYMDEITHASOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Yr hyn sydd ei angen ar fodau dynol a'r ffordd y mae cymdeithasau'n diwallu'r anghenion hynny sydd wrth wraidd polisi cymdeithasol. Bydd ein cwrs gradd rhagorol a gydnabyddir yn genedlaethol yn ymchwilio i'r ffordd y mae cymdeithas yn hyrwyddo llesiant ei haelodau, gan ystyried themâu a gwerthoedd fel cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, tegwch, dinasyddiaeth, ochr yn ochr ag elfennau penodol sy'n ganolog i bolisïau fel iechyd, addysg, tai, anabledd, trosedd, tlodi a'r teulu.**

Fel myfyriwr Polisi Cymdeithasol, byddi di'n cael dy drwytho mewn amgylchedd ymchwil a dysgu dynamig gan gynnwys cymysgedd amrywiol o bynciau, syniadau a safbwyntiau academaidd.

Bydd cyfleoedd i feithrin cysylltiadau â myfyrwyr o ddisgyblaethau cysylltiedig trwy gydol y cwrs, a byddi di'n meithrin sgiliau ymchwil a dadansoddi ardderchog ac yn dysgu sut i gyfleu dy syniadau'n effeithiol mewn amrywiaeth o fformatau.

Mae'r opsiynau dewisol yn dy alluogi i deilwra dy astudiaethau yn unol â dy ddiddordebau penodol, dy nodau gyrfa ac ochr yn ochr â dy waith academaidd, cei gyfle i gwblhau lleoliad gwaith fel rhan o dy radd. Mae lleoliadau gwaith diweddar wedi cynnwys sefydliadau gwirfoddol, darparwyr tai cymdeithasol ac elusennau.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Amgylchedd Polisi Cymdeithasol
- Athroniaeth Polisi Cymdeithasol: Cyflwyniad i Gysyniadau, Syniadau ac Athroniaethau
- Economeg mewn Cymdeithas
- Hanes Polisi Cymdeithasol
- Unigolion a'r Gymdeithas

**Blwyddyn 2**
- Addysg, Polisi a Chymdeithas
- Defnyddio Tystiolaeth ar gyfer Ymchwil ac Ymarfer
- Nawdd Cymdeithasol, Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol
- Polisi Anabledd
- Polisi Iechyd

**Blwyddyn 3**
- Egwyddorion Polisi Cymdeithasol
- Eiriolaeth, Hawliau a Chynrychiolaeth
- Mudiadau Cymdeithasol, Polisi Cymdeithasol a Newid Cymdeithasol
- Polisi Cymdeithasol mewn Byd sy'n Heneiddio
- Teuluoedd a Phlant: Moeseg a Pholisi
- Traethawd Hir

**3YDD YN Y DU**
**BODDHAD CYFFREDINOL**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Polisi Cymdeithasol
- ◆ Polisi Cymdeithasol (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BA Cydanrhydedd Polisi Cymdeithasol a**
- ▲ Gwleidyddiaeth
- ▲ Hanes
- ◆ Hanes (gyda Blwyddyn Dramor)

**BSc Cydanrhydedd Polisi Cymdeithasol a**
- ▲ Cymdeithaseg
- ▲ Troseddeg

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Addysg a hyfforddiant proffesiynol e.e. y gyfraith, gwaith cymdeithasol neu addysgu
- Cyflogaeth yn y sector preifat e.e. adwerthu, marchnata a rheoli staff
- Cyrff Gwirfoddol/Trydydd Sector
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Y GIG
- Y Gwasanaeth Sifil

# RHEOLI BUSNES

CAMPWS Y BAE & CAMPWS PARC SINGLETON

**Wyt ti'n gweld dy hun yn cyflawni rôl allweddol mewn cwmni llwyddiannus? Bydd y radd hon yn dy helpu i sefyll allan drwy feddu ar y sgiliau arloesol sydd eu hangen i reoli busnes byd-eang, genedlaethol neu leol.**

**Mae'n enwog am greu rheolwyr busnes hynod fedrus sy'n meddwl yn fasnachol, gyda chysylltiadau cryf i arbenigwyr diwydiannol, byddwn yn darparu amgylchedd cyfoethog o ddysgu, ac yn darparu cyfleoedd gyrfa.**

Mae'r radd yn hyblyg gyda detholiad eang o fodiwlau dewisol yn dy alluogi i lywio'r cwrs gradd tuag at dy nodau gyrfa penodol. Mae'r ystod o fodiwlau dewisol sydd ar gael yn ymdrin â gwahanol feysydd, gan gynnwys menter ac arloesi, dadansoddeg busnes a chyllid ar gyfer busnes.

Ymhlith y llwybrau gradd arbenigol sydd ar gael mae Cyllid, Dadansoddeg Busnes, e-Fusnes, Marchnata, Menter ac Arloesi, Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwi, Rheoli Adnoddau Dynol, Twristiaeth ac Ymgynghoriaeth Reoli.

Gallwn dy helpu i ddechrau dy fusnes dy hun, gyda'n hamrywiaeth o wasanaethau cymorth sy'n cynnwys gwasanaeth mentora busnes ochr yn ochr â phartneriaid corfforaethol sydd â chyfoeth o brofiad mewn diwydiant.

Mae Blwyddyn mewn Diwydiant yn rhoi'r cyfle perffaith i ti ennill profiad diwydiant y byd go iawn, gan dy wneud yn ymgeisydd deniadol ar gyfer swyddi ar ôl graddio.

Wyt ti eisiau blwyddyn fythgofiadwy yn ymdrochi mewn diwylliannau newydd a datblygu fel unigolyn; yn broffesiynol ac yn bersonol? Mae Blwyddyn Dramor hefyd yn gyfle sydd ar gael i ti.

## FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyd-destun Byd-eang y Sefydliad
- Cyfrifeg ar gyfer Rheolwyr
- Marchnata
- Rheoli Gweithrediadau
- Rheoli Pobl
- Rheoli yn yr Oes Digidol

**Blwyddyn 2**
- Cyllid Corfforaethol
- Dadansoddi Strategol
- Economeg ar gyfer Busnes
- Llywodraethu a Moeseg Corfforaethol
- Marchnata Digidol

**Blwyddyn 3**
- Cloddio Data
- Gweithredu Strategol
- Prosiect Blwyddyn Olaf
- Rheoli Arloesol
- Rheoli Prosiect

**Mae achrediadau'n cynnwys:**
(yn amodol ar ddewis modiwl)

CIMA · CIM Accredited Degree · CMI Chartered Management Institute

**20**
**RHAGOLYGON GYRFA**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲◆ Rheoli Busnes

**Llwybrau gradd BSc Rheoli Busnes**
▲◆ Cyllid
▲◆ Dadansoddeg Busnes
▲◆ E-Fusnes
▲◆ Marchnata
▲◆ Menter ac Arloesi
▲◆ Rheoli Adnoddau Dynol
▲◆ Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwi
▲◆ Twristiaeth
▲◆ Ymgynghoriaeth Reoli

◆ **Gellir ymestyn ein holl gyrsiau 3 blynedd i 4 blynedd i'w cynnwys: (Blwyddyn Sylfaen) neu (Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)**

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Dadansoddwr neu Ymchwilydd
- Entrepreneur
- Partner Busnes Adnoddau Dynol
- Rheolwr Datblygu Busnes
- Ymgynghorydd Ariannol
- Ymgynghorydd Rheoli



Roedd cyfleusterau megis Campws y Bae, yn ogystal â'r cyfle i dderbyn addysg gan Brifysgol sydd wedi derbyn nifer o wobrau, megis graddau boddhad, Fframwaith Addysgu Aur, safon ymchwil a rhagolygon graddedigion, yn gatalydd mawr yn fy mhenderfyniad i ddewis Prifysgol Abertawe.

Penderfynais astudio elfen o fy nghwrs drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ymgymryd â sesiynau ychwanegol gyda darlithydd Cymraeg oherwydd roedd y syniad o newid o addysg gwbl Gymraeg drwy gydol fy amser yn yr ysgol, i gwrs gradd cyfrwng Saesneg yn y Brifysgol, yn un brawychus i mi. Bellach, rwyf yn gallu datblygu dealltwriaeth o'r pynciau mewn modd naturiol trwy fy iaith gyntaf. Hefyd, manteisiais ar y cyfle i ddefnyddio fy hawliau er mwyn cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg.

Rwy'n aelod o'r Gymdeithas Gymraeg, lle rwyf yn gallu cymdeithasu yn fy mamiaith, gwneud ffrindiau newydd o ardaloedd eraill o Gymru, yn ogystal â derbyn cyfleoedd i fynychu llu o weithgareddau sydd yn cael eu trefnu gan bwyllgor y GymGym, fel crôl tafarnau ond yn bennaf oll y cyfle i fynychu gweithgareddau Rhyng-golegol. Mae'n gyfle gwych i fyfyrwyr Cymraeg o bob prifysgol yng Nghymru ddod at ei gilydd am benwythnos i gymdeithasu a dod i 'nabod pobl newydd, tra hefyd cwrdd â hen ffrindiau sydd bellach yn fyfyrwyr yn Aberystwyth, Bangor neu Gaerdydd.

# Daniel Hall-Jones

## BSc RHEOLI BUSNES

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

# SEICOLEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae'r cwrs yn cael ei ddilysu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a fydd yn rhoi hyfforddiant gwyddonol arbenigol i ti yn y berthynas rhwng y meddwl, yr ymennydd ac ymddygiad. Byddi di'n astudio prosesau seicolegol a niwro-wyddonol sy'n tanategu gweithgareddau fel meddwl, rhesymu, cof ac iaith, dysgu am effeithiau anaf i'r ymennydd, ac yn archwilio ffyrdd o wella cynnydd ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd.**

Mae ein hymagwedd tuag at addysgu, sy'n cynnwys darlithoedd, tiwtorialau personol, seminarau academaidd, gweithdai, a dosbarthiadau ymchwil ymarferol, yn annog medrau cyfathrebu llafar ansawdd uchel a gwaith tîm effeithiol.

Yn ystod dy radd, byddi di'n datblygu sgiliau dadansoddi, ysgrifennu, a dadansoddi beirniadol rhagorol, yn ogystal â gallu uchel o ran rhifedd a TGCh.

Mae ein strwythur gradd hyblyg gydag ystod eang o fodiwlau dewisol ar ddiwedd y flwyddyn yn rhoi cwmpas i ti i deilwra dy astudiaethau i dy ddiddordebau unigol, nodau gyrfa, neu uchelgeisiau ar gyfer astudio ôl-raddedig.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Gwybyddiaeth
- Seicoleg Fiolegol
- Seicoleg Gymdeithasol a Datblygiadol
- Seicoleg Unigol ac Annormal

**Blwyddyn 2**
- Datblygiad Gydol Oes
- O Unigolion i'r Gymdeithas
- Ymchwil a Dulliau Arbrofol
- Yr Ymennydd ac Ymddygiad

**Blwyddyn 3**
- Cysgu a Breuddwydio
- Deall a Rheoli Ymddygiad Troseddol
- Maetheg ac Ymddygiad
- Niwroddelweddu a Gwybyddiaeth Canfod Wynebau a Chymdeithasol
- Prosiect Ymchwil Annibynnol y Flwyddyn Olaf
- Seicoleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Seicopatholeg Datblygu Fforensig

**Edrych ar ein canllaw pwnc yma:**



**Mae achrediadau'n cynnwys:**

The British Psychological Society
Accredited Undergraduate Psychology

**20**
**UCHAF YN Y DU SGÔR YMCHWIL**
(The Times and Sunday Times Good University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**
**Anrhydedd Sengl: AAB-ABB**
**Cydanrhydedd : ABB-BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Seicoleg
◆ Seicoleg (gyda Blwyddyn Sylfaen)

**BSc Cydanrhydedd Seicoleg a**
▲ Addysg
▲ Cymdeithaseg
◆ Cymdeithaseg (gyda Blwyddyn Sylfaen)
▲ Troseddeg

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Mae llawer o'n graddedigion wedi mynd ymlaen i astudio ymhellach mewn meysydd seicoleg arbenigol. Y cyflog cychwynnol nodweddiadol ar gyfer seicolegydd clinigol dan hyfforddiant y GIG yw £32,305. Yn nodweddiadol, gall Seicolegwyr ennill hyd at £87,754.

Llwybrau gyrfaoedd yn cynnwys:
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Rheoli
- Ymchwil
- Y Gwasanaeth Sifil

# SŴOLEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Nod Sŵoleg yw meithrin dealltwriaeth academaidd o esblygiad anifeiliaid, ffisioleg a dulliau effeithiol o wella lles anifeiliaid a chadwraeth. Mae hyn yn cynnwys popeth o anatomeg anifeiliaid i ecoleg.**

**Mae gan sŵolegolwyr ran bwysig i'w chwarae ym maes cadwraeth ond maen nhw hefyd yn debygol o ddylanwadu ar ddatblygiadau mewn sectorau eraill, fel amaethyddiaeth, bioleg y môr, meddygaeth, iechyd cyhoeddus a milfeddygaeth.**

Bydd gen ti gyfleoedd heb ei ail i astudio ymddygiad anifeiliaid, ecoleg a chadwraeth mewn ystod eang o amgylchedd naturiol gan gynnwys dŵr ffres a gwlypdiroedd ddaearol Penrhyn Gŵyr.

Gelli feithrin dealltwriaeth fanwl ac unigryw o themâu sŵolegol pwysig a byddi hefyd yn dilyn cwrs maes preswyl a naill ai modiwl sgiliau proffesiynol ym maes ecoleg neu gwrs maes rhyngwladol.

Ymhlith ein cyfleusterau addysgu ac ymchwil sydd ar flaen y gad mae'r Ganolfan Ymchwil Ddyfrol Gynaliadwy, amgueddfa sŵolegol, cwch arolygu dosbarth catamarán 18 metr pwrpasol a chanolfan ddelweddu unigryw sy'n dangos gwybodaeth amlddimensiynol o ddata dilyn trywydd anifeiliaid.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Amrywiaeth ac Ymddygiad Anifeiliaid
- Bywyd yn y Cefnforoedd
- Bioleg Gelloedd a Microbaidd
- Sgiliau Craidd ar gyfer Gwyddorau Biolegol

**Blwyddyn 2**

- Entomoleg
- Esblygiad Tetrapod
- Imiwnoleg Gymharol
- Infertebratau Morol
- Pysgodeg
- Ymddygiad Anifeiliaid mewn Cadwraeth a Lles

**Blwyddyn 3**

- Bioamrywiaeth
- Bioleg Begynol
- Epidemioleg Afiechydon Milheintiol
- Esblygiad Synhwyraidd
- Rheoli Plâu Infertebratau yn Fiolegol

**4ydd YN Y DU BODDHAD CYFFREDINOL** (Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB
(gan gynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofynion mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲ Sŵoleg
◆ Sŵoleg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
◆ Bioleg (gyda Blwyddyn Sylfaen) yn arwain at BSc Sŵoleg

Bioleg – gweler tudalen 77
Bioleg y Môr – gweler tudalen 78

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:

- Arbenigwr ar Iechyd Cyhoeddus ac Iechyd Anifeiliaid
- Biodechnolegydd
- Cadwraethau Bywyd Gwyllt
- Gofal Milfeddygol
- Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol
- Ymgynghoriaeth Amgylcheddol

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

Royal Society of Biology

# THERAPI GALWEDIGAETHOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd ein cwrs Therapi Galwedigaethol yn rhoi i ti'r sgiliau a'r profiad i lansio gyrfa wobrwyol yn y proffesiwn amrywiol a hanfodol hwn.**

**Mae therapyddion galwedigaethol yn gweithio i rymuso pobl i ddatblygu, cynnal neu wella amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n berthnasol ac yn ystyrlon yn eu bywydau bob dydd, o hunan-ofal sylfaenol gartref i weithgareddau yn y gwaith, hobïau a mwy.**

Drwy gydol y cwrs integredig hwn, byddi di'n dysgu'r sgiliau i helpu pobl i oresgyn anawsterau a achosir gan salwch, anabledd, damweiniau neu heneiddio. Gallai hyn gynnwys defnyddio canllawiau ac addasiadau, diwygio tasgau neu ddatblygu sgiliau newydd.

Mae'r cwrs yn defnyddio cynllun cylchol sy'n seiliedig ar bum prif thema y mae'n rhaid i ti eu hadolygu'n rheolaidd i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r hyder y mae eu hangen arnat ti i fod yn Therapydd Galwedigaethol sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).

Mae ein staff academaidd yn nyrsys cymwys, yn feddygon, ac yn weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan ddarparu cyfuniad eithriadol o drylwyredd damcaniaethol, craffter proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di'n mynd ar leoliad gwaith mewn ysbyty neu yn y gymuned.

Mae gennym berthnasoedd gweithio ardderchog â llawer o ddarparwyr gofal iechyd, felly bydd gen ti fynediad at ystod eang o brofiadau clinigol ledled De-orllewin Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau gwaith yn y GIG a'r sector annibynnol mewn ysbytai ac yn y gymuned.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Digideiddio mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lleoliad Gwaith 8 Wythnos
- Theori Technegau a Sgiliau Galwedigaethol
- Ymarfer Proffesiynol

**Blwyddyn 2**
- Lleoliad Gwaith 10 Wythnos
- Theori, Technegau a Sgiliau Galwedigaethol Cymhleth
- Ymarfer ar Sail Tystiolaeth
- Ymgysylltu â Chymunedau

**Blwyddyn 3**
- Arweinyddiaeth
- Lleoliad Gwaith Amser Llawn 12 Wythnos
- Meysydd Arbenigol Therapi Galwedigaethol
- Prosiect Ymchwil Grŵp

**YN Y 6ED DU ASTUDIAETHAU IECHYD** (Complete University Guide 2022)

**DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth uwch drwy Gynllun Bwrsariaethau GIG Cymru. (**bydd amodau)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BCC**

(Mae pynciau iechyd neu gwrs sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth yn ddymunol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**

▲ Therapi Galwedigaethol (Llawn-amser)^

◆ Therapi Galwedigaethol (Rhan-amser)^

▲ 3 BLYNEDD

◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

Mae Therapi Galwedigaethol yn yrfa wobrwyol, sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl. Gelli ddisgwyl ennill cyflog cychwynnol o £25,654, a fydd yn codi i £45,838 ar gyfer Therapydd Galwedigaethol hynod brofiadol.

Mae cyfleoedd i arbenigo, er enghraifft mewn gofal i'r henoed neu wasanaethau ar gyfer plant.

**Yn amodol ar gymeradwyaeth*

# TROSEDDEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae Troseddeg yn un o'r pynciau mwyaf amrywiol, ysgogol a heriol a gynigir ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n tynnu ar ddisgyblaethau megis seicoleg, cymdeithaseg, polisi cymdeithasol, y gyfraith, a hyd yn oed bioleg, i ymchwilio i broblemau cymdeithasol enbyd: Beth sy'n achosi troseddu? Beth dylem ei wneud amdani? Beth yw'r ffordd orau o gefnogi dioddefwyr?**

Fel myfyriwr troseddeg ym Mhrifysgol Abertawe, byddi di'n perthyn i gymuned ffyniannus, a'u buddion bugeiliol ac academaidd yw'r blaenoriaethau uchaf.

Caiff y rhaglen ei haddysgu mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol, â phwyslais amlwg ar wybodaeth a sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn llwyddo yn y gweithle. Rydyn yn cynnig modiwlau sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd a gwneud defnydd da o'n rhwydweithiau i drefnu lleoliadau gwaith gydag ystod o sefydliadau cyfiawnder troseddol.

I ennill sgiliau newydd, gall myfyrwyr Troseddeg hefyd wneud cais am interniaeth ymchwil gydag aelod o staff neu asiantaeth bartner allweddol, a gwneud ymchwil ar bwnc o dy ddewis. Mae cyfranogwyr diweddar wedi rhannu eu gwaith â llunwyr polisi, gan wneud gwahaniaeth go iawn i'r ffyrdd y mae asiantaethau'n gweithio.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Cyflwyniad i'r System Cyfiawnder Troseddol
- Cyflwyniad i Theori Troseddegol
- Sylfeini mewn Ymchwil

**Blwyddyn 2**
- Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Cyfiawnder Cymdeithasol
- Cyflwyniad i Blismona
- Cyfryngau, Troseddau a Chyfiawnder Troseddol
- Penydeg a Chosbau
- Rheoli Troseddwyr Cymhwysol

**Blwyddyn 3**
- Deall a Gwrthweithio Terfysgaeth ac Eithafiaeth Dreisgar
- Heriau Beirniadol mewn Cyfiawnder i Blant
- Niwed Cymdeithasol ac Amgylcheddol
- Traethawd Hir (Dewisol)
- Troseddoli Rhyw

**6ED YN Y DU TROSEDDEG** (Guardian University Guide 2022)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

### CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol
- ▲ Troseddeg a Chymdeithaseg
- ◆ Troseddeg a Chymdeithaseg (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/ Dramor)

**LLB Prif Bwnc/Is-bwnc Anrhydedd**
- ▲ Y Gyfraith gyda Throseddeg

**BSc Cydanrhydedd Troseddeg a**
- ▲ Polisi Cymdeithasol
- ▲ Seicoleg

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

### GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:
- Cyfiawnder Troseddol
- Gwasanaeth Prawf
- Heddlu
- Llywodraeth
- Y Trydydd Sector
- Ymchwil Cymdeithasol

### BSc MEWN TROSEDDEG A CHYMDEITHASEG

Mae'r radd hon yn cyfuno Troseddeg, sef y maes astudio sy'n canolbwyntio ar droseddoli, erledigaeth ac ymatebion cymdeithasol i drosedd ac anhrefn, â Chymdeithaseg, sef astudio bywyd dynol a geir mewn grwpiau, sefydliadau a chymdeithasau.

Byddi di'n cael gwybodaeth fanwl am faterion hollbwysig sy'n ymwneud â'r gymdeithas a throseddu, fel defnyddio sylweddau, tai a thlodi. Bydd y modiwlau ar gael yn adlewyrchu diddordebau ymchwil staff ar draws ystod o faterion ac ymagweddau troseddegol a chymdeithasegol, er enghraifft: rhywedd, addysg, problemau cymdeithasol, y cyfryngau cymdeithasol, diwylliant a threulio, iechyd, mudo a chysylltiadau ethnig.

Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n meithrin amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol i gyflogaeth yn y dyfodol, yn y proffesiynau sy'n gysylltiedig â gwyddor gymdeithasol ac mewn amrywiaeth ehangach o feysydd. Sgania'r côd QR er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

# TWRISTIAETH
## CAMPWS Y BAE

**Hoffet ti gael rôl mewn diwydiant cyffrous ac amrywiol sy'n cynnig cyfleoedd gwych am yrfaoedd ledled y byd? Wyt ti'n chwilio am radd a fydd yn rhoi mantais i ti dros y gystadleuaeth ac yn dy helpu i feithrin y sgiliau sy'n hollbwysig mewn amrywiaeth o amgylcheddau, gan gynnwys rheoli sefydliad twristiaeth?**

Fel un o ddiwydiannau mwyaf y byd, ac ymhlith y rhai sy'n tyfu gyflymaf, mae twristiaeth yn cael effaith sylweddol ar amrywiaeth o ffactorau economaidd, gwleidyddol, technolegol, cymdeithasol, diwyllannol ac amgylcheddol – ac mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar y diwydiant hefyd. Bydd dy gwrs yn ymchwilio i'r materion hyn ac yn dy helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau trosglwyddadwy hanfodol i wneud argraff yn y diwydiant hwn, yn lleol ac yn fyd-eang.

Gan fod marchnata, rheolaeth ac effeithiau wrth wraidd y cwrs, byddi di'n ymdrin ag achosion bywyd go iawn sy'n effeithio ar gyrchfannau go iawn. Byddi hefyd yn cael profiad o gyrchfannau lleol a thramor drwy amrywiaeth o deithiau maes*, wedi'u cynllunio i dy helpu i ddeall cymhlethdodau a gofynion rheoli cyrchfan neu fenter twristiaeth.

Mae Blwyddyn mewn Diwydiant yn rhoi'r cyfle perffaith i ti ennill profiad diwydiant y byd go iawn, gan dy wneud yn ymgeisydd deniadol ar gyfer swyddi ar ôl graddio.

Wyt ti eisiau blwyddyn fythgofiadwy yn ymdrochi mewn diwylliannau newydd a datblygu fel unigolyn; yn broffesiynol ac yn bersonol? Mae Blwyddyn Dramor hefyd yn gyfle sydd ar gael i ti.

**Mae achrediadau'n cynnwys:**

CMI Chartered Management Institute

*Yn amodol ar ddewis modiwlau ar y Llwybr Rheoli Busnes (Twristiaeth)*

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**
- Busnes Twristiaeth
- Marchnata
- Rheoli Gweithrediadau
- Twristiaeth a Chymdeithas

**Blwyddyn 2**
- Dylunio a Rheoli Profiadau Ymwelwyr
- Entrepreneuriaeth ar gyfer Profiadau Twristiaeth
- Sefydliadau Twristiaeth
- Twristiaeth ar Waith

**Blwyddyn 3**
- Cynllunio Twristiaeth
- Marchnata Twristiaeth
- Prosiect Blwyddyn Olaf
- Twristiaeth Gynaliadwy

BUSNES, MARCHNATA & RHEOLI

**20**

**RHAGOLYGON GYRFA**
(Guardian University Guide 2022)

**Blwyddyn Sylfaen** ar gael – am fanylion llawn, gweler tudalennau 58-63

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: ABB-BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BSc Anrhydedd Sengl**
- ▲ Rheoli Busnes (Twristiaeth)
- ◆ Rheoli Busnes (Twristiaeth) (gyda Blwyddyn Sylfaen)
- ◆ Rheoli Busnes (Twristiaeth) (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)
- ▲ Rheoli Twristiaeth Ryngwladol
- ◆ Rheoli Twristiaeth Ryngwladol (gyda Blwyddyn mewn Diwydiant/Dramor)

▲ 3 BLYNEDD ◆ 4 BLYNEDD

Mae hefyd opsiwn i astudio twristiaeth dan y llwybr **BSc Rheoli Busnes (Twristiaeth)**. Am fwy o wybodaeth, gweler tudalen 154.

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Cynllunydd Digwyddiadau
- Marchnatwr Cyrchfan
- Rheolwr Profiadau Ymwelwyr
- Rheolwr Twristiaeth

**Gall teithiau maes, gan gynnwys teithiau maes rhyngwladol, newid.*

*Caiff pob myfyriwr ei hysbysu am newidiadau o ran maes llafur y rhaglen.*

# Y DYNIAETHAU (RHAN-AMSER)

## CAMPWS PARC SINGLETON / LLEOLIADAU CYMUNEDOL

**Mae'r rhaglen ran-amser ddeinamig a hyblyg hon yn meithrin gwybodaeth ac yn datblygu dealltwriaeth eang am bynciau'r dyniaethau.**

**Mae'r cwrs yn cael ei addysgu'n rhan-amser yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau ar y campws ac mewn lleoliadau cyflenwi ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, mae'r radd yn paratoi'r myfyrwyr ar gyfer rolau heriol a buddiol mewn amrywiaeth eang o sectorau yn ogystal ag astudiaethau ôl-raddedig.**

Byddi di'n astudio cyfuniad o fodiwlau gorfodol a dewisol sy'n cael eu haddysgu gan academyddion arbenigol yn eu maes drwy raglen strwythuredig o ddarlithoedd, gwersi tiwtorial a seminarau, y gall myfyrwyr gael mynediad iddynt gan ddefnyddio amrediad eang o ddulliau.

Byddi di'n astudio modiwlau dyniaethau eang sy'n cynnig profiadau dysgu arloesol yn ogystal â gallu dewis modiwlau mewn meysydd penodol fel: Llenyddiaeth Saesneg, Hanes neu Gymdeithaseg. Byddi di'n meithrin amrediad helaeth o sgiliau trosglwyddadwy y byddi di'n gallu eu defnyddio mewn cyflogaeth ac astudiaeth ôl-raddedig yn y dyfodol. Fe fyddi di'n cael dy gefnogi gan staff arbenigol gyda datblygiad ysgrifennu academaidd, sgiliau meddwl beirniadol, a modiwlau sy'n canolbwyntio ar ymchwil.

**Lleoliadau astudio nodweddiadol:**

- Prifysgol Abertawe, Campws Parc Singleton, Abertawe
- Canolfan Phoenix, Townhill, Abertawe
- YMCA Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1 a 2**

- Beth yw Hanes?
- Cyflwyniad i Astudiaethau Llenyddol
- Unigolion a Chymdeithas
- Ysgrifennu Academaidd a Datblygu Sgiliau

**Blwyddyn 3 i 6**

- America Chwyldroadol
- Meddwl Creadigol a Myfyriol Beirniadol
- O'r Dudalen i'r Sgrîn: Llenyddiaeth ac Addasu
- Y Teulu a Phlant: Moeseg a Pholisi
- Ymgymryd ag Ymchwil

"Wrth weithio mewn rôl weinyddol yn Barnardo's, llwyddais i sicrhau swydd Cynorthwyydd Polisi ac Ymchwil. Yn ystod fy ngwaith, ysgrifennais adroddiad ymchwil allweddol ar y cyd, a gyhoeddwyd yn allanol. Ni allaf fynegi mewn geiriau y ffordd mae fy astudiaethau wedi newid fy mywyd, maent wedi agor cymaint o ddrysau i mi ac rwy'n falch iawn o fy nghyflwyniadau. Mae dysgu yn ffordd wych o newid dy fywyd!"

**Elaine Speyer, Gradd Dosbarth Cyntaf**
**Dyniaethau Rhan-Amser**

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**SUT I WNEUD CAIS:**
**Cysyllta â:**
**Ffôn: 01792 602211**
**E-bost: adult.education@abertawe.ac.uk**

**CYNNIG NODWEDDIADOL:**

Nid oes angen cymwysterau ffurfiol arnat gan ein bod yn ystyried pob cais yn ôl eu rhinwedd. Bydd angen i ti fynychu cyfweliad a chyflwyno datganiad personol o ryw 500 o eiriau.

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)**†

**BA Anrhydedd Sengl**
✱ Y Dyniaethau

✱ **6 BLYNEDD**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**

- Cynorthwyydd Polisi mewn Sefydliadau Anllywodraethol e.e Unicef, Red Cross
- Gweithiwr Cymunedol
- Llywodraeth Genedlaethol neu Ranbarthol
- Sefydliadau Rhanbarthol

Gall myfyrwyr cymwys wneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu a grantiau cwrs i helpu gyda chostau sy'n gallu talu 100% o'r ffioedd dysgu*.

Am ragor o wybodaeth gweler: **cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

** Sylwer, gall y manylion am gyllid newid*

# Y GYFRAITH

## CAMPWS PARC SINGLETON

**O bwerau Seneddol i redeg busnesau a hawliau plant a phobl ifanc, mae'r gyfraith yn hysbysu ac yn dylanwadu ar bob agwedd o'r gymdeithas. Mae astudio'r gyfraith yn anodd ac yn fuddiol. Mae ein rhaglenni'r gyfraith i israddedigion yn rhoi cyfleoedd i ti ddatblygu cyfres o sgiliau ymarferol a deallusol, a fydd yn dy gymhwyso ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd.**

Fel myfyriwr y gyfraith yn Abertawe, byddi'n astudio mewn amgylchedd cefnogol sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr. Byddi di'n ennill sylfaen gadarn mewn rhesymeg a dadansoddiad cyfreithiol, yn ogystal ag yng nghyfreithiau sylweddol Cymru a Lloegr. Byddi di'n cael cyfle i gymhwyso cysyniadau cyfreithiol a datblygu sgiliau gan gynnwys cyfathrebu, datrys problemau, ymchwil a meddwl yn feirniadol. Fe fyddi di'n cael cyfle i astudio ystod o feysydd pwnc gan roi cyfle i ti lunio dy radd o amgylch dy ddiddordebau personol.

Mae ein rhaglenni gradd yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu arbrofol gan gynnwys ein Clinig y Gyfraith a'r Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder. Byddi di hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dadleuon, cyfweld a thrafod.

Rydyn yn cynnig nifer gynyddol o leoliadau gwaith ac astudio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a'r cyngor a'r cymorth i dy helpu i gyflawni dy uchelgeisiau.

Nid yw gradd yn y gyfraith yn gymhwyster proffesiynol. Rhaid i fyfyrwyr sydd am gymhwyso fel cyfreithiwr lwyddo yn yr Arholiadau Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE 1&2) a chwblhau'r profiad gwaith cymhwyso angenrheidiol.

Lluniwyd ein graddau yn y Gyfraith i roi sgiliau a gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n berthnasol i'r SQE1', rydyn yn argymell bod myfyrwyr yn ymgymryd ag astudiaethau ôl-raddedig penodol cyn sefyll y naill ran o'r SQE neu'r llall.

Mae Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton yn preswylio mewn dau adeilad ar Gampws Parc Singleton Abertawe lle rydyn wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein cyfleusterau myfyrwyr.

I fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gyrfa fel bargyfreithiwr, mae ein rhaglenni'r Gyfraith yn cydymffurfio â datganiad meincnod y QAA ar gyfer y Gyfraith ac yn rhoi trosolwg o sylfeini gwybodaeth gyfreithiol fel sydd eu hangen gan Fwrdd Safonau'r Bar.

**Byddi di'n astudio:**

- Cyfraith Eiddo
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Rhwymedigaethau
- Cyfraith Trosedd
- Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd
- Ecwiti ac Ymddiriedolaethau
- Systemau a Sgiliau Cyfreithiol

**Fe fyddi di hefyd yn cael y cyfle i ddewis wrth ystod eang o feysydd astudio dewisol, gan gynnwys:**

- Cyfraith Amgylcheddol
- Cyfraith Chwaraeon
- Cyfraith Cyflogaeth
- Cyfraith Cwmnïau
- Cyfraith Feddygol
- Cyfraith Hawliau Dynol
- Cyfraith Masnach y Byd
- Cyfraith Teulu
- Datganoli yng Nghymru
- Eiriolaeth
- Sylfeini mewn Ymarfer Cyfreithiol
- Selfeini mewn Tech Cyfreithiol
- Trafodaethau
- Trafodion Masnachol
- Tystiolaeth Droseddol

**3 YDD YN Y DU**
**BODDHAD CYFFREDINOL**
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2021)

**Cyfleoedd Byd-eang** ar gael †

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau Cymraeg** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: AAB-BBB**

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**LLB Anrhydedd Sengl**
- ▲ Y Gyfraith
- ▲ Cyfraith Busnes

**LLB Prif Bwnc/Is-bwnc Anrhydedd**
- ▲ Y Gyfraith gyda Throseddeg

**Gellir ymestyn cyrsiau 3 blynedd i 4 blynedd i gynnwys blwyddyn dramor**

▲ **3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
- Bargyfreithiwr
- Cyfreithiwr
- Gorfodi'r Gyfraith
- Llywodraeth Leol
- Plismona
- Y Gwasanaeth Sifil






# Hannah Courtney Thomas

## LLB Y GYFRAITH (TROSEDD A CHYFIAWNDER TROSEDDOL)

I ddysgu mwy am ein storïau myfyrwyr, gweler:

**abertawe.ac.uk/astudio/ein-storiau-myfyrwyr**

Un o'r prif resymau dewisais Brifysgol Abertawe oedd oherwydd aelodau staff Ysgol y Gyfraith. Wrth ymweld ar ddiwrnod agored, roedd y staff mor garedig ac yn amlwg yn frwdfrydig i ddysgu. Hefyd roedd tipyn mwy o opsiynau ar gyfer dewisiadau'r ail a'r drydedd flwyddyn sydd yn agor mwy o ddrysau wedi i mi raddio. Fel merch o Sir Benfro, un o'r pethau gorau am Brifysgol Abertawe yw'r ffaith fy mod yn dal i fod yn agos at fy ffrindiau o gartref ond hefyd gyda'm ffrindiau newydd.

Credaf fod astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflwyno mwy o gyfleoedd o ran gyrfa yn y dyfodol ac yn ffordd dda o wella fy sgiliau cyfathrebu cyffredinol. Rydw i'n ffodus fy mod i'n derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n golygu fy mod i'n derbyn £500 am astudio gwerth 40 credyd yn y Gymraeg bob blwyddyn.

Yn fy amser hamdden rydw i'n dawnsio fel rhan o Gymdeithas Ddawns Prifysgol Abertawe heb sôn am fod yn ysgrifenyddes y gymdeithas!

# YMARFERYDD ADRAN LAWDRINIAETHAU

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Bydd ein cwrs Ymarferydd Adran Lawdriniaethau yn rhoi i ti'r sgiliau a'r profiad y mae eu hangen arnat ti i lansio gyrfa wobrwyol yn y proffesiwn hanfodol hwn.**

**Mae Ymarferwyr Adran Lawdriniaethau'n darparu gofal a chymorth medrus i gleifion yn ystod pob cam o lawdriniaeth, o anestheteg i lawdriniaeth ac iacháu. Maent yn chwarae rôl hanfodol wrth alluogi'r ysbyty i gynnal llawdriniaethau. Mae'n rôl amrywiol, gan gynnwys gofalu am gleifion, gweithio mewn tîm a rhoi sylw i fanylion.**

Mae Ymarferwyr Adran Lawdriniaethau'n darparu gofal cyfannol i amrywiaeth eang o grwpiau o gleifion yn y theatr llawdriniaethau a'r tu hwnt iddi. Drwy gydol y cwrs integredig hwn, byddi di'n dysgu sut i ddarparu gofal yn ystod y llawdriniaeth (cyn, yn ystod ac ar ôl llawdriniaeth) sy'n canolbwyntio ar gleifion ynghyd â sut i reoli pobl ac adnoddau mewn amgylchedd llawdriniaethol.

Mae ein staff academaidd yn nyrsys cymwys, yn feddygon, ac yn weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan ddarparu cyfuniad eithriadol o drylwyredd damcaniaethol, craffter proffesiynol ac arbenigedd ymarferol.

Mae ein cyfleusterau rhagorol yn cynnwys ystafelloedd clinigol realistig er mwyn i ti roi dy wybodaeth ddamcaniaethol ar waith mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu mor agos â phosibl yr amodau go-iawn y byddi di'n eu profi pan fyddi di'n mynd ar leoliad gwaith mewn ysbyty neu yn y gymuned.

Mae gennym berthnasoedd gweithio ardderchog â llawer o ddarparwyr gofal iechyd, felly bydd gen ti fynediad at ystod eang o brofiadau clinigol ledled De-orllewin Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau gwaith mewn ysbytai yn y GIG a'r sector annibynnol.

### FEL ARFER MAE'R MODIWLAU SY'N CAEL EU HASTUDIO'N CYNNWYS:

**Blwyddyn 1**

- Egwyddorion Sylfaenol Ymarfer Clinigol: Anestheteg, Llawdriniaeth a Gofal ar ôl Anestheteg
- Cynllunio a Diwallu Anghenion Cleifion Unigol
- Cyfathrebu a Gwaith Tîm Effeithiol i Wella Diogelwch Cleifion
- Ymddygiad Theatr

**Blwyddyn 2**

- Cysyniadau Allweddol mewn Gofal Amdriniaethol
- Tystiolaeth a'i Chymhwyso i Ofal Cleifion
- Arweinyddiaeth a Strategaethau Goruchwylio
- Gwneud Penderfyniadau Clinigol mewn Perthynas â Gofal Cleifion Cyfannol

**Blwyddyn 3**

- Deall Gofal Amdriniaethol a'i Gyfyngiadau
- Gofal Acíwt y Tu Hwnt i'r Theatr Llawdriniaethau
- Technegau Dadansoddi ac Ymholiadau mewn Gofal Amdriniaethol
- Gwneud Penderfyniadau a Datblygiad Proffesiynol

**6ED YN Y DU ASTUDIAETHAU IECHYD**
(Complete University Guide 2022)

**NHS DIM FFIOEDD DYSGU: Myfyrwyr y DU ****

Gwna gais am becyn cymorth uwch drwy Gynllun Bwrsariaethau GIG Cymru. (**bydd amodau)

abertawe.ac.uk/benthyciadau-a-grantiau/cwrs-a-ariennir-gan-y-gig

**Cyfleoedd Lleoliad Gwaith** neu **Interniaeth** ar gael

**Cynigion Cyd-destunol** ar gael

**CYNNIG NODWEDDIADOL: BCC**
(Mae iechyd neu gwrs sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth yn ddymunol)

Rhestrir y manylion llawn am y gofyniad mynediad a nodweddion y cwrs yn y **Grid Cyfeirnodi Cyrsiau (tudalen 167)†**

**BSc Anrhydedd Sengl**
▲ Ymarferydd Adran Lawdriniaethau ^

**▲ 3 BLYNEDD**

**Am y codau UCAS unigol, gweler tudalen we'r cwrs**

**GYRFAOEDD YN Y DYFODOL:**
Ar ôl i ti gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddi di'n gallu ymgeisio i gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ac ennill swydd fel Ymarferydd Adran Lawdriniaethau.

Gelli ddisgwyl i ennill cyflog cychwynnol o £25,654 a fydd yn codi i £39,026 ar gyfer Ymarferydd Adran Lawdriniaethau profiadol.

^ Yn amodol ar gymeradwyaeth



# Cyrsiau Newydd

## YN DOD YN FUAN

### BSc CYFRIFIADUREG A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

### BSc TECHNOLEG DDIGIDOL

**DARGANFYDDA FWY**

abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau/cyrsiauis-raddedigyndodynfuan

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg** | **BBB**<br>**Cydanrhydedd:** Gall gofynion mynediad a phynciau gofynnol fod yn wahanol.<br>Am fanylion llawn, gweler tudalen we'r cwrs | **32** | **BTEC: DDM-DMM**<br>Diploma Estynedig **CACHE** 120 pwynt | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Arweinyddiaeth ar gyfer Heriau Byd-eang** | **ABB** | **32** | **BTEC: DDM** neu uwch | | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Astudiaethau Americanaidd** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i astudio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | | |
| **Astudiaethau Clasurol** | **BBB** | **32** | | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i astudio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 80 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Astudiaethau Plentyndod Cynnar**<br>**Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar** | **BBB**<br>Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS) | **32-33** | **BTEC: DDM-DMM**<br>Diploma Estynedig **CACHE** 120 pwynt | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 Blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Astudiaethau'r Oesoedd Canol** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | | |
| **Athroniaeth** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | | | | |

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Athroniaeth, Gwleidyddiaeth ac Economeg (AGE)** | **BBB** | **32-33** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Biocemeg** | **BSc: AAB-BBB** gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡<br>**MSci: AAB** gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡ | **BSc: 32-34** gan gynnwys gradd 6 ar Lefel Uwch mewn Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡<br>**MSci: 34** gan gynnwys gradd 6 ar Lefel Uwch mewn Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡ | **BSc: BTEC DD** yn ogystal â gradd B ar lefel Safon Uwch mewn Cemeg | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Biocemeg Feddygol** | **BSc: AAB-BBB** gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡<br>**MSci: AAB** gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡ | **BSc: 32-34** gan gynnwys gradd 6 ar Lefel Uwch mewn Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡<br>**MSci: 34** gan gynnwys gradd 6 ar Lefel Uwch mewn Cemeg ac un pwnc STEM arall, Bioleg fel arfer ‡ | **BSc: BTEC DD** yn ogystal â gradd B ar lefel Safon Uwch mewn Cemeg | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Bioleg a'r Gwyddorau Biolegol** | **ABB-BBB** gan gynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol | Llwyddo gyda **32** yn gyffredinol gan gynnwys gradd 5 ar Lefel Uwch mewn Bioleg | **BTEC: DDD** Cymwysterau BTEC a dderbynnir:<br>Gwyddoniaeth Gymhwysol<br>Cynaliadwyedd Amgylcheddol<br>Rheoli Cefn Gwlad | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>Mae cyrsiau maes mewn lleoedd fel Mynyddoedd Himalaya, India (Sikkim) a Borneo ar gael<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – Gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Bioleg y Môr** | **ABB-BBB** gan gynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol | Llwyddo gyda **32** yn gyffredinol gan gynnwys gradd 5 ar Lefel Uwch mewn Bioleg | **BTEC: DDD** Cymwysterau BTEC a dderbynnir:<br>Gwyddoniaeth Gymhwysol<br>Cynaliadwyedd Amgylcheddol<br>Rheoli Cefn Gwlad | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>Mae cyrsiau maes mewn lleoedd fel Puerto Rico neu Malaysia ar gael<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – Gweler tudalen we'r cwrs | |

‡ Mae pynciau STEM sy'n cael eu derbyn yn cynnwys Cemeg, Ffiseg, Mathemateg a Seicoleg

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bydwreigiaeth** | **BBB**<br>**Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | **32** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 30 Rhagoriaeth, 15 Teilyngdod<br>**BTEC: DDD** Mae'n bosibl y gellir derbyn cyfuniad o gymwysterau BTEC â Rhagoriaeth a chymwysterau Safon Uwch â gradd B<br>Am fanylion llawn, gweler tudalen we'r cwrs | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth Ddwbl (neu bwnc gwyddoniaeth traddodiadol fel Bioleg, Cemeg neu Ffiseg) | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael **– abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Cemeg** | **BSc: ABB-BBB** gan gynnwys Cemeg. Os nad wyt yn astudio Mathemateg Safon Uwch, bydd angen TGAU Mathemateg Gradd B (6)<br>**MChem: AAB-ABB** gan gynnwys Cemeg. Os nad wyt yn astudio Mathemateg Safon Uwch, bydd angen TGAU Mathemateg Gradd B (6) | **BSc:** Llwyddo gyda **32** yn gyffredinol gan gynnwys gradd 5 ar Lefel Uwch mewn Cemeg a Mathemateg<br>**MChem: 34** gan gynnwys gradd 6 ar Lefel Uwch mewn Cemeg a Mathemateg | | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Saesneg – Tsieinëeg** | **BBB** | **32-33** | Mae'r rhaglen hon ar gael i siaradwyr brodorol neu agos i frodorol Tsieinëeg Mandarin yn unig.<br>Cynnig nodweddiadol yw **BBB ar Safon Uwch** neu **HKDSE lefelau 443** (gan gynnwys isafwm o 3 mewn Saesneg a Thsieinëeg). | | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | | |
| **Cyfrifeg a Chyllid** | **ABB-BBB**<br>Nid oes angen cymhwyster Safon Uwch mewn Busnes, Economeg, Mathemateg na Chyfrifeg/Cyllid.<br>Nid ydym yn ystyried Astudiaethau Cyffredinol | **32-33** | **BTEC: DDM neu uwch** | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifiadureg** | **BSc: ABB-BBB** Os nad wyt yn astudio Mathemateg neu Ffiseg ar Safon Uwch, bydd angen TGAU Gradd B (6) mewn Mathemateg<br>**MSci: AAB-ABB** Os nad wyt yn astudio Mathemateg neu Ffiseg ar Safon Uwch, bydd angen TGAU Gradd B (6) mewn Mathemateg | **BSc: 32** yn gyffredinol gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg<br>**MSci: 34** yn gyffredinol gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg | **BSc: BTEC: DDD** mewn TG neu Gyfrifiadura. Bydd angen TGAU Gradd B (6) mewn Mathemateg<br>**MSci: BTEC: D*DD** mewn TG neu Gyfrifiadura. Bydd angen TGAU Gradd B (6) mewn Mathemateg | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C o leiaf (4)<br>**Mathemateg** gradd C o leiaf (4) | **Cynllun 5 mlynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Cyfryngau a Chyfathrebu** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant:** Opsiwn i dreulio Semester dramor<br>**Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 80 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Cymdeithaseg** | **AAB-ABB** Os oes gen ti gymhwyster Safon Uwch mewn Cymdeithaseg, Gwleidyddiaeth neu Seicoleg, y cynnig nodweddiadol fydd: **ABB** | **33-34** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 27 Rhagoriaeth, 15 Teilyngdod, 3 Llwyddo<br>**BTEC: DDM** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Cymraeg** | **BBB** | **32** | | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | 120 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 80 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Cysylltiadau Rhyngwladol** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |

# GRID CYFEIRNODI CYRSIAU

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang (ǂ – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Daearyddiaeth** | **ABB-BBB** gan gynnwys Daearyddiaeth neu bwnc cysylltiedig | **32** gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Daearyddiaeth | **BTEC: DDM** mewn unrhyw bwnc yn ogystal â Gradd B ar Safon Uwch mewn Daearyddiaeth | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>Mae cyrsiau maes yn Alpau Awstria, Vancouver, Efrog Newydd, Berlin, Mallorca, Borneo Malaysia a'r Mynyddoedd Himalaya India ar gael<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 80 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Daearyddiaeth a Gwyddor Gwybodaeth Ddaearyddol** | **ABB-BBB** gan gynnwys Daearyddiaeth neu bwnc cysylltiedig | **32** yn gyffredinol gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Daearyddiaeth | **BTEC: DDM** mewn unrhyw bwnc yn ogystal â Gradd B ar Safon Uwch mewn Daearyddiaeth | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae cyrsiau maes yn Alpau Awstria, Vancouver, Efrog Newydd, Berlin, Mallorca, Borneo Malaysia a'r Mynyddoedd Himalaya India ar gael<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: aabertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Economeg** | **ABB-BBB**<br>Nid oes eisiau cymhwyster Safon Uwch mewn Busnes, Economeg, Mathemateg na Chyfrifeg/Cyllid.<br>Nid ydym yn ystyried Astudiaethau Cyffredinol | **32-33** | **BTEC: DDM neu uwch** | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Ffarmacoleg Feddygol** | **AAB-BBB** gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall ǂ | **33** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Cemeg ac un pwnc STEM arall ǂ | **BTEC: D*DD** proffil Cemeg cryf yn hanfodol yn ogystal â phroffil dda yn yr ail bwnc STEM | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Fferylliaeth** | **ABB-BBB** gan gynnwys Cemeg ac un pwnc STEM arall ǂ<br>Bydd Bagloriaeth Cymru yn cael ei hystyried yn lle 3ydd cymhwyster Safon Uwch | **32-34** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Cemeg a Lefel 5 ar Lefel Uwch mewn un pwnc STEM arall ǂ | **BTEC: DDD-DDM** mewn Diploma Estynedig Lefel 3 yn ogystal ag o leiaf Radd B mewn Safon Uwch Cemeg | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |

ǂ Mae pynciau STEM sy'n cael eu derbyn yn cynnwys Cemeg, Ffiseg, Mathemateg a Seicoleg

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang (ǂ – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffiseg** | **BSc: ABB-BBB** gan gynnwys Mathemateg a Ffiseg<br>**MPhys: AAB-ABB** gan gynnwys Mathemateg a Ffiseg | **BSc: 32** yn gyffredinol gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg a Ffiseg<br>**MPhys: 34** yn gyffredinol gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg a Ffiseg | | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **BSc Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn Blwyddyn mewn Diwydiant neu dreulio Blwyddyn Dramor<br>**MPhys:** Opsiwn i dreulio semester ym Mhrifysgol Houston.<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd -eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Geneteg** | **BSc: AAB-BBB** gan gynnwys Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ<br>**MSci: AAB** gan gynnwys Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ | **BSc: 32-34** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ<br>**MSci: 34** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ | **BSc: BTEC DD** yn ogystal â gradd B ar lefel Safon Uwch Bioleg | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Geneteg Feddygol** | **BSc: AAB-BBB** gan gynnwys Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ<br>**MSci: AAB** gan gynnwys Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ | **BSc: 32-34** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ<br>**MSci: 34** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Bioleg ac un pwnc STEM arall, Cemeg fel arfer ǂ | **BSc: BTEC DD** yn ogystal â gradd B ar lefel Safon Uwch Bioleg | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Geowyddoniaeth Amgylcheddol** | **ABB-BBB** gan gynnwys Daearyddiaeth neu bwnc cysylltiedig | **BSc: 32** yn gyffredinol gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Daearyddiaeth | **BTEC: DDM** mewn unrhyw bwnc yn ogystal â gradd B ar Safon Uwch mewn Daearyddiaeth | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae cyrsiau maes yn Alpau Awstria, Vancouver, Mallorca, Borneo Malaysia a'r Mynyddoedd Himalaya India ar gael<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd -eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Gofal Mamolaeth** | Er nad oes unrhyw ofynion mynediad penodol, bydd angen i ti ddangos dealltwriaeth o ofal mamolaeth a dy allu ac ymrwymiad i astudio ar y lefel hon | | Mae'n rhaid i ti fod yn 18 oed neu'n hŷn a dylet gyflwyno dy gais yn uniongyrchol i Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rhaid llenwi ffurflen gais a'i chyflwyno gyda datganiad ategol 500 gair. Gwna gais yn uniongyrchol i'r Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **chhsadmissions@ abertawe.ac.uk** | | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael –**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |

ǂ Mae pynciau STEM sy'n cael eu derbyn yn cynnwys Cemeg, Ffiseg, Mathemateg a Seicoleg

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwaith Cymdeithasol** | **BCC** | **30-32** | **Mynediad i Addysg Uwch:** Am broffil Rhagoriaeth a Theilyngdod cysyllta â **astudio@abertawe.ac.uk**<br>**BTEC: DDM**<br>**Bydd angen o leiaf 455 awr o waith gofal cymdeithasol uniongyrchol** neu brofiad gwirfoddol arnat ar adeg y cais | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/Saesneg, Mathemateg neu gymwysterau Sgiliau Allweddol 2 | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Gwleidyddiaeth** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd/cydanrhydedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i astudio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Gwyddor Actiwaraidd** | **ABB-BBB** gan gynnwys Mathemateg | **32** gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg | | **Cymraeg/Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Gwyddor yr Amgylchedd a'r Argyfwng Hinsawdd** | **ABB-BBB** gan gynnwys un o'r canlynol: Daearyddiaeth, Bioleg, Gwyddor Amgylcheddol neu Ddaeareg | **32** yn gyffredinol gyda 5 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg | **DDM** mewn unrhyw bwnc yn ogystal â Gradd B ar Safon Uwch mewn Daearyddiaeth | **Cymraeg/Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Gwyddor Barafeddygol** | **BBB** byddai pynciau gwyddonol yn fanteisiol<br>**Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | **32** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 24 Rhagoriaeth, 18 Teilyngdod a 3 Ilwyddo<br>**BTEC: DDD**<br>**Mae'n rhaid bod gen ti drwydded yrru lawn (categori B)** â dim mwy na thri phwynt cosb arni. Bydd angen trwydded dros dro C1 erbyn dechrau'r cwrs | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Mathemateg, Cymraeg/Saesneg, Gwyddoniaeth Ffisegol neu Wyddoniaeth Ddwbl | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff** | **AAB-BBB** | **32** gan gynnwys 4 ar Lefel Uwch neu 5 ar Lefel Safonol mewn Iaith Saesneg | | **Mae'r pynciau ag argymhellir:** Gwyddoniaeth, Mathemateg, Addysg Gorfforol a Seicoleg | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | | | | |

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyddor Gofal Iechyd (Clywedeg)** | **BBB** gan gynnwys Safon Uwch mewn Mathemateg, Bioleg neu Gemeg **Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | 32 | **Cynnig Mynediad i Wyddoniaeth:** Proffil Rhagoriaeth a Theilyngdod yn erbyn y rheolau cyfuno. Nid ydym yn derbyn Mynediad at Ofal Iechyd neu Fynediad i Ofal Iechyd a Nyrsio **BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Gwyddor Gofal Iechyd (Ffisioleg Anadlu a Chysgu)** | **BBB** gan gynnwys Bioleg, Ffiseg neu Fathemateg **Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | 32 | **Cynnig Mynediad i Wyddoniaeth:** Proffil Rhagoriaeth a Theilyngdod yn erbyn y rheolau cyfuno. Nid ydym yn derbyn Mynediad at Ofal Iechyd neu Fynediad i Ofal Iechyd a Nyrsio **BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael –**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Gwyddor Gofal Iechyd (Ffisioleg Gardiaidd)** | **BBB** gan gynnwys Bioleg **Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | 32 | **Cynnig Mynediad i Wyddoniaeth:** Proffil Rhagoriaeth a Theilyngdod yn erbyn y rheolau cyfuno. Nid ydym yn derbyn Mynediad at Ofal Iechyd neu Fynediad i Ofal Iechyd a Nyrsio **BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Gwyddor Gofal Iechyd (Ffiseg, Radiotherapi, Ffiseg Ymbelydredd, Meddygaeth Niwclear)** | **BBB** gan gynnwys Mathemateg neu Ffiseg **Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | 32 | **Cynnig Mynediad i Wyddoniaeth:** Proffil Rhagoriaeth a Theilyngdod yn erbyn y rheolau cyfuno. Nid ydym yn derbyn Mynediad at Ofal Iechyd neu Fynediad i Ofal Iechyd a Nyrsio **BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg neu Wyddoniaeth | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Gwyddor Gofal Iechyd (Niwroffisioleg)** | **BBB** gan gynnwys Bioleg, Cemeg, Mathemateg neu Ffiseg **Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol. | 32 | **Cynnig Mynediad i Wyddoniaeth:** Proffil Rhagoriaeth a Theilyngdod yn erbyn y rheolau cyfuno. Nid ydym yn derbyn Mynediad at Ofal Iechyd neu Fynediad i Ofal Iechyd a Nyrsio **BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth Ffisegol neu Wyddoniaeth Ddwbl | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Gwyddor Gofal Iechyd (Peirianneg Adsefydlu)** | **BBB** gan gynnwys Bioleg, Cemeg, Mathemateg neu Ffiseg **Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | 32 | **Cynnig Mynediad i Wyddoniaeth:** Proffil Rhagoriaeth a Theilyngdod yn erbyn y rheolau cyfuno. Nid ydym yn derbyn Mynediad at Ofal Iechyd neu Fynediad i Ofal Iechyd a Nyrsio **BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyddor Gofal Iechyd (Peirianneg Feddygol)** | **BBB** gan gynnwys Ffiseg neu Fathemateg<br>**Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | **32** | **Cynnig Mynediad i Wyddoniaeth:** Proffil Rhagoriaeth a Theilyngdod yn erbyn y rheolau cyfuno. Nid ydym yn derbyn Mynediad at Ofal Iechyd neu Fynediad i Ofal Iechyd a Nyrsio<br>**BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael **– abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Gwyddorau Meddygol Cymhwysol** | **AAB-ABB** gan gynnwys Bioleg neu Gemeg ac o leiaf un pwnc STEM arall ‡ | **34** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Bioleg neu Gemeg ac un pwnc STEM arall ‡ | **BTEC: D*D*D** Proffil Bioleg neu Gemeg cryf yn hanfodol yn ogystal â phroffil dda yn un pwnc STEM arall | **Cymraeg/ Saesneg gradd C (4) o leiaf** | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Hanes** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Hanes yr Henfyd** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Hanes yr Henfyd a'r Oesoedd Canol** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | | |
| **Iaith Saesneg, Ieithyddiaeth Gymhwysol a TESOL**<br>**Llenyddiaeth Saesneg**<br>**Llenyddiaeth Saesneg gydag Ysgrifennu Creadigol** | **BBB** | **32** | | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf (ar gyfer graddau Llenyddiaeth Saesneg) | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio Semester Dramor<br>**Rhaglenni Haf** Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | | |

‡ Mae pynciau STEM sy'n cael eu derbyn yn cynnwys Cemeg, Ffiseg, Mathemateg a Seicoleg

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | **BBB-BBC** | **30-32** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 21 Rhagoriaeth, 18 Teilyngdod, 6 Llwyddo<br>**BTEC: DDM-DMM** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Iechyd Poblogaethau a Gwyddorau Meddygol** | **AAB-BBB** gan gynnwys Bioleg | **33** gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Bioleg ac unrhyw bwnc arall | **BTEC: D*DD** Mae proffil Bioleg gryf yn hanfodol | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael –**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Ieithoedd Modern** | **BBB** | **32** | | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf. TGAU mewn iaith dramor fodern yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol | **Cynllun 4 blynedd:** byddi di'n treulio dy drydedd flwyddyn yn gweithio fel cynorthwyydd Iaith Saesneg mewn ysgolion ar raglan Cynorthwywyr y British Council neu astudio mewn prifysgol partner. Mae hefyd cyfleoedd ar gael i wneud lleoliadau gwaith neu wirfoddoli. Cei gyfle yn America Lladin ar gyfer myfyrwyr Sbaeneg<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | | O leiaf 80 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Ieithoedd Modern, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd** | **BBB** gan gynnwys o leiaf un Safon Uwch mewn Ieithoedd Tramor Modern | **32** | | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** byddi di'n treulio'r drydedd flwyddyn dramor, yn astudio yn rhai o ysgolion cyfieithu enwocaf Ewrop yn Barcelona, Bologna (Forli), Brwsel, Cologne, Granada, Genefa, Innsbruck, Mainz (Germersheim), Mons, Sevilla, Valencia, Valladolid, Vienna a Zurich.<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | | O leiaf 80 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Marchnata** | **ABB-BBB** Nid oes angen cymhwyster Safon Uwch mewn Busnes, Economeg, Mathemateg na Chyfrifeg/Cyllid.<br>Nid ydym yn ystyried Astudiaethau Cyffredinol | **32-33** | **BTEC: DDM** neu uwch | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Mathemateg** | **BSc: ABB-BBB** gan gynnwys Mathemateg<br>**MMath: AAB-ABB** gan gynnwys Mathemateg | **BSc: 32** yn gyffredinol gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg<br>**MMath: 34** yn gyffredinol gan gynnwys 6 ar Lefel Uwch mewn Mathemateg | **BSc: BTEC DDM** mewn unrhyw bwnc yn ogystal â gradd B ar Safon Uwch mewn Mathemateg<br>**MMath: BTEC DDD** mewn unrhyw bwnc yn ogystal â gradd B ar Safon Uwch mewn Mathemateg | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor i fyfyrwyr Anrhydedd Sengl Mathemateg<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meddygaeth I Raddedigion MBBCh** | **2:1** (Gradd Baglor mewn unrhyw bwnc)<br>**GAMSAT:** Mae'n rhaid i ymgeiswyr cwblhau GAMSAT cyn gwneud cais.<br>Am fanylion llawn, gweler tudalen we'r cwrs | | Teilyngdod neu ragoriaeth (sy'n gyfwerth â 2.1 neu gyntaf) mewn gradd meistr israddedig integredig<br>Ail is **(2.2)** YN OGYSTAL Â Meistr Ôl-raddedig neu PhD<br>Am fanylion llawn, gweler tudalen we'r cwrs | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | Mae cyfleoedd lleoli cyfynedig ar gael trwy raglen cwricwlwm gan gynnwys cyswllt Abertawe-Gambia<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Newyddiaduraeth, Y Cyfryngau a Chyfathrebu** | **BBB** | **32** | **BTEC: DDM-DMM** | **Cymraeg/ Saesneg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio blwyddyn dramor<br>**Cynllun 3 blynedd:** Opsiwn i dreulio semester dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Nyrsio – Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl, Oedolion a Phlant** | **BBB**<br>Cyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu wyddoniaeth yn ddymunol.<br>**Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | **32** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 24 Rhagoriaeth, 18 Teilyngdod, 3 Llwyddo<br>**BTEC: DDM** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg neu Wyddoniaeth Ddwbl (neu bwnc gwyddoniaeth traddodiadol gan gynnwys Bioleg, Cemeg neu Ffiseg) | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Osteopatheg** | **BBB** gan gynnwys Addysg Gorfforol neu Wyddor Fiolegol | **32** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 27 Rhagoriaeth, 15 Teilyngdod, 3 Llwyddo<br>**BTEC: DDD** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg neu Wyddoniaeth Biolegol neu Ddwbl | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Peirianneg (pob rhaglen gradd)** | Pob cwrs (heblaw am Wyddor Deunyddiau a Pheirianneg):<br>**BEng: ABB-BBB** (gan gynnwys Mathemateg)<br>**MEng: AAB** (gan gynnwys Mathemateg)<br>Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg:<br>**BEng: ABB-BBB**<br>**MEng: AAB** | **BEng: 32**<br>**MEng: 34**<br>gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch neu 6 ar Lefel Safonol mewn 'Mathemateg: Dadansoddi ac Ymagweddau' neu 5 ar Lefel Uwch neu 7 ar Lefel Safonol mewn 'Mathemateg: Cymwysiadau a Dehongli' a 4 ar Lefel Uwch neu 5 ar Lefel Safonol mewn Iaith Saesneg | Os nad wyt wedi cwrdd â gofynion mynediad, ystyria'r **Blwyddyn Sylfaen Integredig, gweler tudalennau 58-63**<br>**Diploma Estynedig BTEC**<br>**MEng: D*D*D***<br>**BEng: D*D*D** mewn pwnc perthnasol, a bydd gofynion graddau ar gyfer modiwlau penodol | Mae cynigion amrywiol yn dibynnu ar bynciau a astudiwyd. Mae ceisiadau'n cael eu hystyried yn unigol, gyda graddau TGAU, gradd pwnc Lefel UG yn cael eu hystyried | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>Opsiwn Semester Dramor i Texas ar gyfer Awyrofod /Biofeddygol/ Cemegol<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi Cymdeithasol** | **ABB-BBB** | **32-33** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 27 Rhagoriaeth, 15 Teilyngdod, 3 Llwyddo<br>**BTEC: DDM** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Rheoli Busnes** | **ABB-BBB**<br>Nid oes angen cymhwyster Safon Uwch mewn Busnes, Economeg, Mathemateg na Chyfrifeg/Cyllid.<br>Nid ydym yn ystyried Astudiaethau Cyffredinol | **32-33** | **BTEC: DDM** neu uwch | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Seicoleg** | **Anrhydedd Sengl: AAB-ABB**<br>**Cydanrhydedd: ABB-BBB**<br>Os wyt ti wedi astudio Bioleg, Cemeg, Mathemateg, Ffiseg neu Seicoleg ar Safon Uwch y cynnig nodweddiadol fydd: **ABB** | **Anrhydedd Sengl: 33-34**<br>**Cydanrhydedd: 32-33** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 27 Rhagoriaeth a 15 Teilyngdod<br>**BTEC: DDD-DDM** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | | |
| **Sŵoleg** | **BSc: ABB-BBB** gan gynnwys Bioleg neu Fioleg Ddynol | Llwyddo gyda **32** yn gyffredinol gan gynnwys 5 ar Lefel Uwch mewn Bioleg | Os nad wyt ti'n cwrdd â'r gofynion mynediad, gelli gael dy ystyried am y Flwyddyn Sylfaen Integredig, gweler tudalennau 58-63<br>**BTEC: DDD**<br>Cymwysterau BTEC a dderbynnir:<br>Gwyddoniaeth Gymhwysol<br>Cynaliadwyedd Amgylcheddol<br>Rheoli Cefn Gwlad | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>Mae cyrsiau maes ym Sikkim, y Mynyddoedd Himalaya India a Borneo ar gael<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | Rhywfaint o ddarpariaeth Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Therapi Galwedigaethol** | **BBB**<br>Cyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu wyddoniaeth yn ddymunol.<br>**Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | **32** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 24 Rhagoriaeth, 18 Teilyngdod, 3 Llwyddo<br>**BTEC: DDM** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth Ddwbl (neu bwnc gwyddoniaeth traddodiadol fel Bioleg, Cemeg neu Ffiseg) | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael –**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |
| **Troseddeg** | Anrhydedd Sengl a Chydanrhydedd **ABB-BBB** | **32** | **BTEC: DDM** mewn pwnc cysylltiedig | | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang** | | | | |

| | Cynnig nodweddiadol Safon Uwch (neu gyfwerth) | Y Fagloriaeth Ryngwladol | Cynnig nodweddiadol arall | TGAU neu Gyfwerth | Cyfleoedd Byd-eang († – mae'r amodau'n berthnasol – gweler tudalen 171) | Blwyddyn Sylfaen | Darpariaeth ac Ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg | Cyfleoedd Lleoliad Gwaith neu Interniaeth | Cynigion Cyd-destunol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twristiaeth** | **ABB-BBB** Nid oes angen cymhwyster Safon Uwch mewn Busnes, Economeg, Mathemateg na Chyfrifeg/Cyllid<br>Nid ydym yn ystyried Astudiaethau Cyffredinol | **32-33** | **BTEC: DDM neu uwch** | **Cymraeg/ Saesneg a Mathemateg** gradd C (4) o leiaf | **Cynllun 4 blynedd:** Opsiwn i dreulio Blwyddyn Dramor<br>**Rhaglenni Haf**<br>Cer i: abertawe.ac.uk/ mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd -eang | **Oes** – gweler tudalennau 58-63 | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Y Dyniaethau (Rhan-amser)** | Nid oes angen cymhwysterau ffurfiol arnat gan ein bod yn ystyried pob cais yn ôl eu rhinwedd. | | Mae'n bosibl defnyddio credydau lefel israddedig blaenorol neu ddysgu blaenorol y byddwn yn ystyried eu bod yn briodol a pherthnasol. Bydd angen i ti fynychu cyfweliad a chyflwyno datganiad personol o ryw 500 o eiriau. | | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | | | | |
| **Y Gyfraith** | **AAB-BBB** neu gyfwerth | **32** | **BTEC: DDM** mewn pwnc cysylltiedig | | Mae pob gradd y gyfraith sy'n gymwys yn cynnwys dewis i astudio yn un o'n sefydliadau partner rhwng dy ail a dy flwyddyn olaf | | O leiaf 40 credyd Gweler tudalen 34 | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | |
| **Ymarferydd yr Adran Lawdriniaethau** | **BBC**<br>Cyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu wyddoniaeth yn ddymunol.<br>**Bydd angen Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)** a Gwiriad Iechyd Galwedigaethol | **30** | **Cynnig Nodweddiadol ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch:** 24 Rhagoriaeth, 6 Teilyngdod, 15 Llwyddo<br>**BTEC: DDM** | **O leiaf 5 TGAU A*-C / 9-4** gan gynnwys Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth Ddwbl (neu bwnc gwyddoniaeth traddodiadol fel Bioleg, Cemeg neu Ffiseg) | Mae amrywiaeth o raglenni haf byd-eang ar gael – **abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/ cyfleoedd-byd-eang** | | | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs | **Oes** – gweler tudalen we'r cwrs |

## NODER

† Nid yw cofrestru ar raglen a chanddi semester neu flwyddyn dramor yn gwarantu dy semester neu flwyddyn dramor. Mae nifer cyfyngedig o leoedd ac maent yn dibynnu ar broses dethol gystadleuol. Os nad wyt ti'n sicrhau lleoliad dramor am semester neu flwyddyn, cei dy drosglwyddo i fersiwn cyffredin dy gynllun gradd heb semester neu flwyddyn dramor. Bydd angen i ti fodloni isafswm gofynion academaidd er mwyn cymryd rhan mewn rhaglen sy'n cynnwys semester neu flwyddyn dramor. Gall cyrchfannau a chostau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen amrywio a gallant gael eu cyfyngu gan ffactorau allanol, megis cyfyngiadau teithio a lleoedd mewn prifysgolion partner. Am ragor o wybodaeth, cer i:

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang**

Rydyn yn derbyn Diploma Fagloriaeth Cymru Uwch. Mae'r gofynion ar gyfer Safon Uwch lle gelli roi'r un radd heb fod yn bwnc penodol ar gyfer gradd Craidd Bagloriaeth Cymru Uwch.

Rydyn yn derbyn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf fel cymhwyster cyfwerth i TGAU Saesneg ar gyfer pob rhaglen.

Gwiria dudalennau'r cyrsiau unigol ar ein gwefan am feini prawf mwy diweddar, a manwl a phenodol i bwnc, gan gynnwys y pynciau ag argymhellir:

**abertawe.ac.uk/israddedig/cyrsiau**

# Mynegai

ABERTAWE A'R RHANBARTH **14**

ADDYSGU A DYSGU **08**

ACADEMI HYWEL TEIFI **32**

ASTUDIO A CHYMDEITHASU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG **34**

ASTUDIO A GWEITHIO DRAMOR **38, 167-179**

BARN EIN MYFYRWYR **19**

BLWYDDYN SYLFAEN **58-63**

CHWARAEON **42**

COSTAU BYW **27, 50**

CYFLEUSTERAU AR GAMPWS **22-24, 29, 31, 41, 43, 45-48**

CYN-FYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE **12**

CYNALIADWYEDD **49**

CYNLLUN LLOGI BEICIAU **20**

CYRSIAU A-Y **66-164**

DIWRNODAU AGORED **56**

DIWYDIANT, LLEOLIADAU GWAITH AC INTERNIAETHAU **10**

FFIOEDD AC ARIANNU **50**

GWIRFODDOLI **7, 49**

GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD **10**

LLES A CHYMORTH MYFYRWYR **30**

LLETY **26**

MAPIAU'R CAMPWS **22, 24**

RHIENI A GWARCHEIDWAID **52**

SUT I WNEUD CAIS **54-57**

SUT RYDYN YN DEWIS EIN MYFYRWYR **55**

TEITHIO A CHLUDIANT **22, 24**

UNDEB Y MYFYRWYR **40**

YMCHWIL **04**

YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU **50**

Gwybodaeth Bwysig: Mae'r neges ganlynol yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn. Argraffwyd y prosbectws hwn yng ngwanwyn 2022. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni israddedig y mae Prifysgol Abertawe'n bwriadu eu darparu i fyfyrwyr a fydd yn dechrau eu hastudiaethau prifysgol yn hydref 2023. Rydyn wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y gwasanaethau (gan gynnwys y rhaglenni) a ddisgrifir yn y prosbectws hwn yn gywir ar ddyddiad ei chyhoeddi. Fodd bynnag, efallai bydd angen rhai newidiadau ar, er enghraifft, raglenni, cyflwyno'r addysgu, lleoliadau astudio, cyfleoedd a chyrchfannau rhyngwladol, cyfleusterau neu ffioedd, oherwydd rhesymau dilys ynghylch staffio, rhesymau ariannol, rheoleiddiol ac academaidd. Os bydd anghydfod diwydiannol, ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol neu ddeddfwriaeth a/neu Arweiniad y Llywodraeth yn amharu ar ei gallu presennol i ddarparu'r gwasanaethau (fel y rhai ar adeg cyhoeddi), bydd y Brifysgol yn ceisio cymryd pob cam rhesymol i leihau'r amharu ar y gwasanaethau. Mae'r wybodaeth yn y prosbectws hwn yn gywir ar adeg cyhoeddi, ond gall newid oherwydd y ffactorau a nodir uchod.

Byddwn bob amser yn ymdrechu i gadw newidiadau i leiafswm ac yn hysbysu darpar fyfyrwyr yn briodol. Caiff unrhyw newidiadau o ran yr wybodaeth yn y prosbectws hwn eu diweddaru'n chwarterol ar dudalennau gwe **abertawe.ac.uk.** Rydyn ni'n annog myfyrwyr i ymweld â'n gwefan i wirio am wybodaeth sydd wedi'i diweddaru yn y prosbectws hwn cyn gwneud cais.

Mae'r prosbectws hwn wedi'i argraffu ar bapur a wnaed o bwlp a gynhyrchwyd o ffynonellau cynaliadwy gan ddefnyddio inciau o fas llysiau. Mae fformatau amgen, gan gynnwys copi print bras ar gael ar gais, cysyllta â: **+44(0)1792 604625** **creativeservices@abertawe.ac.uk**

Cynhyrchwyd gan yr Adran Farchnata, Recriwtio a Rhyngwladol Prifysgol Abertawe

Dyluniad: Icon Creative Design, iconcreativedesign.com

**Mae Prifysgol Abertawe'n elusen gofrestredig.**
**Rhif: 1138342 © Prifysgol Abertawe 2022**

# ASTUDIO YN *Abertawe*

**1 AWR**
O GAERDYDD

**2 AWR**
O ABERYSTWYTH

**2 AWR**
O DDOC PENFRO

**4 AWR**
O WRECSAM

**4 AWR**
O FANGOR




## DIWRNODAU AGORED*

Darganfydda fwy a chadw le: abertawe.ac.uk/diwrnodau-agored

*gwiria'r wefan am fanylion llawn, dyddiadau a fformat diwrnodau agored sydd ar ddod